



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DEDDF IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (ANSAWDD AC YMGYSYLLTU) (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol
yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau
Esboniadol

Mehefin 2020

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Memorandwm Esboniadol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i ddiweddarau gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r Bil, fel y'i diwygiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yng Nghyfnod 3 y trafodion, ar 10 Mawrth 2020.

Cafodd ei lunio a'i osod gerbron y Cynulliad yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym [mis Mehefin 2019](#). Cafodd Memorandwm diwygiedig, a ddiweddarwyd ar ôl i'r Bil gwblhau Cyfnod 2, ei osod gerbron yn unol â Rheol Sefydlog 26.28 ym [mis Mawrth 2020](#).

Nid yw'n ofynnol i'r fersiwn hon gael ei gosod gerbron, ond caiff ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Gan fod y Bil wedi cael ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 17 Mawrth 2020, ac wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 1 Mehefin 2020, lle y bo'n briodol, cyfeirir ati yn y fersiwn hon fel 'y Ddeddf'.

At hynny, yn y cyfnod rhwng pasio'r Bil a'r Cydsyniad Brenhinol, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael ei ail-enwi yn Senedd Cymru. Drwy gydol y ddogfen hon, cyfeirir at "y Senedd", ac mae iddo'r un ystyr â Senedd Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Ddeddf yn Ddeddf Senedd Cymru yn rhinwedd adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd.

Tudalen Gynnwys

Rhestr o Dalfyriadau

Rhan 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol
7. Opsiynau gan gynnwys costau a manteision
8. Asesiadau effaith
9. Adolygu ar ôl gweithredu

ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol

ATODIAD 2 – Mynegai o Reolau Sefydlog

ATODIAD 3 – Atodlen o Ddiwygiadau

Rhestr o Dalfyriadau

y Ddeddf - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu (Cymru) 2020

Deddf 2000 - Deddf Safonau Gofal 2000

Deddf 2003 - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003

Deddf 2006 – Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

Rheoliadau 2010 - Rheoliadau Cyngorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010

Rheoliadau 2011 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011

Deddf 2014 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf 2015 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf 2016 - Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Rheoliadau 2017 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

y Bil - y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (cyn iddo dod yn Ddeddf)

AGC - Arolygiaeth Gofal Cymru

CRIA – Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

y Corff - Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

BG1 - Band Gweithredol 1

BG2 - Band Gweithredol 2

EIA - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

FTE - Cyfwerth ag Amser Llawn

GPC - Pwyllgor Meddygon Teulu

AaGIC - Addysg a Gwellu Iechyd Cymru

AGIC - Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

TGCh - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

TG - Technoleg Gwybodaeth

ALLau - Awdurdodau Lleol

BILI - Bwrdd/Byrddau Iechyd Prifysgol neu Addysgu

BRh1 - Band Rheoli 1

BRh2 - Band Rheoli 2

BRh3 - Band Rheoli 3

MBE - Aelod o'r Ymerodraeth Brydeinig

y GIG - y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Cyrff GIG - mewn perthynas â'r ddyletswydd ansawdd ac mewn perthynas â darpariaethau yn ymwneud â Chorff Llais y Dinesydd, mae hyn yn golygu Byrddau Iechyd Lleol (BILIau), Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, Awdurdodau Iechyd Arbennig (heb gynnwys awdurdodau iechyd arbennig trawsffiniol)

Cyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol) - mewn perthynas â'r ddyletswydd gonestrwydd, mae hyn yn golygu Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, Awdurdodau Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â'u swyddogaethau yng Nghymru) a darparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru mewn perthynas â gwasanaethau'r GIG y maent yn eu darparu

NPV - Gwerth Presennol Net

NRLS - System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu

OCPA - Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

OECD - Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

PAYE - cynllun Talu Wrth Ennill

PCC - y Cyngor Cleifion a Chleientiaid

PIA - Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

PwC - PriceWaterhouseCooper

RIA – Asesiad Effaith Rheoleiddio

RPIA - prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad

SCS - yr Uwch Wasanaeth Sifil

y Senedd - Senedd Cymru, a enwyd yn flaenorol yn Gynulliad Cenedlaethol Cymru

SHC - Cyngor Iechyd y Alban

TAW - Treth ar Werth

WTE - Cyfwerth ag Amser Cyflawn

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad

1. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) ('y Ddeddf') yn defnyddio deddfwriaeth fel dull o wella a diogelu iechyd, gofal a llesiant poblogaeth bresennol a phoblogaeth y dyfodol yng Nghymru. Mae'n cynnwys darpariaethau mewn perthynas â pholisi iechyd a gofal cymdeithasol.
2. Mae'r Ddeddf yn adeiladu ar yr asedau sydd gennym yng Nghymru i gryfhau a diogelu ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol; gan hyrwyddo llais cryfach i ddinasyddion, gwella atebolrwydd gwasanaethau i roi gwell profiad ac ansawdd gofal i bobl Cymru a chyfrannu at wlad iach a llewyrchus. Gyda'i gilydd, bwriad y darpariaethau yw bod o fudd cronol cadarnhaol i boblogaeth Cymru a rhoi amodau ar waith sy'n arwain at wella iechyd a lles.
3. I grynhoi, bydd y Ddeddf yn cyflwyno newidiadau sy'n:
 - gosod ystyriaethau ansawdd wrth galon popeth y mae cyrff GIG yng Nghymru a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd) yn ei wneud drwy ddyletswydd benodol, gan adeiladu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015")¹ a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014")². Mewn perthynas â'r ddyletswydd ansawdd, caiff cyrff GIG eu diffinio fel Byrddau Iechyd Lleol (BILlau), Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig (heb gynnwys Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol);
 - gosod dyletswydd gonestrwydd ar bob corff GIG, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o'i le. Mewn perthynas â'r ddyletswydd gonestrwydd, caiff cyrff GIG eu diffinio fel BILlau, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â'i swyddogaethau yng Nghymru) a darparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru mewn perthynas â gwasanaethau'r GIG y maent yn eu darparu;
 - cryfhau llais dinasyddion ar draws gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan greu cysylltiad cryfach rhwng pobl a'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iddynt;
 - cryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG.
4. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn:
 - llunio gweithdrefn i'w dilyn gan gorff GIG pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i thanio (adran 4);

¹ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Llundain: HMSO.

² Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Llundain: HMSO

- gwneud rheoliadau yn cynnwys darpariaethau atodol, damweiniol neu ganlyniadol, a/neu ddarpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed, i ddwyn i rym neu roi effaith lawn i ddarpariaethau'r Ddeddf os bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol (adran 28 (1));
- gwneud gorchmynion cychwyn yn nodi y bydd darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym ar ddyddiad penodedig (adran 29).

5. Bydd hefyd angen i Weinidogion Cymru wneud y canlynol:

- cyhoeddi canllawiau i gyrff GIG mewn perthynas â'r ddyletswydd ansawdd (adran 2);
- cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff GIG mewn perthynas â sylwadau a wnaed iddynt gan Gorff Llais y Dinesydd (adran 15(4));
- llunio a chyhoeddi cod ymarfer ar fynediad i eiddo lle y caiff gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol eu darparu, yn dilyn cais gan Gorff Llais y Dinesydd (adran 19)

6. Yn olaf, mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i gyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol) mewn cysylltiad â'r ddyletswydd gonestrwydd (adran 10).

2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

7. Mae gan Senedd Cymru gymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), yn unol â Rhan 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Cymru 2017*.

3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cefndir Polisi

8. Mae ansawdd wrth galon pob agwedd ar y ffordd o weithio ym maes gofal iechyd yng Nghymru. Fe'i pwysleisir yn y gwerthoedd craidd sy'n sail i'r GIG yng Nghymru, a amlinellwyd yn wreiddiol yn Law yn Llaw at Iechyd yn 2011.³ Dyma'r gwerthoedd:
- **rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth:** darparu gofal gwerth uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ein cleifion bob amser;
 - **integreiddio gwelliant** yn ein gwaith bob dydd a dileu niwed, gwahaniaethu a gwastraff;
 - **canolbwyntio ar atal, gwella iechyd ac anghydraddoldeb** er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy, iechyd a lles ymhlith pobl Cymru a phlant ein plant;
 - **gweithio mewn partneriaethau** go iawn â sefydliadau eraill a'n staff;
 - **buddsoddi yn ein staff** drwy eu hyfforddi a'u datblygu, gan ei gwneud yn bosibl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau a rhoi'r adnoddau, y systemau a'r amgylchedd iddynt weithio'n ddiogel ac yn effeithiol.
9. Cafodd y dull gweithredu hwn ei atgyfnerthu yn yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn 2018⁴ ("yr Adolygiad Seneddol"), a argymhellodd y dylid, wrth fwrw ymlaen â'r weledigaeth ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, geisio cyflawni yn erbyn y pedwar nod yn y "Nod Pedwarplyg", sy'n ceisio yn barhaus i wneud y canlynol:
- gwella iechyd a lles y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar ataliaeth;
 - gwella profiadau ac ansawdd y gofal a roddir i unigolion a'u teuluoedd;
 - cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol;
 - sicrhau mwy o werth o'r cyllid a fuddsoddir mewn iechyd a gofal drwy welliannau, arloesi, defnyddio arfer gorau, a chael gwared ar wastraff.
10. Tynnodd yr Adolygiad sylw hefyd at yr angen i gael system lle dylai gofal a chymorth ganolbwyntio ar y person a bod yn ddi-dor; heb rwystrau artiffisial rhwng iechyd corfforol a meddyliol, gofal sylfaenol a gofal eilaidd, neu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n disgrifio'r angen am system lle nad unig ddiben cyrrff GIG yw rheoli neu ddarparu gofal, ond ei wella bob dydd. Mae hyn yn golygu rhoi sylw parhaus a difrifol i dair agwedd ar y system ansawdd - cynllunio ansawdd, gwelliant a rheolaeth. Pwysleisiodd bod angen i ni gael system iechyd a gofal sy'n dysgu o hyd a lle mae llais y dinesydd yn cael ei

³Llywodraeth Cymru. Law yn Llaw at Iechyd - gweledigaeth bum mlynedd ar gyfer y GIG yng Nghymru [y Rhynggrwyd]. 2011. Ar gael o:

<https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/111101togetheren.pdf>

⁴Cynrychiolwyr yr Adolygiad Seneddol. Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru [y Rhynggrwyd]. 2018. Ar gael o:

<https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/180116reviewcy.pdf>

glywed yn glir. Tynnodd sylw at y dystiolaeth bod y canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn well os yw Byrddau'r GIG yn canolbwyntio ar y tair agwedd hon.

11. Mewn ymateb, mae cynllun Llywodraeth Cymru, Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol⁵ ("Cymru Iachach") yn amlinellu sut y bydd ansawdd yn allweddol i sicrhau bod y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn barod ar gyfer y dyfodol, a'i bod yn sicrhau gwerth am arian. Mae'n amlinellu ein disgwyliad y bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu dwyn ynghyd yn y dyfodol, fel eu bod yn cael eu cynllunio a'u darparu yn unol ag anghenion a dewisiadau unigolion. Mae'n pwysleisio pa mor bwysig yw ymgysylltu'n barhaus â dinasyddion, sy'n caniatáu pobl i gyfrannu eu gwybodaeth, eu profiadau a'u dewisiadau.
12. Nod y darpariaethau yn y Ddeddf yw helpu i wireddu'r uchelgeisiau hyn mewn nifer o ffyrdd cysylltiedig drwy sicrhau mai gwella ansawdd yw'r cysyniad canolog sy'n sail i'r darpariaethau o fewn y Ddeddf: dyletswydd ansawdd, dyletswydd gonestrwydd, Corff Llais y Dinesydd a'r cyfle i Ymddiriedolaethau'r GIG gael Is-gadeirydd. Dylai ansawdd olygu mwy na bodloni safonau gwasanaethau yn unig; mae'n ffordd o weithio ar draws y system gyfan er mwyn galluogi gwasanaethau sy'n ddiogel, yn effeithiol, yn canolbwyntio ar y person, yn amserol, yn effeithlon ac yn deg, yng nghydestun hyrwyddo diwylliant dysgu.
13. Mae'r diffiniad a dderbynnir yn rhyngwladol, ac a gyflwynwyd gan yr *Institute of Medicine*⁶ ar y pryd, yn amlinellu chwe maes ansawdd gofal iechyd fel systemau sydd:
 - **Yn ddiogel:** Osgoi niwed i gleifion o'r gofal y bwriedir iddo eu helpu.
 - **Yn effeithiol:** Darparu gwasanaethau yn seiliedig ar wybodaeth wyddonol i bawb a all elwa arnynt, ac ymatal rhag darparu gwasanaethau i'r rheini nad ydynt yn debygol o elwa arnynt (gan osgoi tanddefnydd a chamddefnydd).
 - **Yn canolbwyntio ar y claf:** Darparu gofal sy'n parchu ac yn ymateb i ddewisiadau, anghenion a gwerthoedd cleifion unigol, ac sy'n sicrhau mai gwerthoedd cleifion sy'n arwain pob penderfyniad clinigol.
 - **Yn amserol:** Lleihau amseroedd aros, ac weithiau achosion o oedi a all fod yn niweidiol i'r rheini sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n rhoi gofal.
 - **Yn effeithlon:** Osgoi gwastraff, gan gynnwys gwastraffu offer, cyflenwadau, syniadau ac egni.
 - **Yn deg:** Darparu gofal nad yw'n amrywio o ran ansawdd oherwydd nodweddion personol megis rhywedd, ethnigrwydd, lleoliad daearyddol, a statws economaidd-gymdeithasol.

⁵ Llywodraeth Cymru. Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol [y Rhyngwrwyd] 2018. Ar gael o: <https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/180608healthier-wales-maincy.pdf>

⁶AHRQ (2016). *The Six Domains of Health Care Quality* | Agency for Healthcare Research & Quality. [ar-lein] Ahrq.gov. Ar gael ar: <https://www.ahrq.gov/professionals/quality-patient-safety/talkingquality/create/sixdomains.html> [Dyfynnwyd 28 Tach. 2018].

Felly, mae holl elfennau'r Ddeddf yn cyfrannu at y nod cyffredinol hwn.

14. Bydd ail-lunio'r **ddyletswydd ansawdd**⁷ i'w gwneud yn ofynnol i gyrff GIG a Gweinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu darparu, yn newid y ffocws o wneud penderfyniadau ac yn gam pellach tuag at sicrhau'r safonau uchaf erioed o wasanaethau iechyd sy'n canolbwyntio ar y person yng Nghymru.
15. Bydd gosod **dyletswydd gonestrwydd** ar gyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol) yn gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau ac yn gwella'r cyfathrebu a'r ymgysylltu rhwng y GIG a'i ddefnyddwyr gwasanaethau. Bydd yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i sicrhau bod y gyrff GIG hyn yng Nghymru yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o'u lle, ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu system sy'n dysgu ac yn gwella o hyd, ac un y mae cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn ymddiried ynddi.
16. Bydd creu corff newydd, sef **Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru** ("y Corff") yn pwysleisio ein hymrwymiad i ysgogi integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol drwy sefydlu un corff, am y tro cyntaf yng Nghymru, a fydd yn cynrychioli llais dinasyddion mewn perthynas â materion iechyd a gofal cymdeithasol.
17. Bydd creu pŵer i Weinidogion Cymru **benodi Is-gadeirydd ar Fyrddau Ymddiriedolaeth y GIG** yn sicrhau cysondeb ar draws Billaau ac Ymddiriedolaethau, ac yn cryfhau trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu.
18. Caiff y sail resymegol dros gyflwyno deddfwriaeth, yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud a sut y bydd y ddeddfwriaeth yn helpu i gyflawni ein hamcanion, eu hamlinellu'n fanylach isod ar gyfer pob un o'r meysydd hyn yn eu tro.

DYLETSWYDD GONESTRWYDD

Cefndir

19. O fewn y GIG yng Nghymru, mae'r ymdrech i wella ansawdd wedi bod yn mynd ei flaen am dros 20 mlynedd. Trwy gyflwyno llywodraethu clinigol ym 1998⁸, darparwyd fframwaith ar lefel genedlaethol a sefydliadol ar gyfer sicrhau gwelliannau a safonau uchel o ofal. Roedd modd bod yn fwy tryloyw ac agored am berfformiad, a mynd ati i gynnwys cleifion ac ymgysylltu'n fwy â nhw. Gosododd y garreg filltir bwysig hon y sylfeini ar gyfer pob menter wedi hynny.
20. Ers hynny, rydym wedi ceisio sicrhau bod ansawdd yn rhan annatod o GIG Cymru, o lefel bwrdd hyd at staff y rheng flaen. Caiff ansawdd ei weld fel y llinyn aur, a rhaid iddo redeg drwy bob agwedd ar y broses o gynllunio a

⁷ **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003**. Llundain: HMSO

⁸ Y Swyddfa Gymreig. Quality Care and Clinical Excellence. Llundain: y Swyddfa Gymreig, 1998.

darparu gwasanaethau, a bod yn rhan glir o gynlluniau tymor canolig integredig unrhyw sefydliad. Mae'r defnydd o ddulliau a phrosesau penodol megis archwilio clinigol, adolygiadau marwolaethau, adborth gan gleifion ac adrodd ar ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion yn elfennau allweddol o'r systemau sicrhau ansawdd angenrheidiol i nodi meysydd ar gyfer dysgu a gwella. Mae hyn, ynghyd â llinellau atebolrwydd clir a chyfrifoldeb corfforaethol wedi'u cynllunio i gyfrannu at wasanaeth mwy diogel o ansawdd uwch. Mae arolygiadau, adolygiadau gwelliant ac ymchwiliadau i fethiannau difrifol mewn gwasanaethau hefyd bellach yn rhan sefydlog o hybu gwelliant mewn ansawdd o fewn y GIG.

21. Yn ogystal â hyn, mae ystod eang o ddisgwyliadau allweddol i'w cael mewn polisiau, canllawiau a mesurau deddfwriaethol, sy'n sail i ddull gweithredu Cymru o ran ansawdd a gwella ansawdd wrth ddarparu a chynllunio gwasanaethau.
22. Yn y maes gofal cymdeithasol, mae'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016⁹ ("Deddf 2016") yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac yn diwygio'r ffordd y caiff gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru ei reoleiddio. Mae'n sefydlu fframwaith rheoleiddio newydd gyda phwyslais ar ansawdd a gwella. Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017¹⁰ ("Rheoliadau 2017"), er enghraifft, a ddatblygwyd o dan Ddeddf 2016⁹ yn cynnwys gofynion ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth rheoleiddiedig.

Pam y mae angen y newid

23. Mae dyletswydd wedi bod ar gyrff GIG i wneud trefniadau at ddibenion gwella ansawdd gofal iechyd ers 2003, o dan adran 45(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gofal yn y Gymuned a Safonau) 2003⁷ ("Deddf 2003"). Er bod Deddf 2003⁷ yn gofyn ar i gyrff GIG wneud trefniadau i fonitro a gwella ansawdd gofal iechyd, mae wedi cael ei ddehongli ar y cyfan fel gofyn ar i gyrff GIG gael trefniadau sicrhau ansawdd (rheolaeth) i fonitro a gwella ansawdd y gofal iechyd a ddarperir, yn hytrach na chael ffocws cyfunol ar y tair agwedd ar system ansawdd fel y disgrifir yn yr adolygiad seneddol⁴: cynllunio ansawdd, gwella a rheolaeth i sicrhau ffocws ar wasanaethau o ansawdd ar lefel y boblogaeth yn ehangach.
24. Mae'r ddyletswydd ansawdd a amlinellir yn Neddf 2003⁷ wedi llwyddo i roi rhywfaint o ffocws ar wella ansawdd ac ar ddatblygu seilwaith i roi sicrwydd bod gwelliannau'n cael eu gwneud. Mae hyn yn cynnwys Pwyllgorau Ansawdd a Diogelwch ym mhob BILI ac Ymddiriedolaeth sydd â chysylltiadau uniongyrchol â'r Bwrdd, yn ogystal â threfniadau cadarn ar gyfer adrodd,

⁹Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Llundain: HMSO

¹⁰ Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017) (OS 2017/1264). Ar gael o: [HYPERLINK "http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/made/welsh%20"](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/made/welsh%20)
<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/made/welsh>

ymchwilio a dysgu o ddigwyddiadau a phryderon yn ymwneud â diogelwch cleifion.

25. I raddau, mae'r ddyletswydd hefyd wedi helpu i feithrin diwylliant mwy cadarnhaol o ran ansawdd; rhywbeth a nodwyd yn Adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn 2016¹¹ oedd wrth galon system iechyd Cymru, ac a baratôdd y ffordd ar gyfer bod yn fwy agored, gonest a thryloyw. Fodd bynnag, nodwyd yn adroddiad yr OECD bod BILlau yn dangos llai o arloesi rai blynyddoedd ar ôl eu sefydlu, a llai o ddulliau radical na'r disgwyl o ran newid systemau a gwella ansawdd.
26. Mae'r ddyletswydd ansawdd yn Deddf 2003⁷ wedi tueddi i gael ei dehongli mewn ffordd gul, gan ganolbwyntio ar welliannau mewn ansawdd ar gyfer unigolion a rhoi safonau gwasanaethau ar waith. O ganlyniad, fel y nodir isod, dymunwn fanteisio ar y cyfle i gymryd y cam nesaf drwy ddisodli'r ddyletswydd hon a chyflwyno dyletswydd gonestrwydd ehangach, sy'n cyd-fynd yn fwy â'r ffordd rydym am i gyrff GIG weithio, a fydd yn cryfhau camau gweithredu a'r broses o wneud penderfyniadau i ysgogi gwelliannau mewn ansawdd.
27. Yn ogystal, mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb i oruchwyllo'r GIG yng Nghymru, ac mae nifer o'r polisiâu a gaiff eu datblygu gan Weinidogion Cymru, boed yn ddeddfwriaethol ai peidio, yn effeithio ar sut y mae cyrff GIG yng Nghymru yn gweithredu. Fodd bynnag, nid yw Deddf 2003⁷ yn gosod dyletswydd ansawdd ar Weinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag iechyd. Ystyrir hyn yn fwlch yn y ddyletswydd bresennol y mae angen mynd i'r afael ag ef.
28. Yn olaf, nid oes unrhyw systemau adrodd yn nyletswydd ansawdd Deddf 2003⁷. Mae systemau adrodd yn fuddiol gan eu bod yn galluogi cyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd ansawdd ddangos sut y mae eu swyddogaethau wedi cael eu harfer i sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Yn ogystal â hynny, mae adrodd hefyd yn darparu dull o ddal cyrff i gyfrif gan ei fod yn ffordd dryloyw o ddangos sut y cydymffurfir â'r ddyletswydd.

Amcanion Polisi

29. Ein hamcan yw cael dull gweithredu system gyfan ar gyfer ansawdd yn y gwasanaeth iechyd, i sicrhau gwelliannau a newid y ffocws oddi wrth y dehongliad cul o ansawdd sydd â ffocws arbennig ar sicrhau ansawdd.
30. Yr amcan yw i'r ddyletswydd newydd, ehangach ei gwneud yn ofynnol i gyrff GIG (a amlinellir ym mharagraff 14) arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried sut y gallant wella ansawdd yn barhaus. Y nod yw y bydd gwella ansawdd, ac felly canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn dod yn rhan annatod o'r broses gwneud penderfyniadau.

¹¹OECD. OECD Reviews of Health Care Quality: Y Deyrnas Unedig 2016 [Y Rhyngwlad]. Paris: OECD Publishing; 2016. Ar gael yn: https://www.oecd-ilibrary.org/social-issues-migration-health/oecd-reviews-of-health-care-quality-united-kingdom-2016_9789264239487-en

31. Yn ogystal â hynny, o ystyried ehangder a phwysigrwydd swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag iechyd, ein hamcan yw sicrhau bod y penderfyniadau y mae Gweinidogion Cymru yn eu gwneud yn cefnogi ac yn cyfrannu at y dull gweithredu system gyfan hwn o ran ansawdd, drwy roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i'r ddyletswydd sydd ar gyrff GIG.
32. Er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd cael dyletswydd newydd, ehangach, a'n dymuniad i atgyfnerthu ac ymwreiddio ansawdd wrth galon y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd, bydd y ddyletswydd yn dod yn fwy amlwg wrth iddi gael ei chynnwys yn Deddf GIG (Cymru) 2006 ("Deddf 2006")¹² sef y ddeddf sy'n nodi'r dyletswyddau allweddol a osodir ar y GIG yng Nghymru.

Diben y Ddeddfwriaeth

33. Diben darpariaethau'r Ddeddf mewn perthynas â dyletswydd ansawdd yw ail-lunio ac ehangu'r ddyletswydd ansawdd bresennol o fewn Deddf 2003⁷ i sicrhau bod ansawdd yn dod yn ffordd o weithio ar draws y system gyfan, a bod ffocws yn cael ei roi ar ganlyniadau. Bydd y ddyletswydd newydd yn ail-lunio'r cysyniad o "ansawdd" i sicrhau y caiff ei ddefnyddio yn ôl ei ddiffiniad ehangach, heb ei gyfyngu i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i unigolyn nac i safonau gwasanaeth. Bydd y Ddeddf yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd) a chyrff GIG yn arfer eu holl swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd.
34. Bydd y Ddeddf yn cyflawni'r newid hwn drwy ddiddymu adran 45(1) o Ddeddf 2003⁷ sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff GIG sefydlu a chynnal trefniadau at ddiben monitro a gwella ansawdd gwasanaethau iechyd a ddarperir. Bydd y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ddiwygiedig ymlaen llaw yn Rhan 1 a 2 o Ddeddf 2006¹².
35. Er mwyn mynd i'r afael ag amcanion y polisi, y bwriad yw rhoi dyletswydd gyffredinol ar y canlynol:
- (a) Gweinidogion Cymru i arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd;
 - (b) BILlau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig ar gyfer Cymru yn unig i arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd a ddarperir.
36. Caiff ansawdd o dan y ddyletswydd hon ei ddiffinio fel cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, ansawdd o ran effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd, ac ansawdd profiad defnyddwyr gwasanaethau iechyd. Diffinnir gwasanaethau iechyd fel gwasanaethau a ddarperir neu a ddiogelir yn unol â Deddf 2006¹².

¹² Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Llundain: HMSO

37. Ar gyfer cyrff GIG, mae'r ddyletswydd i arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliannau yn ansawdd gwasanaethau yn gymwys wrth arfer eu holl swyddogaethau, nid dim ond eu swyddogaethau clinigol. Fe'i hystyriwyd yn bwysig sicrhau mai dyma oedd yr achos, oherwydd gall arfer swyddogaethau nad ydynt yn glinigol (megis darparu gwasanaethau TG) gael effaith sylweddol ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.
38. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i gyrff GIG i gynorthwyo i weithredu'r ddyletswydd ansawdd. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu cydgynhyrchu â chynrychiolwyr gweithwyr proffesiynol a chynrychiolwyr cleifion. Byddant yn disgrifio beth a olygir wrth ansawdd a sut y bydd yn gweithio yn ymarferol, gan gynnwys: sut y dylai fod yn gymwys ar draws **holl** swyddogaethau a phrosesau cyrff GIG; beth mae'n ei olygu ar gyfer ystyriaethau a phenderfyniadau a wneir ar bob lefel; sut y dylid ystyried ansawdd gwasanaethau ar lefel ehangach y boblogaeth a sut y gall cyrff GIG ddangos i ba raddau y mae gwelliannau wedi bod i ansawdd, drwy eu hadroddiadau ansawdd blynyddol, sy'n orfodol gan y Ddeddf.
39. Mae'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i gyrff GIG roi sylw i'r canllawiau, a rhaid iddynt yn benodol nodi pa dystiolaeth sydd i'w defnyddio i gefnogi'r asesiad sy'n ofynnol fel rhan o adroddiad ansawdd blynyddol cyrff y GIG ar unrhyw welliannau mewn canlyniadau a sut y dylid cynnal yr asesiad.
40. Y bwriad yw i natur y canllawiau, a gaiff eu llunio ar y cyd gyda chynrychiolwyr proffesiynol a chleifion, fod yn debyg mewn sawl ffordd i'r rhai a gyhoeddwyd i gefnogi cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan y bydd yn cynnwys astudiaethau achos amrywiol i ddangos sut y gallai cyrff GIG ddangos eu bod wedi gweithredu egwyddorion ansawdd er mwyn sicrhau gwelliant.
41. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 47 o Ddeddf 2003⁷ i sicrhau y bydd dyletswydd ar gyrff GIG o hyd i ystyried y Safonau Iechyd a Gofal¹³ a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon wrth gyflawni'r ddyletswydd ansawdd newydd.
42. Yn ymarferol, gyda golwg ar wella ansawdd gwasanaethau iechyd, bydd hyn yn golygu y bydd angen i gyrff GIG, wrth arfer eu swyddogaethau, ystyried y canllawiau statudol a gyhoeddwyd ar y ddyletswydd ansawdd a sicrhau eu bod yn ystyried y safonau presennol – gan ddefnyddio'r ddau i lywio eu penderfyniadau. Gyda'i gilydd, bydd y canllawiau a'r safonau yn gwneud cryn dipyn i sicrhau bod ystyriaethau allweddol, megis atal ac iechyd y boblogaeth; cynllunio'r gweithlu a threfniadau staffio; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, i gyd yn cael eu rhoi ar waith pan fo cyrff GIG yn cynllunio ac yn darparu eu gwasanaethau.
43. Bydd dyletswydd hefyd ar Weinidogion Cymru a chyrff GIG i adrodd yn flynyddol ar y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd.

¹³ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/safonau-iechyd-a-gofal-ebrill-2015.pdf>

Rhaid i hyn gynnwys asesiad o faint unrhyw welliant mewn canlyniadau a gyflawnir yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hyn yn caniatáu i'r camau y mae Gweinidogion Cymru a chyrrff GIG wedi'u cymryd i wella canlyniadau i gael eu monitro, a bod tryloywder yn y camau sydd wedi'u cymryd i wella ansawdd.

44. Bydd y ddyletswydd yn berthnasol i'r canlynol yng Nghymru:

- Gweinidogion Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Awdurdodau Iechyd Arbennig sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig.

Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon

45. Yn ei hanfod, bwriad y polisi y tu ôl i'r ddyletswydd yw, pan fo Gweinidogion Cymru a chyrrff GIG yn cynllunio neu'n gwneud penderfyniadau, neu wneud unrhyw beth arall mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd, eu bod yn mynd ati i ystyried sut y gallant wella ansawdd gwasanaethau, fel y'i diffinnir uchod. Y nod yw sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau.

46. Bydd y gofyniad adrodd yn gofyn ar i Weinidogion Cymru (mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd) a chyrrff GIG asesu'r gwelliant mewn canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn adrodd, gan ddangos felly sut y maent yn gwella ansawdd gwasanaethau iechyd yng Nghymru. O ganlyniad, bydd y gofyniad i adrodd yn flynyddol yn dangos yn glir sut y mae cyflawni'r ddyletswydd hon wedi arwain at welliannau mewn ansawdd, gan ddarparu llinell sylfaen ar gyfer mesur gwelliannau yn y dyfodol, a gwneud y system yn fwy agored a thryloyw. Mae'r dull gweithredu hwn yn cefnogi'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf 2015¹, drwy annog meddwl tymor hir a gweithredu integredig a chydweithredol sy'n gweithio i gyflawni nod llesiant Cymru iachach⁵.

Y risg o beidio â llunio'r ddeddfwriaeth

47. Mae'r ddyletswydd ansawdd newydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff GIG a Gweinidogion Cymru feddwl a gweithredu'n wahanol drwy ddefnyddio'r cysyniad o "ansawdd", nid yn unig mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir, ond drwy'r broses gyfan ac ar draws yr holl swyddogaethau yng nghyd-destun anghenion iechyd a lles eu poblogaethau. Felly, byddai'r risg uniongyrchol o beidio â chyflwyno'r ddeddfwriaeth yn cynnwys rhwystro'r agenda atal yn sylweddol, atgyfnerthu rhwystrau presennol o ran cynllunio ar gyfer angen y boblogaeth yn y dyfodol, a chyfyngu ar ledaenu arferion gorau.

48. Er ein bod wedi gweld gwelliannau sylweddol mewn ansawdd gofal, mae angen newid mawr os ydym am symud y ffocws oddi wrth y dehongliad cul o ansawdd, ac ni fydd modd cyflawni hyn drwy weithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, a defnyddio dulliau presennol i ddarparu canllawiau pellach ar ansawdd i'r GIG. Mae'r fframwaith presennol wedi arwain y GIG tuag at y ffordd hon o feddwl, a heb newid deddfwriaethol, mae'n annhebygol y

gwelwn yr effaith ddymunol o gael dull gweithredu system gyfan o ran ansawdd.

49. Yn syml, mae parhau gyda'r *status quo* yn creu'r risg y bydd "ansawdd" yn parhau i fod yn derm a ddefnyddir fel ffordd o gael sicrwydd o fewn gwasanaethau lleol, ac nid yn egwyddor sy'n cefnogi gwelliant ar draws system gyfan.
50. Yn ogystal, ni fyddai unrhyw ddyletswydd statudol o ran ansawdd yn cael ei gosod ar Weinidogion Cymru, sy'n rhywbeth sylweddol sydd wedi'i hepgor o'r ddyletswydd bresennol, gan ystyried ehangder swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag iechyd. Ni fyddai ychwaith unrhyw ddyletswydd adrodd, sydd eto yn rhywbeth sydd ar goll o'r ddyletswydd bresennol rydym yn dymuno mynd i'r afael ag ef.

DYLETSWYDD GONESTRWYDD

Cefndir

51. Mae pob darparwr iechyd a gofal cymdeithasol yn rhannu'r nod o ddarparu gofal o ansawdd uchel. Mae tystiolaeth bod mwy o dryloywder a gonestrwydd, a bod yn fwy agored, yn gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol ac iechyd o ansawdd uwch^{14 15}. Mae sefydliadau sydd â diwylliannau agored a thryloyw yn fwy tebygol o dreulio amser yn dysgu o ddigwyddiadau, yn hytrach na cheisio cuddio neu bod yn or-amddiffynol am broblemau, ac maent yn fwy tebygol o gael prosesau a systemau ar waith i gefnogi staff pan fydd pethau'n mynd o'u lle.
52. Mae'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag datgelu pryderon yn cynnwys ofn, diwylliant o fod yn gyfrinachol a/neu fwrw bai, diffyg hyder mewn sgiliau cyfathrebu, ofnau y bydd pobl yn drist ac amheuaeth a yw datgeliad yn effeithiol wrth wella diwylliant. Caiff y broses ddatgelu hefyd ei rhwystro gan y posibilrwydd o sgil-effeithiau proffesiynol neu sefydliadol, rhwymedigaeth gyfreithiol, bwrw bai, diffyg atebolrwydd ac ymateb negyddol gan deulu. Y ffactorau sy'n ei gwneud yn haws datgelu yw pwyslais ar atebolrwydd, gonestrwydd, gwneud iawn, ymddiriedaeth a llai o risg o hawliadau.
53. Ym maes gofal cymdeithasol, mae dyletswydd gonestrwydd eisoes yn bodoli ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol gwasanaethau rheoleiddiedig. Mae Rheoliadau 2017¹⁰ yn ymdrin â'r ddyletswydd gonestrwydd yn rheoliadau 13 ac 83 ac mae'n gofyn ar i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol weithredu mewn ffordd agored a thryloyw. Mae'r canllawiau statudol a

¹⁴ Sefydliad Iechyd y Byd, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a Banc y Byd. *Delivering quality health services: a global imperative for universal health coverage*. [Rhyngrwyd]. Genefa; 2018. Ar gael yn: [HYPERLINK](https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/272465/9789241513906-eng.pdf?ua=1%20)

"<https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/272465/9789241513906-eng.pdf?ua=1>

¹⁵ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gwir Anrh. Jeremy Hunt AS. *Good care costs less* [Rhyngrwyd]. Ar GOV.UK. 2014 [dyfynnwyd 1 Ebrill 2019]. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/speeches/good-care-costs-less>

gyhoeddwyd o dan adran 29 o Ddeddf 2016⁹ yn nodi sut y gellid cydymffurfio â'r gofynion.

54. Mae'r canllawiau statudol yn nodi y dylai darparwyr hyrwyddo diwylliant o onestrwydd a rhaid iddynt gael polisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n cefnogi diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw, gan sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol ohonynt ac yn eu dilyn. Mae Rheoliadau 2017¹⁰ hefyd yn cynnwys gofynion sy'n cefnogi'r ddyletswydd megis gofyn ar i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig sicrhau bod systemau ar waith i wneud y canlynol:

- cofnodi digwyddiadau a chwynion a phryderon
- cadw cofnodion o ddigwyddiadau, cwynion a phryderon
- cadw cofnodion o ddigwyddiadau a fyddai'n cael eu hystyried yn ddigwyddiadau niweidiol.

55. Yn ogystal, mae Rheoliadau 2017¹⁰ yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn sy'n gyfrifol am y gwasanaeth wneud darpariaeth i ansawdd y gofal a'r cymorth gael ei adolygu mor aml ag sy'n ofynnol ond o leiaf bob chwe mis, ac i adrodd i'r darparwr gwasanaeth. Mae'r gofyniad hwn yn cefnogi diwylliant o welliant parhaus ac yn cynnwys dadansoddiad o'r data cyfanredol ar ddigwyddiadau, digwyddiadau hysbysadwy, materion diogelu, chwythu'r chwiban, pryderon a chwynion.

Pam y mae angen y newid

56. Yng Nghymru, mae galwadau wedi bod i gyflwyno dyletswydd gonestrwydd¹⁶ ar gyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol), a hynny ar wahân a gan adeiladu ar y ddyletswyddau gonestrwydd anstatudol sy'n gymwys i ystod o weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel rhan o'u rheoleiddio proffesiynol.

57. Mewn ymchwiliad annibynnol a gomisiynwyd gan Weinidogion Cymru i'r amgylchiadau a arweiniodd at farwolaeth Robert Powell²⁰, gwnaed nifer o

¹⁶Kennedy, I ac eraill. Ymchwiliad The Bristol Royal infirmary. *Learning from Bristol - The Report of the Public Inquiry into children's heart surgery at the Bristol Royal Infirmary 1984-1995* [y Rhynggrwyd]. Crown; 2001. Ar gael yn:

https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090811143822/http://www.bristol-inquiry.org.uk/final_report/the_report.pdf

¹⁷Donaldson, L. A papur ymgynghori gosodiad er enghraifft, dynesu tan esgeuluster clinigol y GIG; [Rhynggrwyd]. Cyhoeddiadau Adran Iechyd y DU; 2003. Ar gael yn:

https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20120809195448/http://www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh_4060945.pdf

¹⁸Francis, R ac eraill. *Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry* [y Rhynggrwyd]. Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG; 2013. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/report-of-the-mid-staffordshire-nhs-foundation-trust-public-inquiry>

¹⁹4. Evans, K. "Defnyddio Cwynion yn Rhodd" - ADOLYGIAD O YMDRIN Â PHRYDERON (CWYNION) YN GIG CYMRU [Y Rhynggrwyd]. 2014. Ar gael yn:

<https://gweddill://gov.wales/docs/dhss/publications/140724complaintscy.pdf>

²⁰ Jones, N. THE ROBERT POWELL INVESTIGATION - A REPORT TO THE WELSH MINISTERS [y Rhynggrwyd]. 2012. Ar gael yn:

argymhellion yn ymwneud â gonestrwydd o dan y thema cyfathrebu'n well â chleifion a'u teuluoedd, a'u cynnwys yn fwy, pan fydd pethau'n mynd o'u lle.

58. Roedd adroddiad Francis ar yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford¹⁸ yn cynnwys argymhellion yn cefnogi nod hollbwysig i sicrhau bod materion sy'n codi pryder yn cael eu trafod mewn modd agored, tryloyw a gonest ar draws y system iechyd. Awgrymwyd bod yn rhaid i bob sefydliad gofal iechyd a phawb sy'n gweithio ynddynt fod yn onest ac yn agored wrth ymdrin â chleifion ac â'r cyhoedd bob tro. Ni ddylai buddiannau'r sefydliad na buddiannau personol fyth fod yn drech na'r ddyletswydd i fod yn onest ac yn agored.
59. Pan fo marwolaeth neu niwed difrifol wedi'u hachosi, neu pan y gallent fod wedi'u hachosi i glaf yn sgil gweithred neu esgeulustod gan y sefydliad neu ei staff, roedd yr Ymchwiliad yn awgrymu y dylai'r claf (neu unrhyw gynrychiolydd personol sydd â hawl gyfreithlon neu berson awdurdodedig arall) gael gwybod am y digwyddiad, gael yr wybodaeth lawn am yr amgylchiadau a arweiniodd at y digwyddiad a chael cynnig lefel briodol o gefnogaeth, p'un a yw'r claf neu'r cynrychiolydd wedi gofyn am yr wybodaeth hon ai peidio.
60. Mewn adolygiad annibynnol o broses Gweithio i Wella GIG Cymru²¹, a gynhaliwyd gan Mr. Keith Evans¹⁹, gwnaed argymhelliad penodol, argymhelliad 49, i gael "dyletswydd gonestrwydd gyfreithiol" newydd. Yn ogystal â hyn, roedd adolygiad Ruth Marks o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru²² a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014 yn galw ar i ddyletswydd gonestrwydd benodol i gael ei chyflwyno yng Nghymru.
61. Yn olaf, mae galw ehangach wedi bod ar i ddyletswydd gonestrwydd gyfreithiol gryfach gael ei chyflwyno ar gyfer y GIG yng Nghymru yn sgil cyflwyno dyletswyddau tebyg mewn rhannau eraill o'r DU: ar gyfer GIG Lloegr fe'i hamlinellir yn Rheoliad 20 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008²³ (Gweithgareddau a Reoleiddir), Rheoliadau 2014, ac yn yr Alban, caiff gweithdrefn dyletswydd gonestrwydd ei hamlinellu yn Rhan 2 o Ddeddf Iechyd (Tybaco, Nicotin etc. a Gofal) (yr Alban) 2016²⁴.
62. Roedd manifestio Llafur Cymru 2016²⁵ yn ymrwmo i gynnal ymgynghoriad ar ddyletswydd gonestrwydd statudol bosibl er mwyn hyrwyddo ymhellach

<https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20121105061144/http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/powell/?jsessionid=7715EFC40A4DCD5B5DD28E35A550C584?statu s=gxbqamrvi&lang=en>

²¹ Gwybodaeth am Gweithio i Wella [Y Rhynggrwyd]. Gweithio i Wella. 2018 [dyfynnwyd 4 Ebrill 2019]. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-page.cfm?orgid=932&pid=49282>

²² Marks, R. Adolygiad Annibynnol o waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Y ffordd ymlaen: dod yn gorff arolygu a gwella, [y Rhynggrwyd] 2014. Ar gael yn:

http://www.powysthb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1145/Board_Item_5.1a_Independent%20Review%20of%20HIW_Appendix%201_EXECUTIVE%20SUMMARY.pdf

²³ Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2014) (OS 2008/2936). Ar gael yn:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukdsi/2014/978011117613/regulation/20>

²⁴ **Health (Tobacco, Nicotine etc. and Care) (Scotland) Act** 2016. Llundain: HMSO

²⁵ Llafur Cymru. Gyda'n Gilydd Dros Gymru, Manifestio Llafur Cymru [Y Rhynggrwyd]. 2016. Ar gael yn: HYPERLINK

ddiwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw yn ein system iechyd a gofal. Cafodd hyn ei gyflwyno yn y Papur Gwyn *Gwasanaethau sy'n addas i'r Dyfodol* ym mis Mehefin 2017²⁶.

63. Fodd bynnag, wrth ystyried gosod dyletswydd newydd ar wasanaethau iechyd, mae'n bwysig cydnabod bod nifer o gamau eisoes wedi'u cymryd gyda'r nod o ddatblygu "diwylliant o fod yn agored" yn y GIG. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer ymdrin â chwynion yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011²⁷, prosesau adrodd ac ymchwilio gwell mewn perthynas â digwyddiadau difrifol, adolygiadau o bob marwolaeth mewn ysbytai a chyhoeddi Datganiadau Ansawdd Blyneddol gan Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, fel sy'n digwydd yn Lloegr ac yn yr Alban, rydym hefyd wedi ymdrechu i ddysgu gwersi o achosion go iawn lle mae niwed wedi cael ei achosi ac o argymhellion o amrywiol adroddiadau ac adolygiadau.
64. Mae felly'n glir bod llawer iawn o waith wedi'i wneud i ddatblygu a chefnogi diwylliant o fod yn agored o fewn y GIG yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn wedi rhoi sefydliadau iechyd mewn sefyllfa dda i weithredu dyletswydd gonestrwydd mwy ffurfiol, ac ystyrir mai dyma'r cam nesaf rhesymegol yn y gyfres o fesuriadau sydd eisoes ar waith i wella ansawdd a bod yn fwy agored.

Amcanion Polisi

65. Mewn gwasanaethau cymhleth ac amlochrog, mae'n anochel bod pethau weithiau'n mynd o'i le. Pan fydd hynny'n digwydd, mae'r ffordd y bydd sefydliadau'n ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn yn bwysig iawn a gall wneud gwahaniaeth enfawr i brofiad pobl a'u perthynas barhaus â'u darparwr gofal. Mae hyn yn hollbwysig mewn lleoliad gofal iechyd lle mae gan gleifion berthynas barhaus yn aml iawn gyda'u darparwyr gofal iechyd. Yn gyffredinol, mae cleifion a defnyddwyr gwasanaethau am gael gwybod beth ddigwyddodd mewn modd onest, a chael sicrwydd bod popeth yn cael ei wneud i ddysgu o'r hyn aeth o'i le. Mae bod yn amddiffynnol, "cau'r rhengoedd" neu geisio bwrw'r mater i'r naill ochr yn mynd yn hollol groes i'r ymddygiadau a ddisgwylir.
66. P'un a yw person yn derbyn gofal gan y GIG, gan ddarparwr rheoleiddiedig gwasanaethau gofal cymdeithasol neu gan ddarparwr gofal iechyd annibynnol rheoleiddiedig, ein hamcan polisi yw sicrhau bod y person hwnnw yn gallu bod yn dawel ei feddwl pe bai rhywbeth yn mynd o'i le gyda'r gofal neu'r driniaeth, y bydd y darparwr yn ymdrin â'r mater mewn ffordd onest ac agored. Mae'r

"<http://d3n8a8pro7vhm.cloudfront.net/themes/56f26ee2ebad64d813000001/attachments/original/1460733418/Welsh-Labour-Manifesto2016.pdf?1460733418%20>"
<http://d3n8a8pro7vhm.cloudfront.net/themes/56f26ee2ebad64d813000001/attachments/original/1460733418/Welsh-Labour-Manifesto2016.pdf?1460733418>

²⁶Gwasanaethau sy'n addas i'r dyfodol [y Rhyngrwyd]. Gwasanaethau a Gwybodaeth Llywodraeth Cymru. 2017 [dyfynnwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwasanaethau-syn-addas-ir-dyfodol>

²⁷Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011) (OS 2011/704). Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/704/contents/made>

Ddeddf yn darparu llwyfan ar gyfer cyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol) i gyflawni hyn.

Diben y Ddeddfwriaeth

67. Prif bwrpas darpariaethau'r Ddeddf yw helpu i gyflawni dull gweithredu system gyfan o fod yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o'i le. Bydd yn cyflawni hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol) ddilyn proses:
- i. pan fydd defnyddiwr gwasanaeth y mae gofal iechyd yn cael neu wedi cael ei ddarparu iddo yn dioddef canlyniad andwyol
 - ii. pan oedd y ffordd y cafodd y gofal iechyd ei ddarparu yn ffactor, neu pan y gallai fod wedi bod yn ffactor, yn y ffaith fod y defnyddiwr gwasanaeth wedi dioddef y canlyniad hwnnw.
68. Ystyrir bod defnyddiwr gwasanaeth wedi dioddef canlyniad andwyol os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn profi, neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y gallai'r defnyddiwr brofi, unrhyw niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n fwy na mân niwed. Y bwriad yw amlinellu mewn canllawiau statudol beth a olygir gan "fwy na mân niwed". Bwriedir sefydlu gweithgor, a fydd yn cynnwys clinigwyr (yn cynrychioli gofal sylfaenol a gofal eilaidd) a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau, i ddatblygu'r canllawiau fel ei fod yn glir i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau pa lefel o niwed sy'n rhaid ei ddioddef cyn y gellir tanio'r ddyletswydd gonestrwydd. Caiff y canllawiau eu datblygu gan roi sylw i ddiffiniadau presennol niwed, megis y rheini a ddefnyddir yn y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu sef y system bresennol ar gyfer adrodd ar ddigwyddiadau andwyol yn ymwneud â diogelwch cleifion yn y GIG. At ddibenion y ddyletswydd gonestrwydd, mae niwed yn cynnwys niwed seicolegol. Bydd cydgynhyrchu'r canllawiau a chynnwys enghreifftiau esboniadol ac astudiaethau achos yn sicrhau bod y canllawiau yn berthnasol, yn glir ac yn hygyrch i'r gwasanaeth a'r cyhoedd.
69. Caiff y ddyletswydd ei thanio lle roedd y gofal iechyd a ddarparwyd yn ffactor, neu lle y gallai wedi bod yn ffactor yn y defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef canlyniad hwnnw. Felly, rhaid bod y canlyniad yn gysylltiedig â darpariaeth y gofal gan y corff GIG yn hytrach na'i fod yn cael ei briodoli'n unig i salwch neu gyflwr sylfaenol person. Felly, nid oes yn rhaid bod yn sicr mai'r gofal iechyd a achosodd y niwed; mae'n ddigon nodi y gallai'r gofal iechyd fod wedi bod yn ffactor. Mae hyn yn golygu nad yw defnyddio'r ddyletswydd yn golygu bod y corff GIG wedi bod yn esgeulus.
70. Er y bydd y darpariaethau'n gosod y ddyletswydd ar gyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol), yn ymarferol, bydd angen i sefydliadau gael polisi cynhwysfawr a gweithdrefnau cysylltiedig yn eu lle yn nodi sut y bydd yn gweithredu ac yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd, gan gynnwys sut y bydd yn disgwyl ac yn cefnogi ei staff i wneud hynny. Bydd gosod dyletswydd yn uniongyrchol ar gyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol), yn sicrhau ei bod yn cael digon o flaenoriaeth ac yn helpu i greu'r amodau er mwyn i'r holl staff fod yn agored ac yn ddidwyll.

71. Mae'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau yr weithdrefn sy'n rhaid ei dilyn gan gorff GIG pan gaiff y ddyletswydd gonestrwydd ei thanio. Rhaid i'r weithdrefn gynnwys y ddarpariaeth a nodir yn adran 4 o'r Ddeddf. Bydd y rheoliadau felly'n cynnwys dyletswydd ar y corff GIG i wneud y canlynol:
- hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth (neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran) cyn gynted ag y bo'r corff yn ymwybodol bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei thanio. Rhoddir manylion am y weithdrefn hysbysu yn y rheoliadau;
 - rhoi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth (neu berson sy'n gweithredu ar ei ran) pwy yw'r person sydd wedi'i enwebu fel y pwynt cyswllt yn y corff ar gyfer unrhyw ymholiadau y gallai fod gan y defnyddiwr gwasanaeth am weithdrefn y ddyletswydd gonestrwydd;
 - darparu gwybodaeth i'r defnyddiwr gwasanaeth, neu rywun sy'n gweithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth, am unrhyw ymholiadau pellach sydd i'w cynnal mewn perthynas â'r amgylchiadau a arweiniodd at danio'r ddyletswydd;
 - cynnig ymddiheuriad;
 - cadw cofnodion;
 - darparu cymorth, yn unol â'r rheoliadau, i'r defnyddiwr gwasanaeth.
72. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer adrodd blynyddol gan gyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol) ynghylch p'un a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod i rym mewn perthynas â'r corff yn ystod y flwyddyn adrodd (pob blwyddyn ariannol). Wrth adrodd, bydd gofyn i gyrff GIG nodi a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod i rym yn y flwyddyn adrodd, ac os ydyw:
- pa mor aml y mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod i rym yn ystod y flwyddyn adrodd;
 - rhoi disgrifiad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at y ddyletswydd yn dod i rym;
 - nodi unrhyw gamau a gymerwyd gan y corff gyda'r bwriad o atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.
- Ond rhaid i'r adroddiad beidio ag enwi unrhyw berson sy'n derbyn neu sydd wedi derbyn gofal iechyd gan neu ar ran corff GIG, neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran person tebyg.
73. Rhaid i'r adroddiadau am onestrwydd gael eu cyhoeddi cyn gynted â bod hynny'n ymarferol, ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i ddarparwyr gofal sylfaenol anfon eu hadroddiadau gonestrwydd i'r BILL y maent wedi ymrwymo mewn trefniadau ag ef ar gyfer darparu gwasanaethau'r GIG. Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol gyhoeddi crynodeb o'r adroddiadau hynny fel rhan o'r adroddiad gonestrwydd ar wasanaethau y maent yn eu darparu'n uniongyrchol. Rhaid i Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig hefyd gyhoeddi eu hadroddiadau.
74. Bydd cydymffurfedd â'r ddyletswydd yn rhan o'r materion y bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn eu hystyried wrth arolygu ac adolygu'r GIG. Bydd y gofynion adrodd blynyddol hefyd yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ac i

Lywodraeth Cymru am y ddyletswydd a fydd yn helpu i sicrhau bod y broses yn un dryloyw.

75. Mae Adran 11(3) o'r Ddeddf yn ddiffinio beth a olygir gan y term "corff GIG". Felly, bydd y ddyletswydd yn gymwys i'r cyrff GIG canlynol yng Nghymru:

- Byrddau Iechyd Lleol
- darparwyr gofal sylfaenol (Meddygon Teulu, deintyddion, fferyllwyr ac optometryddion) mewn perthynas â' gwasanaethau'r GIG y maent yn eu darparu o dan drefniant gyda Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Awdurdodau Iechyd Arbennig gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â'r swyddogaethau y maent yn eu harfer mewn perthynas â Chymru.

76. Mae Adran 1 wrth ei darllen ag adran 11 o'r Ddeddf yn egluro pa sefydliadau fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd mewn sefyllfaoedd lle caiff gwasanaethau eu darparu gan un corff ar ran corff arall. I grynhoi:

- (i) mae corff GIG (fel y'i diffinnir yn adran 11(3) o'r Ddeddf) yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd mewn perthynas â'r holl ofal iechyd y mae'n ei ddarparu mewn gwirionedd. Felly, er enghraifft, pan fo BILI yn ymrwymo mewn trefniant â darparwr gofal sylfaenol er mwyn darparu gwasanaethau'r GIG, y darparwr gofal sylfaenol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno. Yn yr un modd, os bydd BILI yn ymrwymo mewn trefniant ag Ymddiriedolaeth er mwyn darparu gwasanaethau, yr Ymddiriedolaeth sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno;
- (ii) os yw corff GIG (fel y'i diffinnir yn adran 11(3)) yn ymrwymo mewn trefniant i ddarparu gwasanaethau gyda rhywun ac eithrio corff GIG arall, corff y GIG sy'n ysgwyddo'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd. Felly, er enghraifft, os yw BILI yn ymrwymo mewn trefniant â darparwr annibynnol i ddarparu gwasanaethau, byddai'r ddyletswydd yn aros gyda'r BILI.

Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn gymwys ddim ond pan fydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu yng Nghymru fel rhan o wasanaeth y GIG. Os, er enghraifft, bydd BILI yn ymrwymo mewn trefniadau gyda darparwr o Loegr i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, ddyletswydd gonestrwydd Lloegr o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008²³ fydd yn gymwys mewn perthynas â'r gofal hwnnw petai rhywbeth yn mynd o'i le.

Bwriedir i'r ddyletswydd sy'n gymwys i gyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol) fod yn unol â threfniadau a gynllunnir ar gyfer gofal iechyd annibynnol a reoleiddir drwy reoliadau a wneir o dan y pwerau sydd i'w canfod yn Deddf Safonau Gofal 2000²⁸ ("Deddf 2000"). Ceir hefyd ddyletswydd bresennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofal cymdeithasol fod yn agored ac yn onest.

²⁸**Deddf Safonau Gofal 2000.** Llundain: HMSO.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffaith bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod i rym yn golygu bod y gofal neu'r driniaeth a dderbynnir gan y defnyddiwr gwasanaeth wedi bod yn esgeulus. Yn ogystal, mae adran 2 o Ddeddf lawndal 2006²⁹ yn egluro nad yw cynnig ymddiheuriad, triniaeth neu unrhyw fodd arall o geisio gwneud iawn, ynddo'i hun, yn gyfystyr â chyfaddef esgeuluster neu bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i thorri.

Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon

77. Fel y trafodwyd yn gynharach, gall y ddyletswydd gonestrwydd arwain at ansawdd gwell mewn darpariaeth gofal iechyd a phrofiadau'r defnyddiwr gwasanaeth, a fydd wedyn yn cael effaith gadarnhaol ar effeithlonrwydd ac arbedion costau^{14, 15, 30}. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod bod yn agored ac yn onest yn rhoi cyfleoedd i'r corff sy'n adrodd a darparwyr eraill ddysgu o'r hyn a ddigwyddodd; yn cyfrannu at greu y data cronol sy'n ofynnol i ysgogi gwelliannau; ac yn annog gwneud penderfyniadau am wasanaethau ar sail yr hyn sydd bwysicaf - sef y canlyniadau ar gyfer cleifion presennol a chleifion y dyfodol.
78. Trwy fabwysiadu dull gweithredu system gyfan sy'n sicrhau bod cyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol), darparwyr gofal cymdeithasol rheoleiddiedig a darparwyr rheoleiddiedig gwasanaethau iechyd annibynnol yn ddarostyngedig i ddyletswydd gonestrwydd, cefnogir y cam tuag at ddull gweithredu integredig o ddarparu gwasanaethau ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yn annog y system i ymddwyn fel un yn ddiwylliannol, a bydd yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored, a dysgu, gan godi lefel ymddiriedaeth ymhlith defnyddwyr gwasanaethau.
79. Yn benodol, bydd y ddyletswydd yn cefnogi cyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol) i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi dechrau fel rhan o'r broses Gweithio i Wella²¹ i ymwreiddio ymddygiad didwyll drwy sicrhau bod tryloywder a bod yn agored gyda phobl mewn perthynas â'u gofal a'u triniaeth yn rhan arferol o'r diwylliant ymhlith y cyrff hyn yng Nghymru.
80. Bydd ei gwneud yn ofynnol i gyrff adrodd yn flynyddol yn dangos yn glir bod y ddyletswydd yn cael ei chyflawni drwy annog sefydliadau i fyfrio a dysgu; gan hyrwyddo diwylliant yn y system o fod yn agored ac yn dryloyw. Bydd hynny yn ei dro yn arwain at gynyddu lefel ymddiriedaeth cleifion yn y gwasanaeth iechyd; ac yn darparu llinell sylfaen i helpu i nodi ble y mae angen cymorth ar wasanaethau i wella, gan geisio osgoi digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.
81. Ar nodyn arall, er mwyn darparu dull gweithredu system gyfan, mae hefyd yn fwrriad gennym osod dyletswydd gonestrwydd ar ddarparwyr iechyd annibynnol rheoleiddiedig. Caiff hyn ei wneud drwy ddarpariaethau mewn rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2000²⁷.

²⁹ **Deddf lawndal** 2000. Llundain: HMSO

³⁰ Economics, F. Exploring the costs of unsafe care in the NHS. Llundain: Adran Iechyd y DU; 2014.

Y risg o beidio â llunio'r ddeddfwriaeth

82. Y brif risg o beidio â gosod dyletswydd gonestrwydd ar gyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol) yng Nghymru yw y gallai hyn rwystro achosion o niwed rhag cael eu datgelu, fel yr amlinellir yn y rhwystrau hysbys a nodir yng nghefnidir y polisi.
83. I ddarparwyr iechyd, gall dull gweithredu nad yw'n annog bod yn agored ac yn onest:
- arwain at wneud penderfyniadau am ofal a thriniaeth mewn modd amharod i gymryd risg
 - arwain at duedd i gategoreiddio digwyddiadau mewn ffyrdd sy'n osgoi'r angen i hysbysu
 - mynd ati i feithrin polisi neu ddiwylliant o gyfrinachedd
 - creu diwylliant o ofn y bydd y rheoleiddiwr yn cymryd camau; gweithredu neu y bydd hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau yn cael ei niweidio
 - arwain at lefelau isel o ymgysylltu â staff a'u cadw
 - arwain at lefelau isel o hyder ymhlith y cyhoedd yng ngwasanaethau gofal iechyd y GIG
 - arwain at golli cyfle i wneud gwelliannau parhaus yn narpariaeth gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd.
84. Felly, mae peidio â gorfodi'r ddyletswydd yn golygu bod risg na fydd achosion o niwed yn cael eu datgelu wrth unrhyw un y tu allan i'r corff lle digwyddodd y niwed, na fydd gwersi'n cael eu dysgu, a bod yr hyn a arweiniodd at y digwyddiad yn digwydd eto yn yr un lleoliad neu mewn lleoliad arall.
85. Yn ogystal â hyn, risg arall o beidio â derbyn y ddeddfwriaeth yw'r gwahaniaethau parhaus yn yr hawliau a roddir i ddinasyddion sy'n cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'u gofal neu eu triniaeth.
86. Pe na bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud, ni fyddai defnyddiwr gwasanaeth GIG Cymru yn elwa ar y ddyletswydd gonestrwydd, a byddai hyn yn ei roi o dan anfantais sylweddol o gymharu â defnyddiwr gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig yng Nghymru pe bai rhywbeth yn mynd o'i le gyda'i driniaeth. Byddai hefyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau GIG Cymru lai o hawliau o gymharu â chlaf sy'n derbyn gofal y GIG yn Lloegr neu'n yr Alban. Mae Gogledd Iwerddon wrthi'n galw am dystiolaeth ar hyn o bryd ar gyflwyno dyletswydd gonestrwydd.

CORFF LLAIS Y DINESYDD

Cefndir

87. Er mwyn gosod llwybr tuag at cael newid cadarnhaol yn y system, mae 'Cymru Iachach'⁵ yn ystyried mabwysiadu'r Nod Pedwarplyg, sef un o argymhellion allweddol yr Adolygiad Seneddol⁴ a ddisgrifir fel dull nod sy'n ysgogi datblygiad nifer o systemau iechyd a gofal cymdeithasol rhyngwladol sy'n perfformio ar lefel uchel. Un o'r pedwar llinyn, a ddehonglir ar gyfer ein cyddestun ni yng Nghymru, yw gwella ymgysylltiad a gwneud penderfyniadau ar y cyd â phobl i wella canlyniadau iechyd a lles.

88. Mae corff cynyddol o dystiolaeth yn dangos y dylai pobl fod wrth galon y system iechyd a gofal, ac mai man cychwyn unrhyw benderfyniad ddylai fod beth sydd orau i'r person cyfan:

Nododd Davies, 2012³¹:

"Analysing the real life experiences of people in your care helps to determine what individuals want and expect from their care. Patients are not outsiders to the healthcare system. In many ways, they are the only true 'insiders'. They are the ones who experience healthcare most personally – the reliability of the system and effectiveness of treatment can literally be a matter of life or death to a patient."

Mae'r *Institute of Medicine*³² yn cynnwys gofal sy'n 'canolbwyntio ar y person' fel un o'r chwe maes sy'n cynnwys ansawdd ym maes gofal iechyd. "*Person-centred - care that is respectful of and responsive to individual patient preferences, needs and values, and ensuring that patient values guide all clinical decisions.*"

Mae'r Canllaw Gwella Ansawdd gan 1000 o Fwydau, yn nodi³³:

"*Evidence shows that person-centred care can lead to improved quality, reduced waste, a better experience of care, and better use of resources.*"

89. Mae hyn yn cefnogi'r ymrwymiad a wnaed yn nogfen *Cymru Iachach*⁵ i gysylltu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol fel eu bod yn cael eu cynllunio a'u darparu o amgylch anghenion a dewisiadau unigolion.

³¹Davies, J. Person Driven Care - A study of The Esther Network in Sweden and the lessons that can be applied to enable NHS Wales to become a patient-centred healthcare system [Y Rhynggrwyd]. 1000 o Fwydau 2012. Ar gael yn: [http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/Person%20Driven%20Care%203%20May%20\(Final\).pdf](http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/Person%20Driven%20Care%203%20May%20(Final).pdf)

³²Institute of Medicine. Crossing the quality chasm: a new health system for the 21st century. Washington, D.C: National Academy Press; 2003.

³³1000 o fywydau. Y Canllaw Gwella Ansawdd - Rhifyn Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd [Y Rhynggrwyd]. 1000 o fywydau; 2013. Ar gael yn: <http://www.1000ofwydauamwy.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/Y%20Canllaw%20Gwella%20Ansawdd.pdf>

Pam y mae angen y newid

90. Yn yr Adolygiad Seneddol Interim a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017³⁴, adroddwyd bod y panel wedi clywed galwadau niferus am gynnal sgwrs well gyda'r cyhoedd am eu rhan nhw eu hunain yn eu hiechyd a'u lles, eu disgwyliadau o'r gwasanaethau, a'r hawliau a'r cyfrifoldebau a fydd ganddynt yn y dyfodol. Galwodd am gael trefniadau cryfach ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Nododd bod Cynghorau Iechyd Cymuned ym maes gofal iechyd yn enghraifft o drefniadau a allai fynd ymhellach o ran cynrychioli llais y cyhoedd.
91. Cyhoeddwyd yr Adolygiad Seneddol ym mis Ionawr 2018⁴. Un o'r prif argymhellion oedd integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn modd di-dor ochr yn ochr ag ymgysylltiad mwy integredig â dinasyddion. O dan argymhelliad 4, "*Rhoi'r Rheolaeth yn Nwylo'r Bobl*", nododd yr Adolygiad – yng nghyd-destun ymgysylltu â dinasyddion o ran "trawsnewidiad iechyd a gofal yng Nghymru, yn enwedig wrth ddylunio modelau newydd yn lleol" – fod angen gwneud llawer mwy o ymdrech i ganfod beth yw barn defnyddwyr am y gofal y maent wedi'i dderbyn, a'r canlyniadau, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei hymgorffori'n rheolaidd yn y ffordd y caiff gofal ei reoli ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol.
92. Caiff yr ymdrech i sicrhau mwy o integreiddio rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyda gwell ymgysylltiad â'r cyhoedd, hefyd ei adlewyrchu yn nodau *Cymru Iachach*⁵ sy'n amlinellu'r nod o sicrhau bod dinasyddion wrth galon dull gweithredu system gyfan o ran iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac mae'n dweud pa mor bwysig yw gwrando ar bob llais drwy broses o ymgysylltiad parhaus.

Y trefniadau presennol

93. Caiff barn pobl yn eu hardal awdurdod lleol ei chynrychioli yn gyntaf oll gan Aelodau Etholedig, sy'n gweithredu ar ran eu hetholwyr, yn craffu ar eu hawdurdodau ac yn eu dal i gyfrif ar ystod o swyddogaethau llywodraeth leol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol.
94. Mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol ar lefel strategol, nod y darpariaethau/trefniadau o dan Ddeddf 2014² yw sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd gyda'i gilydd, yn asesu anghenion y bobl yn eu hardal ac yn amlinellu, mewn cynlluniau ardal, sut y byddant yn diwallu'r anghenion hynny. Mae saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ar batrwm Byrddau Iechyd Lleol, yn gyfrifol am ymgymryd â'r gwaith hwn ac ysgogi ffordd integredig o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gofyniad i gael pobl ar bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynrychioli dinasyddion a gofalwyr ac, i helpu i ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach wrth wneud penderfyniadau, mae paneli dinasyddion yn gweithredu o dan bob un o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae dulliau cynnwys yn bodoli ar lefel genedlaethol hefyd, gan

³⁴ Cynrychiolwyr yr Adolygiad Seneddol. Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru - Adroddiad Interim [Y Rhyngrwyd]. 2017. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-07/170714-review-interim-report-cy.pdf>

lywio datblygiad polisi ehangach, drwy gynrychiolwyr dinasyddion a gofalcwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol.

95. Gan gyd-fynd â hyn, mae codau ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)³⁵ a Rhan 8 (Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)³⁶ o dan Ddeddf 2014 yn cydnabod y rôl hanfodol y gall unigolion ei chwarae o ran dylunio a darparu gofal a chymorth. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol – a phan fo'n briodol, eu partneriaid yn y bwrdd iechyd – ymgysylltu â phobl a'u cynnwys er mwyn deall cwrpas a lefel y cymorth y mae oedolion, plant a gofalcwyr yn dweud sydd eu hangen yn eu hardal, i ddiwallu eu hanghenion neu eu hatal rhag gwaethgu.
96. O ran darparu gwasanaethau, er enghraifft, mae Rheoliadau 2017¹⁰ – mewn perthynas â chartrefi gofal a chymorth cartref – yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ac unigolion cyfrifol geisio barn unigolion, ac eraill, wrth sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a ddarperir ganddynt. I wneud hyn, rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i gasglu safbwyntiau unigolion ac adrodd y rhain i'r darparwr. Rhaid i'r darparwr wedyn eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau ynghylch cynlluniau i wella'r gwasanaeth.
97. O ran iechyd, mae Cyngorau Iechyd Cymuned yn cynrychioli llais y claf yn y gwasanaeth iechyd yn eu hardal leol. Mae ardaloedd saith Cyngor Iechyd Cymuned yn cyd-fynd â ffiniau BILlau. Ceir hefyd Fwrdd o Gyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru sydd â nifer o swyddogaethau, gan gynnwys cynghori a chynorthwyo Cyngorau Iechyd Cymuned mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau a gosod safonau ar gyfer Cyngorau Iechyd Cymuned. Er bod Cyngorau Iechyd Cymuned wedi gwneud gwaith amhrisiadwy ers iddynt gael eu sefydlu, mae nifer o anafanteision sylweddol i fodel presennol y Cyngorau.
98. Yn gyntaf, mae Deddf 2006¹² yn cyfyngu ar eu swyddogaethau i faterion sy'n ymwneud â'r GIG. Eu prif swyddogaeth yw cynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn eu hardal mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd. Mae Rheoliadau³⁷ yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Cyngorau Iechyd Cymuned, megis craffu ar sut y mae'r gwasanaeth iechyd yn eu hardal yn gweithredu, darparu cyngor a chynorthwyo mewn perthynas â chwynion i oedolion sy'n dymuno gwneud cwyn am wasanaethau'r GIG, a'r pŵer i fynd mewn i eiddo ac archwilio lleoliadau lle caiff gwasanaethau'r GIG eu darparu. Fodd bynnag, nid ydynt yn gallu cynrychioli llais dinasyddion mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol.
99. Yn ail, nid yw'r Cyngorau Iechyd Cymuned wedi'u sefydlu fel cyrff cyfreithiol yn eu hawl eu hunain. Maent yn "gymdeithasau anghorfforedig". O ganlyniad, daw Cyngorau Iechyd Cymuned a Byrddau'r Cyngorau hynny dan adain

³⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-2-swyddogaethau-cyffredinol.pdf>

³⁶ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-8-ar-swyddogaeth-y-cyfarwyddwr-gwasanaethau-cymdeithasol-swyddogaethau-gwasanaethau-cymdeithasol.pdf>

³⁷ Rheoliadau Cyngorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 (OS 2010/28 (W.37)), fel y'u diwygiwyd gan OS 2015/509 (W.). Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/509/made/welsh>

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys sy'n golygu bod holl staff y Cyngorau Iechyd Cymuned yn cael eu cyflogi gan y GIG ac mai'r GIG sy'n ymrwymo i bob contract ar ran y Cyngorau Iechyd Cymuned. Maent hefyd yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo mewn trefniadau ar gyfer eu lleoliadau. Golyga hyn fod angen trefniadau atebolrwydd cymhleth ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod Cyngorau Iechyd Cymuned yn gallu gweithredu'n annibynnol.

100. Pan gafodd y Cyngorau Iechyd Cymuned eu sefydlu, dros 40 mlynedd yn ôl, ystyriwyd ei bod yn dderbyniol iddynt gael eu sefydlu fel cymdeithasau anghorfforedig; gan ddibynnu ar gorff arall i'w cynnal er mwyn gallu gweithredu. Fodd bynnag, gan ystyried y dymuniad i roi mwy o le i lais y dinesydd wrth wneud penderfyniadau, ystyrir bod angen i gorff sy'n cynrychioli buddiannau'r cyhoedd fod yn annibynnol ac na ddylai gael ei gynnal gan gorff GIG (nac unrhyw gorff cyhoeddus arall) gan fod y perygl o wrthdaro buddiannau yn rhy uchel. O ganlyniad, gan edrych o safbwynt y disgwyliadau presennol, ystyrir nad yw model cymdeithas anghorfforedig bellach yn briodol.

Adolygu'r trefniadau presennol

101. Mae mesurau a roddwyd yn eu lle i'w gwneud yn ofynnol i gynnwys dinasyddion wrth ddylunio a darparu gwasanaethau, a chryfhau llais a rheolaeth unigolion, o ran eu gofal a'u cymorth, yn ymsefydlu wrth i Ddeddf 2014 a Deddf 2016 barhau i gael eu rhoi ar waith. Bydd y Gwerthusiad Annibynnol o Ddeddf 2014, sydd ei hun wedi'i chyd-ddylunio â rhanddeiliaid, yn ystyried a yw'r Ddeddf, fel y'i bwriadwyd, yn cefnogi'r ymgysylltu hwn. Bydd yn tynnu ar waith prosiect Mesur y Mynydd³⁸, a arweinir gan Brifysgol De Cymru ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru, er mwyn casglu tystiolaeth ehangach o brofiadau dinasyddion o ofal cymdeithasol.
102. Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, ym mis Tachwedd 2019, a'i ymchwiliad i effaith Deddf 2014 mewn perthynas â gofalwyr³⁹, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu gwaith gan Fforwm Cymru Gyfan, i gynnal prosiect cenedlaethol yn 2019-20, er mwyn darparu gweithdai cydweithredol sy'n canolbwyntio ar ofalwyr ym mhob ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r rhain yn dwyn ynghyd ofalwyr, cynrychiolwyr gofalwyr ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chydweithwyr allweddol sy'n ymwneud â'r Byrddau sy'n arwain strategaethau gofalwyr. Nod y gweithdai hyn yw sefydlu grwpiau ymgysylltu rhanbarthol o ofalwyr, i gefnogi eu cynrychiolydd ar y Bwrdd a helpu i sicrhau llais cryfach ar gyfer gofalwyr sy'n rhan o'r prosesau cynllunio rhanbarthol a lleol.
103. Bydd gweithgaredd adolygu ôl-weithredu mewn perthynas â Deddf 2014 a Deddf 2016 o ddiddordeb i Fwrdd Gweithredu'r Corff, gan lywio gwaith y Bwrdd hwnnw.
104. Mae nifer o adroddiadau ac adolygiadau o Gyngorau Iechyd Cymuned wedi'u cynnal, a beth yw'r ffordd orau o gynrychioli llais y dinesydd ar lefel

³⁸ <http://mym.cymru/>

³⁹ **Gofalu am ein dyfodol:** Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â Gofalwyr
<https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12887/cr-ld12887%20-w.pdf>

ehangach yng Nghymru mewn perthynas ag iechyd. Mae'r adroddiadau'n cynnwys argymhellion sydd yr un mor berthnasol i gynrychioli llais y dinesydd mewn gwasanaethau cymdeithasol. Rydym wedi ystyried yr argymhellion yn yr amrywiol adroddiadau ac adolygiadau hyn wrth feddwl am y swyddogaethau y dylai'r Corff eu harfer, ac wedi rhoi crynodeb byr o'r argymhellion allweddol isod.

105. Wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, roedd Adolygiad Longley⁴⁰ yn gwerthuso Cynghorau Iechyd Cymuned yn dilyn diwygiadau a wnaed yn 2010. Gwnaeth yr Adolygiad nifer o argymhellion ar gyfer gwelliannau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Nododd feysydd cryf, fel gwasanaethau eiriolaeth cwynion annibynnol a chydberthnasau effeithiol rhwng Cynghorau Iechyd Cymuned a chyrff iechyd, a meysydd o "wendid parhaus"; sef cysondeb mewn perfformiad ar draws Cynghorau Iechyd Cymuned unigol, amrywiaeth yr aelodau, gwybodaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r Cynghorau.
106. Roedd yr Adolygiad hefyd yn cydnabod bod Cynghorau Iechyd Cymuned wedi bodoli, ar eu ffurf bresennol, am bron i 40 mlynedd ac er mwyn gallu darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf, efallai y byddai angen gwneud diwygiadau mwy sylfaenol i rôl a swyddogaethau Cynghorau Iechyd Cymuned. Nododd rai opsiynau posibl ar gyfer gwaith diwygio ehangach, a oedd yn cynnwys sefydlu un Cyngor Iechyd Cymuned cenedlaethol i Gymru, gyda phwyllgorau lleol i gynrychioli llais y dinesydd ar lefel leol. Mae hyn yn debyg, o ran y strwythur arfaethedig, i'r ddarpariaeth yn y Ddeddf ar gyfer Corff Llais y Dinesydd cenedlaethol gyda phresenoldeb lleol.
107. Yn dilyn *Adolygiad Longley*, cynhaliodd Ruth Marks MBE adolygiad o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ("AGIC") yn 2014²². Er ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar AGIC, roedd yr adolygiad hefyd yn edrych ar rôl a swyddogaethau Cynghorau Iechyd Cymuned. Roedd yn cydnabod pa mor bwysig ydynt wrth hyrwyddo a diogelu buddiannau cleifion ac wrth ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i gleifion a oedd yn dymuno cwyno am wasanaethau'r GIG. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod bod angen i Gynghorau Iechyd Cymuned gael proffil cyhoeddus uwch, gan nad yw llawer o bobl yn gwybod am eu bodolaeth a chan fod angen iddynt gynnig llawer mwy o gyngor a chymorth i bobl sydd â phryderon ac sy'n dymuno cwyno am y gofal iechyd a gawsant.
108. Yn fwy diweddar, roedd adolygiad OECD yn 2016¹¹ yn ystyried rôl a swyddogaethau y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru. Cadarnhawyd y dylai Cynghorau Iechyd Cymuned ganolbwyntio ar gynrychioli llais y claf. Daethant i'r casgliad bod y potensial i Gynghorau Iechyd Cymuned allu ymgysylltu â chymunedau lleol a bod yn eiriolwr i gleifion ynghylch eu pryderon yn allweddol, ond bod y gwerth a oedd yn cael ei ychwanegu gan rai o swyddogaethau eraill y Cynghorau Iechyd Cymuned yn llai eglur, yn enwedig arolygiadau a phrosesau craffu ar ofal iechyd mewn safleoedd.

⁴⁰ Longley, M ac eraill. MOVING TOWARDS WORLD CLASS? A Review of Community Health Councils in Wales [Internet]. 2012. Ar gael yn: http://wihsc.southwales.ac.uk/media/files/documents/2012-10-24/Review_of_CHCs_-_Final_report.pdf%20 http://wihsc.southwales.ac.uk/media/files/documents/2012-10-24/Review_of_CHCs_-_Final_report.pdf

Roedd yr Adroddiad yn dangos y byddai Cynghorau Iechyd Cymuned yn fwy effeithiol ac effeithlon petaent yn canolbwyntio ar fynegi llais y claf ac ymgysylltu â chyrff craffu eraill yng Nghymru, megis AGIC, i sicrhau bod pryderon cleifion yn cael eu clywed ac y gweithredir arnynt.

109. Mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n sefydlu'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn cyfyngu ar eu swyddogaethau i'r maes iechyd yn hytrach nag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac heb gorff cenedlaethol mae eu gallu i weithio'n effeithiol ar draws ffiniau BILlau yn cael ei gyfyngu. Er y gellid gwneud rhai newidiadau i'r strwythurau presennol, neu greu corff newydd i adlewyrchu swyddogaethau'r Cynghorau Iechyd Cymuned ym maes gwasanaethau cymdeithasol, ni fyddai hyn yn sicrhau dull gweithredu integredig ar draws y system.
110. Wedi i ni edrych ar y dogfennau a nodir uchod ac argymhellion yr *Adolygiad Seneddol*⁴ a dogfen *Cymru Iachach*⁵, mae'n amlwg bod cytundeb eang ar werth ac angen (1) cryfhau llais y dinesydd mewn systemau modern gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; a (2) mwy o integreiddio rhwng y ddwy system. Credwn mai'r cyfrwng gorau i fynegi llais y dinesydd a fydd yn gryfach ac yn fwy integredig, yw cael corff cenedlaethol annibynnol, gyda rhwydwaith lleol cryf yn ei fwydo, a seilwaith TG effeithlon ac effeithiol a fydd yn helpu i ymestyn cwrdd y Corff i'r nifer mwyaf posibl o ddinasyddion.

Amcanion Polisi

111. Mae cryfhau llais y dinesydd yn cefnogi egwyddorion allweddol a nodwyd yn Neddf 2014 a Deddf 2016 ac yn helpu i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer 'Cymru Iachach'⁵ lle gwrandewir ac ymgysylltir â lleisiau'r dinasyddion yn barhaus.
112. Felly, nodau'r polisi yw:
- cryfhau llais y dinesydd yng Nghymru mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau bod gan ddinasyddion fynediad at system effeithiol o sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed am faterion yn ymwneud â'u hangen a'u profiad o'r gwasanaethau hyn er enghraifft;
 - sicrhau bod gan y Corff broffil cyhoeddus uwch na'r Cynghorau Iechyd Cymuned presennol a seilwaith TG a fydd yn ei alluogi i gyrraedd llawer iawn mwy o ddinasyddion i gasglu gwybodaeth o holl sectorau o gymdeithas Cymru i sicrhau bod y lleisiau a gesglir yn cynrychioli llais dinasyddion yn deg;
 - helpu i sicrhau bod unigolion yn cael cyngor a chynhorthwy wrth gyflwyno cwyn mewn perthynas â'u gofal;
 - sicrhau mwy o harmoni ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol wrth ddefnyddio profiadau'r defnyddiwr gwasanaethau i ysgogi gwelliant.
113. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae angen corff ar Gymru sy'n gallu ceisio a chynrychioli barn dinasyddion unigol a grwpiau demograffig yn effeithiol a

hynny ar lefel leol a chenedlaethol. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen iddo ymgysylltu â BILlau, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig, awdurdodau lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus⁴¹, Gofal Cymdeithasol Cymru⁴² a sefydliadau eraill, megis yr arolygiaethau,^{43, 44, 45} a darparwyr gwasanaethau annibynnol, sy'n gyfrifol am ddarparu a gwella gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd ymgysylltu â chyrff eraill fel Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, yn ogystal â'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector hefyd yn allweddol.

114. Wrth gasglu gwybodaeth am brofiad y defnyddiwr, ystyrir y gallai'r Corff gael gafael ar wybodaeth sy'n berthnasol i'r arolygiaethau ei hystyried. Yn yr un modd, gallai'r arolygiaethau ganfod gwybodaeth neu glywed safbwyntiau gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn ystod yr archwiliadau a allai fod o ddiddordeb i'r Corff a llywio ei raglen waith. Yn ddarostyngedig i rwymedigaethau diogelu data, ystyrir y gallai'r Corff chwarae rhan wrth gasglu gwybodaeth allweddol ar gyfer byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, i gyfrannu at eu fframweithiau eu hunain o brofiad y defnyddiwr gwasanaeth. Gallai hyn hefyd lywio'r adolygiadau gan yr arolygiaethau o bosibl.
115. Bydd yn rhaid i'r Corff ddefnyddio'r holl ddulliau ymgysylltu sydd ar gael iddo, er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd niferoedd mawr o bobl i gasglu eu barn am faterion yn ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Gallai'r dulliau hyn gynnwys dulliau ar-lein megis polau piniwn ac ymgynghoriadau; ymgysylltu â nifer fawr o sefydliadau'r trydydd sector sydd hefyd â buddiannau yn y maes hwn a chynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â dinasyddion. Bydd hefyd angen iddo allu ymateb i anghenion y boblogaeth yn y dyfodol a'r newidiadau i ddelwedd y maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn yr un modd na ellir diffinio ansawdd yn ôl gwasanaethau presennol, ni all cynrychiolaeth y Corff fod ynghlwm ag un ardal ddaearyddol benodol na strwythur sefydliadol cadarn. Rhaid iddo allu gweithio'n effeithiol ar draws sectorau, lleoliadau ac ardaloedd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol; gan ei alluogi i gynnal hygyrchedd ar lefel leol, gan gadw'r gallu i ymateb i anghenion lleol a rhanbarthol, a chael dylanwad go iawn ar bolisiau cenedlaethol.

⁴¹ Byrddau Gwasanaethau Lleol [Y Rhynggrwyd]. Llyw.Cymru Gwasanaethau a Gwybodaeth Llywodraeth Cymru. 2019 [dyfynnwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/byrddau-gwasanaethau-cyhoeddus?_ga=2.165037309.372083299.1557217814-283766726.1548160944

⁴² Amdanom ni [Y Rhynggrwyd]. Gofal Cymdeithasol Cymru. 2019 [dyfynnwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yn: <https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni>

⁴³6. Amdanom ni [Y Rhynggrwyd]. Arolygiaeth Gofal Cymru. 2019 [dyfynnwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yn: https://arolygiaethgofal.cymru/amdanom-ni?_ga=2.123798538.1647979593.1557241671-1658717859.1550071711

⁴⁴Amdanom ni [Y Rhynggrwyd]. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. 2019 [dyfynnwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yn: <http://hiw.org.uk/about/?skip=1&lang=cy>

⁴⁵Amdanom ni [Y Rhynggrwyd]. Addysg a Gwella Iechyd Cymru. 2019 [dyfynnwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yn: <https://aagic.gig.cymru/amdanom-ni1/amdanom-ni/>

116. Bydd angen i'r Corff ymgysylltu â chyrff GIG, awdurdodau lleol a phersonau/sefydliadau perthnasol eraill i sefydlu perthynas weithio dda, datblygu rhwydweithiau eang a mynd ati mewn modd cydweithredol i nodi'r gwerth y gall ei ychwanegu at y trefniadau presennol ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ehangach wrth ddylunio a darparu gwasanaethau iechyd a gwasanaeth cymdeithasol. Bydd y Corff yn darparu ffordd arall o gryfhau lleisiau unigol a lleisiau cyfunol ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol, ar draws buddiannau cyhoeddus lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Felly, bydd yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ychwanegol i gynghorwyr lleol, Aelodau o'r Senedd ac eraill sydd eisiau ac angen gwybodaeth ac sydd eisiau ac angen gwybod beth yw barn pobl yn eu hardaloedd ar agweddau penodol ar iechyd a gofal cymdeithasol.

Diben y Ddeddfwriaeth

117. Mae darpariaethau'r Ddeddf yn sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a fydd:

- a. yn sefydlu un corff annibynnol yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn y maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sy'n adlewyrchu natur ryng-ddibynnol y gwasanaethau hyn. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn ymdrin ag iechyd yn unig. Cydnabuwyd yr angen am hyn yn Adolygiad Longley⁴⁰ a'r Adolygiad Seneddol⁴;
- b. â'r gallu i ddarparu cyngor a chynhorthwy mewn perthynas â chwynion y GIG a chwynion yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol lle nad yw gwasanaethau eisoes ar waith (gweler isod);
- c. yn gorff corfforaethol unigol. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb yn y trefniadau a'r gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru; yn rhoi rheolaeth mwy canolog na'r hyn sydd gan Fwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned ar hyn o bryd; yn hwyluso gweithio trawsffiniol; ac, yn wahanol i'r Cynghorau Iechyd Cymuned, yn galluogi'r Corff i gyflogi staff ac ymrwymo mewn contractau a fydd yn rhoi mwy o annibyniaeth a dileu rhai o'r cymhlethdodau ymarferol sy'n bodoli ar hyn o bryd;
- d. â "dannedd" fel bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddarparu a diogelu darpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol roi sylw i sylwadau a wneir gan y Corff, a bod yn rhaid iddynt wneud trefniadau i'w gefnogi wrth arfer ei swyddogaethau (fel yr amlinellir isod).

118. Bydd y Ddeddf yn cyflawni'r newidiadau hyn drwy ddiddymu'r Cynghorau Iechyd Cymuned, a barhawyd o dan adran 182 o Ddeddf 2006¹², a Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned, a ddarparwyd ar ei gyfer ym m mharagraff 4 o Atodlen 10 i'r Ddeddf honno.

119. Mae'r Ddeddf yn sefydlu'r Corff a fydd yn arfer y swyddogaethau canlynol:

- a. cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol drwy geisio barn y cyhoedd am y gwasanaethau hyn. Caiff gwasanaethau iechyd eu diffinio'n fras fel

gwasanaethau a ddarperir o dan neu yn rhinwedd Deddf 2006¹² ar gyfer neu mewn cysylltiad ag (i) atal, rhoi diagnosis neu drin salwch neu (ii) hyrwyddo a diogelu iechyd y cyhoedd. Yn yr un modd, caiff gwasanaethau cymdeithasol eu diffinio'n fras drwy gyfeirio at swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol fel y'u nodir yn adran 143 o Ddeddf 2014². Wrth wneud hynny, rhaid i'r Corff roi sylw, lle y bo'n briodol, i bwysigrwydd ymgysylltu wyneb yn wyneb â'i staff, neu eraill sy'n gweithredu ar ei ran, a gydag unigolion wrth geisio eu barn. (adran 13)

- b. hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'i swyddogaethau, cyhoeddi datganiad o bolisi yn nodi sut y mae'n bwriadu gwneud hyn a sut y mae'n bwriadu ceisio barn aelodau'r cyhoedd. Rhaid i'r datganiad hefyd, yn arbennig, bennu sut y mae'r Corff yn bwriadu cynrychioli buddiannau ei staff a gwirfoddolwyr, bod yn hygyrch iddynt, a sicrhau eu bod yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â phobl ar draws Cymru. Bydd hyn yn hwyluso mwy o ymgysylltiad rhwng y cyhoedd a'r Corff. Er mwyn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd bydd yn hanfodol bod gan y Corff strategaeth i sicrhau'r ymgysylltiad mwyaf posibl gydag aelodau'r cyhoedd ledled Cymru, gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael iddo. Ein gobaith yw y bydd hyn yn galluogi'r Corff i gyrraedd niferoedd mawr o'r cyhoedd drwy bolau piniwn ar-lein, grwpiau trafod ac ymgynghoriadau. Ystyrir bod hyn yn allweddol wrth alluogi'r Corff i gyrraedd mwy o bobl a rheini'n grwpiau mwy amrywiol, gan hefyd roi sylw i bwysigrwydd ymgysylltu wyneb yn wyneb, lle y bo hynny'n briodol. Bydd angen i'r Corff ymgysylltu nid yn unig â defnyddwyr presennol y gwasanaethau, ond hefyd â defnyddwyr blaenorol, darpar ddefnyddwyr posibl, aelodau o deuluoedd y defnyddwyr gwasanaethau etc, er mwyn sicrhau bod y safbwyntiau a gesglir mor gynrychioladol â phosibl. (adran 14)
- c. gwneud sylwadau i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Awdurdodau Lleol ynghylch unrhyw fater y mae'n ei ystyried yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, ar ôl ceisio barn y cyhoedd. Mae hyn yn galluogi'r Corff, er enghraifft, i wneud sylwadau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau ynghylch materion sy'n ymwneud â newidiadau i wasanaethau'r GIG ac y gallai hefyd wneud sylwadau i awdurdodau lleol mewn perthynas â newid arfaethedig ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Gallai hefyd wneud sylwadau yn ymwneud â phrofiad y cyhoedd o wasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol. (adran 15). Ni fyddai'n golygu gwneud sylwadau am achosion unigol, gan mai dyna yw diben y swyddogaeth cyngor a chymorth ar gwynion.
- d. y pŵer i roi cyngor a chymorth o ran cwynion yn ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y Corff yn gallu darparu cymorth i'r graddau y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion rhesymol, i unigolion sy'n gwneud neu sy'n bwriadu gwneud cwynion, tebyg i'r rhai canlynol:

- i. chwynion y GIG – bydd y Corff yn rhoi cyngor a chymorth mewn perthynas â chwynion a wneir o dan weithdrefn gwyno y GIG.
 - ii. chwynion y gwasanaethau cymdeithasol – bydd y Corff yn rhoi cymorth wrth wneud cwyn i awdurdod lleol am wasanaethau cymdeithasol a ddarperir neu a drefnir gan awdurdod lleol (ac eithrio grŵp o gwynion a wneir gan blant a phobl ifanc lle mae dyletswydd eisoes ar awdurdodau lleol i drefnu cymorth (rhagor o wybodaeth isod);
 - iii. chwynion i ddarparwr gofal cymdeithasol rheoleiddiedig⁴⁶; mae hyn yn caniatáu i'r Corff gynorthwyo personau sy'n dymuno gwneud cwyn yn uniongyrchol i ddarparwr gwasanaeth rheoleiddiedig fel y'i diffinnir yn adran 2 o Ddeddf 2016⁹. Ar hyn o bryd, mae hyn yn golygu y gallai'r Corff helpu gyda chwyn a wneir yn uniongyrchol i gartref gofal, darparwr llety diogel, canolfan gwasanaeth teuluol preswyl, gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion, gwasanaeth eirioli neu wasanaeth cymorth cartref (fel y'i diffinnir yn Atodlen 1 ac mewn rheoliadau a wneir o dan adran 2 o Ddeddf 2016⁹).
 - iv. chwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, darparwyr cartrefi gofal neu ddarparwyr gofal cartref.
120. Ni fydd y Corff yn rhoi cyngor a chymorth gyda chwynion i blant a phobl ifanc mewn perthynas â chwynion am wasanaethau cymdeithasol gan fod ganddynt eisoes hawliau statudol i gael cymorth gan yr awdurdod lleol o dan Ddeddf 2014². Nid yw'n fwriad felly i ddyblygu'r ddarpariaeth sydd eisoes yn cael ei darparu gan awdurdodau lleol.
121. Wrth ystyried neu wneud trefniadau ar gyfer darparu cymorth, rhaid i'r Corff roi sylw i'r pwysigrwydd o sicrhau, lle y bo'n briodol, bod ymgysylltu wyneb yn wyneb yn digwydd rhwng ei staff, neu bobl eraill sy'n gweithredu ar ei ran, ac unigolion sy'n ceisio cymorth. (adran 16)
122. Yn Adolygiad Longley ac Adolygiad Marks, nodwyd nad oedd digon o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd am rôl y Cynghorau Iechyd Cymuned. Mae hyn yn rhwystr difrifol i brif swyddogaeth y Corff, sef casglu barn dinasyddion. Fel y nodir uchod, er mwyn datrys y mater, mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y Corff i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau a llunio a chyhoeddi datganiad polisi yn nodi sut y mae'n bwriadu hyrwyddo ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau a sut y bydd yn ceisio barn y cyhoedd. Bydd y Corff yn gallu defnyddio pob dull ymgysylltu modern, yn enwedig dulliau ar-lein megis ymgynghoriadau ar-lein, polau piniwn, grwpiau trafod a pholau cydgynghorol. Gan gadw mewn cof pa mor bwysig ydynt, ynghyd â dulliau ymgysylltu mwy traddodiadol megis cyfarfodydd wyneb yn wyneb a gweithio ar draws sectorau, dylai hyn sicrhau bod y Corff yn cyrraedd llawer mwy o ddinasyddion, sef un o nodau allweddol y diwygiadau hyn, er mwyn sicrhau bod llais y dinasyddion mor ddilys â phosibl.

⁴⁶O fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

123. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Awdurdodau Lleol i ystyried sylwadau a wneir iddynt gan y Corff am faterion iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu pan fyddant yn arfer swyddogaeth sy'n ymwneud â'r sylwadau hynny, rhaid iddynt ystyried y sylwadau a gallu dangos eu bod wedi gwneud hynny. Mae'r gofyniad hwn yn mynd at wraidd y mater ac mae'n fwy na thicio blychau. Rhaid i gyrff GIG ac awdurdodau lleol gadw meddwl agored ac ystyried beth yw'r ffordd orau o ystyried pob sylw. Gall hyn olygu rhannu sylwadau â Phwyllgorau Ansawdd a Diogelwch GIG neu bwyllgorau llywodraeth leol, neu rannu sylwadau perthnasol â phartneriaid megis Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel y bydd llais defnyddwyr gwasanaethau yn rhan annatod o'r broses benderfynu ac yn cael ei ystyried yn y broses honno. Gall sylwadau, er enghraifft, ymwneud â newidiadau i wasanaeth a gynigir gan gyrff GIG neu awdurdodau lleol, a gellir eu hystyried hefyd yn y broses gynllunio. Disgwylir i'r Corff ymgysylltu â chyrff GIG ac awdurdodau lleol, a datblygu perthynas adeiladol â nhw. Disgwylir hefyd y bydd ystyried sylwadau yn rhan allweddol o hyn. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar gyrff GIG ac awdurdodau lleol i roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â sylwadau a wnaed iddynt gan y Corff. Y bwriad yw y bydd y canllawiau hyn, er enghraifft, yn dangos pa mor bwysig ydyw i gyrff GIG ac awdurdodau lleol ddiweddarau'r Corff yn gyson wrth ystyried sylwadau a wneir. (adran 15).
124. Mae dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac awdurdodau lleol i hyrwyddo gwaith y Corff i bersonau sy'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir ganddynt neu ar eu rhan. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y byddai dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol i hyrwyddo gweithgareddau'r Corff i'r personau hynny y mae'n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol iddynt, er enghraifft mewn lleoliad gofal eilaidd, ac hefyd i ddefnyddwyr gwasanaethau gofal sylfaenol y mae'n eu trefnu gyda Meddygon Teulu, deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Corff a'r swyddogaethau y mae'n eu harfer ymhlith aelodau'r cyhoedd. Bydd hyn eto yn helpu i dawelu beirniadaethau sydd wedi'u hanelu at Gynghorau Iechyd Cymuned am beidio â chael proffil cyhoeddus ddigon uchel. (adran 17)
125. Mae dyletswydd hefyd ar Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac ALLau i ddarparu unrhyw wybodaeth i'r Corff sy'n rhesymol ofynnol er mwyn ei alluogi i gynnal ei swyddogaethau. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, pan fo newidiadau i'r gwasanaeth iechyd yn cael eu cynnig, byddai'r Corff yn gallu gofyn am wybodaeth yn ymwneud â chynllunio a gweithredu gwasanaethau a chynigion am newid. Fodd bynnag, ni ellir ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac ALLau ddatgelu gwybodaeth pe bai'n anghyfreithlon gwneud hynny. Pan gaiff cais datgelu gwybodaeth ei wrthod, rhaid nodi'r rhesymau am hynny yn ysgrifenedig. (adran 18)
126. Mewn ymateb i bryderon a godwyd yn ystod y broses graffu, yn arbennig y pryderon hynny gan Gynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru, cafodd y Bil

ei ddiwygio yng Nghyfnod 3. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch:

a. ceisiadau a wneir gan y Corff ar gyfer cael mynediad i eiddo er mwyn ceisio barn unigolion ynglŷn â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol

b. pan cytunir i ganiatáu mynediad i'r eiddo hwnnw, sut i ymgysylltu ag unigolion ar yr eiddo hwnnw at y diben hwnnw.

Mae'r term "eiddo" yn golygu unrhyw eiddo lle mae gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu. Bydd y cod yn berthnasol i'r Corff, BILlau, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac ALLau a fydd â dyletswydd i roi sylw iddo wrth arfer eu swyddogaethau perthnasol. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Corff, cyrff GIG, awdurdodau lleol ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol wrth baratoi'r cod.

127. Y bwriad yw y bydd y cod yn amlinellu'r egwyddorion a'r ystyriaethau allweddol sy'n gysylltiedig â'r Corff yn gwneud cais i gael mynediad i eiddo er mwyn casglu barn am wasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol; sut y dylai'r ceisiadau hyn gael eu hystyried gan gyrff GIG ac awdurdodau lleol a, pan y cytunir i ganiatáu mynediad i eiddo, amlinellu rhai o'r egwyddorion ar gyfer ymgysylltu ag unigolion.

128. Un o brif fanteision paratoi a chyhoeddi cod ymarfer yw bod y cod yn gallu gweithredu mewn ffordd sy'n cydnabod anghenion ac amgylchiadau pobl sy'n derbyn gofal a chymorth mewn lleoliadau gwahanol iawn ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.

129. Ym amodol ar ymgynghoriad, ystyrir hefyd y gallai'r cod cael ei gysylltu â darpariaeth bresennol, megis honno yng nghod ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)³⁵ a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2014, sy'n cefnogi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau a chyfrannu at y gwaith o werthuso ac adolygu gwasanaethau. At hynny, gall gydnabod yr angen i ystyried materion megis diogelu hawliau dynol, preifatrwydd ac urddas defnyddwyr gwasanaethau wrth ystyried ceisiadau am fynediad. (adran 19)

130. Bydd dyletswydd ar y Corff, awdurdodau lleol a chyrff GIG i gyd i wneud trefniadau i gydweithredu, gyda golwg ar gefnogi ei gilydd i godi ymwybyddiaeth o'r Corff (eu dyletswyddau o dan adrannau 14 ac 17). Bydd dyletswydd arnynt i gefnogi'r Corff wrth geisio barn y cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (adran 13(2)). Bydd natur y cydweithredu yn dibynnu ar yr amgylchiadau ond, er enghraifft, pe bai'r Corff yn ceisio barn cleifion am y mynediad a gawsant at wasanaethau orthodontig, gallai wneud trefniadau gyda byrddau iechyd i anfon holiaduron at ddefnyddwyr gwasanaethau presennol neu flaenorol. (adran 20.)

131. Mae Atodlen 1 i'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch swyddogaethau a dyletswyddau'r Corff. Mae paragraff 13 yn rhoi'r hawl i'r Corff wneud unrhyw beth a allai hwyluso'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau, neu sy'n ffafriol i'w cyflawni neu'n gysylltiedig â'u cyflawni. Mae hyn yn galluogi'r Corff i recriwtio gwirfoddolwyr i'w gynorthwyo i gynnal ei swyddogaethau, y tu allan i'r broses penodiadau cyhoeddus. Rhagwelir y byddai grymuso'r Corff i recriwtio ei wirfoddolwyr ei hun yn arwain at gael sylfaen mwy amrywiol a chynaliadwy o wirfoddolwyr i'w gynorthwyo i gynnal ei swyddogaethau.
132. Bydd y Corff yn gorff corfforaethol sydd â'r gallu i recriwtio a chyflogi staff i ymrwymo mewn contractau ar gyfer llety a gwasanaethau. Bydd gan y Bwrdd gadeirydd, dirprwy gadeirydd ac o leiaf 6, ond ddim mwy nag 8 person arall, i gyd yn aelodau anweithredol, a gaiff eu penodi gan Weinidogion Cymru. Bydd prif weithredwr y Corff - a'r swyddog cyfrifyddu - yn aelod gweithredol o'r Bwrdd. Os yw'r Corff yn cydnabod undebau llafur, rhaid iddo wahodd pob un o'r undebau hynny i enwebu aelod cyswllt o'r Bwrdd heb hawliau pleidleisio. Rhaid i aelodau anweithredol o'r Bwrdd benodi un o'r personau a enwebwyd, ac mae'n rhaid iddo, yn ogystal â bod yn aelod o undeb gydabyddedig, hefyd fod yn un o gyflogeion y Corff.
133. Bydd y Corff yn cael ei ariannu gan Weinidogion Cymru, ac felly bydd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (yr un model â Gofal Cymdeithasol Cymru, er enghraifft⁴²). Dyma gam cadarnhaol i ffwrdd o'r model cymdeithas anghorfforedig presennol a ddefnyddiwyd i sefydlu'r Cynghorau Iechyd Cymuned, a bydd yn golygu na fydd y trefniadau atebolrwydd cymhleth sy'n ofynnol ar hyn o bryd i sicrhau annibyniaeth weithredol y Cynghorau Iechyd Cymuned yn ofynnol ar gyfer y Corff.
134. Mae'r Ddeddf yn sefydlu'r Corff i fod yn gorff cenedlaethol. Caiff sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau i gynnwys pobl nad ydynt yn aelodau o'r Corff (er enghraifft staff a gwirfoddolwyr), a gwneud rheolau i reoleiddio ei weithdrefnau ei hun. Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi strwythur lleol neu ranbarthol. Y Corff fydd i benderfynu ar y strwythur y bydd ei angen arno i allu cynnal ei swyddogaethau ym mhob rhan o Gymru (gweler paragraff 119). Er mwyn gwneud hyn, rhagwelir y bydd, mwy na thebyg, yn cyd-fynd â llinellau y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
135. Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Corff gyhoeddi cynllun yn nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau, gan gynnwys ei amcanion a'i flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn. Rhaid i'r Corff ymgynghori â'r bobl hynny y mae'n eu hystyried yn briodol ynghylch ei amcanion a'i flaenoriaethau arfaethedig. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, rhaid i'r Corff gyhoeddi ei adroddiad blynyddol ynghylch arfer ei swyddogaethau. Rhaid anfon copi i Weinidogion Cymru a'i osod gerbron y Senedd. Bydd hyn yn dangos sut y mae'r Corff wedi cyflawni yn erbyn ei gynlluniau i gynrychioli buddiannau'r cyhoedd o ran gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
136. Rhaid i'r Corff gadw cyfrifon a chofnodion priodol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a rhaid iddo baratoi datganiad blynyddol o gyfrifon i'w gyflwyno i

Weinidogion Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio, ardystio ac adrodd ar gyfrifon y Corff. Rhaid i'r Archwilydd osod copi o'i ddatganiad a'i adroddiad ardystiedig gerbron y Senedd. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Archwilydd roi ei farn ar p'un a yw gwariant y Corff yn gyfreithlon ai peidio.

137. Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o Gyngorau Iechyd Cymuned i'r Corff.

Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon

138. Mae sefydlu Corff Llais y Dinesydd fel corff annibynnol newydd yn cwmpasu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn golygu y gellir mabwysiadu dull cydlynol i gynrychioli llais dinasyddion ar draws y maes iechyd a gwasanaethau cymdeithas, sy'n gyson ag argymhellion sy'n codi o'r *Adolygiad Seneddol*⁴ a'n gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mwy integredig fel y nodir yn nogfen *Cymru Iachach*⁵.
139. Bydd gan y Corff y gallu i fynegi safbwyntiau dinasyddion mewn trafodaethau a phenderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan ganiatáu pobl i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Rhagwelir y bydd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael ei dderbyn yn gadarnhaol gan Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru ac ALLau a'i ddefnyddio i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'r dinasyddion. Mae holl gyrff cyhoeddus Cymru yn cydnabod pa mor werthfawr yw ymgysylltu â dinasyddion, ac mae'r holl ddogfennau a nodir ym mharagraffau 104 i 110 yn cydnabod pa mor bwysig ydyw.
140. Rhagwelir hefyd y bydd y Corff yn ymgysylltu â grwpiau, sefydliadau a chyrrff eraill sydd â diddordeb yn safbwyntiau dinasyddion mewn perthynas â materion iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn arbennig, ymddengys bod cysylltiad clir rhwng gwaith y Corff a'r paneli dinasyddion a sefydlwyd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydliadau'r trydydd sector sydd â diddordeb yn y gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir i bobl Cymru.
141. Mae creu'r Corff newydd hefyd wedi rhoi cyfle i ystyried a yw swyddogaethau'n cael eu dyblygu yn y trefniadau presennol. Ar hyn o bryd, mae gan Gyngorau Iechyd Cymuned y pŵer i "archwilio" eiddo lle caiff gofal y GIG ei ddarparu. Mae'r pŵer hwn yn dyddio'n ôl cyn i AGIC gael ei greu.
142. Ni fydd gan y Corff y pŵer i arolygu oherwydd cytunir yn gyffredinol y dylai'r cyfrifoldeb am arolygu'r ffordd y caiff y gwasanaethau eu darparu gael ei ysgwyddo gan AGIC (mewn perthynas â gwasanaethau iechyd) ac Arolygiaeth Gofal Cymru⁴³ ("AGC") mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r ddau yn arolygiaethau proffesiynol sy'n cynnwys arolygwyr a staff cysylltiol sydd wedi'u hyfforddi i ymgymryd â'r rôl ac sydd â'r cymwysterau proffesiynol perthnasol lle y bo hynny'n briodol.

143. Mae'r dull gweithredu hwn, sydd â swyddogaethau wedi'u diffinio'n glir rhwng y cyrff hyn, yn golygu bod y Corff yn rhydd i ganolbwyntio ar ei swyddogaeth graidd sef cynrychioli safbwyntiau'r cyhoedd mewn materion iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r farn a fynegwyd yn Adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ei bod yn aneglur pa werth ychwanegol sy'n deillio o swyddogaeth arolygu Cynghorau Iechyd Cymuned.
144. Rhagwelwn y bydd y Corff yn ymrwymo i Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gydag AGIC ac AGC a fydd yn disgrifio sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd. Er bod y cyrff hyn yn arfer gwahanol swyddogaethau, mae eu swyddogaethau, mewn nifer o ffyrdd, yn ategu ei gilydd a bydd nifer o achlysuron lle bydd o fudd iddynt weithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth. Er enghraifft, efallai y bydd y Corff yn clywed gan ddefnyddwyr gwasanaethau dro ar ôl tro bod diffygion mewn triniaeth ar ward benodol, a dyma'r math o wybodaeth y gallai'r Corff ddymuno ei rannu ag AGIC (er mwyn llywio ei raglen arolygu) yn ogystal â'i rhannu â'r sefydliad dan sylw.
145. Bydd hefyd gan y Corff y gallu i gynrychioli personau sy'n dymuno gwneud cwyn am wasanaethau'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol (ac eithrio plant sydd â hawliau statudol presennol o dan Ddeddf 2014²). Mae caniatáu i'r Corff ddarparu cyngor a chymorth ynghylch cwynion mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o fudd i'r unigolyn, gan ei gwneud yn haws llywio drwy'r system gwyno, gwella ei brofiad a sicrhau arbedion effeithlonrwydd sefydliadol.
146. O ganlyniad, bydd y ddeddfwriaeth yn atgyfnerthu'r trefniadau presennol ar gyfer casglu barn y dinesydd mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er budd pobl yng Nghymru drwy sicrhau dull gweithredu system gyfan; sicrhau cysondeb a chydlyniaeth ar draws y system iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Y risg o beidio â llunio'r ddeddfwriaeth

147. Cafodd y Cynghorau Iechyd Cymuned eu sefydlu i weithio fel rhan o'r gwasanaeth iechyd fel ag yr oedd mwy na 40 mlynedd yn ôl. Mae'r system iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi newid ac mae'n parhau i newid. Os na chyflwynir y ddeddfwriaeth i ddisodli'r Cynghorau Iechyd Cymuned gyda chorff newydd, bydd swyddogaethau'r Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yn parhau i adlewyrchu hen fodel y gwasanaeth iechyd a dod yn llai ac yn llai effeithiol a chynaliadwy. Mae'r dogfennau y cyfeiriwyd atynt uchod yn egluro bod diffygion ym model presennol y Cynghorau Iechyd Cymuned, ac o ganlyniad ystyrir ei bod yn hanfodol ei newid am Gorff newydd i arfer swyddogaethau ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.
148. Oni bai bod y ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno, bydd Cynghorau Iechyd Cymuned yn parhau i gael eu cyfyngu i arfer swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau iechyd. Collir cyfle i greu corff newydd sy'n gallu arfer swyddogaethau ar draws y maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

sy'n adlewyrchu'r cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mwy integredig. Byddai statws presennol y Cynghorau Iechyd Cymuned fel sefydliad sydd wedi'i "gynnal" gan gorff GIG, nad yw'n gallu cyflogi staff nac ymrwymo i gontractau ynddo'i hun, hefyd yn parhau. Ni chaiff hyn ei ystyried yn ddymunol iawn o ran polisiâu, oherwydd ni ddylai corff sy'n cynrychioli llais cleifion barhau i gael ei gynnal gan gorff GIG. Bydd creu'r Corff fel endid corfforaethol yn ei alluogi i addasu'r ffordd y mae'n recriwtio gwirfoddolwyr. Heb y newid hwn, bydd y cyfle i atgyfnerthu cynaliadwyedd ac amrywiaeth gwirfoddolwyr yn cael ei golli.

149. Wrth i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol barhau i esblygu i fod yn wasanaethau di-dor sy'n canolbwyntio ar y person, bydd angen gwneud penderfyniadau allweddol ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol a fydd yn gosod trywydd ar gyfer y 40 mlynedd nesaf. Bydd methu â grymuso'r dinesydd yn briodol i ddylanwadu ar y cyfeiriad hwn yn arwain at wneud penderfyniadau am y rhesymau anghywir; gwneud penderfyniadau sy'n niweidio iechyd a lles grwpiau o'r boblogaeth a gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y mesurau canlyniadau anghywir oherwydd nad oedd gan y rheini oedd yn gwneud penderfyniadau dull effeithiol i ofyn i ddinasyddion pa ganlyniadau oedd yn bwysig iddyn nhw. Y perygl yw y byddem felly yn methu â gwreiddu'r uchelgeisiau a nodir yn nogfen Cymru Iachach⁵ ynghylch llais cleifion, fel yr amlinellir ym mharagraff 110.

IS-GADEIRYDDION YMDDIRIEDOLAETHAU'R GIG

Cefndir

150. Ar hyn o bryd, nid yw'r trefniadau cyfansoddiadol ac aelodaeth y darperir ar eu cyfer mewn perthynas ag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol yn gyson, ac mae gan hyn y potensial i rwystro ymdrechion i sefydlu dulliau gweithredu cyson o ran arweinyddiaeth, ansawdd a llywodraethiant.
151. Mewn perthynas â BILlau, mae Atodlen 2 i Ddeddf 2006¹² yn darparu y gall Is-gadeiryddion gael eu penodi i'r Bwrdd lle y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod hynny'n briodol. Mae Rheolau Sefydlog Enghreifftiol yn cyfeirio⁴⁷ at rôl Is-gadeiryddion ac yn nodi rôl gorfforaethol ar draws holl gyfrifoldebau'r Bwrdd (Adran B1.1.6 ac 1.4.7) a briff penodol ar gyfer goruchwyllo a chraffu ar berfformiad BILlau wrth gynllunio, darparu a gwerthuso gofal sylfaenol, iechyd cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl (Adran 1.4.9).
152. Mewn perthynas ag Ymddiriedolaethau'r GIG fodd bynnag, nid oes pŵer cyfwerth i Weinidogion Cymru benodi Is-gadeirydd. Mae'r un trefniadau'n bodoli ar draws pob un o dair Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru.
153. Fodd bynnag, nid oes dim yn y gyfraith i atal Ymddiriedolaeth y GIG rhag penodi Is-gadeirydd o blith ei haelodau statudol ei hun, ond byddai'r rôl hon yn ychwanegol at y penodiad gwreiddiol.

⁴⁷Llywodraeth Cymru. Rheolau Sefydlog Enghreifftiol: Cadw a Dirprwyo Pwerau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol. [Y Rhynggrwyd]. Llywodraeth Cymru; 2014. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/LHB%20Model%20Standing%20Orders%20Reservation%20and%20Delegation%20of%20Powers%20%28March%202014%29.pdf>

Pam y mae angen y newid

154. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Byrddau'r Ymddiriedolaethau a Gweinidogion Cymru wedi gweld bod rôl a swyddogaeth yr Is-gadeirydd yn werthfawr ac yn ofyniad angenrheidiol i Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae newidiadau i'r amgylchedd allanol yn golygu bod Is-gadeiryddion yn cael eu galw'n rheolaidd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cydweithredol sy'n seiliedig ar bartneriaeth ar draws Cymru gyfan. Cafodd hyn ei amlygu gan ymatebion y gwasanaeth a ddaeth i law yn ymgynghoriadau'r Papur Gwyrdd⁴⁸ a'r Papur Gwyn²⁶. Gofynnir yn amlach i Is-gadeiryddion ddirprwyo ar ran y Cadeirydd, sydd â'i rôl wedi ehangu yn yr un modd, wrth i'r Ymddiriedolaethau ddod yn fwy integredig o fewn y GIG yn ehangach. Felly, croesewir darpariaeth sy'n galluogi Is-gadeirydd i gael ei benodi'n statudol, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau a sicrhau cysondeb ar draws holl sefydliadau GIG Cymru.

Amcanion Polisi

155. Mae'r polisi yn ceisio gwella trefniadau ansawdd a llywodraethiant o fewn Ymddiriedolaethau'r GIG drwy gyflwyno rôl ffurfiol i Is-gadeiryddion ar gyfer pob Ymddiriedolaeth. Bydd hyn yn safoni ac yn egluro rolau a chyfrifoldebau trefniadau Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion ar draws Cymru; yn atgyfnerthu arweinyddiaeth ac felly'n parhau â'r ymrwymiad i sicrhau gwelliant yn safonau gwasanaethau o ansawdd a phrofiad cleifion.

Diben y Ddeddfwriaeth

156. Diben darpariaethau'r Ddeddf yw sicrhau cysondeb a pharhad gwasanaethau o ansawdd ar draws holl Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru drwy sicrhau bod pob Cadeirydd yn cael ei gefnogi yn ei rôl gan Is-gadeirydd.
157. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 3 i Ddeddf 2006¹² er mwyn darparu y caiff Gweinidogion Cymru benodi is-gadeiryddion i Ymddiriedolaeth y GIG, gan felly sicrhau cysondeb â BILlau mewn perthynas â'r rôl honno.

Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon

158. Bydd Is-gadeiryddion yn galluogi byrddau Ymddiriedolaethau'r GIG i weithredu'n fwy effeithiol, effeithlon a chyson ar draws Cymru. Bydd yr Is-gadeirydd yn rhannu cyfrifoldebau â'r Cadeiryddion. Bydd yr eglurder hyn yn gwella trefniadau llywodraethu ar gyfer Ymddiriedolaethau, gan arwain at arbedion effeithlonrwydd mewn arweinyddiaeth a fydd yn llifo drwy

⁴⁸Llywodraeth Cymru. Papur Gwyrdd: Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd [Y Rhyngwryd] Llywodraeth Cymru; 2015. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/papur-gwyrdd-ein-hiechyd-ein-gwasanaeth-iechyd>

strwythurau'r Ymddiriedolaethau, a chael effaith gadarnhaol ar safonau ansawdd gwasanaethau a gwella profiad cleifion.

Y risg o beidio â llunio'r ddeddfwriaeth

159. Ar hyn o bryd, mae Ymddiriedolaethau'n ceisio penodi Is-gadeirydd, ond drwy weithio o fewn y fframwaith statudol presennol, mae hyn yn creu anghydraddoldebau, gan gynnwys mwy o ymrwymiad amser i'r rheini sy'n ymgymryd â'r rôl, gyda threfniadau lleol yn cael eu datblygu mewn perthynas â thaliadau cydnabyddiaeth ar gyfer y cyfrifoldeb a'r ymrwymiad amser ychwanegol hynny. Drwy ddarparu ar gyfer rôl statudol Is-gadeirydd penodol, gellir cael gwared ar yr anghydraddoldebau hyn.

160. Yn ogystal, drwy greu swydd sy'n gofyn am fwy o ymrwymiad amser, gallai hyn ehangu'r pwll o ymgeiswyr a denu diddordeb gan ymgeiswyr sydd â set o sgiliau gwahanol a mwy priodol. Mae'r dull presennol yn dibynnu ar y ffaith bod gan yr Aelodau Annibynnol:

- a) yr amser i gyflawni'r rôl;
- b) y sgiliau priodol i weithredu ar lefel Is-gadeirydd a dirprwy i'r Cadeirydd.

Drwy wneud dim, bydd yr anghyfartalwch hwn yn parhau, a gallai effeithio'n negyddol ar yr unigolyn sy'n gwneud y rôl a chyfyngu ar ei allu i gyflawni'r rôl i'w llawn botensial.

Gweithredu a Darparu

Gwella canlyniadau ar gyfer rhannau o gymdeithas sydd dan anfantais neu wedi'u hallgáu

161. Mae Deddf Cydraddoldeb (2010)⁴⁹ yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a chyrrff cyhoeddus ystyried effaith y penderfyniadau y maent yn eu gwneud ar yr angen i ddileu gwahaniaethu a sicrhau mwy o gyfleoedd cyfartal. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy wella cydraddoldeb yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

162. Diben pedair rhan y Ddeddf (cyflwyno Dyletswydd Gonestrwydd, Dyletswydd Ansawdd, creu'r Corff a phŵer statudol i Weinidogion Cymru benodi Is-gadeiryddion i Ymddiriedolaethau'r GIG) yw sicrhau bod darparwyr gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn gallu darparu gofal o ansawdd uchel sy'n gwella o hyd, gan fod yn onest a dysgu pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le; gofal sy'n ymateb i anghenion poblogaeth gyfan Cymru, sy'n agored ac sy'n seiliedig ar drefniadau ansawdd a llywodraethu cadarn o fewn Ymddiriedolaethau'r GIG.

⁴⁹ Deddf Cydraddoldeb 2010. Llundain: HMSO

Ansawdd

163. Drwy ddefnyddio "ansawdd" fel egwyddor ar draws y system gyfan, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ystyried sut y gellir gwella ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau pryd bynnag y byddant yn gweithredu neu'n gwneud penderfyniad. Drwy ei gwneud yn ofynnol i ystyried hyn, bydd prosesau'r cyrff o wneud penderfyniadau yn gwella, a bydd hyn yn gwella ansawdd gwasanaethau ar draws Cymru, ac yn arwain at wella canlyniadau ansawdd ar draws pob rhan o gymdeithas.

Gonestrwydd

164. Bydd y Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd gonestrwydd ar gyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol) yng Nghymru. Bydd y ddyletswydd yn ategu'r ddyletswydd gonestrwydd bresennol sydd eisoes yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig a'r ddyletswydd rydym yn bwriadu ei gosod ar ddarparwyr gofal iechyd annibynnol rheoleiddiedig mewn rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2000²⁷. Bydd sicrhau bod dyletswydd gonestrwydd yn weithredol ar draws holl gyrff GIG (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol), darparwyr gofal cymdeithasol rheoleiddiedig a darparwyr rheoleiddiedig gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ei gwneud yn haws i'r rhannau o gymdeithas sydd o dan anfantais neu sydd wedi'u hallgáu i wybod pa hawliau sydd ganddynt pan fydd pethau'n mynd o'u lle.
165. Bydd ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol fynd ati'n rhagweithiol i hysbysu cleifion a theuluoedd pan fydd pethau'n mynd o'u lle hefyd yn helpu i wella'r berthynas rhwng y claf a'r gweithiwr proffesiynol, gan arwain at gynnal ymddiriedaeth yn y gwasanaethau.
166. Bydd hyn yn cyfrannu at ddull gonestrwydd system gyfan ar gyfer pob rhan o gymdeithas.

Llais y Dinesydd

167. Bydd gan y Corff y swyddogaeth trosfwaol i gynrychioli buddiannau pawb y mae gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu ar eu cyfer, neu y gallent gael eu darparu ar eu cyfer ar lefel leol, rhanbarthol a/neu genedlaethol ar draws Cymru.
168. Bydd y Corff yn gallu recriwtio gwirfoddolwyr yn uniongyrchol, a disgwyliwn y bydd yn mynd ati i geisio annog gwirfoddolwyr o bob rhan o gymdeithas i gyfrannu at sylfaen amrywiol o wirfoddolwyr sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
169. Mae symud oddi wrth strwythur aelodaeth cadarn y Cyngorau Iechyd Cymuned (sy'n seiliedig yn bennaf ar y broses penodiadau cyhoeddus) yn cynnig cyfle i gynnwys pobl yng ngwaith y Corff a allai fod wedi gweld y broses ymgeisio hir a ffurfiol yn un nad oedd yn apelio atynt. Drwy alluogi gwirfoddolwyr i gael eu recriwtio'n fwy uniongyrchol, bydd hyn yn annog twf mewn sylfaen mwy amrywiol o wirfoddolwyr. Bydd gan y Corff hefyd rôl

weithredol i'w chwarae wrth ddarparu cyngor a chymorth ar gwynion i'r rheini sy'n dymuno gwneud cwyn am un o wasanaethau'r GIG neu wasanaeth cymdeithasol y maent wedi'u derbyn gan gynnwys y rheini a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd gwneud cwyn yn effeithiol.

170. Bydd gan y Corff y pŵer i wneud sylwadau i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac ALLau am faterion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyda'r nod o wella iechyd a lles y boblogaeth a fydd yn helpu i sicrhau bod y canlyniadau hynny sydd bwysicaf i'r boblogaeth yn dod i sylw'r cyrff sy'n gyfrifol am ddarparu ein gwasanaethau iechyd a'n gwasanaethau cymdeithasol.

Is-gadeirydd

171. Bydd Is-gadeirydd yn darparu mwy o gapasiti arweinyddiaeth i gefnogi a chyfrannu at ddull gweithredu y bwrdd ehangach o ran cydraddoldeb a gwella canlyniadau ar gyfer rhannau o gymdeithas sydd o dan anfantais neu sydd wedi'u hallgáu.

4. Ymgynghori

172. Ymgynghorwyd yn gyntaf ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil, bellach yn Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) fel rhan o'r Papur Gwyrdd: Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd⁴⁸, rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2015. Edrychodd y Papur Gwyrdd ar p'un a allai deddfwriaeth helpu ymdrechion i wella'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru ymhellach. Er mwyn gwneud hyn, gofynnodd y papur i bobl rannu eu barn ar nifer o faterion cyfoes sy'n ymwneud ag ansawdd gwasanaethau iechyd a'i lywodraethiant a'i swyddogaethau, gan gynnwys:

- sut y mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, a sut y gall y cyhoedd gymryd rhan mwy effeithiol wrth gynllunio gwasanaethau GIG a sut y gallai newidiadau mewn gwasanaethau gael eu datblygu;
- mai ansawdd yw prif flaenoriaeth pawb sy'n gweithio yn y GIG, a sut y dylai ansawdd gael ei adlewyrchu yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio yn ogystal â'u darparu;
- defnyddio safonau cyffredin, ar draws holl ddarparwyr gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys y GIG, y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol;
- sut i wella tryloywder a bod yn fwy onest am berfformiad yn GIG Cymru, gan gynnwys sut yr ymdrinnir â phryderon, pwysigrwydd bod yn onest ac yn agored pan fydd pethau'n mynd o'u lle, ac a ellir gwneud gwelliannau wrth gynnal ymchwiliad ar y cyd i gwynion ar draws y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol;
- sut y gall y GIG rannu gwybodaeth am gleifion yn fwy effeithiol, er mwyn darparu gwasanaethau cydgysylltiedig a gofal o'r ansawdd gorau i unigolion;
- y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrwydd allanol gwasanaethau iechyd, gan gynnwys un arolygiaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn ystyried a oes angen i Gynghorau Iechyd Cymuned newid er mwyn cynrychioli cleifion a'r cyhoedd yn fwy effeithiol.

173. Cafwyd cyfanswm o 170 o ymatebion ysgrifenedig i'r Papur Gwyrdd⁴⁸. Cyhoeddwyd adroddiad yn rhoi crynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad ym mis Chwefror 2016⁵⁰.

174. Ar ôl ystyried yr ymatebion, nododd y Llywodraeth nifer o gynigion i'w cynnwys yn y Papur Gwyn: Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol, Ansawdd a

⁵⁰ Llywodraeth Cymru. Ymgynghoriad - crynodeb o ymatebion - Papur Gwyrdd Ein Hiechyd, Ein Gwasanaethau Iechyd [Y Rhyngrwyd]. Llywodraeth Cymru; 2016. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/160222greenpapersummaryresponsescy.pdf>

Llywodraethiant ym maes lechyd a Gofal yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad rhwng 28 Mehefin a 29 Medi 2017. Cyhoeddwyd adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad ym mis Chwefror 2018⁵¹.

175. Adeg yr ymgynghoriad, roedd Llywodraeth Cymru yn gofyn am safbwyntiau i benderfynu a oedd angen deddfwriaeth mewn nifer o feysydd gwahanol, gan gynnwys:

- Aelodaeth a Chyfansoddiad y Bwrdd
- Ysgrifenyddion Byrddau
- Dyletswydd Ansawdd
- Dyletswydd Gonestrwydd
- Gosod a Bodloni Safonau Cyffredin
- Ymchwilio ar y cyd i Gwynion lechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cynrychioli'r Dinesydd ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol
- Llunio Cynlluniau a Gwasanaethau ar y cyd â dinasyddio
- Arolygu a Rheoleiddio.

176. Cafwyd cyfanswm o 336 o ymatebion i'r Papur Gwyn²⁶. Yn ystod yr ymgynghoriad, cyhoeddodd y Cynghorau lechyd Cymuned eu profforma eu hunain mewn perthynas â chynigion llais y dinesydd. Daeth 1328 o'r ymatebion profforma hyn i law Llywodraeth Cymru, wedi'u llofnodi gan aelodau'r cyhoedd, ac fe'u hystyriwyd fel rhan o'r gwaith dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

177. Yn ogystal, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyniadau mewn nifer o gyfarfodydd rhanddeiliaid cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori, a chynnal nifer o ddigwyddiadau rhwng 18 a 28 Medi mewn lleoliadau amrywiol ledled Cymru a ddenodd tua 100 o bobl i gyd. Daeth nifer o bobl i'r digwyddiadau hyn o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn draddodiadol mewn ymgynghoriadau gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr, pobl ifanc, pobl hŷn a phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

178. Roedd y gwaith o ddadansoddi'r ymatebion yn dangos bod cydweithio rhwng sefydliadau yn hanfodol er mwyn hybu llesiant, nodi anghenion pobl, ac wrth gynllunio a darparu gwasanaethau o ansawdd i safon cadarn a chyson. Roedd gwaith dadansoddi manwl yn dangos bod ymatebion i'r rhannau am y Ddyletswydd Gonestrwydd, Dyletswydd Ansawdd ac Is-gadeiryddion GIG o blaid y cynigion ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebion i'r cynigion ar gyfer y Corff yn cynnwys nifer o themâu, hyd yn oed o fewn y pwnc unigol o'r angen i gynrychioli llais y dinesydd, ac nid oeddent wastad yn mynegi neges gyson.

179. Ym maes cyd-gynhyrchu cynlluniau a gwasanaethau gyda dinasyddion, mae gwaith pellach wedi nodi y gall cynigion gael eu cyflawni o dan y pwerau presennol. Fodd bynnag, gan bod y materion hyn yn gymhleth o ran archwilio a rheoleiddio, mae angen gwneud gwaith pellach cyn y gellir datblygu cynigion

⁵¹ Llywodraeth Cymru. Ymgynghoriad - crynodeb o ymatebion - Gwasanaethau sy'n addas i'r dyfodol [Y Rhynggrwyd]. Llywodraeth Cymru; 2018. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/180226-crynodeb-or-ymatebion_0.pdf

deddfwriaethol. Y disgwyl felly yw y bydd Bil yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.

180. O ran ymchwilio ar y cyd i gwynion iechyd a gofal cymdeithasol, mae ein huchelgais yn y maes hwn yn dal i fod yr un fath, a byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau GIG Cymru, llywodraeth leol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chyrff eraill i drafod ffyrdd o symleiddio'r broses i bobl sydd â chwynion sy'n rhychwantu iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd trafodaethau ford gron yn cael eu cynnal ag ystod o randdeiliaid i ystyried sut y gellid rhoi'r broses ar waith ar gyfer cwynion ynghylch GIG Cymru, cwynion ynghylch awdurdodau lleol, yn ogystal â chwynion yn erbyn darparwyr gofal cymdeithasol a reoleiddir.
181. Yn ogystal, bydd gwaith yn cael ei wneud i gysoni Rheoliadau Gweithio i Wella a'r canllawiau cysylltiedig i adlewyrchu'r newidiadau a wneir gan y Ddeddf mewn perthynas â gweithdrefn y ddyletswydd gonestrwydd, er enghraifft. Bydd angen gwneud newidiadau canlyniadol i broses Gweithio i Wella, ond bydd hynny'n gyfle hefyd i ystyried unrhyw newidiadau pellach i'r broses a allai ei gwneud yn haws i bobl sydd â chwyn sydd hefyd yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol. Cyn cyflwyno Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) i'r Senedd, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru ag ystod o randdeiliaid i egluro'r cynigion mewn mwy o fanylder, clywed barn y rheini sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau hyn a deall yr effeithiau.
182. Yn sgil yr ymgynghori helaeth a wnaed mewn perthynas â darpariaethau'r Ddeddf, gan gynnwys drwy'r Papur Gwyn²⁶ a sesiynau ymgysylltu amrywiol â rhanddeiliaid, ni chafodd unrhyw ymgynghoriad ychwanegol ar Fil drafft ei gynnal cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Senedd.

5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

183. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a dyroddi penderfyniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau, codau a chanllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

(i) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;

(ii) ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer

(iii) priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

(iv) y weithdrefn gymhwysol; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

184. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli.

Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
4	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae manylion y weithdrefn yn addas ar gyfer rheoliadau gan y bydd hyn yn galluogi'r weithdrefn onestrwydd i gael ei chadw yn unol â'r weithdrefn sy'n ymwneud â chwynion a nodir mewn rheoliadau (Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011) - y bwriad yw y bydd y weithdrefn onestrwydd a'r weithdrefn gwynion yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn osgoi dyblygu. Drwy roi manylion y weithdrefn mewn rheoliadau, mae hyn yn golygu na fydd angen deddfwriaeth sylfaenol pe bai angen i'r weithdrefn gael ei diwygio yn y dyfodol er mwyn ystyried hyn. Drwy roi'r weithdrefn mewn rheoliadau bydd hyn hefyd yn sicrhau y gellir adolygu a newid y weithdrefn yn sgil profiad ac adborth gan randdeiliaid os bydd angen.	Negyddol	Bydd y rheoliadau'n nodi gweithdrefn dechnegol i'w dilyn.
28	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol i reoliadau sicrhau pan nodir bod angen gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth arall er mwyn i'r Ddeddf gael effaith lawn, nid yw'n ofynnol cael deddfwriaeth sylfaenol bellach.	Cadarnhaol	Mae gan reoliadau y potensial i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
29	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Yn addas i gychwyn drwy orchymyn gan bod angen sicrhau'r amseru cywir fel bod trefniadau cyflawni ar waith.	Negyddol	Dyma orchymyn cychwyn i bennu dyddiad i'r darpariaethau penodedig yn y Ddeddf, ddod i rym.

Tabl 5.2: Crynodeb o'r pwerau i wneud cyfarwyddydau a chyhoeddi codau a chanllawiau yn narpariaethau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn
2	Gweinidogion Cymru	Canllawiau statudol	Yn addas ar gyfer canllawiau gan fod darpariaethau allweddol wedi'u hamlinellu ar wyneb y Ddeddf, yn gwneud diwygiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol. Ni fydd y canllawiau'n gwneud mwy na darparu manylion atodol.	Dim gweithdrefn
10	Gweinidogion Cymru	Canllawiau statudol	Yn addas ar gyfer canllawiau gan fod darpariaethau allweddol wedi'u hamlinellu ar wyneb y Ddeddf, a bod angen i'r trefniadau fod yn hyblyg i ymateb i newidiadau yn yr arferion proffesiynol yn y dyfodol.	Dim gweithdrefn
15(4)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau statudol	Yn addas ar gyfer canllawiau gan fod darpariaethau allweddol wedi'u hamlinellu ar wyneb y Ddeddf. Ni fydd y canllawiau'n gwneud mwy na darparu manylion atodol.	Dim gweithdrefn
19	Gweinidogion Cymru	Cod Ymarfer	Yn addas ar gyfer cod ymarfer gan y bydd yn cael ei ddatblygu a'i gytuno mewn ymgynghoriad fel fframwaith ar gyfer ymdrin â cheisiadau am fynediad ac ymgysylltu ag unigolion. Mae angen i hwn fod yn ddigon hyblyg i gwmpasu lleoliadau ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gallu ymateb i'r amgylchiadau newidiol.	Dim gweithdrefn

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Yn sgil mesurau brys i ymdrin â phandemig COVID-19, mae'n bosibl y bydd oedi wrth weithredu'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd rhannau o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith gweithredu yn cael eu hysgwyddo tua 6-8 mis yn hwyrach nag a nodir yn y ddogfen hon.

Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym mewn amrywiol gamau, ond oherwydd oedi yn sgil mesurau brys i ymdrin â phandemig COVID-19, disgwylir y bydd y Ddeddf wedi'i chychwyn yn llawn erbyn mis Ebrill 2022.

Yn y cyfnod rhwng pasio'r Bil a chael Cydsyniad Brenhinol, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael ei ail-enwi yn Senedd Cymru. Drwy gydol y ddogfen hon, mae gan "y Senedd" yr un ystyr â Senedd Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Ddeddf yn Ddeddf Senedd Cymru yn rhinwedd adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd.

6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

1. Cafodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ei baratoi'n wreiddiol a'i osod gerbron y Senedd ym mis [Mehefin 2019](#). Cafodd Asesiad diwygiedig, a ddiweddarwyd ar ôl i'r Bil gwblhau Cyfnod 2, hefyd ei osod gerbron ym mis [Mawrth 2020](#).
2. Nid yw'n ofynnol i'r Asesiad hwn, sy'n adlewyrchu'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 3, gael ei osod gerbron y Senedd, ond caiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru,
3. Gan fod y Bil wedi'i basio gan y Senedd ar 17 Mawrth 2020, ac iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol ar 1 Mehefin 2020, cyfeirir ato yn y fersiwn hon fel 'y Ddeddf'.
4. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf sy'n codi ffioedd ar Gronfa Gyfunol Cymru.
5. Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Ddeddf yn ei chyfanrwydd.

Deddf lechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Yr opsiwn a ffefrir: Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r opsiwn a ffefrir gael ei gyflwyno er mwyn creu dyletswyddau newydd ansawdd (tudalen 59) a gonestrwydd (tudalen 80), disodli Cyngorau lechyd Cymuned â Chorff Llais y Dinesydd newydd (tudalen 106), a chreu pŵer ar gyfer swydd statudol Is-gadeirydd Ymddiriedolaethau'r GIG (tudalen 136).

Cyfnod: Diwygio	Cyfnod gwerthuso: 2020-21 i 2025-26	Blwyddyn sail brisiau: 2019/20
Cyfanswm Costau Cyfanswm: £8,687,300 - £13,008,100 Gwerth presennol: £8,043,000 - £12,012,600	Cyfanswm Manteision 0 Cyfanswm: £0 Gwerth presennol: £0	Gwerth Presennol Net: £-8,043,000 - £-12,012,600

Cost gweinyddu

Costau: Ar draws holl amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf, mae nifer o gostau gweinyddol i Lywodraeth Cymru. Mewn perthynas â'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd maent yn ymwneud â datblygu a chyhoeddi canllawiau, deunyddiau sy'n codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar draws y dyletswyddau hynny. Mae costau cyfle hefyd i'r GIG o ran rhyddhau staff i gael hyfforddiant. Mae costau gweinyddol a gweithredol parhaus yn gysylltiedig â rhedeg y Corff Llais y Dinesydd newydd, yn ogystal â chostau pontio sylweddol yn ymwneud â sefydlu'r corff newydd. Mae'r costau hyn i'w gweld yn Nhablau 1 – 10, 14-24, 34, 38 a 42.

Pontio: £5,406,100 - £8,314,000	Rheolaidd: £3,179,900 - £3,646,100	Cyfanswm: £8,586,000 - £11,960,100	PV: £7,952,400 - £11,080,900
---	--	--	-------------------------------------

Arbedion costau: Mae un o brif feysydd yr arbedion costau a amcangyfrifir yn yr asesiadau effaith rheoleiddiol yn ymwneud â diddymu'r Cynghorau Iechyd Cymuned. Yn ogystal â hynny, mae'r dystiolaeth yn dangos bod gwasanaethau iechyd o ansawdd gwael yn ddrutach, felly bydd y ddyletswydd ansawdd a'r ddyletswydd gonestrwydd yn helpu cyrff i wella ansawdd drwy ddysgu a gwella. Ar ben hynny, gall bod yn agored - sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd - arwain at arbedion gan fod modd osgoi rhagor o ymgyfreitha mewn digwyddiadau sy'n arwain at niwed. Nid yw'r arbedion costau hyn wedi'u mesur ac felly maen nhw'n anhysbys. Mae'r arbedion sydd wedi'u meintoli yn ymwneud â'r ffaith na fydd bellach angen i ALLau a sefydliadau gwirfoddol benodi aelodau gwirfoddol i'r Cynghorau Iechyd Cymuned.

Pontio: £0	Rheolaidd: £27,500	Cyfanswm: £27,500	PV: £23,800
Cost gweinyddu net: £8,558,500 – 11,932,600			

Costau cydymffurfio

Bydd costau cydymffurfio â'r Ddeddf yn syrthio ar gyrff y GIG ar ffurf costau cyfle i gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd. Mae cost cyfle i gyrff y GIG hysbysu defnyddwyr gwasanaethau (neu rywun sy'n gweithredu ar eu rhan) cyn gynted â'u bod yn ymwybodol bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei thanio. Caiff costau cydymffurfio sy'n gysylltiedig ag adrodd ar ddyletswyddau ansawdd a gonestrwydd eu cyfrif fel rhai niwtral o ran cost. Mae'r costau hyn i'w gweld yn Nhablau 23 a 24.

Pontio: £0	Rheolaidd: £128,800 – 1,075,500	Cyfanswm: £128,800 - £1,075,500	PV: £114,500 - £955,500
-------------------	--	--	--------------------------------

Costau eraill

Mae'r costau a nodwyd yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol i gyd yn syrthio i'r categori costau gweinyddu neu gydymffurfio – a amlinellir uchod.

Pontio: £0	Rheolaidd: £0	Cyfanswm: £0	PV: £0
-------------------	----------------------	---------------------	---------------

Costau heb eu meintoli ac anfanteision

Mae costau cyfle heb eu meintoli yn ymwneud ag adolygiadau barnwrol posib sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd ansawdd (paragraff 61), y cymorth posib y gallai darparwyr gofal sylfaenol fod ei angen gan Fyrddau Iechyd Lleol (paragraffau 164-165), awdurdodau lleol yn ymateb i gyflwyniadau gan y Corff Llais y Dinesydd newydd (paragraffau 265-266), awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r gofyniad i roi sylw i'r Cod Ymarfer ar Fynediad i Eiddo (paragraffau 270 a 271) a Chorff Llais y Dinesydd, cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 20 o'r Ddeddf i wneud trefniadau i gydweithredu gyda golwg ar gefnogi ei gilydd wrth arfer eu swyddogaethau o dan adran 13(2), 14(1) a 17(1) (paragraffau 259 a 260).

Manteision

Disgwylir i'r Ddeddf arwain at amrywiol fanteision, er nad oes modd eu meintoli gan eu bod yn amrywio cryn dipyn, neu bod y data sydd ar gael yn brin. Er enghraifft, bydd manteision o wella ansawdd a chael llais cryfach i'r dinesydd ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol.

Cyfanswm: £0

PV: £0

Tystiolaeth Allweddol, Rhagdybiaethau ac Ansicrwydd

Drwy gydol yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, defnyddiwyd amrywiol ddata academiaidd, data ystadegol cyffredinol a data gwasanaeth wrth asesu costau a manteision. Pan fo ansicrwydd, defnyddiwyd dull gofalus o gyfrifo amcangyfrifon costau. Mae hyn yn debygol o olygu mewn rhai meysydd y bydd y gwir gostau cysylltiedig â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith o bosib yn is. Mewn nifer o lefydd, lle bo ansicrwydd, defnyddiwyd ystod o amrywiol gostau posib, neu rhoddwyd y rhesymeg ynghylch pam na fyddai amrywiol gostau yn ystyrlon.

7. Opsiynau

6. Mae'r asesiad o'r costau a'r manteision wedi'i seilio ar y cyfnod o chwe mlynedd rhwng 2020-21 a 2025-26. Cafodd y Bil ei basio gan y Senedd ar 17 Mawrth 2020, a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mehefin 2020. Dewiswyd cyfnod gwerthuso o chwe mlynedd gan fod disgwyl i gostau a manteision y Ddeddf sefydlogi yn gyflym. Mae'r costau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf; mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau yn rhai o'r tablau yn hollol fanwl gywir yn sgil y talgrynnu hwn.
7. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyflwyno'r amcangyfrif gorau o gostau a manteision y Ddeddf ar sail yr wybodaeth sydd ar gael. Bu trafodaethau gyda'r prif randdeiliaid, gan gynnwys y Byrddau Iechyd Lleol a'r Awdurdodau Lleol o gymorth i'r dadansoddiad. Fodd bynnag, bu'n rhaid gwneud nifer o ragdybiaethau er mwyn cwblhau'r amcangyfrifon. Caiff unrhyw ragdybiaethau eu hegluro yn y naratif.

DYLETSWYDD ANSAWDD

OPSIYNAU

8. Mae dau opsiwn wedi'u nodi ac wedi'u hystyried:

Opsiwn 1: Gwneud Dim - Parhau i weithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol

Opsiwn 2: Creu dyletswydd ansawdd gyffredinol newydd ar gyfer Gweinidogion Cymru a chyrrff y GIG (Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, ac Awdurdodau Iechyd Arbennig (a sefydlir gan Weinidogion Cymru)) i arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau.

OPSIWN 1: GWNEUD DIM - PARHAU I WEITHIO O FEWN Y FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL PRESENNOL

Disgrifiad

9. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau i ddibynnu ar y fframweithiau, y polisiau a'r mesurau presennol i sbarduno arloesedd a gwelliannau mewn ansawdd, ar sail adran 45(1) o Ddeddf 2003⁷.

Costau

10. Er nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol, mae yna effeithiau a chostau posibl sy'n gysylltiedig â chadw'r status quo. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod gwasanaethau iechyd o ansawdd gwael yn ddrutach; gyda'r diffiniad o ansawdd yn cynnwys (ymysg pethau eraill) effeithiolrwydd y gwasanaethau; diogelwch y gwasanaethau; a'r profiad a gaiff defnyddwyr y gwasanaethau.

11. Mae adroddiad 2012 y rhaglen 1000 o Fywydau³³, dan yr enw ‘*Improving Quality Reduces Costs – Quality as the Business Strategy*’, yn datgan:

“Placing quality at the heart of the business strategy for NHS Wales will result in improved health outcomes for the people of Wales, and a better return on investment in our health services. The equation of quality care with higher costs is a fallacy and an undue focus on cost cutting will not deliver the changes required.”

The impact of poor quality healthcare can be measured through the broken and damaged lives of those failed by the health services, but it is also seen in spiralling costs, overspends, wasted resources and poor investment.

There is evidence that poor quality increases costs through harm, waste and variation. A collaborative approach between clinical decision makers, managers and finance teams is required to ensure that resources are used most effectively to deliver the highest quality of care.”

12. Mae ymchwil gan y Sefydliad Iechyd⁵² yn 2009, o dan y teitl ‘*Does improving quality save money? A review of evidence of which improvements to quality reduce costs to health service providers*’, yn cynnig rhagor o dystiolaeth bod ansawdd gwael mewn gofal iechyd yn creu effaith o ran y costau:

“Costs of poor quality.

The research reviewed shows that poor quality is common and costly. There is evidence of the high financial and human cost of poor quality in the harm caused by healthcare, and by sub-optimal care in the overuse, misuse and underuse of treatments. It has been estimated that the costs to the UK NHS of hospital-acquired infections are £1.0bn a year (Mayor 2000), and adverse drug events are estimated to be between £0.5bn (Pirmohamed et al 2004) and £1.9bn (Compass 2008). Patients with chronic diseases do not always receive optimal care and the cost of avoidable emergency admissions is high.”

13. Yn olaf, mae adroddiad Cronfa'r Brenin ‘*Improving quality in the English NHS*’, Chwefror 2016⁵³, yn dadlau dros osod gwella ansawdd wrth graidd ymateb y GIG i'r pwysau presennol arno a sut mae'n creu'r newidiadau gweddnewidiol mewn gofal y mae angen eu creu er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy.

14. Mae'r dystiolaeth uchod yn awgrymu bod yna gost yn gysylltiedig â methu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella ansawdd os byddwn yn parhau â'r

⁵² Øvretveit J. Does improving quality save money? A review of evidence of which improvements to quality reduce costs to health service providers [Y Rhynggrwyd]. Y Sefydliad Iechyd; 2009. Ar gael yma:
https://www.health.org.uk/sites/default/files/DoesImprovingQualitySaveMoney_Evidence.pdf

⁵³ Ham, C ac eraill. Improving quality in the English NHS [Y Rhynggrwyd]. Llundain: Cronfa'r Brenin; 2016. Ar gael yma:
https://www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/field/field_publication_file/Improving-quality-Kings-Fund-February-2016.pdf

opsiwn hwn. Er hynny, mae'n anodd asesu'r union faich ariannol a fyddai'n wynebu'r GIG a chynnig amcangyfrif ar draws y system gyfan.

Manteision

15. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw gweithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, a defnyddio'r dulliau presennol i ddarparu rhagor o ganllawiau i'r GIG, yn creu'r effaith a ddymunir, sef sicrhau un ymagwedd at ansawdd ar draws y system gyfan. Gan hynny, mae yna risg yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn gan y byddai'n colli'r cyfle i feithrin ansawdd fel egwyddor sy'n gweithredu ar draws y system, ar sail y boblogaeth, i ysgogi cynaliadwyedd a gwelliannau mewn gwasanaethau – gan danseilio effeithiau'r darpariaethau eraill a nodir yn y Ddeddf a thanseilio'r broses o wireddu 'Cymru Iachach'⁵.
16. Serch hynny, fe allai gwneud dim greu un fân fantais o'i gymharu ag Opsiwn 2, sef sicrwydd i gyrff y GIG y bydd y status quo yn cael ei gadw.

OPSIWN 2: CREU DYLETSSWYDD ANSAWDD GYFFREDINOL NEWYDD AR GYFER GWEINIDOGION CYMRU A CHYRFF Y GIG (BYRDDAU IECHYD LLEOL, YMDDIRIEDOLAETHAU, AC AWDURDODAU IECHYD ARBENNIG (A SEFYDLIR GAN WEINIDOGION CYMRU)) I ARFER EU SWYDDOGAETHAU YNGLŷN Â'R GWASANAETH IECHYD GYDA GOLWG AR SICRHAU GWELLIANT YN ANSAWDD Y GWASANAETHAU.

Disgrifiad

17. Byddai'r opsiwn hwn yn gosod dyletswydd gyffredinol ar Weinidogion Cymru a chyrff y GIG (Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG Cymru ac Awdurdodau Iechyd Arbennig) i arfer eu swyddogaethau ynglŷn â'r gwasanaeth iechyd gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau yn yr ystyr ehangaf.
18. Bydd y ddyletswydd yn gorwedd yn Neddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Bydd yn disodli'r rhwymedigaethau a nodir yn adran 45(1) o Ddeddf 2003⁷. Mae'r ddyletswydd yn ehangach ei rhychwant ac yn wahanol ei natur i Ddeddf 2003⁷. Bydd yn ail-fframio 'ansawdd' i sicrhau y caiff ei defnyddio yn ei diffiniad ehangach; heb fod yn gyfyngedig i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i unigolyn neu i safonau gwasanaeth, a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrff y GIG arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd.
19. Gan hynny, bydd y ddyletswydd newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff arfer eu swyddogaethau mewn ffordd benodol ac ystyried sut y gallan nhw wella ansawdd yn barhaus wrth arfer eu holl swyddogaethau. Bydd gwella ansawdd yn gorfod cael ei ymgorffori a dod yn rhan annatod o'r broses o wneud eu penderfyniadau.
20. Ar ben hynny, byddai'r ddyletswydd yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG a Gweinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad

bob blwyddyn ar y camau y maen nhw wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd ac asesu hyd a lled unrhyw welliant yn y canlyniadau.

21. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau statudol i gyrff y GIG ynglŷn â'r ddyletswydd ansawdd yn adran 2, a'r gofynion adrodd cysylltiedig. Bydd hyn, yn arbennig, yn cynnwys canllawiau am y dystiolaeth i'w defnyddio wrth asesu i ba raddau y mae'r camau a gymerwyd wrth ddilyn y ddyletswydd ansawdd wedi arwain at wella canlyniadau, a sut y dylai asesiad o'r fath gael ei gynnal.
22. Ni fwriedir i'r ddyletswydd newydd sicrhau canlyniad penodol na sicrhau bod lefel benodol o wasanaeth yn cael ei chyrraedd; bwriad yr opsiwn hwn yw bod rhaid i Weinidogion Cymru a chyrff y GIG fynd ati, wrth wneud penderfyniadau ynghylch y gwasanaeth iechyd, i ystyried a fydd y penderfyniad yn gwella ansawdd y gwasanaeth ac yn sicrhau gwelliant yn y canlyniadau, gan gynnwys:
- effeithiolrwydd y gwasanaethau;
 - diogelwch y gwasanaethau;
 - profiad defnyddwyr y gwasanaethau.

Costau

Ymwybyddiaeth a hyfforddiant:

23. Mae symud Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) a chyrff y GIG i sefyllfa lle maen nhw'n canolbwyntio'n fwy rheolaidd ac yn fwy gweithredol ar ansawdd a gwella'n barhaus yn debygol o gynnwys cyfuniad o arweinyddiaeth a newidiadau mewn diwylliant ac ymddygiad. Rhagwelir y bydd angen hyfforddiant er mwyn ymgorffori'r ffyrdd newydd hyn o weithio ar bob lefel. Felly, i roi'r ddyletswydd ar waith yn llwyddiannus, mae yna bedwar maes allweddol lle mae angen gweithredu:
- i. Ymgyrch ymwybyddiaeth ddigidol;
 - ii. Ymwybyddiaeth a hyfforddiant i'r sefydliadau;
 - iii. Hyfforddiant estynedig i arweinwyr;
 - iv. Adnoddau ategol.
24. Disgrifiad – amlinellir y pedwar maes yn eu tro isod:
- i. Ymgyrch ymwybyddiaeth ddigidol:
25. Byddai ymgyrch yn anelu at gynyddu ymwybyddiaeth staff y GIG am y ddyletswydd ansawdd, gan dynnu sylw at sut y bydd cyrff y GIG yn arfer eu swyddogaethau mewn ffordd benodol er mwyn adnewyddu'r ffocws ar wella ansawdd gwasanaethau a'r hyn y mae'n ei olygu i'r staff.

26. Rhagwelir ymgyrch gyfathrebu fewnol a fyddai'n cynnwys amrywiol becynnau digidol, wedi'u hategu gan daflen wybodaeth ddigidol. Byddai'r ymgyrch yn cynnwys staff drwy sianelau presennol y GIG, ac yn cael ei harddangos yn swyddfeydd y GIG ac ardaloedd y staff.

ii. Ymwybyddiaeth a hyfforddiant i'r sefydliadau:

27. Er mwyn sefydlu lefel sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd ansawdd i bob aelod o staff, ac i greu diwylliant lle mae'r staff yn gwneud penderfyniadau gyda'r nod o sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau, bydd angen lefel sylfaenol o hyfforddiant ymwybyddiaeth. Rhagwelir y bydd yr hyfforddiant yn helpu i ystyried pa welliannau y mae eu hangen yn yr arferion gwaith presennol i sicrhau bod ansawdd a gwelliant parhaus yn ystyriaeth sylfaenol.

28. Rhagwelwn y caiff yr hyfforddiant hwn ei roi i holl staff ieuchyd a gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac i staff y GIG.

29. O ran staff y GIG, y disgwyl yw bod modd i'r hyfforddiant hwn gael ei gyflawni drwy ddiweddarau'r modiwlau e-ddysgu perthnasol ar borth hyfforddiant y GIG, fel y modiwl 'Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd' (sydd ar gael i holl staff y GIG). Rydym yn rhagweld y gall y modiwl e-ddysgu hwn gael ei addasu wedyn i staff Llywodraeth Cymru a'i osod ar fewnwyd Llywodraeth Cymru.

iii. Hyfforddiant estynedig i arweinwyr:

30. I ategu'r ffocws angenrheidiol ar ansawdd ar bob lefel mewn sefydliadau; i annog a chefnogi'r staff i gyflawni'r ddyletswydd; i roi'r arweiniad i gyflawni'r newidiadau mewn diwylliant ac ymddygiad y mae eu hangen er mwyn rhoi'r ddyletswydd ar waith; ac i sicrhau y cydymffurfir â'r dyletswydd; fe fydd angen i Weinidogion Cymru sy'n gyfrifol am ieuchyd (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), uwch weision sifil yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac aelodau o fyrdau cyrff y GIG gael hyfforddiant estynedig.

31. Rhagwelir y byddai'r hyfforddiant hwn yn cael ei roi wyneb yn wyneb.

iv. Adnoddau ategol:

32. I helpu i barhau i roi'r ddyletswydd ar waith, bydd Llywodraeth Cymru'n creu adnoddau ar-lein tebyg i'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer Deddf 2015⁵⁴ megis amrediad o astudiaethau achos⁵⁴ yn cynnig enghreifftiau o sut mae sefydliadau wedi defnyddio egwyddorion ansawdd i sicrhau gwelliannau, ynghyd â chanllawiau i'r sefydliadau.

⁵⁴ Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru [Y Rhyngwyd]. Llyw.Cymru Gwasanaethau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru. 2019 [dyfynnwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yma: <https://gweddill.gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/case-studies/?lang=cy>

33. Costau – mae'r pedwar maes wedi'u costio yn eu tro isod:

34. Oni nodir fel arall, yn 2020-21 y disgwylir i'r costau gael eu hysgwyddo. Mae'r amser, pan fo'n cael ei nodi, yn cyfeirio at nifer y diwrnodau gwaith.

35. Oherwydd natur arbenigol y gwaith hwn, oni nodir fel arall rhagwelir y bydd angen yr hyn sy'n gyfwerth â 0.5 o secondai o'r GIG i ddatblygu cynnwys ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus, y modiwl e-ddysgu i'r holl staff, y deunyddiau hyfforddi estynedig i arweinwyr a'r adnoddau ategol. Yn ychwanegol, bydd yn ofynnol i'r secondai ddarparu'r hyfforddiant estynedig i arweinwyr. Rhagwelir na fydd y gwaith yn cymryd mwy na 12 mis, ac y caiff ei wneud gan aelod o staff ar lefel briodol – amcangyfrifir y bydd ar raddfa sy'n cyfateb i Fand Gweithredol 2 Llywodraeth Cymru (BG2). Cost secondio rhywun i Lywodraeth Cymru o'r GIG yn fras yw:

Tabl 1 – secondai o'r GIG

Costau swyddog ar secondiad o'r GIG yn cyfateb i BG2		
Cost Flynnyddol BG2 ar Gyfartaledd	Amcangyfrif o'r Amser Angenrheidiol	Cost
£76,300*	0.5	£38,200

* wedi'i ddarparu gan Dîm Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu Llywodraeth Cymru, ar sail Cyfraddau Cyflogau Gros Cyfartalog i Fandiau Tâl y tu allan i'r Uwch Wasanaeth Sifil 2018/19.

36. Yn ogystal â'r uchod, mae yna gostau ychwanegol penodol ar gyfer darparu pob elfen yn unigol. Mae'r costau dylunio a chyfieithu yn dibynnu ar gymhlethdod a gofynion terfynol y cynnyrch. Mae amcangyfrifon o'r costau hyn wedi'u hamlinellu isod:

i. Ymgyrch ymwybyddiaeth ddigidol:

Tabl 2 – datblygu taflen ddigidol

Gweithgaredd	Gradd	Amser	Cost
Cost cyfle – Cyfieithu a darllen proflenni taflen wybodaeth ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 2	0.5	£100
Cost cyfle – Dylunio a chysodi taflen wybodaeth ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 3	4 awr	£100
Cyfanswm			£200

⁽ⁱ⁾ Wedi'i seilio ar gyfieithu, dylunio a chysodi taflen Gweithio i Wella²¹ – tua 600 o eiriau.

37. Mae costau staff Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus wedi'u cynnwys yn yr adnoddau yn Nhabl 1.

ii. Ymwybyddiaeth a hyfforddiant i'r sefydliadau:

Tabl 3 – datblygu deunyddiau ymwybyddiaeth a hyfforddi

Gweithgaredd	Gradd	Amser	Cost
Cost cyfle – Cyfieithu modiwl e-ddysgu'r GIG ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 2	8 diwrnod	£1,400
Cost cyfle – Cyfieithu modiwl e-ddysgu Llywodraeth Cymru ⁽ⁱⁱ⁾	Band Rheoli 2	4 diwrnod	£700

Cyfanswm	£2,100
-----------------	---------------

(i) Wedi'i seilio ar nifer y geiriau ar hyn o bryd ym modiwl y GIG 'Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd' (amcangyfrif o 16,000 o eiriau).

(ii) Wedi'i seilio ar addasu rhan o'r modiwl uchod (amcangyfrif o 8,000 o eiriau).

38. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi cadarnhau na fyddai uwchlwytho a lletya'r modiwl e-ddysgu ar-lein yn costio dim i Lywodraeth Cymru. Pe gwneid penderfyniad bod darparwr e-ddysgu gwahanol yn fwy addas, byddai angen trefnu ymarfer i greu manyleb a gwahodd tendrau.

39. Mae costau staff Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r deunyddiau ymwybyddiaeth a hyfforddi wedi'u cynnwys yn yr adnoddau yn Nhabl 1.

iii. Hyfforddiant estynedig i arweinwyr:

40. O ran yr hyfforddiant estynedig i arweinwyr, pan fydd angen hynny caiff cyfieithydd ar y pryd ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir costau cyfle gwneud hyn, ynghyd â chyfieithu'r deunyddiau hyfforddi, isod:

Tabl 4 – datblygu hyfforddiant estynedig i arweinwyr

Gweithgaredd	Gradd	Amser	Cost
Cost cyfle – Cyfieithu'r deunyddiau hyfforddi ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 2	0.5 diwrnod	£100
Cost cyfle – Cyfieithydd ar y pryd ar gyfer hyfforddiant estynedig i arweinwyr – Gweinidogion Cymru (un sesiwn)	2 x Band Rheoli 2	0.5 diwrnod i bob BRh2 ⁽ⁱⁱ⁾	£200
Cost cyfle – Cyfieithydd ar y pryd ar gyfer hyfforddiant estynedig i arweinwyr – Llywodraeth Cymru (dwy sesiwn)	2 x Band Rheoli 2	1 diwrnod i bob BRh2 ⁽ⁱⁱ⁾	£400
Cost cyfle – Cyfieithydd ar y pryd ar gyfer hyfforddiant estynedig i arweinwyr – cyrff y GIG (12 o sesiynau – sesiwn ar wahân i bob un o gyrff y GIG)	2 x Band Rheoli 2	6 diwrnod i bob BRh2 ⁽ⁱⁱ⁾	£ 2,400
Costau lleoliad			£100
Cyfanswm			£ 3,200

(i) Wedi'i seilio ar hyfforddiant drwy gyfrwng cyflwyniad ac uchafswm o 1,000 o eiriau

(ii) Wedi'i seilio ar hyd pob sesiwn hyfforddi (dwy awr), y gwaith paratoi, gosod a thynnu'r offer, darllen papurau cyn y sesiwn, a theithio.

41. Rydym yn disgwyl mai mangreoedd Llywodraeth Cymru neu'r GIG fyddai'n cael eu defnyddio i ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb, na fyddai'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol. Er hynny, efallai y bydd cost yn gysylltiedig â sicrhau lleoliadau i ddarparu'r hyfforddiant hwn os na fydd lle addas ar gael am ddim. Ar sail costau llogi lleoliad a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i gyfweld aelodau arfaethedig i'r Cynghorau Iechyd Cymuned ym mis Chwefror 2018, amcangyfrifir y byddai'r gost yn £100.

42. Mae costau staff Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu a darparu'r hyfforddiant estynedig i arweinwyr wedi'u cynnwys yn yr adnoddau yn Nhabl 1.

iv. Adnoddau ategol:

43. **Astudiaethau achos:** Amcangyfrifir y bydd tua 10 o astudiaethau achos yn cael eu datblygu, a'r rheini heb fod yn fwy na 15,000 o eiriau i gyd. Dyma amcangyfrif o'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â datblygu'r astudiaethau achos:

Tabl 5 – datblygu astudiaethau achos

Gweithgaredd	Gradd	Amser	Cost
Cost cyfle – Cyfieithu a darllen proflenni	Band Rheoli 2	9 diwrnod	£1,600
Cost cyfle – Dylunio a chysodi	Band Rheoli 3	2 ddiwrnod	£300
Cyfanswm			£1,900

44. Ni fyddai costau yn gysylltiedig â dosbarthu'r astudiaethau achos, gan mai fersiynau electronig yn unig a fyddai ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

45. Byddai'r astudiaethau achos yn cael eu diwygio bob pum mlynedd i adlewyrchu'r arferion da lleol, gyda'r gost gyntaf yn codi yn 2025-26. Dyma amcangyfrif o'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â'r gwaith diwygio hwn:

Tabl 6 – diwygio'r astudiaethau achos

Gweithgaredd	Gradd	Amser	Cost
Cost cyfle – Diwygio'r astudiaethau achos	Band Gweithredol 2	10 diwrnod	£2,900
Cost cyfle - Cyfieithu a darllen proflenni ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 2	4.5 diwrnod	£800
Cost cyfle – Dylunio a chysodi ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 3	1 diwrnod	£100
Cyfanswm			£3,800

⁽ⁱ⁾ Amcangyfrifir y byddai costau dylunio a chyfieithu'n hanner y costau gwreiddiol, a hynny oherwydd nifer y newidiadau y byddai angen eu gwneud.

46. **Datblygu Canllawiau Statudol:** Amcangyfrifir na fydd y canllawiau'n fwy na 25,000 o eiriau. Dyma amcangyfrif o'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â datblygu'r canllawiau:

Tabl 7 – datblygu canllawiau statudol

Gweithgaredd	Gradd	Amser	Cost
Cost cyfle – Cyfieithu a darllen proflenni	Band Rheoli 2	15 diwrnod	£2,600
Cost cyfle – Dylunio a chysodi	Band Rheoli 3	4 diwrnod	£500
Cyfanswm			£3,100

47. Bwriedir cyd-gynhyrchu'r canllawiau â rhanddeiliaid allweddol a bydd yr ymgysylltu hwn yn rhan allweddol o rôl y seondai yn ystod y cyfnod datblygu. Ymgynghorir hefyd ar y canllawiau statudol gyda'r holl bartïon perthnasol. Ni

fyddai costau yn gysylltiedig â dosbarthu'r canllawiau, gan mai fersiynau electronig yn unig a fyddai ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

48. Byddai'r canllawiau yn cael eu diwygio bob pum mlynedd, gyda'r gost gyntaf yn codi yn 2025-26. Dyma amcangyfrif o'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â'r gwaith diwygio hwn:

Tabl 8 – diwygio'r canllawiau statudol

Gweithgaredd		Gradd	Amser	Cost
Cost cyfle – Diwygio'r canllawiau		Band Gweithredol 2	10 diwrnod	£2,900
Cost cyfle - Cyfieithu a darllen profleuni ⁽ⁱ⁾		Band Rheoli 2	7.5 diwrnod	£1,300
Cost cyfle – Dylunio a chysodi ⁽ⁱ⁾		Band Rheoli 3	2 ddiwrnod	£300
Cyfanswm				£4,500

⁽ⁱ⁾ Amcangyfrifir y byddai costau dylunio a chyfieithu'n hanner y costau gwreiddiol, a hynny oherwydd nifer y newidiadau y byddai angen eu gwneud.

49. Mae costau staff Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r adnoddau ategol yn 2020-21 wedi'u cynnwys yn yr adnoddau yn Nhabl 1.

Cost cyfle hyfforddiant:

50. Heblaw am y costau datblygu uchod, mae yna gostau cyfle yn gysylltiedig â phob elfen o'r ddarpariaeth. Mae'r amcangyfrif o'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â'r staff a fydd yn darparu neu'n derbyn hyfforddiant wedi'i seilio ar nifer yr oriau staff a dreulir ar yr hyfforddiant, wedi'i luosi â chost gyfartalog y rhai sy'n cymryd rhan fesul awr. Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth mai'r bwriad yw y bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ddatblygu ar sail hyfforddiant presennol, neu'n disodli hyfforddiant presennol, ac felly y câi cyfran o'r amser staff sydd wedi'i gostio yn y tabl yn cael ei hysgwyddo wrth ddilyn yr hyfforddiant presennol pe na bai'r ymagwedd hon yn cael ei datblygu.

51. Mae'r costau cyfle a amcangyfrifir isod wedi'u seilio ar y rhagdybiaethau a ganlyn:

52. **Hyfforddiant ymwybyddiaeth – staff Llywodraeth Cymru yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:** Amcangyfrifir y byddai angen rhoi'r hyfforddiant hwn i ryw 449 o unigolion (staff a oedd yn cael eu talu drwy'r gyflogres Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2018 – heb gynnwys y rhai hynny yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd) ac y cymerai'r hyfforddiant tua 30 munud i'w gwblhau i bob person.

53. **Hyfforddiant ymwybyddiaeth – staff y GIG:** Amcangyfrifir y byddai angen darparu'r hyfforddiant hwn i ryw 91,200 o unigolion⁵⁵ (staff a gyflogid yn uniongyrchol gan GIG Cymru ar 30 Medi 2017 a'r staff cyflogedig gan AaGIC

⁵⁵ Y ffigurau wedi'u darparu gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru

ym mis Ebrill 2019) ac y cymerai'r modiwl e-ddysgu tua 30 munud i'w gwblhau i bob person.

54. Hyfforddiant estynedig i arweinwyr – Gweinidogion Cymru: Amcangyfrifir y byddai angen rhoi'r hyfforddiant hwn i ddau unigolyn (y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – fel yr oedden nhw ym mis Chwefror 2019) ac y cymerai'r hyfforddiant tua dwy awr i'w gwblhau i bob person.

55. Hyfforddiant estynedig i arweinwyr - Uwch Weision Sifil Llywodraeth Cymru yn y Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Amcangyfrifir y byddai angen rhoi'r hyfforddiant hwn i 35 o unigolion (uwch weision sifil a oedd yn cael eu talu drwy'r gyflogres lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2018 – heb gynnwys y rhai hynny yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd) ac y cymerai'r hyfforddiant tua dwy awr i'w gwblhau i bob person.)

56. Hyfforddiant estynedig i arweinwyr – Lefel y Bwrdd: Byddai angen rhoi'r hyfforddiant hwn i ryw 218 o unigolion (ar sail aelodaeth y Byrddau ym mis Ionawr 2019), ac fe gymerai'r hyfforddiant tua dwy awr i'w gwblhau i bob person.

57. Y disgwyl yn y tymor hir yw y bydd unrhyw gostau cyfle yn cael eu hamsugno gan Lywodraeth Cymru a chyflogwyr y GIG fel rhan o'u busnes arferol, gan gynnwys amser staff a ddyrennir ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a gweithgareddau hyfforddi, gan leihau felly ar unrhyw faich ychwanegol. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru a chyflogwyr yn y GIG yn parhau i ymgorffori'r hyfforddiant hwn yn eu pecynnau hyfforddi presennol i'w staff ac i aelodau eu Byrddau, er enghraifft fel rhan o gyfnod ymsefydlu i'r staff/aelodau Bwrdd neu drwy eu cyfeirio ato fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus eu haelodau.

Tabl 9 – costau cyfle hyfforddiant

Cohort	Niferoedd staff	Oriau hyfforddiant y person	Cyfradd gymedrig fesul awr	Codiad o 27% ar gyfer 'argostau' (i)	Amcangyfrif o'r costau cyfle
Hyfforddiant ymwybyddiaeth – staff Llywodraeth Cymru yn y Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	449	0.5	£18.45 ⁽ⁱⁱ⁾	£4.98	£6,000
Hyfforddiant ymwybyddiaeth – staff y GIG	91,157	0.5	£16.59 ⁽ⁱⁱⁱ⁾	£4.48	£960,300
Hyfforddiant estynedig i	2	2	£43.24 ^(iv)	£11.67	£200

arweinwyr – Gweinidogion Cymru					
Hyfforddiant estynedig i arweinwyr – Uwch Weision Sifil Llywodraeth Cymru yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	35 ^(vii)	2	£46.75 ^(v)	£12.62	£4,200
Hyfforddiant estynedig i arweinwyr – Iefel Bwrdd	218	2	£57.68 ^(vi)	£15.57	£31,900
Cyfanswm					£1,002,600

(i) Yn unol â chynghor adran Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, mae codiad o 27% wedi'i gynnwys ar gyfer argostau.

(ii) Yn unol â chynghor adran Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, mae hyn wedi'i gyfrifol drwy ddefnyddio cyflog blyneddol gros cyfartalog o £51,180, llai 27% mewn enw sy'n cynrychioli argostau, er mwyn caniatáu cymhariaeth.

(vii) Mae Arolwg Oriau ac Enillion blyneddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai £16.59 oedd y tâl cymedrig bob awr (heb gynnwys goramser) i brif weithredwyr ac uwch swyddogion yn 2018.

(iv) O ran 2017-18 mae'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau⁵⁶ yn dangos cyfanswm cyflogau Gweinidog (£102,100) a Dirprwy Weinidog (£86,785), sef £94,442.50 ar gyfartaledd.

(v) Yn unol â chynghor adran Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Uwch Weision Sifil a oedd yn cael eu talu drwy'r gyflogres Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2018 – heb gynnwys y rhai hynny yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd.

(vi) Mae Arolwg Oriau ac Enillion blyneddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai £57.68 oedd y tâl cymedrig bob awr (heb gynnwys goramser) i brif weithredwyr ac uwch swyddogion yn 2018.

Costau gweithredu:

58. Bydd y goblygiadau ar gyfer newidiadau yn arferion gweithio Llywodraeth Cymru (yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru) a chyrrff y GIG yn dibynnu ar y strategaethau y byddan nhw'n eu datblygu i ateb yr amcanion y maen nhw wedi'u pennu mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth. Mae'r penderfyniadau a wnaed gan y sefydliadau wrth osod a chyflawni'r ddyletswydd yn cynnwys arfer disgrisiwn – gan ganiatáu i wneuthurwyr penderfyniadau yn y cyrrff wneud dewis ynghylch pa gamau fydd orau i alluogi'r corff i gyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol. Mae'r Ddeddf a'r canllawiau statudol ategol yn darparu

⁵⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau – Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru [Y Rhyngwryd]. Cynulliad Cenedlaethol Cymru; 2017. Ar gael yma:

http://www.assembly.wales/Job%20Documents/Cams/Determination/Determination_Sep_17_C_Y.pdf

fframwaith pendant o ran sut i benderfynu ar y camau hyn ond yn y pen draw cyfrifoldeb y sefydliadau, ac yn wir dewis y sefydliadau, yw pa gamau i'w cymryd. Bydd disgwyl i'r cyrff gyfiawnhau y camau hyn drwy eu trefniadau adrodd.

59. Gan nad yw'r penderfyniadau hyn wedi'u gwneud eto, a chan fod yr ymatebion perthynol heb eu datblygu a'u rhoi ar waith, nid yw wedi bod yn bosibl amcangyfrif costau gweithredu Llywodraeth Cymru a chyrff y GIG ar hyn o bryd gan fod ystod y camau a'r canlyniadau posibl yn rhy eang. Mater i'r sefydliadau eu hunain yw dod o hyd i'r atebion cynaliadwy gorau yn y cyddestun y maen nhw'n gweithredu ynddo. Gan hynny, mae'r costau hyn yn anhysbys ar hyn o bryd.

60. Ategir y rhagdybiaeth hon gan y gwaith a wnaed ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ynglŷn â Deddf 2015⁵⁷, a gyflwynodd ddyletswydd sy'n sicrhau newid tebyg mewn arferion gweithredu i'r hyn a ddymunir drwy'r ddyletswydd ansawdd arfaethedig. Comisiynwyd PwC i asesu effaith weinyddol Deddf 2015 ar y cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf. Daethpwyd i'r casgliad:

*"er ei fod wedi nodi bod angen newid diwylliannol mewn sefydliadau, gwell arweinyddiaeth a gwell gweithio mewn partneriaeth...nid oedd yn gallu darparu asesiad o faint y costau sy'n gysylltiedig."*⁵⁷

Costau cyfreithiol:

61. Drwy gyflwyno dyletswydd ansawdd ar Weinidogion Cymru a chyrff y GIG, fe ellid awgrymu bod yr opsiwn hwn yn creu "bachyn" arall ar gyfer heriau cyfreithiol yn erbyn penderfyniadau ar y sail nad ydynt yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Er enghraifft, gallai unigolyn yr effeithid arno gan benderfyniad i symud gwasanaeth o ysbyty A i ysbyty B ofyn am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwnnw drwy hawlio bod y penderfynwr heb roi ystyriaeth briodol i ddyletswydd i roi sylw i ansawdd gwasanaethau.

62. Er y gall methiant i gydymffurfio â'r ddyletswydd gael ei herio yn y llysoedd, bernir ei bod yn annhebygol y bydd y ddyletswydd yn gyfystyr â hawl i unigolyn gael gwasanaeth penodol. Er enghraifft, yn achos *R (Dyer) v Welsh Ministers [2015] EWHC 3712* dyfarnwyd nad oedd y gyfundrefn statudol (Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006)⁵⁸ yn addas i greu hawl i unigolyn gael darpariaeth gwasanaethau ac nad oedd dyletswyddau yn y gyfraith gyhoeddus wedi'u torri o ran casglu data ynghylch darpariaeth gwasanaethau nac wrth wneud penderfyniadau ar ddarpariaeth gwasanaethau. Gan hynny, er y gallai'r costau posibl sy'n gysylltiedig â heriau posibl drwy adolygiadau barnwrol fod yn sylweddol pe baent yn dod i'r fei, bernir nad yw hyn yn debygol iawn. Nid oes modd meintoli'r costau hyn oherwydd hyd yn oed pe bai her adolygiad barnwrol yn codi, mae costau

⁵⁷ Llywodraeth Cymru – Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Arfarniad Effaith Weinyddol. (2014). PWC.

⁵⁸ *R (Dyer) v Welsh Ministers [2015] EWHC 3712 (Admin)*, [2015] MHLO 109 – Mental Health Law Online [Y Rhynggrwyd]. Mentalhealthlaw.co.uk. 2017 [dyfynnwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yma: [http://www.mentalhealthlaw.co.uk/R_\(Dyer\)_v_Welsh_Ministers_\(2015\)_EWHC_3712_\(Admin\),_\(2015\)_MHLO_109](http://www.mentalhealthlaw.co.uk/R_(Dyer)_v_Welsh_Ministers_(2015)_EWHC_3712_(Admin),_(2015)_MHLO_109)

adolygiadau barnwrol yn amrywio'n sylweddol, felly mae'r gost yn anhysbys ar hyn o bryd.

Adroddiadau blynyddol:

63. Bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrrff y GIG gyhoeddi adroddiadau ar wahân bob blwyddyn ar y camau y maen nhw wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd ac i asesu hyd a lled unrhyw welliant mewn canlyniadau. Ar hyn o bryd mae cyrrff y GIG yn llunio Datganiadau Ansawdd Blynyddol (AQS)⁵⁹ sy'n rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed i wella ansawdd gofal iechyd. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru sydd yn eu tro yn llunio Datganiad Ansawdd Blynyddol i Gymru gyfan⁶⁰ sydd ar hyn o bryd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru. Mae adroddiad Cymru gyfan yn darparu darlun cenedlaethol o ansawdd yn y GIG.
64. Cynigir y dylid adeiladu ar y gofynion cyfredol ynghylch cyhoeddi'r Datganiadau Ansawdd Blynyddol a'u defnyddio fel sail gyfer yr adroddiadau blynyddol y mae'r ddyletswydd yn gofyn amdanynt.
65. I Lywodraeth Cymru, mae'r ddyletswydd yn cryfhau proses bresennol y Datganiadau Ansawdd Blynyddol drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Datganiad Ansawdd Blynyddol Cymru Gyfan i'w gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd. Bydd Llywodraeth Cymru'n dal i ystyried adroddiadau blynyddol cyrrff y GIG ac yn cyhoeddi un adroddiad i Gymru gyfan, a fydd hefyd yn cynnwys manylion am y camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Gan hynny, bydd y ddyletswydd yn adeiladu ar y Datganiad Ansawdd Blynyddol presennol i Gymru gyfan.
66. Fe fydd cost cyfle ynglŷn ag amser Gweinidogion Cymru wrth ystyried cynnwys yr adroddiadau, unrhyw bapurau briffio ategol ac o bosibl ymateb i gwestiynau yn y Senedd ar yr adroddiad blynyddol. Nid yw'n bosibl mesur yr amser hwn gan y bydd yn dibynnu ar natur cynnwys yr adroddiad ac unrhyw ddigwyddiadau neu dueddiadau amlwg a fydd yn peri pryder ac y gellir disgwyl iddynt gynhyrchu cwestiynau a gwaith craffu ychwanegol. Nid yw'r gost yn hysbys ar hyn o bryd felly.
67. Ar ben hynny, bydd yna gost cyfle i Lywodraeth Cymru ar sail yr amser staff y bydd ei angen bob blwyddyn i gasglu, paratoi a chyhoeddi'r wybodaeth ychwanegol y bydd ei hangen ar gyfer Datganiad Ansawdd Blynyddol Cymru gyfan ynghylch y ddyletswydd, ac i friffio'r Gweinidogion ar yr wybodaeth honno. Byddai'r gost hon yn digwydd bob blwyddyn ac amcangyfrifir y bydd fel a ganlyn:

⁵⁹ Llywodraeth Cymru. Y Datganiad Ansawdd Blynyddol – Darparu gwasanaethau iechyd o ansawdd uchel i bobl Cymru. [Y Rhyngwrdd]. Llywodraeth Cymru; 2016. Ar gael yma:

<https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/170407ags-reporten.pdf>

⁶⁰ GIG Cymru [Y Rhyngwrdd]. Llyw.Cymru Gwasanaethau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru. 2018 [dyfynnwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yma:

<https://gweddill.gov.wales/topics/health/nhswales/?skip=1&lang=cy>

Tabl 10 – Datganiad Ansawdd Blynyddol Cymru gyfan

Gweithgaredd	Gradd	Amser	Cyfanswm
Casglu, drafftio a chlririo'r cynnwys ychwanegol ar gyfer yr adroddiad	Band Rheoli 2	3	£500
	Band Rheoli 1	3	£700
	Band Gweithredol 2	2	£600
Cyfieithu'r cynnwys ychwanegol	Band Rheoli 2	0.5	£100
Cyfanswm			£1,900

68. Yn electronig yn unig y cyhoeddir yr adroddiad, felly fydd dim costau argraffu.

69. O ran cyrff y GIG, y bwriad yw y bydd y gofyniad i adrodd yn flynyddol ar y ddyletswydd yn adeiladu ar broses bresennol y Datganiad Ansawdd Blynyddol. Gan hynny, ni ragwelir y bydd y Ddeddf hon yn gosod baich ychwanegol ar gyrff y GIG gan mai'r cyfan a wna'r ddyletswydd yw newid ffocws yr wybodaeth a gaiff ei chasglu a'i chyhoeddi h.y. ystyrir ansawdd mewn ystyr lawer ehangach gan ddangos sut mae penderfyniadau a gymerwyd yn gwella ansawdd gwasanaethau ac yn sicrhau gwelliant yn y canlyniadau. Felly nid oes cost i gyrff y GIG yn gysylltiedig â'r opsown hwn gan y rhagwelir y gall y gofyniad hwn i greu adroddiad blynyddol gael ei wneud o fewn yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ym mhroses y Datganiad Ansawdd Blynyddol.

Fforymau trafod:

70. O ran rhoi'r ddyletswydd ar waith, ni fernir y bydd unrhyw gost ychwanegol i Weinidogion Cymru na chyrff y GIG. Bydd y ddyletswydd newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrff y GIG arfer eu swyddogaethau presennol mewn ffordd benodol ac ystyried sut y gallant wella ansawdd yn barhaus wrth arfer eu holl swyddogaethau; rhaid i wella ansawdd ddod yn rhan o'u proses benderfynu. Bydd hyn hefyd yn dylanwadu ar y ffordd y llunnir cynlluniau integredig y tymor canolig.

71. Ni ragwelir y bydd y ddyletswydd yn newid y systemau presennol ynglŷn â llywodraethu a gwneud penderfyniadau sydd eisoes ar waith; ond fe fydd yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a natur y sgysiau a geir o fewn y systemau hyn yn newid i un sy'n canolbwyntio ar ansawdd a gwella. Bydd hyn hefyd yn dylanwadu ar y ffordd y llunnir eu cynlluniau integredig at y tymor canolig. Er mwyn cyflawni hyn, ni ddisgwylir y bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fforymau ychwanegol gael eu sefydlu er mwyn caniatáu cydweithio. Bernir y bydd y sianeli presennol sydd wedi ennill eu plwyf, fel y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus⁴¹, a sefydlwyd o dan Ddeddf 2015¹, Fforwm Cenedlaethol Ansawdd a Diogelwch GIG Cymru⁶¹,

⁶¹ Llywodraeth Cymru (Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) a GIG Cymru. FFORWM CENEDLAETHOL ANSAWDD A DIOGELWCH - Cylch Gorchwyl [Y Rhyngrwyd]. Llywodraeth Cymru (Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) a GIG Cymru. Ar gael yma: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/862/Item22NationalQuality%26SafetyForumTermsofReference16July2015.pdf>

Cyddfederasiwn GIG Cymru⁶² a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol⁶³ yn cael eu defnyddio i helpu i sicrhau'r ymagwedd gydweithredol y mae ei hangen i gyflawni swyddogaethau corff o dan y ddyletswydd. Bwriad syml y ddyletswydd yw sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a natur y sgysiau a geir yn y systemau hyn yn canolbwyntio ar wella ansawdd.

Crynodeb o'r costau:

72. Mae'r costau a nodir ar gyfer datblygu a chyflwyno ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus, hyfforddiant i'r staff, a datblygu, dosbarthu ac adolygu'r canllawiau statudol wedi'u crynhoi yn y tablau isod:

Tabl 11 - Cost i Weinidogion Cymru

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Cost cyfle – hyfforddiant estynedig i arweinwyr (Tabl 9)	£200	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -

Tabl 12 - Cost i Lywodraeth Cymru

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Secondai o'r GIG (Tabl 1)	£38,200	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth ddigidol (Tabl 2)	£200	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Datblygu deunyddiau ymwybyddiaeth a hyfforddi: (Tabl 3)	£2,100	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Datblygu hyfforddiant estynedig i arweinwyr (Tabl 4)	£3,200	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Datblygu astudiaethau achos (Tabl 5)	£1,900	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -

⁶²6. Cyddfederasiwn GIG Cymru [Y Rhynggrwyd]. Cyddfederasiwn y GIG. 2019 [dyfynnwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yma: <https://www.nhsconfed.org/regions-and-eu/welsh-nhs-confederation>

⁶³ Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol | Canolfan Gwybodaeth a Dysgu [Y Rhynggrwyd]. Gofal Cymdeithasol Cymru. 2017 [dyfynnwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yma: <https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb-byrddau-partneriaeth-rhanbarthol>

Diwygio'r astudiaethau achos (Tabl 6)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£3,800
Datblygu canllawiau statudol (Tabl 7)	£3,100	£ -	£ -	£ -	£ -	£
Diwygio'r canllawiau statudol (Tabl 8)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£4,500
Cost cyfle hyfforddiant – staff Llywodraeth Cymru yn y Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Tabl 9)	£6,000	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Cost cyfle hyfforddiant – Uwch Weision Sifil yn y Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Tabl 9)	£4,200	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Datganiad Ansawdd Blynnyddol Cymru gyfan (Tabl 10)	£600	£1,900	£1,900	£1,900	£1,900	£1,900
Cyfanswm	£59,500	£1,900	£1,900	£1,900	£1,900	£10,200

Tabl 13 – Cost i gyrff y GIG

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Cost cyfle – hyfforddiant ymwybyddiaeth (Tabl 9)	£960,300	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Cost cyfle – hyfforddiant estynedig i arweinwyr (Tabl 9)	£31,900	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Cyfanswm	£992,200	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -

Manteision

Llywodraeth Cymru a Chyrff y GIG:

73. Mae yna awydd polisi i wella'r ddyletswydd ansawdd bresennol, sy'n gorwedd ar hyn o bryd yn adran 45(1) o Ddeddf 2003⁷. Mae'r ddyletswydd, o'i chymharu â Deddf 2003⁷, yn gryfach ac yn well. Yn ogystal â bod y ddyletswydd wedi'i gosod ar gyrff y GIG fe fydd yn gymwys hefyd i Weinidogion Cymru wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd. Drwy osod y ddyletswydd mewn deddfwriaeth sylfaenol (sef dyletswydd deddfwriaethol lawn) mae ansawdd

yn cario'r grym y mae ei angen i sicrhau'r newid angenrheidiol. Mae'r dull hwn hefyd yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddir mewn gwledydd eraill.

74. Bydd gosod y ddyletswydd arfaethedig yn rhan 1 o Ddeddf 2006¹² yn cynyddu amlygrwydd y ddyletswydd ac yn cryfhau a gwella'r ddyletswydd adran 45(1), drwy wneud y canlynol:

- a. sicrhau na fydd gwelliannau ansawdd yn gyfyngedig i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i unigolyn neu i safonau gwasanaeth, gan ei gwneud yn ofynnol yn hytrach i Weinidogion Cymru a chyrrff y GIG fynd ati, wrth geisio gwella ansawdd, i ganolbwyntio ar y canlyniadau a gyflawnir
- b. gosod y ddyletswydd graidd ar Weinidogion Cymru wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd (yn ychwanegol at y ddyletswydd bresennol ar gyrff y GIG)
- c. ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrrff y GIG lunio adroddiad blynyddol sy'n dangos sut maen nhw wedi gwella'r canlyniadau
- d. drwy ei gosod mewn man amlwg yn Neddf GIG Cymru - tanlinellu'r awydd polisi i sicrhau bod ansawdd "wrth galon y gwasanaeth iechyd".

75. Bydd cynyddu amlygrwydd y ddyletswydd ansawdd yn ei gosod wrth wraidd syniadau'r dyfodol ynghylch gwasanaethau iechyd. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrrff y GIG wneud penderfyniadau ar egwyddorion sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau penodol – gan gynnwys effeithiolrwydd, diogelwch a phrofiad y defnyddwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod ansawdd yn dod yn egwyddor sylfaenol y bydd Gweinidogion Cymru a chyrrff y GIG yn asesu yn ei herbyn cyn gwneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau iechyd.

76. Bydd Gweinidogion Cymru a chyrrff y GIG yn cael eu dwyn i gyfrif drwy lunio adroddiadau blynyddol ar y camau y maen nhw wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd ac i asesu hyd a lled unrhyw welliant yn y canlyniadau. Bydd y dull hwn yn y bôn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrrff y GIG adolygu sut mae'r ddyletswydd newydd yn cael ei harfer a sicrhau bod yna waith craffu annibynnol ar eu hasesiad. Bydd y dull hwn hefyd yn sicrhau bod yr adroddiad ansawdd blynyddol yn gyson â'r gofynion presennol i'r GIG ynghylch adroddiadau blynyddol ar gyllid/llywodraethu, ac yn peri ei fod yn rhan o'r gofynion hynny, gan roi darlun cyffredinol o wasanaethau ar draws Cymru. Mae hyn yn cyd-fynd â disgwyliadau presennol Llywodraeth Cymru ar gyrff y GIG.

77. Ar wahân i hyn, mae'r GIG wedi mabwysiadu'r diffiniad a dderbynnir yn rhyngwladol ac a gynigiwyd gan y Sefydliad Meddygaeth⁶⁴ fel yr oedd ar y pryd, sy'n amlinellu chwe maes mewn ansawdd gofal iechyd. Ond, i ddatgloi potensial y model hwn, yn aml mae angen edrych y tu hwnt i ffiniau sefydliadol a chydweithio ag eraill i gyflawni'r canlyniadau cywir i'r boblogaeth a wasanaethir. Bu'n anodd i Fyrddau Iechyd Lleol Cymru gyflawni hyn, gyda

⁶⁴ Six Domains of Health Care Quality [Y Rhynggrwyd]. Asiantaeth Ymchwil ac Ansawdd Gofal Iechyd. 2015 [dyfynnwyd 2 Ebrill 2019]. Ar gael yma: <https://www.ahrq.gov/talkingquality/measures/six-domains.html>

chyfyngiadau yn y gorchmynion a'u sefydlodd o bosibl yn eu hatal rhag dod o hyd i atebion newydd ac arloesol (ar sail leol, ranbarthol neu genedlaethol) a fyddai'n darparu mwy o fanteision i'w poblogaethau. Ategir y farn hon gan adroddiad gan yr OECD¹¹ a ddywedodd rai blynyddoedd ar ôl i'r Byrddau Iechyd Lleol gael eu sefydlu eu bod yn dangos:

“less innovation, and fewer radical approaches to system change and quality improvement that might have been expected”.

78. Ar ben hynny, yn adroddiad Prif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru yn 2015-16⁶⁵ dadleuwyd o blaid mwy o gydweithio rhwng cyrff y GIG, partneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a chymunedau fel bod gwasanaethau'n dylanwadu ar y cyfan o gwrs bywyd, gan wella canlyniadau, iechyd a llesiant, lleihau anghydraddoldebau iechyd ac yn y pen draw leihau'r galw ar wasanaethau statudol. Gan hynny, gellir dadlau na ddylai Byrddau Iechyd Lleol barhau i ddarparu'r un gwasanaethau, yn yr un modd, gan gyflawni'r un effaith â'u cymdogion. Yn hytrach, dylai'r Byrddau Iechyd Lleol edrych ar sut y gallan nhw fynd i'r afael â materion mewn cyd-destun llawer ehangach h.y. edrych y tu hwnt i ffiniau sefydliadol a gweithio ar y cyd ag eraill i gyflawni'r canlyniadau cywir i'w poblogaethau.

79. Nid yw'r ddyletswydd ansawdd bresennol yn Neddf 2003⁷ yn ategu'r dull gweithredu uchod ac felly bydd y ddyletswydd arfaethedig, drwy'r ymagwedd gryfach angenrheidiol at gydweithredu, yn helpu cyrff y GIG i sicrhau'r newidiadau angenrheidiol i wireddu'r manteision. O ganlyniad, bydd y ddyletswydd hefyd yn helpu cyrff y GIG yn well i gyflawni eu swyddogaethau o dan ddwy ddeddf nodedig arall yng Nghymru – Deddf 2014² a Deddf 2015¹, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill er lles hirdymor pobl Cymru. Mae'r ail un wedi ei gwneud yn ofynnol i'r ffordd draddodiadol o weithio, sef cyflawni pethau yn erbyn targedau sydd wedi'u seilio ar wasanaethau, gael ei newid i ffordd sy'n canolbwyntio ar y pum ffordd o weithio:

- Hirdymor: cydbwysu anghenion byrdymor â chynlluniau ar gyfer y tymor hir;
- Atal: gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu;
- Integreiddio: ystyried sut y gallai camau corff gyflawni'r nodau llesiant a sut y gallan nhw effeithio ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill;
- Cydweithio: sut y gallai gweithio gydag eraill helpu corff i gyflawni ei amcanion llesiant;
- Cynnwys: cynnwys pobl sydd â diddordeb wrth gyflawni nodau'r corff, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Cyrff y GIG:

⁶⁵ Llywodraeth Cymru. Adfer cydbwysedd i ofal iechyd - Gweithio mewn partneriaeth i leihau annhegwch cymdeithasol [Y Rhyngrwyd]. Llywodraeth Cymru; 2016. Ar gael yma: <https://gov.wales/docs/dhss/publications/161110cmoreport16cy.pdf>

80. Mae cynaliadwyedd y gwasanaethau iechyd yn dibynnu, ymhlith pethau eraill, ar yr angen i gyrff y GIG feddwl yn llawer ehangach ac efallai hyd yn oed ad-drefnu cydbwysedd y gwasanaethau iechyd y maen nhw'n eu darparu.

81. Mewn papur o dan y teitl '*Framework for Effective Board Governance of Health System Quality*' ystyriodd y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd y berthynas rhwng gwell canlyniadau ansawdd ac arferion rheoli gwell mewn ysbytai a mwy o sylw i ansawdd ar lefel y Bwrdd. Yn ôl eu dadansoddiad⁶⁶:

"greater board engagement is correlated with better quality outcomes...board and management prioritization of quality speaks to a leadership commitment that impacts the culture and strategic priorities of the organization."

82. Gan hynny, dylai penderfyniadau ganolbwyntio nid yn unig ar ansawdd y gofal a gaiff unigolyn wrth ddefnyddio gwasanaeth, ond ar benderfynu, mewn cydweithrediad â phartneriaid ar draws y sector, sut y gallai pob penderfyniad effeithio ar holl ddefnyddwyr y gwasanaeth yn y presennol a'r dyfodol, a gwella penderfyniadau cymdeithasol ehangach iechyd. Felly, byddai'r ddyletswydd ansawdd arfaethedig yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y cyd-destun ansawdd ehangach hwn, gan ystyried effeithiolrwydd yr ymyriadau o safbwynt gwella ansawdd.

83. Drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ystyried goblygiadau ehangach eu penderfyniadau o ran gwella'u canlyniadau i'w poblogaethau, byddai'r ddyletswydd arfaethedig yn sicrhau ei bod yn ofynnol i'r Byrddau weithio gyda'u cymdogion a phartneriaid ar draws y sector i leihau amrywiadau diangen ac anghydraddoldebau iechyd; gan roi hwb i rannu adnoddau ac arbenigedd a fydd yn ei dro yn datgloi cyfleoedd i wella effeithiolrwydd, diogelwch ac ansawdd gwasanaethau.

84. Mae cyflwyno dyletswydd ansawdd hefyd yn cyd-fynd yn gyffyrddus â chysyniadau 'Gofal Iechyd Darbodus' a 'Gofal Iechyd wedi'i seilio ar Werth', sy'n ceisio lleihau niwed a thargedu'r adnoddau yn y ffordd fwyaf priodol gan anelu at wella effeithiau triniaeth (canlyniadau) a lleihau amrywiadau mewn gofal. Mae llawer o waith eisoes wedi'i ddechrau yn GIG Cymru i edrych ar amrywiadau a mesurau canlyniadau diangen a bydd hyn yn helpu i gyflawni'r ddyletswydd arfaethedig.

Gweithwyr proffesiynol gofal iechyd:

85. Eisoes mae diwylliant ymysg gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n hybu ac yn hyrwyddo gwella ansawdd. Ategir hyn drwy ddyletswyddau proffesiynol sydd, er enghraifft, yn ei gwneud yn ofynnol i feddygon gymryd rhan mewn

⁶⁶ Y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd. Framework for Effective Board Governance of Health System Quality [Y Rhyngwryd]. Y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd; 2018. Ar gael yma: <http://www.ihl.org/resources/Pages/IHIWhitePapers/Framework-Effective-Board-Governance-Health-System-Quality.aspx>

systemau sicrhau ansawdd a gwella⁶⁷, ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i nyrsys a bydwagedd weithredu i sicrhau bod ansawdd y gofal neu'r gwasanaethau y maen nhw'n eu rhoi yn cael ei chynnal a'i gwella⁶⁸.

86. Bydd y ddyletswydd ansawdd arfaethedig yn ategu'r diwylliant presennol hwn drwy ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau weithredu yn yr un modd; er enghraifft, gwneud penderfyniadau i wella ansawdd ar sail y sefydliad ehangach. Yn ei dro bydd hyn yn golygu y bydd y gwasanaethau a'r sefydliadau'n lleoedd mwy deniadol i weithio i weithwyr ieuchyd proffesiynol gan y byddai'r staff yn cael eu hannog i awgrymu syniadau ac yn cael cymorth i weithredu'r syniadau hynny i wella ansawdd y gofal a ddarperir ar lefel y sefydliad. Yn y pen draw bydd hyn yn gwella boddhad mewn swydd, yn ysgogi'r staff ac yn arwain at weithlu mwy cynaliadwy – sef un o elfennau'r 'Nod Pedwarplyg' (a ddisgrifir fel rhywbeth a fydd yn sbarduno datblygiad llawer o systemau ieuchyd a gofal cymdeithasol a fydd yn uchel eu perfformiad ar raddfa ryngwladol yng nghynllun Llywodraeth Cymru '*Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*'⁶⁵).

Y cyhoedd:

87. Mae Gweinidogion Cymru eisoes yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw, gyda'r rhan fwyaf o bwyllgorau a chyfarfodydd llawn y Senedd ar gael i'r cyhoedd eu gwyllo ac adroddiadau'n cael eu cyhoeddi sy'n crynhoi'r penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru, ond bydd y gofyniad i osod yr adroddiad ansawdd blynyddol gerbron y Senedd yn ychwanegu at y tryloywder hwn – gan roi rhagor o dystiolaeth o sut mae penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru ynghylch y gwasanaeth ieuchyd yn y pen draw yn gwella ansawdd i ddefnyddwyr gwasanaethau.

CRYNODEB A'R OPSIWN A FFEFRIR

88. Nid yw **Opsiwn 1** yn cynnig newid yn y fframwaith presennol o ddeddfau, ac fe fyddai unrhyw welliant wrth ddarparu gwasanaethau yn cael ei sbarduno drwy ddulliau polisi fel canllawiau a rheoliadau. Mae'r ugain mlynedd diwethaf wedi dangos nad yw'r dull hwn yn effeithiol o ran newid ymddygiad sefydliadau a does dim rheswm i gredu y byddai parhau fel hyn yn helpu i fabwysiadu'r diffiniad ehangach o ansawdd y mae ei angen er mwyn darparu gwasanaethau ieuchyd effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol. Byddai derbyn yr opsiwn hwn yn methu manteisio ar yr angen i newid a byddem yn colli'r cyfle i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn hyn o beth. Gan ystyried y dystiolaeth, mae'r opsiwn hwn yn methu â bodloni'r amcanion polisi.
89. Mae **Opsiwn 2** yn creu dyletswydd i Weinidogion Cymru a chyrrff y GIG sefydlu a chadw trefniadau at fonitro a gwella ansawdd gofal ieuchyd.

⁶⁷ Y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Good medical practice [Y Rhyngrwyd]. Y Cyngor Meddygol Cyffredinol; 2013. Ar gael yma: https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/good-medical-practice---english-1215_pdf-51527435.pdf

⁶⁸ Y Cyngor Nyrsys a Bydwagedd. The code: Professional standards of practice and behaviour for nurses, midwives and nursing associates [Y Rhyngrwyd]. Y Cyngor Nyrsys a Bydwagedd; 2018. Ar gael yma: <https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/nmc-publications/nmc-code.pdf>

90. Mae'n cryfhau'r ddyletswydd bresennol a geir yn Neddf 2003⁷ drwy osod dyletswydd ansawdd am y tro cyntaf ar Weinidogion Cymru (yn ogystal â chyrff y GIG). Mae hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru (o ran eu swyddogaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd) a chyrff y GIG gael eu dwyn i gyfrif am wella canlyniadau drwy gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar y camau y maen nhw wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r dyletswydd ac i asesu graddfa'r gwelliant yn y canlyniadau.
91. Gosodir gwella ansawdd mewn lle amlwg yn Neddf GIG Cymru, gan danlinellu'r awydd polisi i sicrhau bod ansawdd wrth graidd y gwasanaeth iechyd ac mai dyna'r nodwedd rymus sy'n tynnu ynghyd y newidiadau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf.
92. Mae'r opsiwn yn adeiladu ar y prosesau a'r systemau presennol ar gyfer llywodraethiant a chyflwyno adroddiadau, er mwyn lleihau unrhyw faich a chostau posibl. Yn ychwanegol, mae yna bosibilrwydd y bydd arbedion yn deillio o'r opsiwn hwn o'i gymharu â chost bosibl ansawdd gwael a ddisgrifir yn **Opsiwn 1**; serch hynny, mae unrhyw arbedion yn anodd eu mesur yn union.
93. Mae'r opsiwn hwn yn bodloni'r amcanion polisi'n llawn a dyma'r opsiwn a ffeirir.

DYLETSWYDD GONESTRWYDD

OPSIYNAU

94. Mae dau opsiwn wedi'u nodi ac wedi'u hystyried:

Opsiwn 1: Gwneud dim;

Opsiwn 2: Creu dyletswydd gonestrwydd statudol a fyddai'n gymwys i gyrff y GIG (Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â'i swyddogaethau yng Nghymru) a darparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru mewn perthynas â'r gwasanaethau GIG a ddarperir ganddynt).

OPSIWN 1: GWNEUD DIM

Disgrifiad

95. O dan yr opsiwn hwn ni fyddai darparwyr y GIG yn dod o dan ddyletswydd gonestrwydd statudol. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau â'r gofynion ynglŷn â bod yn agored a nodir ym mhroses bresennol y GIG, Gweithio i Wella²¹ (sef y broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru) a'r dyletswyddau anstatudol ynglŷn â gonestrwydd sy'n gymwys i amryw o weithwyr iechyd proffesiynol fel rhan o'u cofrestriad proffesiynol, sy'n ategu tryloywder a bod yn agored pan aiff rhywbeth o'i le.

Costau

96. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth yr opsiwn hwn.

Manteision

97. Ni fyddai gwneud dim yn dod ag unrhyw fanteision ychwanegol ac fe gâi'r cyfle i adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes ei golli. Yn achos sefydliadau gofal cymdeithasol rheoledig, ceir 'dyletswydd gonestrwydd' eisoes o dan Ddeddf 2016⁹, ac felly ni fyddai'r opsiwn hwn yn creu ymagwedd at onestrwydd a fyddai'n unedig ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Yn achos cyrff y GIG, byddai'n methu mynd i'r afael â'r rhwystrau a geir yn y system ar hyn o bryd⁶⁹ sy'n atal gonestrwydd. Ar wahân i hynny, mae yna ddisgwyliad ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd yn sgil ymrwymiad ym Maniffesto Llafur Cymru yn 2016²⁵ a ddywedodd y byddai Cymru'n cysoni ei threfniadau â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig^{23,24}. Drwy wneud dim, byddem yn methu sicrhau'r manteision a geir drwy greu'r ddyletswydd, gan gynnwys y sicrwydd y byddai'n ei roi i ddefnyddwyr gwasanaethau'r GIG a'r staff sy'n dod i Gymru o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn yr ystyr y byddai cyrff y GIG yn sicrhau ymateb agored, gonest a chefnogol pe bai rhywbeth yn mynd o'i le.
98. Gan hynny, nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni'r bwriad polisi.

OPSIWN 2: CREU DYLETWSYDD GONESTRWYDD STATUDOL – YN GYMWYS I GYRFF Y GIG (BYRDDAU IECHYD LLEOL, YMDDIRIEDOLAETHAU'R GIG, AC AWDURDODAU IECHYD ARBENNIG CYMRU (GAN GYNNWYS GWAED A THRAWSBLANIADAU'R GIG MEWN PERTHYNAS Â'I SWYDDOGAETHAU YNG NGHYMRU) A DARPARWYR GOFAL SYLFAENOL YNG NGHYMRU MEWN PERTHYNAS Â'R GWASANAETHAU GIG A DDARPERIR GANDDYNT).

Disgrifiad

99. Byddai'r opsiwn hwn yn creu dyletswydd gonestrwydd statudol ar ddarparwyr gwasanaethau'r GIG i ddarparu gwybodaeth a chymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau pan fyddai digwyddiad diogelwch cleifion yn codi ac yn arwain at ganlyniadau andwyol. Byddai'r ddyletswydd yn gymwys i gyrff y GIG.
100. Byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn gymwys pe bai defnyddiwr gwasanaeth, ar ôl derbyn gofal iechyd, yn dioddef canlyniad andwyol yn arwain - neu a allai arwain - at fwy nag ychydig o niwed, a lle'r oedd y gofal iechyd a ddarparwyd yn ffactor neu lle y gallai fod wedi bod yn ffactor.

⁶⁹Waring, J. Beyond blame: cultural barriers to medical incident reporting. Social Science & Medicine [Y Rhyngrwyd]. 2005;60(9):1927-1935. Ar gael yma: <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0277953604004666>

101. Pan fyddai'r ddyletswydd yn gymwys, byddai'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau'r GIG ddilyn gweithdrefn a gâi ei nodi mewn rheoliadau. Byddai'r weithdrefn yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth neu eu gynrychiolydd wrth ddod i wybod am y digwyddiad, er mwyn ei hysbysu am yr hyn mae'n deall a ddigwyddodd, egluro'r camau nesaf, rhoi ymddiheuriad a chynnig cymorth.
102. Byddai'n ofynnol i gyrff y GIG gyflwyno adroddiad blynyddol ar y ddyletswydd. Byddai angen i'r adroddiad nodi a fyddai'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i defnyddio yn ystod y flwyddyn, pa mor aml, disgrifio'n fyr amgylchiadau pob achos a disgrifio'r camau a gymerid gan y darparwr gan fwriadu atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

Costau:

103. Dylai byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol fod â rhywfaint o drefniadau yn eu lle eisoes i ddiwallu gofynion presennol egwyddorion Bod yn Agored⁷⁰ yn Gweithio i Wella²¹. Felly mae'r adnoddau sy'n ofynnol gan ddarparwr i roi'r ddyletswydd ar waith yn debyg o amrywio gan ddibynnu ar aeddfedrwydd eu trefniadau presennol. Fodd bynnag, bydd angen i ddarparwyr sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o'r ddyletswydd newydd, ac wedi'u hyfforddi i'w gyflawni lle bo'n briodol. Bydd hefyd angen adolygu polisïau a gweithdrefnau. Bydd hefyd yn hanfodol i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r hyn y gellid ei ddisgwyl pe bai rhywbeth yn mynd o'i le.
104. Disgwylir mai costau bychan iawn fydd ar gyfer Awdurdodau Iechyd Arbennig gan nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol heblaw mewn sefyllfaoedd lle mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu neu wedi cael ei ddarparu. O ganlyniad mae'r costau i Awdurdodau Iechyd Arbennig ond yn ymwneud â chostau cyfle cynnal rhaglen gyfyngedig o hyfforddiant (ceir cyfeiriad atynt ym mharagraffau 110 a 121). Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Awdurdodau Iechyd Arbennig y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt er mwyn sicrhau bod y canllawiau, a'r modd y maent yn berthnasol iddyn nhw, wedi eu deall mewn perthynas â'r nifer bach o achosion lle y mae'n debygol o fod yn berthnasol. Felly, mae'r costau a ddisgrifir isod yn ymwneud yn bennaf â rhoi'r ddyletswydd ar waith ar gyfer byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol.

Ymwybyddiaeth, hyfforddiant a chymorth

105. Er mwyn rhoi'r ddyletswydd ar waith yn llwyddiannus, mae tri maes allweddol lle mae angen gweithredu:

- i. ymgych ymwybyddiaeth gyhoeddus;
- ii. ymwybyddiaeth a hyfforddiant mewn sefydliadau;
- iii. datblygu canllawiau statudol.

Disgrifiad – amlinellir y tri maes isod, yn eu tro:

⁷⁰ Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion. Bod yn Agored [Y Rhyngrwyd]. 2009. Ar gael yma: <https://www.hsj.co.uk/download?ac=1293677>

i. **Ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus:**

106. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn adlewyrchu pwysigrwydd ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus²⁶. Byddai ymgyrch yn anelu at gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â'r ddyletswydd gonestrwydd, gan rymuso unigolion i ofyn cwestiynau am y gofal a'r gwasanaethau a geir, gan wybod y gallent ddisgwyl ymateb agored a thryloyw pe byddent yn dioddef canlyniad andwyol a allai arwain at niwed.
107. Rhagwelir y byddai'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus yn cynnwys dwy elfen, sef ymgyrch gyhoeddusrwydd a thaflen wybodaeth i'r cyhoedd.
108. Mae'n debyg y byddai'r ymgyrch gyhoeddusrwydd yn cynnwys cysylltiadau cyhoeddus, y cyfryngau cymdeithasol a gweithio gyda chyrff perthnasol. Byddai creu taflen wybodaeth i'r cyhoedd yn cynnwys cynhyrchu cyfuniad o ddeunydd electronig a deunydd copi caled, i'w arddangos yn sefydliadau'r GIG, ynghyd â phresenoldeb ar-lein ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru⁴⁴, darparwyr gwasanaethau'r GIG, Iechyd yng Nghymru⁷¹ (gwefan swyddogol y GIG), ac ar wefan y corff arfaethedig newydd i roi llais i ddinasyddion. I gyflawni hyn, byddai Llywodraeth Cymru'n ceisio diwygio taflenni presennol Gweithio i Wella²¹ er mwyn ymgorffori'r ddyletswydd gonestrwydd.

ii. **Ymwybyddiaeth a hyfforddiant i'r sefydliadau:**

109. Mae addysg a hyfforddiant yn allweddol er mwyn hybu gonestrwydd⁷². Gan hynny, mae symud darparwyr gwasanaethau'r GIG ymlaen at sefyllfa lle maen nhw'n gyson ac yn ymatebol yn agored a thryloyw gyda defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le yn debygol o olygu cyfuniad o arweinyddiaeth a newid mewn diwylliant ac ymddygiad. I ategu hyn, mae'n debyg y bydd angen cyfuniad o wahanol fathau o hyfforddiant ac addysg ar gyfer byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol:
110. **Hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i'r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG:** Er mwyn sefydlu lefel sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd gonestrwydd i bob aelod o staff y GIG, ac i greu diwylliant agored lle mae'r staff yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi i godi pryderon, fe fydd angen lefel sylfaenol o hyfforddiant ymwybyddiaeth. Byddai hyn yn cynnwys adeiladu ar yr egwyddorion ynglŷn â bod yn agored a geir yng nghanllawiau Gweithio i Wella²¹ ynghylch pethau sy'n mynd o chwith. Mae bod yn agored yn golygu:

⁷¹ Iechyd yng Nghymru [Y Rhyngwrdd]. GIG Cymru. 2019 – [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael yma: <http://www.wales.nhs.uk/>

⁷² Yr asiantaeth safonau proffesiynol. Telling patients the truth when something goes wrong - Evaluating the progress of professional regulators in embedding professionals' duty to be candid to patients [Y Rhyngwrdd]. Yr asiantaeth safonau proffesiynol; 2019. Ar gael yma: https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/research-paper/telling-patients-the-truth-when-something-goes-wrong---how-have-professional-regulators-encouraged-professionals-to-be-candid-to-patients.pdf?sfvrsn=100f7520_6

- cydnabod, ymddiheuro ac esbonio pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le;
- cynnal adolygiad trylwyr o'r digwyddiad a thawelu meddwl cleifion, eu teuluoedd a'u gofalmwyr y bydd y gwersi a ddysgir yn helpu i atal y digwyddiad rhag codi eto;
- helpu'r rhai yr effeithir arnynt i ymdopi ag unrhyw ganlyniadau corfforol a seicolegol yn sgil yr hyn a ddigwyddodd;
- sicrhau bod gan y sefydliad systemau effeithiol ar waith i gefnogi'r staff, fel bod dulliau cefnogi ar gael pan fydd aelod o'r staff yn rhan o ymchwiliad.

111. Mae hyfforddiant presennol holl staff y GIG ynghylch bod yn agored a thryloyw pan geir digwyddiad yn cael ei gyflwyno'n bennaf drwy offeryn e-ddysgu Gweithio i Wella sydd ar gael ar borth hyfforddiant y GIG. Gan hynny, byddai Llywodraeth Cymru'n ceisio ailgynllunio'r offeryn e-ddysgu i adnewyddu'r cynnwys presennol a chynnwys modiwl ar y ddyletswydd gonestrwydd.

112. **Hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i'r holl staff – gofal**

sylfaenol: Mae'r offeryn e-ddysgu Gweithio i Wella hefyd yn berthnasol i ofal sylfaenol, ond rhagwelir y bydd modiwl ychwanegol yn cael ei gynnwys, wedi ei deilwra yn benodol i adlewyrchu sefyllfaoedd tebygol o fewn lleoliad gofal sylfaenol. Pan nad oes modd i bractisau gofal sylfaenol gyrraedd at borthol e-ddysgu'r GIG, bydd trefniadau yn cael eu gwneud i nodi llwyfannau lle gellir cyrraedd at y dysgu, ee drwy lwybrau hyfforddi proffesiynol.

113. **Hyfforddiant uwch i staff arbenigol:** Gan adeiladu ar yr hyfforddiant ymwybyddiaeth cyffredinol uchod, bydd ar unigolion allweddol o fewn pob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth angen hyfforddiant manylach i feithrin yr wybodaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen pan ddaw'r ddyletswydd i rym.

114. Y bwriad yw y bydd yr hyfforddiant hwn yn adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd pan gafodd 'Bod yn Agored'⁷⁰ ei gyflwyno yn 2005, a'i atgyfnerthu wedyn dwy gyflwyno Gweithio i Wella yn 2011²¹. Roedd hyn yn gofyn i sefydliadau enwi arweinwyr o glinigwyr, nyrsys a rheolwyr i hyrwyddo dull 'Bod yn Agored'. Roedd yr hyrwyddwyr hyn i fod i fentora a chefnogi cyd-glinigwyr; datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer hyfforddi staff; a rhoi cefnogaeth barhaus i'r sefydliad. Rhagwelir felly y byddai'r hyfforddiant ymwybyddiaeth uwch arfaethedig yn darparu 'Hyrwyddwyr Sefydliadol' a'r rheini â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i roi cyngor a chymorth i staff eraill yn eu sefydliadau.

115. Rhagwelir bod modd darparu hyn drwy greu elfen ychwanegol yn yr offeryn e-ddysgu a ddisgrifiwyd uchod. Disgwylir wedyn, pan fydd yr hyfforddiant newydd wedi'i ddatblygu, y gallai gael ei hyrwyddo yn rhad ac am ddim drwy rwydweithiau presennol y GIG, er enghraifft Rhwydwaith Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau a Rhwydwaith Profiadau Cleifion, gan hybu datblygiad carfan ehangach o staff.

116. **Hyfforddiant i dimau pryderon:** I alluogi darparwyr gwasanaethau'r GIG i sicrhau bod y ddyletswydd yn cael ei rhoi ar waith yn briodol ac i baratoi

adroddiad blynyddol ar y ddyletswydd gonestrwydd, mae'n debyg mai'r timau pryderon yn y Byrddau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaethau fydd yn gyfrifol am gasglu'r data angenrheidiol ac am fonitro a sicrhau ansawdd y data hwnnw. Mae hyn yn gyson â gwaith y timau hyn ar hyn o bryd pan fo corff yn ymdrin â phryder (fel yr esbonnir isod). I helpu timau pryderon i ystyried goblygiadau'r ddyletswydd, er enghraifft y data y bydd angen ei gasglu a sut y gall fod angen i'r prosesau a'r gweithdrefnau presennol newid, fe fydd angen hyfforddiant.

117. Mae unigolion yn y timau pryderon eisoes yn cael hyfforddiant sy'n benodol i'r swydd o ran eu rôl bresennol wrth gasglu a monitro data am bryderon. Rhagwelir y gall hyn gael ei ddarparu drwy greu modiwl ychwanegol, yn unswydd i dimau pryderon, ar gyfer yr offeryn e-ddysgu a ddisgrifir uchod.
118. **Rheolwyr practis gofal sylfaenol / arweinwyr cwynion:** i gefnogi practisau gofal sylfaenol i roi'r ddyletswydd ar waith, cynigir darparu gweithdai wyneb yn wyneb i reolwyr practis gofal sylfaenol / arweinwyr cwynion mewn amrywiol leoliadau ar draws Cymru. Mae hyn er mwyn sicrhau bod arweinwyr practisau yn cael yr offer sydd eu hangen arnynt i gyflawni'r newidiadau gofynnol yn eu practisau.
119. **Hyfforddiant ar lefel y Bwrdd:** I helpu ac i ymgorffori egwyddorion bod yn agored a thryloyw o fewn darparwyr gwasanaethau'r GIG, i helpu'r staff i wireddu'r ddyletswydd, ac i ategu'r newidiadau ehangach y mae eu hangen mewn arweinyddiaeth, diwylliant ac ymddygiad er mwyn gweithredu'r ddyletswydd, bydd ar aelodau Byrddau angen hyfforddiant. Bydd yr hyfforddiant hwn yn sicrhau bod aelodau Byrddau'n hyderus yn eu gallu i geisio sicrhwydd bod eu sefydliad yn gwneud digon i ddysgu o ddigwyddiadau cleifion a'u bod yn defnyddio'r gwaith dysgu hwn i wella gwasanaethau.
120. Rhagwelir y câi'r hyfforddiant hwn ei roi wyneb yn wyneb.
121. **Hyfforddiant gwasanaethau cyfreithiol a rheoli risg:** I helpu unigolion allweddol o fewn darparwyr gwasanaethau'r GIG i ddeall goblygiadau'r ddyletswydd mewn perthynas â Mesur Gwneud iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008⁷³ a Rheoliadau 2011²⁷ gan gynnwys sut mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau yn ymdrin ag ymchwiliadau i bryderon a fynegwyd gan deuluoedd a staff, bydd angen hyfforddiant arbenigol. Mae'r tîm Cyfreithiol a Risg o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar hyn o bryd yn darparu cyngor a chymorth i gyrff y GIG mewn perthynas â gwneud iawn a Gweithio i Wella²¹ a byddai disgwyl iddynt ddarparu'r hyfforddiant hwn.
122. Rhagwelir y câi'r hyfforddiant hwn ei roi wyneb yn wyneb gan gyfreithiwr o'r tîm Cyfreithiol a Risg.

iii. Datblygu Canllawiau Statudol:

⁷³ Mesur Gwneud iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008.
<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/1/introduction>

123. I helpu darparwyr gwasanaethau'r GIG i ddeall sut maen nhw'n cyflawni eu dyletswydd, caiff canllawiau statudol eu paratoi gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol bydd angen diffinio a datblygu sefyllfaoedd sy'n egluro pryd y dylid tanio'r ddyletswydd. Bydd y canllawiau hefyd yn cynnwys cyngor ar sut y dylid cyflwyno adroddiadau ar y ddyletswydd. Felly, oherwydd ei natur dechnegol a chlinigol, y bwriad yw y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu gweithdai, a fydd yn cynnwys clinigwyr a chynrychiolwyr lleig, i helpu i ddatblygu'r canllawiau er mwyn sicrhau ei bod yn amlwg i ddarparwyr gwasanaethau'r GIG a defnyddwyr gwasanaethau pryd mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol a pha gamau y mae angen eu cymryd wedyn. Bwriedir i'r canllawiau gael eu cysylltu â chanllawiau presennol Gweithio i Wella²¹.

124. **Costau** – mae'r tri phrif faes wedi'u costio yn eu tro isod:

125. Oni nodir fel arall, yn 2020-21 y disgwylir i'r costau gael eu hysgwyddo. Mae'r amser, pan fo'n cael ei nodi, yn cyfeirio at nifer y diwrnodau gwaith.

126. Oherwydd natur arbenigol y gwaith hwn, oni nodir fel arall, rhagwelir y bydd angen yr hyn sy'n gyfwerth â 0.5 o secondai o'r GIG i ddatblygu cynnwys ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus, y deunyddiau i ategu ymwybyddiaeth sefydliadau a'r canllawiau statudol. Yn ychwanegol, bydd yn ofynnol i'r secondai ddarparu'r hyfforddiant. Rhagwelir na fydd y gwaith yn cymryd mwy na 12 mis, ac y caiff ei wneud gan aelod o staff ar lefel briodol - amcangyfrifir y bydd ar raddfa sy'n cyfateb i Fand Gweithredol 2 Llywodraeth Cymru (BG2). Cost secondio rhywun i Lywodraeth Cymru o'r GIG yn fras yw:

Tabl 14 – secondai o'r GIG

Costau swyddog ar secondiad o'r GIG yn cyfateb i BG2		
Cost Flynyddol BG2 ar Gyfartaledd	Amcangyfrif o'r Amser Angenrheidiol	Cost
£76,300*	0.5	£38,200

* wedi'i ddarparu gan Dîm Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru, ar sail Cyfraddau Cyflogau Gros Cyfartalog i Fandiau Tâl y tu allan i'r Uwch Wasanaeth Sifil 2018/19.

127. Yn ychwanegol at yr uchod, mae yna gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phob elfen, ar gyfer darparu'r elfen honno'n benodol. Mae'r costau dylunio a chyfieithu yn dibynnu ar gymhlethdod a gofynion terfynol y cynnyrch. Mae amcangyfrifon o'r costau hyn wedi'u hamlinellu isod:

i. **Ymgyrch Ymwybyddiaeth Gyhoeddus:**

Tabl 15 – Datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus

Gweithgaredd	Gradd	Amser	Cost
Ymgyrch gyhoeddusrwydd	-	-	£10,400 ⁽ⁱ⁾
Cost cyfle – cyfieithu i'r Gymraeg a darllen profleuni ⁽ⁱⁱ⁾	Band Rheoli 2	0.5 diwrnod	£100

Cost cyfle – Dylunio a chysodi ⁽ⁱⁱ⁾	Band Rheoli 3	4 awr	£100
Cyfieithu, darllen proflenni a chysodi mewn 16 o ieithoedd llai ⁽ⁱⁱⁱ⁾	-	-	£3,400
Cynhyrchu a pharatoi canllawiau sain a Braille ⁽ⁱⁱⁱ⁾	-	-	£1,000
Costau argraffau, gan gynnwys fersiwn hawdd ei darllen a fersiwn i blant ⁽ⁱⁱⁱ⁾	-	-	£6,400
Dosbarthu ^(iv)	-	-	£2,100
Cyfanswm			£23,500

⁽ⁱ⁾ Yn debyg i gostau'r ymgyrch gyfathrebu gyhoeddus a oedd yn gysylltiedig â chyflwyno'r elfen gweithdrefnau arbennig o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, wedi'i godi yn sgil chwyddiant⁷⁴.

⁽ⁱⁱ⁾ Wedi'i seilio ar gyfieithu, dylunio a chysodi taflen Gweithio i Wella, wedi'i godi yn sgil chwyddiant²¹ – tua 600 o eiriau.

⁽ⁱⁱⁱ⁾ Wedi'i seilio ar gostau ailddylunio taflen Gweithio i Wella²¹ yn 2017, wedi'i godi yn sgil chwyddiant, a oedd yn cynnwys deg disg sain, deg copi braille, fersiwn hawdd ei ddarllen a fersiwn i blant.

^(iv) Wedi'i seilio ar gost dosbarthu 106,700 o daflenni Gweithio i Wella²¹ yn 2017, wedi'i godi yn sgil chwyddiant.

128. Mae costau staff Llywodraeth Cymru ynghlŷn â datblygu'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus wedi'u cynnwys yn yr adnoddau yn Nhabl 14.

ii. Ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff:

129. I ddatblygu'r modiwl e-ddysgu y mae ei angen i ategu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i holl staff y GIG a gofal sylfaenol (gan ddiwygio'r modiwl PTR presennol), a mynd ati ar wahân i greu'r modiwlau e-ddysgu ychwanegol y bydd eu hangen i ategu hyfforddiant estynedig ar gyfer staff gofal sylfaenol, timau pryderon a staff arbenigol uwch, mae yna gost cyfle i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chyfieithu'r deunydd hwn:

Tabl 16 – datblygu modiwlau e-ddysgu hyfforddiant:

Gweithgaredd	Gradd	Amser	Cost
Cost cyfle – Cyfieithu'r deunydd e-ddysgu ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 2	9 diwrnod	£1,600

⁽ⁱ⁾ Ar sail amcangyfrif o nifer y geiriau ym modiwl presennol y GIG 'Gweithio i Wella' (sef amcangyfrif o 18,000 o eiriau).

⁷⁴Llywodraeth Cymru. Memorandwm Esboniadol - Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). 2018.

130. I gyd-fynd â'r uchod, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi cadarnhau na fyddai uwchlwytho a lletya'r modiwlau e-ddysgu ar-lein yn costio dim i Lywodraeth Cymru. Pe câi penderfyniad ei wneud bod darparwr e-ddysgu gwahanol yn fwy addas, byddai angen trefnu ymarfer i greu manyleb a gwahodd tendrau.

131. Ar gyfer yr hyfforddiant Cyfreithiol a Risg, amcangyfrifir y bydd pob darparwr gwasanaethau'r GIG angen, ar gyfartaledd, dau ddiwrnod o hyfforddiant y flwyddyn i'w ddarparu gan gyfreithiwr Band 8b y GIG. Amcangyfrifir mai cost cyfle hyn i'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yw:

Tabl 17 – datblygu a darparu hyfforddiant Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg:

Gweithgaredd	Diwrnodau hyfforddiant (2 ddiwrnod i bob darparwr gwasanaethau GIG)	Cyfradd gymedrig fesul awr (ar sail brig Band 8b)	codiad o 27% ar gyfer 'argostau'	Cyfanswm Costau Blynnyddol
Cost cyfle – Cyfreithiol a Risg – datblygu a darparu hyfforddiant	20 diwrnod	£31.80	£6.36	£5,700

132. Ar ben hynny, rydym yn disgwyl mai mangreoeidd Llywodraeth Cymru neu'r GIG fyddai'n cael eu defnyddio i ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb i reolwyr practisau gofal sylfaenol /arweinwyr cwynion, hyfforddiant Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg, ac ni fyddai Byrddau'r GIG yn ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol. Er hynny, efallai y bydd cost yn gysylltiedig â sicrhau lleoliadau i ddarparu'r hyfforddiant hwn os na fydd lle addas ar gael am ddim.

Datblygu Canllawiau Statudol

133. Wrth ddatblygu'r canllawiau statudol, fe fyddai yna gost i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r gweithdai arfaethedig gyda'r rhanddeiliaid allweddol. Rhagwelir y ceid hyd at bedwar gweithdy ledled Cymru, yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru neu leoliadau eraill y gellid eu defnyddio'n rhad ac am ddim. Ond, fe fydd costau'n codi i dalu costau'r gweithwyr iechyd proffesiynol a fydd yn bresennol, gan gynnwys teithio a chynhaliaeth, a lle bo'n gymwys gost locwm yn achos darparwyr gofal sylfaenol. Telir y cyfraddau hyn yn unol â pholisi pwyllgor iechyd statudol Llywodraeth Cymru ar ad-dalu costau aelodau. Amcangyfrifir y bydd costau cynnal y pedwar digwyddiad fel a ganlyn:

Tabl 18 – gweithdai i ddatblygu'r canllawiau statudol

Gweithgaredd	Cost	Nifer yn bresennol (ii)	Cyfanswm cost
Darpariaeth locwm ⁽ⁱ⁾	£400	8	£3,200

Teithio a chynhaliaeth	£100	8	£800
Cyfanswm			£4,000

⁽ⁱ⁾ £400 oedd y swm cyfartalog a dalwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 am ddiwrnod llawn o ddarpariaeth locwm yn lle darparwyr gofal sylfaenol a ddeuai dod i bwyllgorau iechyd statudol.

⁽ⁱⁱ⁾ Tuag wyth o staff gofal sylfaenol yn bresennol yn y digwyddiadau (dau ddeintydd, dau feddyg teulu, dau fferyllydd a dau optometrydd).

134. I ddatblygu'r canllawiau statudol, bydd yna gost cyfle i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r amser staff y mae ei angen i gyfieithu a darllen proflenni, ac amser ar wahân i ddylunio a chysodi'r canllawiau. Amcangyfrifir na fydd y canllawiau'n fwy na 25,000 o eiriau. Dyma amcangyfrif o'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â datblygu'r astudiaethau achos:

Tabl 19 – cost cyfle datblygu canllawiau statudol

Gweithgaredd	Gradd	Amser	Amcangyfrif o'r gost cyfle
Cost cyfle – Cyfieithu a darllen proflenni	Band Rheoli 2	15 diwrnod	£2,600
Cost cyfle – Dylunio a chysodi	Band Rheoli 3	4 diwrnod	£500
Cyfanswm			£3,100

135. Mae costau staff Llywodraeth Cymru ynglŷn â datblygu'r canllawiau wedi'u cynnwys yn yr adnoddau yn Nhabl 14.
136. Ni fyddai costau yn gysylltiedig â dosbarthu'r canllawiau, gan mai fersiynau electronig yn unig â fyddai ar gael.
137. Câi'r canllawiau eu diwygio bob pum mlynedd, gyda'r gost gyntaf yn codi yn 2025-26. Dyma amcangyfrif o'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â'r gwaith diwygio hwn:

Tabl 20 – cost cyfle diwygio'r canllawiau statudol

Gweithgaredd	Gradd	Amser	Amcangyfrif o'r gost cyfle
Cost cyfle – Diwygio'r canllawiau	Band Gweithredol 2	10 diwrnod	£2,900
Cost cyfle – Dylunio a chysodi ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 3	2 ddiwrnod	£300
Cost cyfle – Cyfieithu a darllen proflenni ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 2	7.5 diwrnod	£1,300
Cyfanswm			£4,500

⁽ⁱ⁾ Amcangyfrifir y byddai costau dylunio a chyfieithu'n hafal i hanner y costau gwreiddiol, a hynny oherwydd nifer y newidiadau y byddai angen eu gwneud.

138. Ni fyddai costau argraffu yn gysylltiedig â'r diwygiad, gan mai yn electronig yn unig y câi ei gynhyrchu.

Cost cyfle hyfforddiant:

139. Mae yna gost cyfle yn gysylltiedig â'r ffaith bod staff ac aelodau Byrddau'n ymgymryd â hyfforddiant. Mae'r rhain wedi'u nodi isod ac wedi'u cyfrifo yn Nhabl 21. Mae'r amcangyfrif o'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â'r rhai a fydd yn hyfforddi wedi'u cyfrif ar sail y nifer o oriau staff a dreulir yn hyfforddi, wedi'i luosi â chost gyfartalog pob awr ac maent wedi'u nodi yn y tabl isod. Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith y byddai llawer o staff yn ymgymryd â hyfforddiant amgen o ryw fath fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus gofynnol pe na bai'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddilyn.
140. Mae'r costau cyfle a amcangyfrifir isod wedi'u seilio ar y rhagdybiaethau a ganlyn:
141. **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaenol i'r Holl Staff – a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG:** Amcangyfrifir y byddai angen rhoi'r hyfforddiant hwn i ryw 90,800 o unigolion⁵⁵ (staff a oedd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan GIG Cymru ar 30 Medi 2017 a staff Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG a allai hwyluso rhoi organau yng Nghymru) ac y cymerai'r modiwl e-ddysgu tua 30 munud i'w gwblhau i bob person.
142. **Hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i'r holl staff – gofal sylfaenol:** Amcangyfrifir y byddai'r hyfforddiant e-ddysgu yn cael ei ddarparu i tua 15,500 o unigolion, ac y byddai'n cymryd tua awr y person i'w gwblhau (gan gynnwys yr hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i'r holl staff sy'n cymryd tua 30 munud).
143. **Hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff arbenigol uwch:** Amcangyfrifir y byddai angen darparu'r hyfforddiant hwn i ryw 43 o unigolion (ar sail pedwar i bob Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth a thri ar gyfer Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG), ac y cymerai ryw dair awr y person i'w gwblhau.
144. **Hyfforddiant i dimau pryderon:** Amcangyfrifir y byddai angen darparu'r hyfforddiant hwn i ryw 262 o unigolion, ac y cymerai ryw ddwy awr y person i'w gwblhau.
145. **Rheolwyr practisau gofal sylfaenol / arweinwyr cwynion:** Amcangyfrifir y byddai'r gweithdai i reolwyr practis gofal sylfaenol / arweinwyr cwynion yn cael eu darparu i tua 1,945 o unigolion, ac y cymerai ryw bedair awr y person i'w gwblhau.
146. **Hyfforddiant ar lefel bwrdd:** Byddai angen rhoi'r hyfforddiant hwn i ryw 205 o unigolion (ar sail aelodaeth y Byrddau ym mis Ionawr 2019), ac fe fyddai'r hyfforddiant yn cymryd tua dwy awr i'w gwblhau i bob person.
147. **Hyfforddiant gwasanaethau cyfreithiol a risg** Byddai angen rhoi'r hyfforddiant hwn i ryw 1,955 o unigolion (ar sail un aelod i bob darparwr

gwasanaethau'r GIG), ac fe fyddai'r hyfforddiant yn cymryd tua dau ddiwrnod (15 awr) i'w gwblhau i bob person.

Tabl 21 – costau cyfle ymwybyddiaeth a hyfforddiant i sefydliadau

Carfan	Niferoedd staff	Oriau hyfforddiant y person	Cyfradd gymedrig fesul awr	codiad o 27% ar gyfer 'argostau' ⁽ⁱ⁾	Amcangyfrif o'r costau cyfle
Hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i'r Holl staff – a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG:	90,848	0.5	£16.59 ⁽ⁱⁱ⁾	£4.48	£957,100
Hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i'r holl staff – gofal sylfaenol:	15,329 ⁽ⁱⁱⁱ⁾	0.5	£16.59	£4.48	£161,500
Hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff arbenigol uwch	43	3	£27.13 ^(iv)	£7.33	£4,400
Hyfforddiant timau pryderon	262 ^(v)	2	£16.59	£4.48	£11,000
Rheolwyr practis gofal sylfaenol / arweinwyr cwynion:	1,945 ^(vi)	4	£16.59	£4.48	£163,900
Hyfforddiant ar lefel y Bwrdd	205	2	£57.68 ^(vii)	£15.57	£30,000
Hyfforddiant Cyfreithiol a Risg	1,955	15	£16.59	£4.48	£ 617,900
Cyfanswm					£1,945,800

(i) Yn unol â chyngor adran Cyllid HSS Llywodraeth Cymru, mae codiad o 27% wedi'i gynnwys gan nad yw'r ffigur sydd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnwys argostau.

(ii) Mae Arolwg Oriau ac Enillion blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai £16.59 oedd y tâl cymedrig bob awr (heb gynnwys goramser) i'r rhai a oedd yn gweithio mewn iechyd dynol yn 2018;

(iii) Mae'r data yn cynnwys deintyddion⁷⁵, meddygon teulu a meddygon locwm, staff practisau meddygon teulu⁷⁶ a fferyllfeydd cymunedol⁷⁷, fodd bynnag nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys staff eraill sy'n gweithio mewn fferyllfeydd, optegwyr na deintyddion gan nad yw'r data hyn yn cael eu casglu. Gall gynnwys rhai aelodau staff sydd wedi'u cofnodi dan y ffigur staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG.

(iv) Mae Arolwg Oriau ac Enillion blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai £27.13 oedd y tâl cymedrig bob awr (heb gynnwys goramser) i reolwyr a chyfarwyddwyr gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn 2018;

(v) Ar sail gwybodaeth a dderbyniwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau mewn perthynas â nifer y staff sy'n ymwneud â phryderon, digwyddiadau, Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS), gwneud iawn, hawliadau a'r Ombudsmon.

(vi) Ar sail 716 fferyllfa gymunedol, 461 deintyddfa, 416 practis meddyg teulu a 352 practis optometreg yng Nghymru ar 1 Ebrill 2019. Ffigurau fferyllfeydd, deintyddol a Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol wedi'u cadarnhau gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a'r ffigurau optometreg wedi'u darparu gan Optometreg Cymru (drwy Dîm Polisi Iechyd Synhwyrdd Llywodraeth Cymru).

(vii) Mae Arolwg Oriau ac Enillion blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai £57.68 oedd y tâl cymedrig bob awr (heb gynnwys goramser) i brif weithredwyr ac uwch swyddogion yn 2018;

148. Y disgwyl yn y tymor hir yw y bydd unrhyw gostau cyfle sy'n gysylltiedig â hyfforddiant yn cael eu hamsugno gan ddarparwyr gwasanaethau'r GIG fel rhan o'u busnes arferol, gan gynnwys amser staff a ddyrennir ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a gweithgareddau hyfforddi, gan leihau felly ar unrhyw faich ychwanegol. Disgwylir y bydd darparwyr gwasanaethau'r GIG yn parhau i ymgorffori'r hyfforddiant hwn yn eu pecynnau hyfforddi presennol i'w staff, er enghraifft fel rhan o gyfnod ymsefydlu staff neu drwy eu cyfeirio ato fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus eu haelodau.

Costau rhoi'r ddyletswydd ar waith a'r costau gweithredu parhaus:

149. Yn ychwanegol at y meysydd allweddol uchod, lle mae angen cymryd camau er mwyn rhoi'r ddyletswydd gonestrwydd ar waith yn llwyddiannus, efallai y bydd costau atodol eraill yn codi.
150. Lle bo modd, mae'r ddyletswydd yn adeiladu ar y systemau a'r prosesau presennol sy'n sail i egwyddorion Bod yn Agored⁷⁰ a Rheoliadau 2011⁷¹, sydd eisoes wedi hen ennill eu plwyf ym mholisiâu a gweithdrefnau presennol y sefydliadau.
151. Bydd angen i holl ddarparwyr gwasanaethau'r GIG ddatblygu cynllun gweithredu i sicrhau bod y ddyletswydd yn cael ei chyflwyno'n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys adolygu polisiâu a gweithdrefnau i sicrhau bod y newidiadau sy'n ofynnol o dan y ddyletswydd yn cael eu hymgorffori, eu hadrodd a'u mabwysiadu drwy drefniadau llywodraethu'r sefydliadau - gan gynnwys y trefniadau adrodd ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol sy'n darparu gofal ar eu

⁷⁵ Gwasanaethau deintyddol y GIG [Y Rhyngwrdd]. Llyw.Cymru Gwasanaethau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru 2019 – [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael yma:

<https://gweddill.gov.wales/statistics-and-research/nhs-dental-services/?skip=1&lang=en>

⁷⁶ Ymarferwyr meddygol cyffredinol [Y Rhyngwrdd]. Llyw.Cymru Gwasanaethau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru 2018 [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael yma:

<https://gweddill.gov.wales/statistics-and-research/general-medical-practitioners/?lang=en>

⁷⁷ Gwasanaethau fferyllol cymunedol [Y Rhyngwrdd]. Llyw.Cymru Gwasanaethau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru 2018 [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael yma:

<https://gweddill.gov.wales/statistics-and-research/community-pharmacy-services/?lang=en>

rhan. Rhagwelir mai'r timau pryder a fydd yn arwain yn hyn o beth. Amcangyfrifir y bydd y gost cyfle i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig fel a ganlyn:

Tabl 22 – cost cyfle datblygu cynllun gweithredu

Gweithgaredd	Nifer y cyrff	Amser angenrheidiol	Cyfradd flynyddol (i)	Amcangyfrif o'r costau cyfle
Cost cyfle – Datblygu cynllun gweithredu - Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig	10	3 diwrnod	£76,300	£8,800
Cost cyfle – Datblygu cynllun gweithredu - Practisau gofal sylfaenol	1,945	2 ddiwrnod		£ 1,141,600
Cyfanswm cost				£ 1,150,400

⁽ⁱ⁾Tabl 1 – cyfartaf ag BG2 – darparwyd y gyfradd flynyddol gan Dîm y Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddiaeth ar sail Cyfraddau Cyflogau Gros Cyfartalog i Fandiau Cyflog y tu allan i'r Uwch Wasanaeth Sifil 2018/19.

152. Amlinellir isod amcangyfrif o'r costau parhaus a fydd yn deillio o roi'r ddyletswydd ar waith.
153. **Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau** – bydd y weithdrefn a nodir mewn rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr fynd ati, ar ôl cael gwybod am y digwyddiad, i roi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaethau neu ei gynrychiolydd am yr hyn y mae'n deall ei fod wedi digwydd, esbonio'r hyn fydd yn digwydd nesaf, rhoi ymddiheuriad a chynnig cymorth, ac wedyn rhoi adborth ar ymchwiliadau a'r camau a gymerwyd i atal achosion tebyg ac i gadw cofnodion.
154. Dylai darparwyr gwasanaethau'r GIG fod yn cymryd rhai o'r camau hyn eisoes i gydymffurfio ag egwyddorion²⁷ 'Bod yn Agored' a Rheoliadau 2011. Mae'r Rheoliadau hyn yn gofyn am y canlynol:
155. **Rhoi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaethau:**
- Mae rheoliad 12(7) yn amlinellu ddyletswydd bresennol Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol i hysbysu'r defnyddiwr gwasanaethau neu ei gynrychiolydd am 'bryder' (sy'n cynnwys digwyddiad diogelwch cleifion) pan fydd ei ymchwiliad cychwynnol yn penderfynu bod y defnyddiwr gwasanaeth wedi dioddef niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth. Serch hynny, dim ond pan gaiff digwyddiad ei hysbysu i'r corff gan aelod o staff y mae'r ddyletswydd yn gymwys;
 - Mae rheoliad 12(8) yn darparu eithriad o'r ddyletswydd yn rheoliad 12(7) ar gyfer achosion lle "na fyddai er budd y claf pe rhoddid gwybod i'r claf am y pryder, neu pe cynhwysid y claf yn yr ymchwiliad i'r pryder"

- fodd bynnag, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y defnyddir yr eithriad hwn.

156. Cymorth:

- Mae rheoliad 22(4b) yn amlinellu argaeledd gwasanaethau eiriolaeth a chymorth a allai fod o gymorth i'r person hwnnw.

157. Esbonio'r hyn fydd yn digwydd nesaf:

- Mae rheoliad 22(4a) yn amlinellu bod rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol drafod gyda'r person a fynegodd y pryder sut yr ymdrinnir â'r ymchwiliad i'r pryder, gan gynnwys cydsyniad i ddefnyddio cofnodion meddygol.

158. Ar wahân i hyn, mae adran 9 o Ganllawiau Gweithio i Wella i staff y GIG⁷⁸ ac adran 6.3 o'r Safonau Iechyd a Gofal⁷⁹ yn ei gwneud yn ofynnol ar hyn o bryd i ddarparwyr gwasanaethau'r GIG gael systemau i sicrhau bod pryderon , pan fynegir y rheini, yn peri i gamau gael eu cymryd a'u bod yn cael ymateb priodol a phrydlon, a'u bod yn cael eu trafod a'u hymchwilio'n agored, yn effeithiol a hynny gan y rhai sydd â sgiliau priodol i wneud hynny.

159. Er bod y ddyletswydd yn adeiladu ar systemau sydd wedi ennill eu plwyf, mewn rhai achosion fe fydd angen newidiadau er mwyn sicrhau'r effaith bolisi a ddymunir. Hynny yw:

- bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau'r GIG fod yn agored gyda'r defnyddiwr gwasanaethau neu ei gynrychiolydd pan fo mwy nag ychydig o niwed wedi digwydd, neu o bosib wedi digwydd, ac nid aros nes bod ymchwiliad cychwynnol wedi penderfynu bod hynny'n briodol – yn unol â'r gofynion o dan 12(7) o Reoliadau 2011²⁷;
- bydd y ddyletswydd yn newid natur y cyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaethau neu ei gynrychiolwyr, gan sicrhau eu bod yn gefnogol a'u bod yn cefnogi'r gwersi sydd i'w dysgu a'r newid.

160. Fe allai'r penderfyniad i symud y ddyletswydd i hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth i ddechrau'r broses ymchwilio olygu y caiff y ddyletswydd ei defnyddio'n amlach, gan y bydd yn berthnasol i bob digwyddiad pan allai mwy nag ychydig o niwed fod wedi digwydd, o'i gymharu â dim ond y rhai lle mae niwed o'r fath a'i achos wedi'i sefydlu. Nid yw'n ymarferol cyfrifo'r cynnydd posibl yn gywir, felly mae'r gost yn anhysbys, am fod egwyddorion presennol 'Bod yn Agored' yn golygu y dylai defnyddwyr gwasanaethau neu eu

⁷⁸ Llywodraeth Cymru. Gweithio i Wella - Canllawiau ar ymdrin â phryderon am y GIG o 1 Ebrill 2011 [Y Rhyngwryd]. Llywodraeth Cymru; 2013. Ar gael yma:

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/932/Healthcare%20Quality%20-%20Guidance%20-%20Dealing%20with%20concerns%20about%20the%20NHS%20-%20Version%203%20-%20CLEAN%20VERSION%20-%202020140122.pdf>

⁷⁹ Safonau Iechyd a Gofal [Y Rhyngwryd]. GIG Cymru. 2019 – [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael yma: <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/health-and-care-standards>

cynrychiolwyr eisoes fod yn cael eu hysbysu yn yr holl achosion, bron, pan fo niwed wedi digwydd. Fodd bynnag, bydd y ddyletswydd gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofnodi gwybodaeth ac, yn benodol, llunio a chadw cofnod o sgysiau a gafwyd gyda defnyddwyr gwasanaethau yn dilyn digwyddiad, felly mae'n bosibl y bydd angen mwy o amser staff i wneud hynny.

161. 7,341 oedd nifer y digwyddiadau diogelwch cleifion a gofnodwyd o dan yr NRLS (cymedrol, difrifol a marwolaeth) yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, a gellir gweld y manylion fesul lleoliad gofal yn Atodiad A – NRLS yw'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu yng Nghymru a Lloegr, sef y system i lywio'r gwersi a ddysgir ar ddiogelwch cleifion ledled y wlad. Mae digwyddiadau o'r fath yn debyg o danio'r ddyletswydd gonestrwydd. Gan ei bod yn bosibl nad yw pob digwyddiad yn cael ei adrodd, neu y gall y newidiadau mewn ymddygiad yn sgil y ddyletswydd arwain at ostyngiad yn nifer y digwyddiadau yn y dyfodol, dyma'r dystiolaeth orau sydd ar gael i amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â hysbysu'r defnyddiwr gwasanaethau. Rydym wedi darparu amrediad o 50% yn uwch ac yn is er gwybodaeth a byddwn yn cymryd y canolbwynt ar gyfer cyfrifiadau pellach.

162. Rydym wedi rhagdybio y bydd yn cymryd 30 munud i gofnodi sgwrs o'r fath, ac mae hyn wedi'i gostio ar y rhagdybiaeth ei fod yn cael ei wneud gan aelod staff sy'n ennill y tâl cymedrig bob awr (heb gynnwys goramser) i'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd dynol (wedi'i gyfrifo fel yn Nhabl 21, gan gynnwys argostau). Rydym wedi darparu amrediad o 50% yn uwch ac yn is er gwybodaeth a byddwn yn cymryd y canolbwynt ar gyfer cyfrifiadau pellach.

Tabl 23 – amrediad posibl costau cyfleoedd i ddarparwyr wrth hysbysu defnyddwyr gwasanaethau

Gweithgaredd	Amser angenrheidiol	Amllder	Cyfradd fesul awr	Amcangyfrif o'r costau cyfle
Cost cyfle – Cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau neu eu cynrychiolwyr: uwch	45 munud	11,012	£21.07 ⁽ⁱ⁾	£174,000
Cost cyfle – Cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau neu eu cynrychiolwyr: y canolbwynt	30 munud	7,341	£21.07	£77,300
Cost cyfle – Cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau neu eu cynrychiolwyr: is	15 munud	3,671	£21.07	£19,300

(i) Fel yn Nhabl 21 – cyflog ac argostau cymedrig fesul awr i'r rhai sy'n gweithio mewn iechyd dynol.

163. **Rheoliadau o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011** – Caiff newidiadau eu gwneud i Reoliadau 2011²⁷. Caiff y rhain eu darparu ar wahân i'r Ddeddf, a chyflwynir y costau a'r manteision mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân.
164. **Cymorth gan y Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparwyr gofal sylfaenol** – Gall y bydd nifer fach o achosion lle bydd yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol ddarparu cefnogaeth a chymorth i ddarparwr gofal sylfaenol o ran y ddyletswydd. Er enghraifft, gallai hyn ddigwydd mewn achosion lle mae ar ddarparwr gofal sylfaenol angen cymorth wrth ystyried a ddylai'r ddyletswydd gael ei hysgogi neu beidio, neu pan nad oes gan ddarparwr gofal sylfaenol y capasiti neu'r adnoddau i gynnig cymorth i ddefnyddiwr gwasanaethau sydd wedi dioddef niwed. Manylir ar hyn yn y canllawiau.
165. Er hynny, nid yw'r trefniant hwn yn creu unrhyw faich newydd i'r Byrddau Iechyd Lleol gan eu bod yn gorfod cydweithio yn sgil y ffaith bod y naill yn comisiynu'r llall. Yn ychwanegol, o ran pan aiff rhywbeth o'i le mae rheoliad 20 o Reoliadau 2011²⁷ ac adran 6 o Ganllawiau Gweithio i Wella⁷⁸ yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn pan fydd ddarparwr gofal sylfaenol yn gofyn am gymorth Bwrdd Iechyd Lleol i ymchwilio i bryder a fynegwyd i'r ddarparwr gofal sylfaenol. Nid yw Byrddau Iechyd Lleol yn cadw cofnodion ynghylch pa mor aml maent yn cynnig cymorth ar hyn o bryd, a'r costau cyfle cysylltiedig ar gyfer amser staff Byrddau Iechyd Lleol, felly nid oes modd meintoli unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn ac maent yn anhysbys.
166. **Cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** - Fel eglurwyd, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn darparu cyngor i gyrff y GIG mewn perthynas â gwneud yn iawn a Gweithio i Wella. Amcangyfrifir y byddai ceisiadau am gyngor mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn arwain at gynnydd o 20% i'r costau presennol am gyngor taladwy ynghylch materion Gweithio i Wella yn ystod y flwyddyn gyntaf (2020-21), a 10% yn y blynyddoedd dilynol. Rydym wedi darparu amrediad o 50% yn uwch ac yn is er gwybodaeth a byddwn yn cymryd y canolbwynt ar gyfer cyfrifiadau pellach. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn codi £30,000 ar gyrff y GIG mewn perthynas â materion Gweithio i Wella. Amcangyfrifir bod y costau i gyrff y GIG fel a ganlyn:

Tabl 24 - Costau cael cyngor cyfreithiol gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Cost - Costau cyfreithiol taladwy i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru am waith yn ymwneud â	£9,000	£4,500	£4,500	£4,500	£4,500	£4,500

cheisiadau am gyngor: uwch						
Cost - Costau cyfreithiol taladwy i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am waith yn ymwneud â cheisiadau am gyngor: y canolbwynt	£6,000	£3,000	£3,000	£3,000	£3,000	£3,000
Cost - Costau cyfreithiol taladwy i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am waith yn ymwneud â cheisiadau am gyngor: is	£3,000	£2,000	£2,000	£2,000	£2,000	£2,000

167. **Adroddiadau** - O dan y ddyletswydd, bydd yn ofynnol i gyrff y GIG gyflwyno adroddiad blynyddol ar gydymffurfio â'r ddyletswydd a chyhoeddi eu hadroddiadau. Bydd angen i'r Byrddau Iechyd Lleol goladu'r wybodaeth hon oddi wrth y darparwyr gofal sylfaenol hynny y maent yn comisiynu gwasanaethau ganddyn nhw, gan gyhoeddi adroddiad cyfunol. Bydd yn ofynnol i'r adroddiad nodi a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i defnyddio yn ystod y flwyddyn, pa mor aml, rhoi disgrifiad byr o amgylchiadau pob achos a disgrifio'r camau a gymerwyd gan y darparwr gyda'r bwriad o atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

168. Mae nifer o ofynion ar waith eisoes sy'n gwneud cryn dipyn i helpu i gyflawni hyn:

- Mae data ar nifer y digwyddiadau diogelwch cleifion presennol eisoes yn cael eu casglu drwy systemau rheoli risg lleol sy'n bwydo i mewn i'r NRLS, neu drwy adrodd yn uniongyrchol i'r NRLS (ar gyfer y darparwyr gofal sylfaenol sydd heb fynediad at systemau rheoli risg lleol). Bydd ystyr 'mwy nag ychydig' o niwed, a fydd yn ysgogi'r ddyletswydd, yn cael ei nodi yn y canllawiau. Er hynny, disgwylir y bydd y trothwyon ar gyfer ysgogi'r ddyletswydd yn cyd-fynd â throthwyon yr NRLS; gan hynny ni fydd angen cyflwyno adroddiad na chasglu gwybodaeth nad yw'n cael ei chasglu ar hyn o bryd.
- Bydd angen i'r system a ddefnyddir i gofnodi digwyddiadau diogelwch cleifion gael ei datblygu i greu maes er mwyn nodi a yw proses y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno. Yng Nghymru, mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu system rheoli pryderon

'Unwaith i Gymru' – sef system well i gasglu, ymysg data arall, ddigwyddiadau diogelwch cleifion. Bydd hyn ar gael i holl Ymddiriedolaethau'r GIG, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig a darparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru. Bydd y datblygiad hwn yn ei gwneud yn haws i ddarparwyr gofal sylfaenol gael mynediad uniongyrchol at system rheoli risg lleol i gofnodi digwyddiadau diogelwch cleifion. Gall unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol o ganlyniad i'r ddyletswydd gael eu hymgorffori yn y system hon a'u darparu yn rhad ac am ddim i Lywodraeth Cymru neu ddarparwyr y GIG.

- Mae rheoliad 51 o Reoliadau 2011²⁷ yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol baratoi adroddiad blynyddol ar wybodaeth ynglŷn a phryderon, (gan gymryd bod pryderon yn cynnwys cwynion, digwyddiadau diogelwch cleifion a hawliadau). Yn achos darparwyr gofal sylfaenol, mae hyn yn cynnwys anfon eu hadroddiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol y maen nhw wedi gwneud trefniadau gydag ef, gan ganiatáu ar gyfer coladu a chyhoeddi'r adroddiadau hyn yn adroddiad blynyddol y Bwrdd Iechyd Lleol ar Weithio i Wella, a'u hystyried yn Natganiad Ansawdd Blynyddol y sefydliad.

169. O gofio bod data am ddigwyddiadau diogelwch cleifion eisoes yn cael ei gasglu ac, o gofio ei bod eisoes yn ofynnol gyrff y GIG lunio adroddiad blynyddol er mwyn bodloni gofynion Gweithio i Wella⁷⁸, mae modd rhoi'r trefniadau adrodd sy'n ofynnol yn sgil y ddyletswydd ar waith heb gost ychwanegol.

170. **Newid diwylliant** – Un o effeithiau'r ddyletswydd yw y bydd y corff yn rhoi rhagor o gefnogaeth i ddatblygu diwylliant o fod yn agored ac yn onest ac yn annog cleifion a staff i roi gwybod am ddigwyddiadau yn y dyfodol a'u hadolygu. Bydd y ddyletswydd felly yn newid y ffocws yr adolygiadau presennol o ddigwyddiadau tuag at annog, cefnogi a chynnig canllawiau i'r staff. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â newid diwylliant fel hyn yn anodd i'w hamcangyfrif, felly'n anhysbys, gan y bydd yr adnoddau a'r amser y mae eu hangen i gyflawni hyn yn amrywio ymhlith y darparwyr gan ddibynnu ar ble maen nhw wedi cyrraedd yn eu taith o 'Fod yn Agored' pan aiff rhywbeth o chwith.

171. **Hawliadau a chwynion** –Drwy gyflwyno Gweithio i Wella²¹ yn 2011 cafwyd sicrwydd bod egwyddorion Bod yn Agored wrth galon GIG Cymru. Cydnabuwyd bod cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd neu eu gofalwyr, pan fydd pethau'n mynd o chwith, yn awyddus i gael gwybod beth ddigwyddodd, cael ymddiheuriad a chael sicrwydd y bydd gwersi'n cael eu dysgu. Bydd dyletswydd gonestrwydd yn grymuso staff ymhellach i fod yn agored pan fydd pethau'n mynd o chwith.

172. O ganlyniad i'r dull gweithredu agored a gonest hwn, a hwylustod a thegwch y prosesau gwneud iawn, gwelwyd gostyngiad o ran yr hawliadau is eu gwerth ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n cyrraedd yr ymgyfreithwyr yng Nghymru, gan fod pobl yn dewis dilyn hawliadau o'r fath drwy'r broses gwneud iawn yn lle ymgyfreitha (amcangyfrifir

£5.75m o arbedion costau rhwng blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16)⁸⁰. Os yw sefydliad yn agored ac yn onest wrth gydnabod niwed, mae cynnig iawn yn llai costus o'i gymharu ag ymgyfreitha a all arwain at achosion cyfreithiol hirfaith a chymhleth ar adegau. Felly, mae defnyddio'r cynllun Gweithio i Wella²¹ wedi arwain at arbedion sylweddol o ran costau mewn achosion is eu gwerth lle mae'r costau yn aml yn fwy na'r iawndal. Bydd cyflwyno indemniad gyda chefnogaeth y wladwriaeth ar gyfer ymarferwyr cyffredinol o fis Ebrill 2019 ymlaen yn golygu bod modd ymestyn gweithdrefnau gwneud iawn y GIG73 i'r elfen hon o ofal sylfaenol.

173. Gall bod yn agored arwain at ragor o arbedion sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd, gan fod modd osgoi rhagor o ymgyfreitha mewn digwyddiadau sy'n arwain at niwed. Nid yw'r arbedion costau hyn wedi'u mesur gan eu bod yn anhysbys. Yn y GIG yn Lloegr⁸¹, lle mae dyletswydd gonestrwydd ar gael ar hyn o bryd, gwelwyd nifer yr achosion ymgyfreitha ffurfiol yn 2017/18 yn gostwng i'r lefel isaf sydd ar glawr gan fod NHS Resolution wedi cyfryngu mewn mwy o hawliadau mewn un flwyddyn nag yn ei hanes cyfan. Er hynny, mae'n anodd mesur i ba raddau y caiff arbedion posibl eu gwireddu ac fe allai hyn arwain mewn gwirionedd at fynd â mwy o achosion drwy broses iawn y GIG73 os bydd yr ymchwiliad dilynol i'r digwyddiad yn dyfarnu bod hynny'n briodol.
174. Er mewn theori bod yna risg o bosiblwydd y bydd mwy o onestrwydd yn arwain at gynnydd mewn costau ymgyfreitha, mae'r dystiolaeth o Loegr yn awgrymu nad yw hyn yn debygol iawn.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru:

175. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fydd yr arolygiaeth sy'n gyfrifol am asesu'r gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd gonestrwydd ar ran Gweinidogion Cymru. Nid oes disgwyl y bydd hyn yn gosod baich ychwanegol ar yr Arolygiaeth; fel mewn meysydd gwaith eraill, bydd yr Arolygiaeth yn trefnu blaenoriaethau ei rhaglen arolygu ar sail gwybodaeth, ac felly nid ydym yn disgwyl gweld arolygiadau sy'n rhan o'r drefn nac arolygiadau rheolaidd yn canolbwyntio ar onestrwydd. Yn ychwanegol, mae'n eithriadol o annhebygol y byddai'r Arolygiaeth yn ystyried ymateb sefydliad i'r ddyletswydd gonestrwydd ar ei ben ei hun ond yn hytrach fel rhan o adolygiad llywodraethu ehangach. Mae tystiolaeth yn dangos y gall cyrff nad ydyn nhw'n gweithredu mewn ffordd onest fod yn arwydd o faterion llywodraethu ehangach. Gan hynny, er y bydd cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd gonestrwydd yn cyfrannu at y darlun cyffredinol ac yn helpu'r Arolygiaeth i asesu lefel y pryderon ynghylch sefydliad penodol, ni fydd yn gosod baich ychwanegol ar yr Arolygiaeth o ran costau.

Rheoliadau o dan y Ddeddf Safonau Gofal:

⁸⁰ Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Papur a baratowyd ar gyfer Fforwm Cyfarwyddwyr Cyllid y GIG, 2016

⁸¹ Penderfyniad y GIG. Adroddiad a chyfrifon blynyddol 2017/18 [Y Rhyngwryd]. Penderfyniad y GIG; 2018. Ar gael yma: 9. Safonau Iechyd a Gofal [Y Rhyngwryd]. GIG Cymru. 2019 – [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael yma: <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/health-and-care-standards>

176. Y nod wrth greu dyletswydd gonestrwydd ffurfiol i holl gyrff y GIG yw sicrhau un dull ledled y system mewn perthynas â gonestrwydd (darparwyr y GIG, darparwyr gofal iechyd annibynnol a reoleiddir a gwasanaethau gofal cymdeithasol a reoleiddir). I gyflawni hyn yn achos darparwyr gofal iechyd annibynnol a reoleiddir, mae angen diwygio rheoliadau o dan Ddeddf 2000²⁷. Caiff hyn ei wneud ar wahân i'r Ddeddf, a chyflwynir y costau a'r manteision mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân.

Crynodeb o'r costau:

177. Mae'r costau a nodir uchod ar gyfer datblygu a chyflwyno ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus, hyfforddiant i'r staff, a datblygu, dosbarthu ac adolygu canllawiau statudol wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

Tabl 25 - Cost i Lywodraeth Cymru

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26 ymlaen
Secondai o'r GIG (Tabl 14)	£ 38,200	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus (Tabl 15)	£ 23,500	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Modiwlau hyfforddiant e-ddysgu (Tabl 16)	£1,600	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Gweithdai i ddatblygu canllawiau statudol (Tabl 18)	£ 4,000	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Cost cyfle datblygu canllawiau statudol (Tabl 19)	£3,100	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Cost cyfle diwygio'r canllawiau statudol (Tabl 20)		£ -	£ -	£ -	£ -	£4,500*
Cyfanswm	£ 70,400	£ -	£ -	£ -	£ -	£4,500

*cost yn digwydd bob pum mlynedd.

Tabl 26 - Cost i gyrff y GIG

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26 ymlaen
Cost cyfle – ymwybyddiaeth a hyfforddiant i sefydliadau (Tabl 21)	£1,945,800	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Cost cyfle datblygu cynllun gweithredu (Tabl 22)	£1,150,400	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
Cost cyfle i ddarparwyr wrth hysbysu'r	£19,300	£19,300	£19,300	£19,300	£19,300	£19,300

defnyddiwr gwasanaethau (isafswm) (Tabl 23)						
Cost cyfle i ddarparwyr wrth hysbysu'r defnyddiwr gwasanaethau (uchafswm) (Tabl 23)	£174,000	£174,000	£174,000	£174,000	£174,000	£174,000
Cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg (isafswm) (Tabl 24)	£3,000	£2,000	£2,000	£2,000	£2,000	£2,000
Cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg (uchafswm) (Tabl 24)	£9,000	£4,500	£4,500	£4,500	£4,500	£4,500
Cyfanswm (isafswm)	£3,118,500	£21,300	£21,300	£21,300	£21,300	£21,300
Cyfanswm (uchafswm)	£3,279,200	£178,500	£178,500	£178,500	£178,500	£178,500

Tabl 27 – Cost i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26 ymlaen
Cost cyfle – hyfforddiant Cyfreithiol a Risg (Tabl 17)	£5,700	£5,700	£5,700	£5,700	£5,700	£5,700

178. Yn ychwanegol at yr uchod, mae yna risg y gallai'r ddyletswydd gryfach beri i rai darparwyr GIG sydd eisoes yn gweithredu mewn modd gonest gymryd camau ychwanegol diangen a gwneud yn fwy nag y mae ei angen i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol newydd. Nid yw'n bosibl mesur yn ariannol y fantais/anfantais hon.

Manteision

Llywodraeth Cymru:

179. Bydd creu dyletswydd gonestrwydd statudol i holl gyrff y GIG yn helpu i greu ymagwedd integredig at onestrwydd ar draws y system gyfan – fel y disgrifir ym mharagraff 176. Bydd yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored a gwella ansawdd gofal o fewn y gwasanaeth iechyd drwy annog dysgu yn y sefydliad ac osgoi digwyddiadau yn y dyfodol.
180. Drwy osod dyletswydd ar gyrff y GIG sy'n dod â hysbysiad i ddefnyddiwr gwasanaethau neu ei gynrychiolydd i ddechrau'r broses, yn hytrach na gorfod aros am ganlyniad ymchwiliad cychwynnol i benderfynu a ydy hynny'n briodol, mae'r ymagwedd hon yn rhyddhau'r aelod staff o'r cyfrifoldeb dros gychwyn proses o fod yn agored, gan osod y cyfrifoldeb hwnnw ar y sefydliad i wneud hynny'n awtomatig – gan sicrhau newid diwylliant.
181. Bydd yn helpu i sicrhau y bydd y rhwystrau hysbys sy'n atal datgeliadau yn cael sylw, er enghraifft, ofn, diwylliant o gyfrinachedd a/neu fwrw bai, diffyg hyder mewn sgiliau cyfathrebu, ofn y bydd pobl yn cynhyrfu ac amheuaeth nad yw datgelu'n effeithiol o ran gwella'r diwylliant. Yn ychwanegol, mae gosod y ddyletswydd ar lefel y sefydliad yn lleihau unrhyw ofn sy'n gysylltiedig ag ôl-ffeithiau o fewn y sefydliad, atebolrwydd cyfreithiol, bai, neu ddiffyg atebolrwydd. Yn hytrach, bydd yn helpu'r rhwymedigaethau proffesiynol sy'n bodloni ar hyn o bryd.
182. Mae'n ategu'r cyfeiriad polisi o sicrhau ymagwedd integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gan gyd-fynd â dyheadau *Cymru Iachach*⁵. Hefyd, mae'r ddyletswydd arfaethedig yn mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adolygiadau arbenigol ac yn gwireddu ymrwymiad y Llywodraeth yn eu manifest²⁵. Mae'r opsiwn hwn felly yn gwireddu bwriad y polisi.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru:

183. Bydd ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gyflwyno adroddiad ar y ddyletswydd yn flynyddol yn caniatáu i'r Arolygiaeth ddefnyddio'r wybodaeth i helpu ei dirnadaeth a'i gwybodaeth fonitro a phan nodir unrhyw bryderon fe all gael ei hystyried o dan drefniadau uwchgyfeirio a dwysáu triphlyg Llywodraeth Cymru. Fel darlun cyffredinol o welliannau ansawdd fe allai'r adroddiad blynyddol ar onestrwydd gael ei gynnwys yn y *Datganiadau Ansawdd Blynyddol* a lunnir gan Ymddiriedolaethau'r GIG, Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru, ac felly bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys elfen arall o wybodaeth y gall yr Arolygiaeth ei defnyddio i greu darlun o ddulliau llywodraethu corff. Er enghraifft, cyrff sy'n uchel eu perfformiad yw'r cyrff hynny sy'n agored ac yn onest pan fydd camgymeriadau neu wAwdurdodau Lleol'n digwydd, ac sy'n gallu dangos eu bod wedi dysgu gwersi ac wedi gwella canlyniadau yn eu sgil.

Cyrff y GIG:

184. Mae gosod dyletswydd gonestrwydd ar gyrff y GIG yn cryfhau'r systemau presennol i ategu diwylliant agored a thryloyw drwy newid ymddygiad – gan fynd i'r afael â'r rhwystrau presennol sy'n atal gonestrwydd. Bydd yn helpu i sicrhau sefyllfa lle ceir arferion cyson fel rhan o'r drefn a lle mae bod yn agored a thryloyw gyda defnyddwyr gwasanaethau ynghylch eu gofal a'u

triniaeth yn rhan normal o'r diwylliant ar draws y cyrff hyn yng Nghymru – gan ddileu ofn a chwalu unrhyw ddiwylliant o gyfrinachedd a/neu fwrw bai.

185. Bydd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu'n gyson pan geir digwyddiadau andwyol – gan eu sicrhau y bydd y materion a arweiniodd at y digwyddiad yn cael sylw ac y bydd gwersi'n cael eu dysgu. Bydd hefyd yn helpu i gadw ymddiriedaeth cleifion a'r cyhoedd yn y gwasanaeth iechyd ac yn hybu atebolrwydd dros systemau mwy diogel. Bydd hefyd yn gwella ansawdd y gwasanaethau drwy helpu i ddatblygu diwylliant o ddysgu ar draws y gwasanaethau, gan dynnu'r staff i mewn i ymdrechion i wella.
186. Does dim bwriad i'r ddyletswydd fod yn fesur i gosbi; yn hytrach dylid edrych arni fel rhywbeth sy'n cefnogi cleifion a staff ac yn ffordd arall i ysgogi dysgu a gwelliannau yn y sefydliad. Ni fwriedir i'r ddyletswydd awgrymu bai ond bydd yn gwella'r ffordd y mae'r corff yn ymateb pan fydd pethau'n mynd o chwith yn anfwriadol.
187. Serch hynny, gallai cyrff gredu bod y manylion ychwanegol y mae eu hangen (os yw'r weithdrefn gonestrwydd wedi'i dilyn) yn eu hadroddiadau blynyddol sydd ar gael i'r cyhoedd fod yn niweidiol i'w henw da ac felly fe allen nhw ganolbwyntio'u hymdrechion ar sicrhau bod llai o achosion diangen o niwed yn digwydd. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yn ffordd i atal achosion, wrth i'r cyrff ymdrechu i wella ansawdd a dysgu o'u camgymeriadau. Yn ychwanegol, gallai olygu bod cyrff yn sicrhau bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno pan geir digwyddiad, gan helpu i sicrhau'r newid diwylliant a ddymunir. Fel arall, fe allai olygu na fydd cyrff yn cyflwyno adroddiadau'n onest am eu cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd – sef rhywbeth a allai gael ei godi gan yr Arolygiaeth oherwydd, fel yr esboniwyd yn gynharach, mae cyrff nad ydyn nhw'n gweithredu mewn ffordd onest yn debygol o fod â phroblemau llywodraethu ehangach a fyddai'n codi pryderon y dylid ymchwilio ymhellach iddyn nhw.
188. Bydd cynnwys manylion y ddyletswydd wrth gyhoeddi'r adroddiadau blynyddol ynghylch Gweithio i Wella a'r Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn parhau i ddarparu system ar gyfer gwelliant parhaus ar draws y sector, drwy ganiatáu i gyrff ddysgu oddi wrth eraill, sef rhywbeth a hyrwyddir ac a ystyrir drwy'r rhwydweithiau presennol ar brofiadau cleifion. Mae hyn yn debygol o arwain at well ansawdd mewn canlyniadau gofal gan gyrff y GIG yn sgil gwelliannau mewn arferion gweithio, a fydd yn arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion diangen.
189. Yn olaf, bydd yn cynnig i'r darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n comisiynu gofal, yn enwedig ar draws y ffin yn Lloegr, y fantais o fod â dyletswydd gonestrwydd sy'n debyg i'r un yn Lloegr. Bydd hyn yn caniatáu i ddata gael ei gymharu ynglŷn â digwyddiadau y cyflwynir adroddiadau arnyn nhw o dan y ddyletswydd arfaethedig, gan ychwanegu at gronfa dystiolaeth y comisiynydd wrth iddo ystyried lleoliad addas i gael gofal.

Gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol:

190. Er bod eu cyrff proffesiynol yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol weithredu'n agored a gonest, rydym am sicrhau eu bod bob amser yn cael cefnogaeth i weithredu fel hyn gan y sefydliadau y maen nhw'n gweithio iddynt. Mae rhwymedigaethau proffesiynol yn holl-bwysig ond yn annigonol ar eu pen eu hunain i sicrhau diwylliant o onestrwydd, a dyna pam y mae'r ddyletswydd arfaethedig am gael ei gosod ar lefel y sefydliad⁸². Bydd hyn yn darparu amgylchedd diogel a chefnogol i'r staff gael codi pryderon a rhoi gwybod am ddigwyddiadau, ac ar wahân i hynny bydd yn rhoi hyder i'r cyhoedd eu bod yn cael eu trin â pharch ac fel partneriaid yn eu gofal eu hunain – yn enwedig pan aiff rhywbeth o'i le.
191. Gan hynny, byddai'r opsiwn hwn yn cryfhau'r systemau presennol sydd ar waith i ategu gweithredu agored a thryloyw. Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gymryd camau i gefnogi staff o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch cleifion, gan atal bwlïo, fictimeiddio a/neu aflonyddu a mynd i'r afael â'r rhain mewn modd priodol. Mae hyn yn gosod y cyfrifoldeb ar gyrff y GIG i gychwyn yr ymchwiliad i bryderon, cwynion a threfniadau gwneud iawn, yn hytrach na'i gadael i'r aelod unigol o staff. Bydd hyn felly yn adeiladu diwylliant sy'n caniatáu i'r staff a'r sefydliadau allu dysgu o'u camgymeriadau, sef diwylliant lle gallan nhw fyfyrïo'n agored ac yn rhydd pan geir camgymeriadau, ac yn creu amgylchedd agored sy'n dysgu, yn hytrach na diwylliant o fwrw bai.

Y cyhoedd:

192. Fel eglurwyd ym mharagraff 184 a 185, pan fo rhywbeth yn mynd o'i le, mae'r ffordd y bydd sefydliadau yn ymdrin â'r sefyllfaoedd hynny yn bwysig tu hwnt, ac yn medru gwneud gwahaniaeth enfawr i brofiadau pobl a'u perthynas â'r darparwr gofal yn y dyfodol. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a'r cleifion yn y gwasanaeth iechyd drwy sicrhau, pan fo canlyniad andwyol yn digwydd, bod y defnyddwyr gwasanaethau yn cael gwybodaeth, ymddiheuriad a chynnig cymorth, ac yna'n cael adborth ynghylch yr ymchwiliadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i atal hyn rhag digwydd eto. Bydd defnyddwyr gwasanaethau yn elwa o deimlo bod eu pryderon a'u gofidiau yn cael eu cydnabod - gan leihau'r trawma sy'n cael ei deimlo a chodi hyder yng ngonestrwydd y cyfathrebu a phrydlondeb a chywirdeb yr wybodaeth a ddarperir.
193. Bydd hefyd yn sicrhau dull gweithredu ar draws y system mewn perthynas â gonestrwydd, fel y disgrifir ym mharagraff 179, gan roi sicrwydd i bobl pe bai rhywbeth yn mynd o'i le gyda'u gofal y byddant yn cael eu trin mewn ffordd agored a gonest boed wedi derbyn gofal gan y GIG, gan ddarparwr gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig neu ddarparwr gofal iechyd annibynnol a reoleiddir.

⁸² Francis, R. Freedom to speak up [Y Rhynggrwyd]. 2015. Ar gael yma: Penderfyniad y GIG. Adroddiad a chyfrifon blynyddol 2017/18 [Y Rhynggrwyd]. Penderfyniad y GIG; 2018. Ar gael yma: 9. Safonau Iechyd a Gofal [Y Rhynggrwyd]. GIG Cymru. 2019 – [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael yma: <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/health-and-care-standards>

Crynodeb a'r opsiynau a ffeirir

194. Nid yw **Opsiwn 1** yn cynnig unrhyw newid i'r fframwaith deddfwriaeth presennol. Pan gyflwynwyd Gweithio i Wella yn 2011²¹ cafodd egwyddorion 'Bod yn Agored' eu hymgorffori yn GIG Cymru, gan arwain at symud yn raddol tag at bartneriaeth fwy cydweithredol rhwng cleifion a gweithwyr proffesiynol. Er hynny, gwyddom fod yna rwystrau o hyd, felly byddai cadw'r status quo yn golygu colli cyfle gwirioneddol i adeiladu ar lwyddiant Gweithio i Wella. Gan hynny, nid yw'r opsiwn hwn yn bodloni'r un o'r amcanion polisi.
195. Byddai **Opsiwn 2** yn creu dyletswydd gonestrwydd ar gyrff y GIG (Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â'i swyddogaethau yng Nghymru) a darparwyr gofal sylfaenol) a fyddai:
- a. yn sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu pan geir digwyddiadau andwyol;
 - b. yn hybu diwylliant agored a thryloyw yn y gwasanaethau iechyd;
 - c. yn ategu gofal i gleifion gan roi ymatebion cyson ar waith i ddigwyddiadau andwyol ar draws y gwasanaethau iechyd;
 - d. yn cadw ymddiriedaeth y cyhoedd a'r cleifion yn y gwasanaeth iechyd ac yn hybu atebolrwydd ynglŷn â systemau mwy diogel;
 - e. yn gwella ansawdd gwasanaethau drwy helpu i ddatblygu diwylliant o ddysgu ar draws y gwasanaethau a chynnwys y staff mewn ymdrechion i wella.
196. Mae hyn yn helpu i greu ymagwedd integredig yn y system gyfan at onestrwydd – ar draws y GIG a'r system iechyd a gofal cymdeithasol a reoleiddir.
197. Er bod yna gostau ynglŷn â darparu Opsiwn 2 yn effeithiol, mae'r ddyletswydd yn adeiladu ar y systemau a'r prosesau sydd eisoes yn bodoli. I Lywodraeth Cymru, mae'r rhain yn ymwneud â chyfleu'r ddyletswydd yn effeithiol. Cost i gyrff y GIG yw'r brif gost a nodwyd, sef y gost cyfle sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â hyfforddiant, ond mae'r gost hon yn debygol o gael ei hysgwyddo p'un a gyflwynir y ddyletswydd arfaethedig ai peidio, gan y byddai llawer o staff yn ymgymryd â hyfforddiant amgen o ryw fath fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus angenrheidiol. Yn ychwanegol, mae'r costau i gyrff y GIG a gofal sylfaenol yn cael eu cydbwyso gan arbedion sy'n bosibl yn sgil gostyngiad yn nifer yr hawliadau sy'n arwain at ymglyfreitha, ond mae hyn yn anodd i'w fesur cyn gweithredu
198. At ei gilydd, teimlir bod y dystiolaeth yn dangos manteision Opsiwn 2 yn gryf.

CORFF LLAIS Y DINESYDD

OPSIYNAU

199. Mae dau opsiwn wedi'u nodi a'u harchwilio:

Opsiwn 1: gwneud dim;

Opsiwn 2: creu corff corfforaethol newydd, annibynnol a fydd yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

200. Lle y bo'n berthnasol, mae'r costau a nodwyd yn y ddau opsiwn yn seiliedig ar y fethodoleg a'r tybiaethau a nodir yn **Atodiad B**.

201. Mae'r Atodiad yn cynnwys y dystiolaeth a'r cyfrifiadau a ddefnyddiwyd i roi'r amcangyfrifon gorau o'r costau, sydd wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf lle y bo'n berthnasol, ac a ddatblygwyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Mae amser, lle nodir hynny, yn cyfeirio at nifer y diwrnodau gwaith ac mae costau hanesyddol (lle y bo'n briodol) wedi'u codi i adlewyrchu chwyddiant yn y cyfamser.

Ystyried opsiynau ychwanegol

202. Nid oedd yr opsiwn o gadw Cyngorau Iechyd Cymuned, diwygio eu swyddogaethau a rhoi swyddogaethau ychwanegol iddynt o ran cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol, yn cael ei ystyried yn opsiwn dichonadwy gan y byddai'n methu â mynd i'r afael â'r anafteision sylfaenol sy'n rhan o'r model presennol ar gyfer Cyngorau Iechyd Cymuned a amlinellir yn Opsiwn 1 – sy'n cynnwys eu sefydlu fel cymdeithasau anghorfforedig. Er mwyn eu sefydlu fel unrhyw beth heblaw cymdeithasau anghorfforedig byddai angen eu diddymu er mwyn iddynt gael eu sefydlu fel corff corfforaethol sy'n cysylltu'n agos iawn ag Opsiwn 2. Felly dim ond dau opsiwn a ystyrir.

OPSIWN 1: GWNEUD DIM

Disgrifiad

203. Ni fyddai angen unrhyw newid deddfwriaethol o dan yr opsiwn hwn.

204. Fodd bynnag, ni fyddai'r opsiwn "gwneud dim" yn ystyried yr argymhellion mewn amryw adroddiadau ac adolygiadau sy'n ymwneud â Chyngorau Iechyd Cymuned, sy'n argymhell newidiadau i Gyngorau Iechyd Cymuned ac yn cynnwys argymhellion ar gyfer adolygiad mwy sylfaenol. Aeth Adolygiad Longley⁴⁰ mor bell â chydabod y gallai unrhyw drefniant yn y dyfodol a fyddai'n cael ei gyflwyno i ddisodli Cyngorau Iechyd Cymuned ystyried "...health services in the wider context of all public services to recognise the inter dependency of such services" sy'n cyd-fynd â'r argymhellion yn yr Adolygiad Seneddol⁴ a'r nodau yn "Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a gofal

cymdeithasol”⁵ i annog mwy o integreiddio rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

205. Yn arwyddocaol, byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod swyddogaethau Cyngorau Iechyd Cymuned a'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yn aros fel y maent ar hyn o bryd. Ni fyddai cynnal y trefniant presennol gyda swyddogaethau Cyngorau Iechyd Cymuned yn gyfyngedig i wasanaethau iechyd yn effeithiol o ran sicrhau ymgysylltu integredig â dinasyddion ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac ni fyddai'n bodloni argymhellion yr Adolygiad Seneddol⁴ na 'Cymru Iachach'⁵.
206. Hefyd, ni fyddai'r opsiwn hwn yn datrys yr anawsterau sy'n rhan annatod o sefydlu Cyngorau Iechyd Cymuned fel cymdeithasau anghorfforedig, a hwythau'n methu â chyflogi staff nac ymrwmo i contractau ac sy'n ei gwneud yn ofynnol bod â threfniadau atebolrwydd cymhleth er mwyn cadw eu hannibyniaeth weithredol.
207. Pe bai'r opsiwn "Gwneud Dim" yn cael ei ddilyn, byddai'r saith Cyngor Iechyd Cymuned yn parhau, ac felly hefyd y Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned a'i aelodau gwirfoddol. Byddai'r Cyngorau Iechyd Cymuned yn parhau i weithredu o fewn eu cyllideb flynyddol o £3.935 miliwn (2018/19).
208. Ceir dadansoddiad llawn o wariant Cyngorau Iechyd Cymuned ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, 2017/18 yn eu hadroddiad blynyddol⁸³. Roedd y gyllideb hon yn cynnwys:
- Cyflogau staff Cyngorau Iechyd Cymuned - £2,915,8484;
 - Adeiladau - £350,540;
 - Treuliau a hyfforddiant aelodau - £132,870;
 - Cymorth TG - £115,559;
 - Lletya gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys (Cymorth Adnoddau Dynol a Chyllid) - £102,628.

Costau

209. Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o gyfanswm costau gweithredu'r Cyngorau Iechyd Cymuned presennol yn 2018/19 ac yn darparu llinell sylfaen y gellir ei defnyddio i gymharu costau a buddiannau cymharol yr opsiwn a ffefrir, sef Opsiwn 2. Mae dadansoddiad o'r cyfrifiadau a ddefnyddiwyd i bennu'r costau wedi'i gynnwys yn Atodiad B.

Tabl 28 - cost cyllido'r Cyngorau Iechyd Cymuned i Lywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru	Costau bob blwyddyn
Cyllid blynyddol Cyngorau Iechyd Cymuned (2018-19)	£3,934,600
Cost cyfle – gweinyddu staff (Tabl 45)	£89,000
Tâl y Cadeirydd* (cyfradd o fis Mawrth 2019)	£24,000

⁸³ Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned. Adroddiad Blynyddol Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru [Y Rhyngwryd]. Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned; 2018. Ar gael o: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/899/Board%20CHC%20AR%20Welsh.pdf>

Costau recriwtio cyffredinol – Penodiadau i'r Bwrdd (Tabl 46)	£3,000
Cost cyfle – Penodiadau i'r Bwrdd (Tabl 47)	£1,000
Costau recriwtio cyffredinol – Aelodau gwirfoddol (Tabl 49)	£4,900
Cost cyfle- recriwtio aelodau gwirfoddol (Tabl 50)	£9,600
Cyfanswm	£4,066,100

* Caiff y Cadeirydd dâl o £150 y dydd am hyd at uchafswm o 12 diwrnod y mis. Mae'r ffigurau'n cynnwys argostau.

Tabl 29 – cost i sefydliadau gwirfoddol am recriwtio aelodau gwirfoddol
Cynghorau lechyd Cymuned

Sefydliadau gwirfoddol	Costau bob blwyddyn
Costau cyfle – Cyfweld ag aelodau gwirfoddol o'r Cynghorau lechyd Cymuned i gynorthwyo'r Gweinidog i recriwtio aelodau gwirfoddol (Tabl 51)	£2,500
Costau cyfle – Recriwtio aelodau gwirfoddol Cynghorau lechyd Cymuned (Tabl 53)	£1,800
Cyfanswm	£4,300

Tabl 30 – cost i awdurdodau lleol am recriwtio aelodau gwirfoddol Cynghorau lechyd Cymuned

Awdurdodau Lleol	Costau bob blwyddyn
Costau cyfle – Recriwtio aelodau gwirfoddol Cynghorau lechyd Cymuned (Tabl 52)	£1,800

Manteision

210. Mae'r Opsiwn hwn yn cadw'r sefyllfa bresennol, felly mae unrhyw fanteision ychwanegol yn eithriadol o gyfyngedig.

Llywodraeth Cymru:

211. Yr opsiwn hwn yw'r un â'r gost isaf o'r ddau opsiwn. Prif fantais yr opsiwn hwn i Lywodraeth Cymru fyddai cwtogi ar wariant pellach sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2. Byddai'r trefniadau presennol a ddeallir yn dda ar gyfer rheoli penodiadau i Gynghorau lechyd Cymuned a rôl staff Llywodraeth Cymru o ran gweinyddu'r Cynghorau lechyd Cymuned yn parhau. Ni fyddai'n rhaid ysgwyddo'r costau sefydlu sy'n gysylltiedig â chreu corff newydd.
212. Fodd bynnag, ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r anfanteision sylweddol, a nodir ym mharagraffau 204 i 206, sy'n gysylltiedig â chynnal y sefyllfa bresennol yn enwedig o ran bodloni cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag integreiddio ieuchyd a gwasanaethau cymdeithasol i'r eithaf.

Cynghorau lechyd Cymuned:

213. I Gynghorau lechyd Cymuned, efallai y bydd mantais personol anfesuradwy i aelodau unigol o staff ac aelodau gwirfoddol presennol. Byddai

ganddynt y sicrwydd o barhau i weithredu o fewn eu rolau a'u lleoliadau presennol. Byddent yn parhau i ddilyn gweithdrefnau cyfredol sydd wedi hen ennill eu plwyf, ac ni fyddai'r newid sefydliadol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2 yn effeithio arnynt.

214. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn bosibl gwneud unrhyw newid i'r broses recriwtio ar gyfer penodi aelodau gwirfoddol gan y Gweinidog a gyflawnir trwy'r broses penodiadau cyhoeddus. Mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned wedi nodi bod y gofynion presennol yn ei gwneud yn anodd denu aelodau sy'n ddigon amrywiol ac sy'n cynrychioli'r gymuned leol yn ddigonol.

Awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol:

215. I awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, unig fantais cadw'r sefyllfa bresennol fyddai'r sicrwydd a ddarperir trwy barhau i weithredu o fewn y prosesau sefydledig ar gyfer recriwtio aelodau gwirfoddol Cynghorau Iechyd Cymuned.
216. Un o ganlyniadau parhau â'r gweithrediadau presennol fyddai anallu awdurdodau lleol i wireddu'r manteision a fyddai'n deillio o Opsiwn 2 a chreu Corff newydd sy'n cynrychioli llais defnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, gan ddarparu adborth gwerthfawr gan ddefnyddwyr gwasanaethau, ac a fyddai hefyd yn ategu gwasanaethau cyngor a chymorth presennol mewn perthynas â chwynion ar gyfer oedolion sy'n dymuno defnyddio gweithdrefn gwynion statudol y gwasanaethau cymdeithasol. Hefyd, byddai'r gost gyfredol sy'n gysylltiedig â recriwtio aelodau gwirfoddol Cynghorau Iechyd Cymuned yn aros gydag awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, o'i gymharu ag Opsiwn 2 a fyddai'n golygu eu bod yn ysgwyddo'r gost hon.

BILLau:

217. I Fyrddau Iechyd Lleol, manteision yr opsiwn hwn yw parhad perthnasoedd gweithio sefydledig â'r Cynghorau Iechyd Cymuned.
218. Fodd bynnag, mae'r opsiwn hwn yn golygu parhad yr heriau presennol sy'n golygu bod Cynghorau Iechyd Cymuned unigol yn ei chael yn anodd, oherwydd eu dyletswydd i gynrychioli buddiannau pobl yn yr ardal y maent wedi'u sefydlu ar ei chyfer, ystyried cynigion ar gyfer newidiadau sydd ag effaith ranbarthol neu genedlaethol.

Y cyhoedd:

219. Dengys y dystiolaeth^{40 22} fod diffyg ymwybyddiaeth o Gynghorau Iechyd Cymuned ymhlith y cyhoedd; felly i'r cyhoedd byddai cadw'r sefyllfa bresennol yn dwyn manteision ychwanegol cyfyngedig. Yn hytrach na hynny, byddai manteision bwrw ymlaen ag Opsiwn 2 yn cael eu colli, yn enwedig y cyfle i gryfhau llais y dinesydd trwy sefydlu, am y tro cyntaf, gorff annibynnol sy'n gallu cynrychioli buddiannau pobl yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol a darparu gwasanaeth cyngor a chymorth mewn perthynas â chwynion ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol mewn ffordd integredig.

OPSIWN 2: CREU CORFF ANNIBYNNOL NEWYDD Â CHYFANSODDIAD, AELODAETH A SWYDDOGAETHAU DIWYGIEDIG – GAN EI ALLUOGI I WEITHREDU AR LEFELAU LLEOL, RHANBARTHOL A CHENEDLAETHOL – AR DRAWS GWASANAETHAU IECHYD A CHYMDEITHASOL

Disgrifiad

220. Mae'r cynnig yn un i greu corff newydd, sef Corff Llais y Dinesydd ('y Corff') a fydd yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ac yn darparu gwasanaethau cymorth cwynion mewn perthynas â gwasanaethau'r GIG a rhai gwasanaethau cymdeithasol a nodir ym mharagraff 224.
221. Corff corfforaethol fydd y Corff. Bydd gan y Corff fwrdd gyda Chadeirydd a dirprwy gadeirydd, ac o leiaf chwe ond dim mwy nag wyth aelod o'r bwrdd y byddant i gyd yn benodiadau cyhoeddus gan Weinidogion Cymru am hyd at bedair blynedd. Mae aelodau'r Bwrdd yn gymwys i wasanaethu am uchafswm o ddau dymor, sy'n rhoi tymor penodiad hwyaf posibl o 8 mlynedd.
222. Bydd Prif Weithredwr y Corff hefyd yn aelod o'r Bwrdd. Ystyrir yn briodol gwneud y Prif Weithredwr yn aelod o'r Bwrdd, gan mai ef/hi fydd y swyddog cyfrifyddu ar gyfer y Corff, yn gyfrifol am briodoldeb ariannol.
223. Ceir hefyd ddarpariaeth ar gyfer enwebu a phenodi aelod cyswllt, sy'n aelod o undeb lafur ac yn aelod o staff y Corff. Disgwylir y bydd hyn yn gwella trefn lywodraethol y Corff a'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau.
224. Bydd swyddogaethau craidd y Corff fel a ganlyn:
1. cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn gwasanaethau iechyd a chymdeithasol trwy geisio barn y cyhoedd am wasanaethau iechyd a chymdeithasol;
 2. cyflwyno sylwadau i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Awdurdodau Lleol am faterion sy'n gysylltiedig ag arfer ei swyddogaethau;
 3. rhoi cymorth i unigolion gyda chwynion a wneir dan weithdrefnau cwynion presennol mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol (ac eithrio rhai cwynion sy'n ymwneud â phlant lle mae cymorth eisoes yn cael ei drefnu gan awdurdodau lleol).
225. Hefyd, bydd dyletswydd ar y Corff i hybu ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau a pharatoi a chyhoeddi datganiad o'i bolisi sy'n nodi sut y mae'n bwriadu hybu ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau a sut y bydd yn ceisio barn y cyhoedd. Yn ogystal, bydd hefyd angen i'r datganiad bennu sut, wrth arfer ei swyddogaethau, y mae'r Corff yn bwriadu sicrhau y bydd yn cynrychioli buddiannau pobl o bob cwr o Gymru, y bydd yn hygyrch iddynt ac yn ymgysylltu'n effeithiol â hwy.

226. Bydd y Corff yn pennu ei reolau sefydlog ei hun i reoleiddio ei weithdrefnau mewnol, bydd yn cyflogi ei staff ei hun a bydd ganddo'r gallu i brydlesu adeiladau.

227. Bydd dyletswyddau ar BILlau, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Awdurdodau Lleol i wneud y canlynol:

- rhoi ystyriaeth i sylwadau a wneir gan y Corff;
- codi ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Corff;
- darparu gwybodaeth ar gyfer y Corff.

228. Bydd dyletswyddau hefyd ar y Corff, cyrff y GIG ac ALLau i roi sylw (i'r graddau y mae'n berthnasol i arfer eu swyddogaethau) i god ymarfer a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru am geisiadau am fynediad i eiddo er mwyn ceisio barn unigolion mewn perthynas â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol ac ymgysylltu ag unigolion, pan cytunir i ganiatáu mynediad. Hefyd, rhaid i'r holl bartïon wneud trefniadau i gydweithredu, gyda golwg ar gefnogi ei gilydd wrth godi ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Corff ac wrth ei gefnogi i geisio barn unigolion.

Costau

229. Er mwyn cyfrifo'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn, rydym wedi tybio y bydd y Corff yn cael ei sefydlu ac y bydd yn llwyr weithredol o 1 Hydref 2021. Mae'r tybiaethau a'r cyfrifiadau a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y costau wedi'u cynnwys yn **Atodiad B** gyda'r rhifau tablau a pharagraffau perthnasol wedi'u cynnwys isod er mwyn gallu cyfeirio atynt yn rhwydd.

230. Mae tri math o gost yn gysylltiedig â'r Opsiwn hwn:

Costau cyfredol Cyngorau Iechyd Cymuned:

231. Y costau cyfredol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol sy'n gysylltiedig â pharhau i weithredu'r Cyngorau Iechyd Cymuned presennol, fel y nodir yn Opsiwn 1, tan 1 Hydref 2021. Byddai'r rhain yn cael eu hysgwyddo hyd yn oed pe na baem ni'n bwrw ymlaen ag Opsiwn 2, ond maent wedi'u cynnwys er mwyn dangos cyfanswm y costau yn ystod y cyfnod dan ystyriaeth a ble y bydd y costau'n cael eu hysgwyddo.

Costau pontio:

232. Y costau hynny sy'n gysylltiedig â'r adnoddau y mae eu hangen i gyflawni rhaglen waith i sefydlu'r sefydliad newydd ('costau pontio'), a chan hynny nid ydynt yn gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithredu'r sefydliad ei hun – bydd y rhain yn dod i ran Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol ac ni fyddant yn cael eu llyncu gan y Corff fel rhan o unrhyw gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Adnoddau Ategol:

233. I gefnogi'r gwaith partneriaeth disgwylidig rhwng y Corff, cyrff y GIG ac ALLau, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau statudol mewn perthynas â sylwadau. Nod y canllawiau fydd sicrhau bod gan gyrff y GIG ac ALLau weithdrefn gymesur yn ei lle ar gyfer ymdrin â sylwadau a wneir iddynt gan y Corff. Bydd angen iddynt gael strwythur clir er mwyn penderfynu pwy sy'n y sefyllfa orau i ystyried y sylw; ystyried a oes angen iddo gael ei rannu â phobl berthnasol eraill, os yw'n briodol; a sicrhau bod y Corff yn ymwybodol o'r cynnydd wrth ymdrin â'r sylw a'r canlyniad terfynol.

234. Bydd cod ymarfer ynghylch ceisiadau a wneir gan y Corff i gael mynediad i eiddo lle mae gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu hefyd yn cael ei gyhoeddi. Rhaid ymgynghori ar y cod cyn iddo gael ei gyhoeddi. Fodd bynnag, gall gynnwys egwyddorion ac ystyriaethau allweddol o ran y Corff yn gwneud cais i gael mynediad i eiddo a sut y dylai cyrff y GIG ac awdurdodau lleol ystyried y ceisiadau hyn. Caiff y cod ei ddrafftio fel bod modd ei ddefnyddio ar gyfer amrywiol leoliadau lle y caiff gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol eu darparu, a gall wneud darpariaeth i ddiogelu hawliau defnyddwyr gwasanaeth.

235. **Costau gweithredol** – unrhyw gostau cylchol a gaiff eu hysgwyddo ar ôl 1 Hydref 2021, i Lywodraeth Cymru a'r Corff, fel rhan o fusnes rheolaidd.

236. Caiff y costau hyn eu crynhoi isod:

Costau cyfredol (tan 1 Hydref 2021)

Llywodraeth Cymru:

Tabl 31 – costau cyfredol Cyngorau Iechyd Cymuned i Lywodraeth Cymru am gyllido'r Cyngorau Iechyd Cymuned

Eitem	2019-20	2020-21	Ebrill 2021 -Medi 2021
Cost i Lywodraeth Cymru (Tabl 28)	£ 4,066,100	£ 4,066,100	£2,033,100

Sefydliadau Gwirfoddol:

Tabl 32 – cost gyfredol Cyngorau Iechyd Cymuned i Sefydliadau Gwirfoddol

Eitem	2019-20	2020-21	Ebrill 2021 -Medi 2021
Sefydliadau Gwirfoddol (Tabl 29)	£4,300	£4,300	£2,150

Awdurdodau Lleol:

Tabl 33 – costau cyfredol Cyngorau Iechyd Cymuned i Awdurdodau Lleol

Eitem	2019-20	2020-21	Ebrill 2021 -Medi 2021
Awdurdodau Lleol (Tabl 30)	£1,800	£1,800	£900

Llywodraeth Cymru:

Costau pontio (1 Ebrill 2019 - 1 Hydref 2021)

Tabl 34 – costau pontio sy'n gysylltiedig â'r Corff

Eitem	2019-20	2020-21	Ebrill 2021 -Medi 2021
Bwrdd gweithredu (Tabl 54)	£0	£296,300	£435,300
Penodiadau i'r Bwrdd (Tabl 56)	£0	£0	£16,600
Cost cyfle – Penodiadau i'r Bwrdd* (Tabl 57)	£0	£0	£9,500
Datblygu sefydliadol (Paragraff 435)	£0	£0	£10,000
Hyfforddiant (Tablau 71 a 72)	£0	£0	£100,700
Costau TG* (Tabl 74)	£0	£0	£2,129,400
Marchnata (Paragraff 454)	£0	£0	£100,000
Cyfanswm	£0	£296,300	£2,801,500

*Gwariant cyfalaf.

Costau gweithredol (o 1 Hydref 2021)

Tabl 35 – cost weithredol i'r Corff

Eitem	Hydref 2021- Mawrth 2022	2022-23	2023-24 ymlaen
Cost cyfle – Nawdd Llywodraeth Cymru (Paragraff 459)	£29,500	£59,000	£59,000
Penodiadau i'r Bwrdd (Tablau 56 a 57)	£0	£0	£6,500
Cyfanswm	£29,500	£59,000	£65,500

Adnoddau Ategol:

Tabl 35(a) – Costau i Lywodraeth Cymru

Eitem	2020-21	2021-22	20205-26
Cost cyfle – datblygu'r canllawiau statudol a'r cod ymarfer (Tabl 58)	£46,4000	£0	£0
Cost cyfle – cynhyrchu'r canllawiau statudol (Tabl 59)	£600	£0	£0
Cost cyfle – diwygio'r canllawiau statudol (Tabl 60)	£0	£0	£500
Cost cyfle – datblygu ac ymgynghori ar y cod ymarfer (Tabl 62)	£11,600	£0	£0
Cost cyfle – diwygio'r Cod Ymarfer (Tabl 63)	£0	£0	£1,900
Cyfanswm	£58,600	£0	£2,400

Y Corff:

Tabl 36 – costau gweithredol y Corff

Eitem	Hydref 2021- Mawrth 2022	2022-23	2023-24 ymlaen
Tâl y Cadeirydd a'r Bwrdd (Tabl 55)	£52,500	£ 95,500	£95,500
Costau staffio (Tablau 58 a 63)	£1,668,900	£3,337,700	£3,337,700
Costau aelodau gwirfoddol (Paragraff 443)	£34,000	£67,900	£67,900
Gwasanaethau Corfforaethol (Tabl 70)	£76,400	£152,800	£152,800
Hyfforddiant (Tabl 73)	£46,300	£92,500	£92,500
Adeiladau (Paragraff 447)	£175,300	£350,500	£350,500
Costau TG* (Tabl 75)	£260,000	£520,000	£520,000

Marchnata (Paragraff 455)	£21,200	£42,300	£42,300
Cyfanswm	£2,334,600	£4,659,200	£4,659,200

*Cymysgedd o wariant referniw a chyfalaf.

Crynodeb:

237. Ceir dadansoddiad isod sy'n rhoi crynodeb o gyfanswm y costau uchod mewn perthynas â'r opsiwn hwn (Tablau 31-36) i ddangos proffil o'r gwariant hwn:

Tabl 37 – crynodeb o'r costau

	2019-20*	2020-21*	Ebrill 2021 - Medi 2021*		Hydref 2021- Mawrth 2022**	2022-23**	2023-24**	2024-25**
Llywodraeth Cymru	£4,066,100	£4,421,000	£4,834,600		£2,364,100	£4,718,200	£4,724,700	£4,724,700
Awdurdodau Lleol	£1,800	£1,800	£900		£0	£0	£0	£0
Sefydliadau Gwirfoddol	£4,300	£4,300	£2,200		£0	£0	£0	£0

*mae'n cynnwys cost cyllido'r Cyngorau Iechyd Cymuned a'r costau pontio sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Corff (Tablau 31, 34 a 35(a)) – cymysgedd o gostau referniw a chyfalaf yw hwn.

**mae'n cynnwys cost cyllido'r Corff (tablau 35 a 36) a chymysgedd o gostau referniw a chyfalaf ydyw.

Mae'r tabl cryno isod yn nodi'r cyfanswm costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Corff (yr opsiwn hwn) o'i gymharu â'r cyfanswm costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1 – caiff y rhain eu dadansoddi isod i ddangos proffil o'r gwariant hwn:

Tabl 38 – crynodeb o gostau ychwanegol

	2019-20	2020-21	Ebrill 2021 - Medi 2021		Hydref 2021- Mawrth 2022	2022-23	2023-24	2024-25
Llywodraeth Cymru	£0	£354,900	£2,801,500		£331,000	£652,100	£658,600	£658,600
Awdurdodau Lleol	£0	£0	£0		£-900	£-1,800	£-1,800	£-1,800
Sefydliadau Gwirfoddol	£0	£0	£0		£-2,200	£-4,300	£-4,300	£-4,300

238. Dylai'r costau amcangyfrifedig a nodir uchod gael eu hystyried ar y cyd â'r cafeatau canlynol:

Recriwtio staff ac aelodau gwirfoddol:

239. Bydd gan y Corff y pŵer i ddatblygu ei strategaeth recriwtio ei hun a recriwtio ei staff a'i aelodau ei hun. Fodd bynnag, yn y pen draw Gweinidogion Cymru fydd yn cymeradwyo telerau ac amodau tâl, treuliau, lwfansau a phensiynau i gyflogeion yn unol â pharagraff 6 o Atodlen 1 i'r Ddeddf. At ddibenion yr opsiwn hwn, tybir y bydd staff a gyflogir gan y Corff, at ei gilydd, "mewn sefyllfa nad yw'n waeth o gwbl" na staff presennol y Cyngorau lechyd Cymuned a gyflogir gan Fwrdd lechyd Addysgu Powys.

Adeiladau:

240. Er bod costau adeiladau'n seiliedig ar gostau gwirioneddol y Cyngorau lechyd Cymuned ar hyn o bryd, mae disgwyl i'r Corff ddatblygu ei strategaeth adeiladau ei hun a gall hwn gynnwys bod â rhwydwaith o adeiladau llai, mwy canolog (yng nghanol trefi neu ddinasoedd) a hefyd defnyddio canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd ac ati, y mae'n haws i aelodau'r cyhoedd fynd iddynt. Hefyd, bydd TGCh newydd, fel a ddisgrifir isod, yn galluogi staff i weithio mewn modd mwy hyblyg, gan eu gwneud yn fwy hygyrch i'r gymuned. Mae dilyn dull o'r fath yn cynnig y potensial i arbed costau. Fodd bynnag, penderfyniadau y bydd bwrdd gweithredu'r Corff yn eu gwneud unwaith y bydd y Corff wedi'i sefydlu yw'r rhain ac nid yw'n bosibl rhagfynegi'r penderfyniadau hynny ar hyn o bryd. Felly, er ein bod yn credu bod potensial i arbed costau, ein hamcangyfrif gorau ar hyn o bryd yw y bydd costau presennol adeiladau'n parhau. Wrth wneud yr asesiad hwn rydym wedi ystyried y gofynion o ran staff ychwanegol a nodir ym mharagraff 403 ac nid ydym o'r farn y bydd y cynnydd mewn staff yn golygu bod angen mwy o le mewn swyddfeydd.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh):

241. Caiff y costau TGCh eu hamcangyfrif yn seiliedig ar ddeuddeg lleoliad ffisegol (nifer presennol swyddfeydd y Cyngorau lechyd Cymuned) y bydd angen eu hailgyfarparu'n llawn o ran TGCh. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cyfleoedd posibl i leihau'r gost hon a chyflawni arbedion sylweddol o ganlyniad i fuddsoddi mewn TG a mabwysiadu dulliau gweithio hyblyg, er enghraifft defnyddio adeiladau cymunedol (megis Canolfannau Cymunedol) a mannau canolog a rennir gan olygu y bydd ar y Corff angen llai o swyddfeydd parhaol neu rai sy'n llai o faint. Serch hynny, mae'n anodd amcangyfrif yn gywir beth yw'r union botensial ar gyfer arbedion gan y bydd y Corff, yn wahanol i Gynghorau lechyd Cymuned, yn gallu gwneud ei drefniadau ei hun ar gyfer adeiladau.
242. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo gwariant cyfalaf cychwynnol i sefydlu system TGCh newydd ac addas i'w diben. Mae hwn yn wariant angenrheidiol gan nad yw'r system TG bresennol a ddefnyddir gan Gynghorau lechyd Cymuned yn addas i'w diben a'i bod wedi dioddef oherwydd diffyg buddsoddi. Fe wnaeth papur a luniwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru⁸⁴ ym mis Chwefror 2019 ar seilwaith TGCh Cyngorau lechyd

⁸⁴ Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru [Y Rhyngrwyd]. Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. 2019 [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael o: <http://www.wales.nhs.uk/nwis/home>

Cymuned nodi y byddai angen gwario “o leiaf” £133,829 ar frys gan bod y mwyafrif o gyfrifiaduron bwrdd gwaith a gliniaduron a ddefnyddir gan Gynghorau Iechyd Cymuned ledled Cymru wedi cyrraedd diwedd eu hoes (mae 73% dros 4 oed ac mae 7% dros 10 oed). Mae angen uwchraddiadau hefyd am bod y Cynghorau Iechyd Cymuned yn defnyddio Office 2010 ar hyn o bryd, system na fydd Microsoft yn rhoi cymorth gyda hi o 2020. Felly, hyd yn oed pe na baem yn mynd ar drywydd Opsiwn 2, mae’n amlwg y byddai angen buddsoddi’n sylweddol yn system TG bresennol Cynghorau Iechyd Cymuned er mwyn iddi fod yn addas i’w diben yn y dyfodol.

243. Er bod cost system a chaledwedd TGCh newydd yn sylweddol, mae bod â meddalwedd a chaledwedd TG sy’n addas i’w diben yn hollbwysig i weithrediad effeithiol y Corff gan y rhagwelir y bydd defnyddio technoleg a gwefan ryngweithiol yn galluogi’r Corff i gyrraedd nifer fwy o bobl ledled Cymru ac yn galluogi staff a gwirfoddolwyr y Corff i gael adborth mewn amser real gan y cyhoedd wrth fynychu digwyddiadau.

244. Fel gyda phob technoleg, bydd yn mynd yn hen ac yn peidio â bod yn addas i’w diben yn y pen draw. Yn seiliedig ar gyngor gan Gadeirydd Grŵp Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwybodeg GIG Cymru, rydym wedi tybio y bydd cost gyfalaf o 20% o’r gwariant cyfalaf gwreiddiol am ddiweddarau’r dechnoleg bob 5 mlynedd a chost refeniw o 25% o’r gwariant cyfalaf gwreiddiol am ddiweddarau a gwneud gwaith cynnal a chadw mewnol i’r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM). Felly bydd cost barhaus i’r Corff am gynnal a chadw ac, os oes angen, adnewyddu ei galedwedd a’i feddalwedd dros amser. Mae hyn wedi cael ei gynnwys yn y costau gweithredol a ragwelir ar gyfer y Corff.

Gwasanaethau Corfforaethol:

245. Ar hyn o bryd mae’r Cynghorau Iechyd Cymuned yn cael eu cyllid blyneddol gan Lywodraeth Cymru. Rhoddir hwn i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys sy’n ei ddarparu’n uniongyrchol ar gyfer Cynghorau Iechyd Cymuned. Mae’r gost i’r Bwrdd Iechyd sy’n gysylltiedig â’r trefniant lletya hwn yn £102,628 a chaiff ei dalu i’r Bwrdd Iechyd o ddyraniad cyllideb y Cynghorau Iechyd Cymuned – mae hyn yn cynnwys rhoi cymorth corfforaethol i’r Cynghorau Iechyd Cymuned ar gyfer materion megis Adnoddau Dynol a Chyllid (gan gynnwys y gyflogres ac archwilio). Bydd angen i’r Corff sicrhau ei gymorth corfforaethol ei hun.

246. Mae’r Uned Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn ystyried swyddogaethau cefn swyddfa ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae mewn trafodaethau gyda Chyrff a Noddir presennol a chydweithwyr i gyflawni arbedion effeithlonrwydd meintiol ac ansoddol. Felly lle y bo’n berthnasol, bydd y ffrydiau gwaith a sefydlir fel rhan o’r bwrdd gweithredu yn ymgysylltu â’r partiön perthnasol i sicrhau bod y Corff yn cael budd o’r trefniadau hyn. Felly mae’n bosibl y bydd arbedion yn gysylltiedig â’r costau cymorth corfforaethol a amcangyfrifir ar gyfer y Corff. Fodd bynnag, ni fydd y costau hyn yn hysbys nes bod y gwaith y soniwyd amdano wedi’i gwblhau, felly maent yn anhysbys ar hyn o bryd.

Llywodraeth Cymru:

247. Yn seiliedig ar gostau gweithredol amcangyfrifedig, a nodir yn Nhabl 36, mae'n debygol y bydd ar y Corff angen oddeutu £4,668,700 y flwyddyn mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru o 1 Hydref 2021. Mae hyn yn gynydd o £712,500 o'i gymharu â chost weithredol bresennol y Cyngorau lechyd Cymuned a chost talu i Gadeirydd y Bwrdd Cyngorau lechyd Cymuned a oedd, fel y nodir yn Nhabl 28, yn gyfanswm o £3,956,200 yn 2018/19. Wrth gymharu cyllidebau blynyddol cyrff tebyg eraill yn y DU, mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru eisoes, dan drefniadau presennol, yn gwario cryn dipyn yn fwy y pen o'r boblogaeth, i sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed, nag y mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ei wario ar eu priod gyrff. Mae gwariant gan Lywodraethau yn 2017/18 i gyflawni swyddogaethau llais y dinesydd fel a ganlyn:

Tabl 39 – cymharu â chyrff Llais y Dinesydd Llywodraethau eraill

	Gwariant y Llywodraeth yn 2017/18	Poblogaeth (Canol Blwyddyn 2017) ⁸⁵	Cost y Pen £
Cymru (CIC)	£3.9m	3.1m	£1.26
Lloegr (HW)⁸⁶	£30.2m*	55.6m	£0.54
Yr Alban (SHC)⁸⁷	£2.7m	5.4m	£0.48
Gogledd Iwerddon (PCC)⁸⁸	£1.6m	1.9m	£0.84

*Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyllid a ddarperir ar gyfer Local Healthwatch trwy'r Setliad Llywodraeth Leol a'r Grant Diwygio Lleol a Lleisiau Cymunedol sy'n rhan o botiau ehangach o arian, nad ydynt wedi'u clustnodi ac sydd felly'n gallu amrywio'n flynyddol. Mae hefyd yn cynnwys arian a delir i'r Comisiwn Ansawdd Gofal (£2.6m).

248. Gan ystyried y costau rhagamcanol am weithredu'r Corff yn Nhabl 36, rhagwelir y bydd y gost y pen am weithredu'r Corff yn £1.45.
249. Er nad yw'r priod gyrff yn arfer yr un swyddogaethau (yn arbennig Cyngor lechyd yr Alban, sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas ag lechyd yn unig) mae digon yn gyffredin rhwng swyddogaethau'r Corff, y Patient and Client Council a Health Watch, i ddwyn cymariaethau bras. Caiff

⁸⁵ Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU [Y Rhynggrwyd]. StatsCymru. 2019 [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael o:

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/nationallevelpopulationestimates-by-year-age-ukcountry>

⁸⁶ Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr Adran lechyd gan gynnwys costau ar gyfer Healthwatch, Local Healthwatch a dyraniad Cymorth i'r Comisiwn Ansawdd Gofal

⁸⁷ Healthcare Improvement Scotland. Cyfrifon Blynyddol – Blwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 [Y Rhynggrwyd]. Healthcare Improvement Scotland; 2018. Ar gael o: http://www.healthcareimprovementscotland.org/previous_resources/policy_and_strategy/annual_accounts_2017-18.aspx

⁸⁸ [THE PATIENT AND CLIENT COUNCIL. ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON THE PATIENT AND CLIENT COUNCIL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 Mawrth 2018 \[Y Rhynggrwyd\]. THE PATIENT AND CLIENT COUNCIL; 2018. Ar gael o: \[https://www.patientclientcouncil.hscni.net/uploads/files/585_8zfRvS.pdf\]\(https://www.patientclientcouncil.hscni.net/uploads/files/585_8zfRvS.pdf\)](https://www.patientclientcouncil.hscni.net/uploads/files/585_8zfRvS.pdf)

swyddogaethau Cyrff Llais y Dinesydd yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr eu nodi yn **Atodiad C**.

250. Mae'r dystiolaeth yn Nhabl 39 yn awgrymu bod cryn dipyn yn fwy o arian yn cael ei fuddsoddi'n barod yng Nghymru i sicrhau bod llais y dinesydd yn cael ei glywed a'i gynrychioli. Er y bydd gweithredu Opsiwn 2 yn cynyddu'r gwariant hwn ymhellach, mae corff newydd â chyfansoddiad, aelodaeth a swyddogaethau diwygiedig yn cynnig cyfle i sicrhau y ceir mwy o werth am arian o'r buddsoddiad.
251. Wrth werthuso'r opsiynau, gan ystyried y manteision a ddisgrifir isod, ystyrir bod y costau uwch a fyddai'n cael eu hysgwyddo am weithredu Opsiwn 2 yn cael eu cyfiawnhau gan y gwerth ychwanegol y bydd Corff Llais y Dinesydd sy'n arfer swyddogaethau ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn ei ddwyn i'r cyhoedd yng Nghymru ac i gyrff cyhoeddus, megis BILlau, Ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol.

BILlau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig

252. Bydd dyletswydd ar y Corff i roi cyngor a chymorth cwynion i bobl sy'n dymuno canlyn arni â chwyn dan weithdrefn gwynion bresennol y GIG. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn rhoi cyngor a chymorth cwynion i oedolion ar hyn o bryd ac mae dyletswydd ar fyrddau iechyd i roi cymorth i blant sy'n dymuno cyfleu cwyn am y GIG neu i sicrhau bod cymorth o'r fath yn cael ei roi iddynt.
253. Ni ragwelir y bydd creu'r Corff yn arwain at gynnydd yn nifer y cwynion gan bod gweithdrefn gwynion y GIG eisoes yn cael cyhoeddusrwydd eithriadol o dda, gan bod Rheoliadau 2011²⁷ yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau hysbysu'r holl achwynwyr ynghylch argaeledd eiriolwyr cwynion i roi cymorth iddynt ganlyn arni â chwyn a chan bod nifer y cwynion a geir yn seiliedig ar ffactorau heblaw argaeledd cymorth i gyfleu cwyn. Bydd y Corff yn meddu ar y gallu i gyflwyno sylwadau i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig am faterion sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd. Bydd dyletswydd ar Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig i roi sylw i'r sylwadau a wneir gan y Corff a rhoi sylw i'r canllawiau statudol wrth wneud hynny. Rhagwelir y bydd hyn yn niwtral o ran cost i'r BILlau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig gan eu bod eisoes yn ymgysylltu'n helaeth â'r Cynghorau Iechyd Cymuned.
254. Mae gan BILlau ac Ymddiriedolaethau eisoes berthnasoedd gweithio clòs â'r Cynghorau Iechyd Cymuned unigol yn eu hardal ac â'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned. Mae cyrff iechyd yn treulio cryn dipyn o amser yn ymgysylltu â'r Cynghorau Iechyd Cymuned (ac mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd). Er enghraifft, mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn aml yn mynychu cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch BILlau i fwydo'n ôl ar safbwynt cleifion, mae cyfarwyddwyr cynllunio BILlau yn eistedd fel aelod o bwyllgorau cynllunio gwasanaethau Cynghorau Iechyd Cymuned, mae BILlau ac Ymddiriedolaethau'n ymgysylltu'n helaeth â Chynghorau Iechyd Cymuned ynghylch materion sy'n ymwneud â newidiadau arfaethedig i wasanaethau ac

mae Cyngorau lechyd Cymuned eisoes yn gallu cyflwyno “sylwadau” i Fyrddau lechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau am faterion sy’n ymwneud â’r gwasanaeth ieuchyd yn eu hardal, er bod hynny’n digwydd ar sail anstatudol a heb y “ddyletswydd i roi sylw” a fydd yn cael ei chyflwyno fel rhan o’r trefniant newydd arfaethedig.

255. Dim ond un Awdurdod lechyd Arbennig sydd yng Nghymru, sef Addysg a Gwellu lechyd Cymru. Ni ragwelir y bydd rhoi’r pŵer i’r Corff gyflwyno sylwadau i Awdurdodau lechyd Arbennig yn cynyddu’r amser y mae AaGIC yn ei dreulio’n ymgysylltu â’r Corff – o’i gymharu â’r amser y mae’n ei dreulio’n ymgysylltu â’r Cyngorau lechyd Cymuned ar hyn o bryd. Nid yw AaGIC yn darparu gwasanaethau’n uniongyrchol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ac nid yw’n rhan mewn ymgynghoriadau ynghylch newidiadau i wasanaethau, er enghraifft, felly o’i gymharu â BILlau ac Ymddiriedolaethau ni ragwelir y bydd yn ymwneud i’r un graddau â’r Corff.
256. Er ein bod yn rhagweld y bydd gan y Corff broffil uwch na’r Cyngorau lechyd Cymuned, nid ydym o’r farn y bydd cynnydd mewn proffil yn golygu y bydd cyrff ieuchyd yn treulio mwy o amser yn rhyngweithio â’r Corff. Yn hytrach, os bydd gan y Corff broffil uwch ac os bydd yn cael adborth gan ystod ehangach o ddinasyddion i oleuo adborth, sylwadau ac ati, byddai hyn yn syml yn darparu sail dystiolaeth gryfach ar gyfer y gwaith hwn ac yn gwneud unrhyw sylwadau a wneir yn fwy dilys byth. Felly, ni ragwelir y bydd rhoi dyletswydd ar BILlau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau lechyd Arbennig i roi sylw i sylwadau gan y Corff yn cael effaith fawr ar yr amser y mae’r cyrff hyn yn ei dreulio’n ymgysylltu ag ef.
257. Bydd dyletswydd ar BILlau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau lechyd Arbennig i hyrwyddo gweithgareddau’r Corff. Fel yr amlygir ym mharagraff 456, bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido ymgyrch yn y cyfryngau i lansio’r Corff. Disgwylir y bydd deunyddiau hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth yn cael eu datblygu a’u cynnal gan y Corff ac yn cael eu rhannu gyda BILlau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau lechyd Arbennig. Wedyn bydd y cyrff hyn yn defnyddio’r deunyddiau hyn i godi ymwybyddiaeth trwy eu sianeli cyfathrebu presennol, megis eu gwefan, eu ffrwd Twitter, posteri mewn mannau cyhoeddus ac ar wardiau a.y.b. Mae dyletswydd yn barod ar BILlau ac Ymddiriedolaethau i roi cyhoeddusrwydd o weithdrefn gwynion y GIG dan y trefniadau Gweithio i Wella, felly i’r sefydliadau hyn gall y ddyletswydd newydd hon adeiladu ar eu gwaith presennol yn y maes hwn heb arwain at gostau ychwanegol.
258. Mae dyletswydd ar gyrff y GIG ac ALLau i ddarparu gwybodaeth y mae’r Corff wedi gwneud cais rhesymol amdani at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau. Rhaid iddynt roi rhesymau ysgrifenedig dros wrthod datgelu gwybodaeth i ddangos tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud y penderfyniadau hyn. Fodd bynnag, yn unol ag adran 18(3) o’r Ddeddf, ni ellir gofyn ar i gyrff y GIG nac ALLau ddatgelu gwybodaeth pe bai’n anghyfreithlon gwneud hynny. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi’u nodi mewn perthynas â hyn gan bod disgwyl y byddai cyrff y GIG ac ALLau yn ymateb i geisiadau rhesymol am wybodaeth, ac y byddai achosion o wrthod yn brin.

259. Mae dyletswydd hefyd ar gyrff y GIG, ALLau a'r Corff i wneud trefniadau i gydweithredu gyda golwg ar gefnogi ei gilydd i arfer eu swyddogaethau o dan adrannau 13(2), 14(1) ac 17(1) o'r Ddeddf. Mae adran 13(2) yn cyfeirio at swyddogaeth y Corff i geisio barn y cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau ieuchyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae Adran 14(1) yn cyfeirio at ddyletswydd y Corff i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'i amcan gyffredinol a'i swyddogaethau. Ma Adran 17(1) yn rhoi dyletswydd ar gyrff y GIG ac ALLau i godi ymwybyddiaeth o weithgarwch y Corff. Tybir y bydd cost i bob un o'r gyrff sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r ddyletswydd. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu llunio amcangyfrif rhesymol o'r gost hon, gan y byddai'r gost yn dibynnu ar natur a hyd a lled y trefniadau y cytunir arnynt. Felly, nid yw'r gost yn hysbys.

260. Mae Adran 19 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi cod ymarfer ar fynediad i eiddo. Rhoddir eglurhad o ddiben y cod ymarfer ym mharagraffau 228 a 234. Ystyrir na fydd cyhoeddi cod ymarfer ar fynediad yn arwain at gostau ychwanegol i gyrff y GIG, gan fod gan Gynghorau Iechyd Cymuned hawl ar hyn o bryd i gael mynediad at eiddo'r GIG. Felly, mae gyrff y GIG eisoes yn ysgwyddo costau cyfle sy'n gysylltiedig â mynediad, a byddant yn parhau i wneud hynny.

Awdurdodau Lleol:

261. Byddai sefydlu'r Corff gyda'r pŵer i recriwtio'i aelodau gwirfoddol ei hun yn rhyddhau ALLau o'u dyletswydd i fynd ati i benodi cynghorwyr fel aelodau gwirfoddol o'r Cynghorau Iechyd Cymuned, gan olygu bod y costau cysylltiedig yn cael eu harbed – gweler Tablau 30 a 38.

262. Ar wahân, bydd y Corff yn arfer y swyddogaeth i roi cyngor a chymorth cwynion i bobl mewn perthynas â rhai cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol fel y nodir ym mharagraff 224. Er y bydd gan y Corff y pŵer i roi cyngor a chymorth cwynion mewn perthynas â'r mathau hyn o gwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol, bydd y Corff yn ategu'r ffynonellau cyngor a chymorth presennol yn gyson â'r nod yn Neddf 2014² i sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaidd ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael trwy fynd ati'n weithredol i gynnwys unigolion mewn penderfyniadau am eu bywydau, gan gynnwys wrth asesu a diwallu anghenion.

263. Fe ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at yr holl awdurdodau lleol i ofyn pa drefniadau sydd ganddynt ar hyn o bryd i roi cyngor a chymorth cwynion i bobl sy'n dymuno canlyn arni â chwyn dan Reoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a beth yw cost y trefniadau hynny. Mae gan awdurdodau lleol gwahanol drefniadau gwahanol. Mae rhai'n rhoi cyngor a chymorth cwynion trwy swyddogion cwynion yr awdurdod lleol, mae eraill yn atgyfeirio pobl y mae arnynt angen cymorth at sefydliadau gwirfoddol (megis Age Cymru) ac mae eraill yn ymrwymo i drefniadau gyda darparwyr eiriolaeth annibynnol ond yn cyfuno trefniadau o'r fath gyda threfniadau ar gyfer gwasanaethau eirioli annibynnol y mae'n ofynnol iddynt eu sicrhau ar gyfer plant dan Ddeddf 2014². Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio cyfuniad o'r dulliau hyn i ddiwallu anghenion amrywiol pobl sy'n gofyn am gymorth i ganlyn arni â chwyn. O ganlyniad, pan ofynnwyd iddynt,

nid oedd awdurdodau lleol unigol yn gallu dadgyfuno cost benodol gwasanaethau cyngor a chymorth cwynion annibynnol ar gyfer y rhai sy'n defnyddio gweithdrefn gwynion statudol yr awdurdod lleol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

264. Fel y dadansoddiad mewn perthynas â chwynion y GIG uchod, ni ystyrir y bydd creu corff a fydd â'r gallu i roi cyngor a chymorth cwynion mewn perthynas â rhai cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol yn arwain at gynnydd yn nifer y cwynion sy'n dod i law awdurdodau lleol. Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi hen ennill ei phlwyf ac yn cael cyhoeddusrwydd da ac, fel gyda gweithdrefn gwynion y GIG, mae Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig canllawiau a chymorth i achwynwyr ar ddilyn y weithdrefn gwynion neu ar ble i gael gafael ar y canllawiau hynny. Ceir eisoes gyrrff sy'n rhoi cyngor a chanllawiau o'r fath ynghylch cwynion. Eto, fel gyda'r sector iechyd, ceir llawer o ffactorau sy'n gyfrifol am nifer y cwynion.
265. Bydd gan y Corff y gallu i gyflwyno sylwadau i awdurdodau lleol am faterion sy'n ymwneud â'r swyddogaethau o ran gwasanaethau cymdeithasol. Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi sylw i sylwadau gan y Corff a'r canllawiau statudol wrth wneud hynny. Bydd cost i awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â hyn; fodd bynnag, nid ydym wedi gallu llunio amcangyfrif rhesymol o'r gost hon. Felly nid yw'r gost hon yn hysbys.
266. Wrth geisio amcangyfrif cost, rhoddwyd ystyriaeth i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth a oedd yn cynnwys y pŵer i gyflwyno 'sylwadau', er enghraifft Deddf 2015¹ a Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Rhoddwyd ystyriaeth i'r asesiadau effaith rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â'r deddfau hyn a chynhaliwyd trafodaethau gydag arweinwyr polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru. Hefyd, cysylltwyd â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdod lleol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, i ofyn am eu barn ynglŷn â'r ffordd fwyaf priodol o fesur cost realistig. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn dangos cymysgedd o drefniadau ar draws sefydliadau, ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth y gellid ei hallosod mewn modd dibynadwy fel cost amcangyfrifedig ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Y prif reswm dros yn oedd bod ymatebion yn dynodi bod ymdrin ag ymholiadau neu sylwadau'n ddibynnol ar eu natur a'u cymhlethdod, gyda'r gost cyfle sy'n gysylltiedig ag ymateb yn amrywio'n sylweddol o un achos i'r llall. Er enghraifft, gallai sylwadau olygu amrywio o aelod o staff yn neilltuo munudau i lunio ymateb i achos mwy cymhleth a fyddai'n galw am waith sylweddol, gan staff ar wahanol raddau. Yn sgil nifer y ffactorau anhysbys, ni ddarparwyd ystod o gostiadau gan y byddai hyn mor eang fel na fyddai'n darparu gwerth ac y byddai'n gamarweiniol.
267. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ddefnyddio'r un costau â'r rhai presennol sy'n gysylltiedig â sylwadau a gyflwynir gan y Cynghorau Iechyd Cymuned presennol i Fyrdau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau. Fodd bynnag, y farn oedd ei bod yn afrealistig disgwyl y byddai unrhyw gostau o'r fath i bob pwrpas yn gallu cael eu hadlewyrchu'n uniongyrchol ar draws yr awdurdodau lleol

mewn unrhyw ffordd gyson oherwydd er bod y Cynghorau Iechyd Cymuned presennol yn ymgysylltu'n helaeth â BILlau ac Ymddiriedolaethau mae'r cysylltiadau hyn, sydd y tu hwnt i'w gofynion statudol, wedi datblygu o ganlyniad i berthnasodedd hirsefydlog. Hefyd, mae gan BILlau ac Ymddiriedolaethau drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd gwahanol.

268. Bydd dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i hyrwyddo gweithgareddau'r Corff. Fodd bynnag, fel a nodwyd uchod mewn perthynas â BILlau ac Ymddiriedolaethau ni ragwelir y bydd hon yn gost sylweddol. Fel a amlygir ym mharagraffau 456 a 457, bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido ymgyrch yn y cyfryngau i lansio'r Corff. Bydd deunyddiau hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth yn cael eu datblygu a'u cynnal gan y Corff ac yn cael eu rhannu gydag awdurdodau lleol. Wedyn bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r deunyddiau hyn i godi ymwybyddiaeth trwy eu sianeli cyfathrebu presennol, megis eu gwefan, eu ffrwd Twitter, posterï mewn mannau cyhoeddus a.y.b. Gallent ddosbarthu deunyddiau hyrwyddo i ddarparu gofal cymdeithasol y maent yn ymrwmo i drefniadau gyda hwy ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol hefyd.
269. Fel yr amlinellir ym mharagraff 259, mae dyletswydd ar gyrff y GIG, ALLau a'r Corff hefyd i wneud trefniadau i gydweithredu gyda golwg ar gefnogi ei gilydd i arfer eu swyddogaethau o dan adrannau 13(2), 14(1) a 17(1) o'r Ddeddf. Am y rhesymau a amlinellir yn y paragraff hwnnw, nid yw'n bosibl llunio amcangyfrif rhesymol o'r gost honno ar gyfer y cyrff cysylltiedig.
270. Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei lunio a'i gyhoeddi yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf. Bydd costau cyfle i awdurdodau lleol nad ydynt yn eu hysgwyo ar hyn o bryd, ac os bydd y Corff yn gwneud cais i siarad ag unigolion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol ar eiddo awdurdod lleol, bydd gofyn iddynt roi sylw i'r cod wrth ystyried cais y Corff.
271. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cadw cydbwysedd rhwng y fantais amlwg i ddefnyddwyr gwasanaeth o ganiatáu iddynt fynegi eu barn ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac, er enghraifft, yr angen i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y rheini sy'n derbyn gofal. Mae'n debygol y bydd yr ystyriaethau'n amrywio yn ôl lleoliad. Hefyd, nid yw'n bosibl rhagweld, gydag unrhyw lefel o gywirdeb, faint o geisiadau o'r fath y byddai pob awdurdod lleol yn ei dderbyn. Byddai costau cyfle hefyd yn gysylltiedig ag ymweliad y Corff â'r lleoliad. Eto, mae'n debygol y bydd y rhain yn amrywio yn dibynnu ar y lleoliad. Felly, nid yw'n bosibl rhagweld, gydag unrhyw lefel o gywirdeb, pa gostau cyfle fyddai'n gysylltiedig gyda chydymffurfio â'r cod.
272. Fel y mae paragraff 258 yn ei amlinellu, bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu rhesymau ysgrifenedig dros wrthod datgelu gwybodaeth i'r Corff, y mae'n gwneud cais rhesymol amdani.

Sefydliadau Gwirfoddol:

273. Byddai sefydlu'r Corff gyda'r pŵer i recriwtio'i aelodau gwirfoddol ei hun yn rhyddhau Sefydliadau Gwirfoddol o'u dyletswydd i fynd ati i benodi cynghorwyr fel aelodau gwirfoddol o'r Cynghorau Iechyd Cymuned, gan olygu bod y costau cysylltiedig yn cael eu harbed – gweler Tablau 29 a 38. Rhagwelir y bydd llawer o'r aelodau gwirfoddol presennol yn parhau i gyfrannu at waith y Corff fel aelodau gwirfoddol, ond byddai angen i'r rhain gael eu recriwtio gan y Corff ar ôl ei sefydlu.
274. Rhagwelir y bydd rhai o'r bobl sy'n cael cyngor a chymorth cwynion ar hyn o bryd yn mynd at y Corff i gael cyngor a chymorth yn y dyfodol a bydd gan sefydliadau gwirfoddol yr opsiwn i atgyfeirio pobl y mae arnynt angen cyngor a chymorth at y Corff. Mae gan hyn y potensial i leihau'r pwysau ar sefydliadau gwirfoddol sy'n rhoi cyngor a chymorth ar hyn o bryd i bobl sy'n dymuno cyfleu cwyn am wasanaethau cymdeithasol. Gallai capasiti ychwanegol i ymdrin â chwynion am wasanaethau cymdeithasol gael ei staffio neu ei gaffael gan y Corff ond, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi amcangyfrif cost y capasiti ychwanegol ar sail staffio.

Manteision

275. Ceir nifer o fanteision sylweddol i greu corff corfforaethol annibynnol, newydd a fydd yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Y brif fantais yw y bydd yn darparu corff ar gyfer y cyhoedd sy'n gallu cynrychioli eu barn ar draws y ddau sector allweddol yma.
276. Dan y trefniadau presennol, nid oes un corff sydd wedi'i neilltuo i gynrychioli llais y dinesydd mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol. Mae swyddogaethau statudol y Cynghorau Iechyd Cymuned yn gyfyngedig i gynrychioli buddiannau'r boblogaeth yn eu hardal mewn materion sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth iechyd. Felly ni allan gynrychioli llais y dinesydd mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol.
277. Fel yr esbonnir ym mharagraffau 275 a 276 uchod rydym yn newid i system lle bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu'n fwyfwy mewn ffordd integredig. Fe argymhellodd yr *Adolygiad Seneddol*⁴ y dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gael eu hintegreiddio mewn modd di-dor ochr yn ochr ag ymgysylltu mwy integredig â dinasysddion, ac adlewyrchir hyn yn y nodau yn *Cymru Iachach*⁵, sy'n disgrifio nod i sicrhau bod dinasysddion yn cael eu gwneud yn ganolog i ddull system gyfan o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
278. Rhoddodd yr Adolygiad Seneddol⁴ ddisgrifiad maith o fanteision y dull integredig hwn. Yn gryno, mae 'cydgysylltu' gofal trwy ei drefnu'n effeithiol mewn modd sy'n canolbwyntio ar anghenion y defnyddiwr gwasanaethau'n lleihau nifer yr asesiadau ac ymweliadau â darparwyr gwahanol, yn lleihau oedi wrth ddarparu gwasanaethau, yn arwain at ddeilliannau clinigol ac anghlinigol gwell ac yn arwain at lefelau bodlonrwydd uwch ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Un o nodweddion allweddol y dull integredig yw

gofal integredig, hygyrch gan y gweithiwr proffesiynol cywir â'r sgiliau cywir ar yr adeg gywir, a hwnnw'n cael ei ddarparu'n nes at adref, gyda mynediad at driniaeth arbenigol pan fo angen. O ystyried y newid tuag at wasanaethau mwy integredig, mae'n gwneud synnwyr bod un corff yn cael gorchwyl i gynrychioli buddiannau dinasyddion ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

279. Un o flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru yw canlyn arni â pholisïau i hybu mwy o integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Fodd bynnag, ni ellir datblygu polisi ar wahân ac felly mae mewnbwn gan y cyhoedd yn hollbwysig. Er bod staff y GIG a gweithwyr gofal cymdeithasol yn darparu safbwynt amhrisiadwy wrth ystyried yr hyn sy'n gyfystyr â gwasanaeth o ansawdd da, rhaid ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau'n cael eu clywed gan ddarparwyr gwasanaethau. Y farn felly, o safbwynt polisi Llywodraeth Cymru, yw bod angen i'r Corff gael cyllid digonol i'w alluogi i gyfoethogi barn a llais pobl Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

280. Fel y nodir yn Nhabl 36, rhan o'r buddsoddiad fydd neilltuo cyllid i alluogi'r Corff i roi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig er mwyn sicrhau bod gan y Corff broffil uwch ymhlith aelodau'r cyhoedd na'r Cynghorau Iechyd Cymuned presennol. Bydd hyn yn hollbwysig i wella mynediad at y Corff ac annog pobl i roi adborth ar eu profiadau o wasanaethau iechyd a chymdeithasol. Mae mwy o ddealltwriaeth am y corff, mwy o fynediad ato a mwy o ddefnydd ohono'n allweddol i sicrhau bod y Corff yn rhoi gwerth am arian o ran gwasanaethau a gynigir i'r cyhoedd ac o ran y modd y caiff gwasanaethau eu gwella o ganlyniad i adborth ar gyfer awdurdodau cyhoeddus megis BILlau, Ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Bydd corff sydd ag adnoddau digonol i gyflawni'r dyheadau a bennir yn sicrhau ei fod yn dod yn ffynhonnell gwybodaeth amhrisiadwy, allweddol mewn perthynas â barn defnyddwyr gwasanaethau am y systemau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

281. Mae swyddogaethau craidd y Corff yn ei gwneud yn ofynnol iddo gynrychioli budd y cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol trwy ofyn am farn y cyhoedd ac yn ei dro cyflwyno sylwadau i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau lleol, a bod dyletswydd gyfreithiol ar y cyrff hyn i "roi sylw" i'r sylwadau a gyflwynir gan y Corff. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn gweithredu i gasglu gwybodaeth leol am bryderon ac awgrymiadau defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas ag iechyd yn unig. O ystyried y camau arfaethedig i integreiddio gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn fwy, mae'r Opsiwn hwn yn darparu ateb trwy greu corff sydd â'r gallu i gynrychioli barn y cyhoedd ar hyd llwybrau gofal rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a chynorthwyo'r byrddau partneriaeth statudol i asesu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth a threfnu darpariaeth effeithiol o fewn eu ffiniau.

282. Bydd sefydlu'r Corff â chylch gorchwyl cenedlaethol, ond gyda chynrychiolaeth leol, yn ei alluogi i gynrychioli barn yn effeithiol ar lefel leol tra

bydd yr elfen genedlaethol, gan ddefnyddio gwybodaeth y mae wedi'i chasglu'n lleol ac yn rhanbarthol, yn ei alluogi i ysgogi gwersi a gwelliant thematig, cenedlaethol er budd defnyddwyr gwasanaethau. Gall hyn hybu arfer da a gwersi a ddysgwyd – gan wella ansawdd gwasanaethau a'r gwerth am a ddarperir ganddynt, gan ddylanwadu ar strategaeth, polisi a gweithrediadau cenedlaethol.

283. Un arall o strategaethau craidd y Corff fydd rhoi cymorth gyda chwynion am y GIG mewn perthynas ag oedolion a phlant a rhai cwynion am wasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod swyddogaethau'r Corff yn y maes allweddol hwn yn gryfach o'i gymharu â'r rhai sy'n cael eu harfer ar hyn o bryd gan y Cyngorau Iechyd Cymuned. Am y tro cyntaf bydd corff cyhoeddus sy'n gallu rhoi cyngor a chymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas â'r holl gwynion am y GIG a nifer sylweddol o gwynion am y gwasanaethau cymdeithasol. Ystyrir bod hwn yn gam sylweddol ymlaen ar adeg pan amcanir yn weithredol at fwy o integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Ni fydd y Corff yn rhoi cyngor a chymorth cwynion i blant sydd â hawl statudol i gymorth gyda chwynion dan Ddeddf 2014² er mwyn osgoi dyblygu.

284. Hefyd, byddai cynnal y sefyllfa bresennol (Opsiw 1) yn golygu bod yr anawsterau sylweddol sy'n rhan annatod o'r Cyngorau Iechyd Cymuned presennol yn parhau ac ni fyddai hynny'n dwyn y manteision posibl sy'n gysylltiedig â chreu'r Corff (Opsiw 2). Ceir disgrifiad manwl isod o'r modd y mae disgwyl cyflawni'r manteision hyn a phwy y mae disgwyl iddynt elwa ond, yn fras, mae'r manteision hyn yn cynnwys:

- Sefydlu – cael gwared ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sy'n gysylltiedig â lletya gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, gan sicrhau ei fod yn gallu gweithredu ag annibyniaeth;
- Cynrychioli'r cyhoedd – cael gwared â chyfyngiadau i alluogi'r Corff i gyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd integredig ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol;
- Swyddogaethau – ailbennu'r ffocws o ran priod le Corff Llais y Dinesydd i gael gwared ag unrhyw ddyblygu swyddogaethau (megis arolygu) sy'n bresennol yn y system gofal iechyd bresennol;
- Recriwtio aelodau – cael gwared â'r cyfyngiadau a beichiau presennol sy'n gysylltiedig â recriwtio aelodau gwirfoddol.

Sefydlu:

285. Fel a amlygir ym mharagraff 286, mae Cyngorau Iechyd Cymuned wedi'u sefydlu fel cymdeithasau anghorfforedig, sy'n golygu nad oes ganddynt y pwerau sy'n gysylltiedig â bod wedi'u sefydlu fel cyrff cyfreithiol yn eu rhinwedd eu hunain sydd wedi ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu "lletya" gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Yn ymarferol mae hyn yn golygu:

- nid yw Cyngorau Iechyd Cymuned yn gallu cyflogi staff. O ganlyniad mae holl staff y Cyngorau Iechyd Cymuned yn cael eu cyflogi gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys;

- mae gwasanaethau cefn swyddfa megis cyllid, Adnoddau Dynol, TG ac ati, yn cael eu darparu ar gyfer Cynghorau Iechyd Cymuned gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, sy'n golygu ei bod yn ofynnol i Gynghorau Iechyd Cymuned ddefnyddio gwefan swyddi'r GIG i recriwtio staff, ac mae gwefannau'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn cael eu lletya gan y GIG sy'n anfanteisiol o ran canfyddiad y cyhoedd am eu hannibyniaeth;
- nid ydynt yn gallu ymrwymo i contractau ar gyfer nwyddau neu wasanaethau, sydd eto wedi ei gwneud yn angenrheidiol bod y GIG yn ymrwymo i'r contractau hynny ar eu rhan;
- mae'r holl brydlesi ar gyfer adeiladau'r Bwrdd a'r Cynghorau Iechyd Cymuned lleol yn cael eu negodi ar ran y Cynghorau Iechyd Cymuned gan y GIG a Gweinidogion Cymru sy'n ymrwymo i'r contractau;
- yn sgil eu statws lletyol, bu'n ofynnol sefydlu trefniadau atebolrwydd cymhleth er mwyn galluogi Cynghorau Iechyd Cymuned a'r Bwrdd i gyflawni eu swyddogaethau a gweithredu'n annibynnol ar y sefydliad sy'n eu lletya a Llywodraeth Cymru.

286. Pan sefydlwyd y Cynghorau Iechyd Cymuned, dros 40 mlynedd yn ôl, y farn oedd ei bod yn dderbyniol eu sefydlu fel cymdeithasau anghorfforedig; a hwythau'n ddibynnol ar gorff "lletyol" i allu gweithredu. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd cynyddol llais y dinesydd ac ymgysylltu â dinasyddion, a'r pwyslais cynyddol ar hynny, y farn yw bod angen i gorff sy'n cynrychioli buddiannau'r cyhoedd fod yn annibynnol ac na ddylai gael ei letya gan un o gyrff y GIG (nac unrhyw gorff cyhoeddus arall) gan bod y potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau'n rhy uchel. O ganlyniad, pan gaiff ei ystyried yng ngoleuni'r disgwyliadau presennol, y farn yw nad yw model cymdeithas anghorfforedig yn briodol mwyach.

287. Byddai Opsiwn 2 yn mynd i'r afael â'r anawsterau hyn trwy greu corff sy'n Gorff Gweithredol a Noddir gan Lywodraeth Cymru – a ddisgrifir yn **Atodiad D**. Trwy sefydlu'r Corff fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru bydd yn sicrhau bod y Corff mor annibynnol â phosibl ar Weinidogion Cymru. Ni fydd yn cael ei 'letya' gan sefydliad arall, gan ddileu unrhyw bryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau pan fo sefydliad yn gweithredu fel corff lletya i gorff sydd â gorchwyl i gynrychioli buddiannau'r cyhoedd o ran y modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau ei hun. Bydd hefyd yn golygu bod y Corff yn 'gorff corfforaethol', gan gael gwared ar yr anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r ffordd y mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn cael eu sefydlu ac yn gweithredu ar hyn o bryd.

288. Bydd Prif Weithredwr y Corff yn cael ei benodi fel ei "Swyddog Cyfrifyddu" (fel y nodir yn Atodlen 1 y Ddeddf). Bydd hyn yn annog y Corff i weithio'n annibynnol wrth wneud penderfyniadau corfforaethol a rheoli gweithrediad ac adnoddau'r corff wrth gyflawni ei amcanion.

289. Fel sy'n digwydd gyda'r holl Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, bydd Gweinidogion yn pennu cylch gorchwyl y Corff, gan gynnwys blaenoriaethau y bydd y corff yn mynd ar eu trywydd yn y flwyddyn sydd i ddod, ac yn sefydlu fframwaith adrodd ar gyfer y corff.

Cynrychioli'r cyhoedd:

290. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sefydlu Cyngorau Iechyd Cymuned yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gynrychioli budd y cyhoedd yn y gwasanaeth iechyd "yn eu hardal", nad yw'n adlewyrchu dull mwyfwy integredig o ddarparu gwasanaethau. Mae dyletswydd gyfreithiol Cyngorau Iechyd Cymuned i gynrychioli buddiannau pobl yn eu hardal yn achosi heriau pan fo trefniadau gweithio trawsffiniol neu newidiadau i wasanaethau'n cael eu cynnig gan bod cyfyngiadau'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn golygu y gall fod yn anodd ystyried materion rhanbarthol a chenedlaethol.

291. Mae'r Opsiwn hwn yn datrys y mater hwn trwy greu corff cenedlaethol a fydd yn helpu i sicrhau cysondeb o ran y trefniadau a gwasanaethau a ddarperir yn lleol ledled Cymru ac yn hwyluso gweithio trawsffiniol.

292. Bydd y Corff yn cael ei sefydlu fel bod BILlau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Lleol yn gorfod rhoi sylw i sylwadau gan y Corff, h.y. rhaid iddynt roi sylw i sylwadau a wneir gan y Corff am faterion megis newidiadau arfaethedig i wasanaethau. Bydd hyn yn sicrhau bod llais y dinesydd yn cael ei ddwyn i sylw'r cyrff cyhoeddus hynny sy'n darparu neu'n comisiynu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a bod llais y dinesydd yn ganolog i ddull system gyfan o drefnu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn unol â nodau 'Cymru Iachach'⁵. Mae hyn yn rhoi llais pwysig i'r cyhoedd o ran adnabod materion sy'n bwysig iddynt, materion sy'n achosi pryder ond hefyd o ran adnabod meysydd lle ceir arferion da.

Swyddogaethau:

293. Mae nifer o adroddiadau ac adolygiadau o Gyngorau Iechyd Cymuned wedi cael eu cynnal i ganfod sut orau i gynrychioli llais y dinesydd yn fwy eang yng Nghymru mewn perthynas ag iechyd. Mae'r opsiwn hwn yn gyfle i ystyried pa swyddogaethau y mae angen i Gorff Llais y Dinesydd allu eu cyflawni i fod yn llais effeithiol ar ran y cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a chael gwared ar unrhyw achos o ddyblygu swyddogaethau sy'n bresennol yn y system ar hyn o bryd.

294. Bydd creu'r Corff, gyda swyddogaethau diwygiedig o'i gymharu â rhai'r Cyngorau Iechyd Cymuned presennol, yn helpu i ganolbwyntio gweithgareddau ar gynrychioli llais y dinesydd, gan newid y ffocws o arolygu i ymgysylltu gan ei gwneud yn bosibl creu proffil cyhoeddus uwch. Mae hyn yn adlewyrchu argymhellion Adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd¹¹ a ddarparodd fel a ganlyn:

'The potential for CHCs to engage with the local communities and advocate for patients around their concerns seems clear. The value of some of their other functions, notably inspections and onsite scrutiny of health care is less clear. It would seem more effective for the CHCs to focus their activities on reflecting the patient voice and engaging with other scrutiny bodies in Wales....'

295. Bydd y Corff yn gallu rhoi sicrwydd a hwb ymlaen i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol hefyd i wella'r ffordd y maent yn

ymgysylltu â dinasyddion ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda hwy i gynllunio a darparu gwasanaethau.

296. Yn ei ddatganiad polisi, bydd y Corff yn amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau ei fod yn cynrychioli buddiannau pobl ym mhob rhan o Gymru, a'i fod yn hygyrch i bobl ledled Cymru. Bydd hefyd yn nodi sut y gall ei staff a'r gwirfoddolwyr ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd.

Mynediad i eiddo

Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cod ymarfer yn ymwneud â cheisiadau a wneir gan y Corff i gael mynediad i eiddo er mwyn ceisio barn unigolion, ac ymgysylltu ag unigolion pan cytunir i ganiatáu mynediad.

297. Bydd dyletswydd ar y Corff, cyrff y GIG ac awdurdodau lleol i roi sylw i'r cod wrth arfer eu swyddogaethau perthnasol.

298. Prif amcan y cod ymarfer yw cefnogi'r Corff wrth geisio barn pobl pan fyddant yn derbyn gofal ac atgyfnerthu eu llais wrth rannu eu profiadau o wasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, lle y bo'n briodol, bydd angen cydbwysu hyn gyda'r angen i warchod urddas, preifatrwydd a diogelwch unigolion sy'n derbyn y gwasanaethau hyn, y mae llawer ohonynt o bosibl yn agored i niwed. Drwy ddatblygu'r cod mewn ymgynghoriad â'r holl bartïon perthnasol, gallwn daro'r cydbwysedd priodol a sicrhau bod y cod yn ddigon hyblyg i gael ei ddefnyddio mewn nifer o leoliadau ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Cydweithredu

299. Bydd dyletswydd ar y Corff, cyrff y GIG ac awdurdodau lleol i wneud trefniadau i gydweithredu, gyda golwg ar gefnogi ei gilydd i arfer eu swyddogaethau o dan adrannau perthnasol o'r Ddeddf.

300. Bydd hyn yn gofyn ar i gyrff y GIG, awdurdodau lleol a'r Corff wneud trefniadau i gefnogi'r Corff wrth geisio barn y cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gwneud trefniadau i gydweithredu er mwyn hyrwyddo ei weithgarwch.

Recriwtio aelodau:

301. I Lywodraeth Cymru, mae cyfradd recriwtio aelodau gwirfoddol Cynghorau Iechyd Cymuned wedi mynd yn fwyfwy ansefydlog dros y blynyddoedd diwethaf gan ei bod wedi mynd yn fwyfwy anodd denu digon o bobl i'r rôl. Mae adborth anecdotaidd a rannwyd gyda Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn awgrymu bod llawer o bobl yn cael y broses penodiadau cyhoeddus yn annymunol, ac yn ei chael yn anodd ymrwymo i'r 3-5 diwrnod y mis sy'n ofynnol. Mae'r system gyfredol yn gwbl ddibynol ar y prosesau recriwtio a gynhelir gan drydydd partïon, sef Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol a chadw'r aelodau gwirfoddol hyn.

302. Hefyd, er bod aelodau gwirfoddol Cyngorau lechyd Cymuned yn cael eu penodi ar sail eu sgiliau a'u gallu i gynrychioli cleifion, nid yw'r aelodaeth yn amrywiol nac yn cynrychioli cymunedau lleol. Mae hyn yn digwydd er gwaethaf ymdrechion ar y cyd dros y blynyddoedd diwethaf gan bawb sy'n rhan o'r broses recriwtio, gan gynnwys y Cyngorau lechyd Cymuned eu hunain, i annog grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgeisio.

303. Mae'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r anfanteision hyn, ac yn creu corff sydd â'r pŵer i recriwtio'i aelodau gwirfoddol ei hun, heb ddibynnu ar eraill, a heb y cyfyngiadau a achosir gan y system apwyntiadau cyhoeddus. Mae'n rhoi hyblygrwydd i'r Corff gan ei alluogi i weithredu mewn modd a fydd yn denu nifer fwy o aelodau gwirfoddol posibl, gan helpu i greu proffil amrywiol sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau lechyd a chymdeithasol yn fwy – gan alluogi'r Corff i gael barn fwy gwybodus gan ddinasyddion ar draws y system gyfan.

Y Gymraeg

304. Cyn gynted ag y bydd y Corff wedi'i sefydlu, bydd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg.

305. Er mwyn sicrhau mai dyma fydd yr achos, mae'r Ddeddf yn diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018, i gyfeirio at "Corff Llais y Dinesydd" yn hytrach na "Cyngorau lechyd Cymuned a Bwrdd Cyngorau lechyd Cymuned". Bydd hyn yn sicrhau bod y Corff yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau o'r dechrau'n deg. Bydd hyn yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i ddechrau ar y broses o osod safonau ar y Corff yn syth wedi iddo gael ei sefydlu.

306. Gan fod y Corff yn disodli'r Cyngorau lechyd Cymuned, sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau ar hyn o bryd, bydd mabwysiadu'r dull gweithredu hwn yn sicrhau cysondeb o ran gofynion y Gymraeg ar gyfer y Corff, ac yn adeiladu ar ddatblygiadau a wnaed wrth ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Archwilio

307. Mae paragraff 21 o Atodlen 1 yn gosod dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru, mewn perthynas â phob datganiad o gyfrifon a gyflwynwyd gan y Corff, i archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiad o gyfrifon.

Ddim hwyrach na 4 mis ar ôl i'r datganiad o gyfrifon gael ei gyflwyno gan y Corff, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r datganiad ardystiedig ac adroddiad y datganiad o gyfrifon gerbron y Senedd. Os nad yw hyn yn rhesymol ymarferol, rhaid gosod datganiad i'r un perwyl, gan gynnwys rhesymau dros hyn, gerbron y Senedd.

308. Wrth archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiad o gyfrifon, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi ei farn ar p'un a yw'r gwariant sy'n berthnasol i'r cyfrifon wedi'i ysgwyddo'n gyfreithlon ai peidio, ac yn unol â'r awdurdod sy'n llywodraethu drosto.

309. Bydd y broses hon yn cryfhau'n sylweddol y gofynion archwilio ar gyfer y Corff.

Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru:

310. Roedd consensws eang yn dilyn yr ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn²⁶ na ddylai'r arolygiaethau a'r Corff fod yn rhan o un corff unigol. Fodd bynnag, mae gan Gynghorau Iechyd Cymuned swyddogaeth i arolygu adeiladau lle darperir gwasanaethau'r GIG. Roedd cytundeb eang yn dilyn yr ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn²⁶ na ddylai corff newydd posibl fod â'r swyddogaeth hon gan ei bod yn dyblygu rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru⁴⁴ a chan nad yw staff nac aelodau gwirfoddol y Cynghorau Iechyd Cymuned (a fyddai'n trosglwyddo i'r Corff) yn arolygwyr hyfforddedig.

311. Fodd bynnag, er y bydd y Corff a'r arolygiaethau (AGC43 ac AGIC44) yn arfer swyddogaethau gwahanol, cydnabyddir bod eu swyddogaethau'n ategu ei gilydd ac y bydd manteision yn deillio os byddant yn cydweithio.

312. Ystyrir y byddai datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i drefnu'r berthynas rhwng yr arolygiaethau a'r Corff yn fecanwaith priodol i nodi trefniadau cydweithio a chynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer ymwneud cryf gan ddinasyddion /lleygwyr yn y dyfodol a sicrhau bod mecanwaith ar gyfer bwydo llais y dinesydd i mewn i'r arolygiaethau. Bydd y dull cydweithredol hwn yn helpu i ganolbwyntio adnoddau o fewn y priod gyrff, gan ei gwneud yn bosibl cael darlun cynhwysfawr, seiliedig-ar-dystiolaeth o brofiad y dinesydd. Bydd hyn o fudd i'r Corff ac i'r arolygiaethau.

BILLau ac Ymddiriedolaethau:

313. Mae'r Opsiwn hwn yn creu manteision i'r BILLau a'r Ymddiriedolaethau. Yn gyntaf, byddai'n helpu'r GIG i ymateb i'r Adolygiad Seneddol⁴, sy'n nodi, *"New models of care must be co-designed and co-developed with the public and users of care alongside front-line health and social care professionals,...."*

314. Yn ail, bydd sefydlu'r Corff fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (yn hytrach na model cymdeithas anghorfforedig y Cynghorau Iechyd Cymuned) yn sicrhau ei fod mor annibynnol â phosibl ar Weinidogion Cymru, BILLau, Ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol sy'n arwain at lai o wrthdaro buddiannau posibl pan fo'r Corff yn cynrychioli barn y cyhoedd.

Awdurdodau Lleol:

315. Mae'r cynigion hyn yn adeiladu ar egwyddorion Deddf 2014² i wneud unigolion a'u hanghenion yn ganolog i'w gofal, gan roi llais i unigolion yn y broses o gyflawni eu deilliannau llesiant a rheolaeth iddynt dros y broses honno², ac i annog unigolion i chwarae mwy o ran yn y broses o ddylunio a darparu gwasanaethau trwy gydgyngyrchu. Mae Deddf 2014², ynghyd â Deddf 2016⁹, yn atgyfnerthu pwysigrwydd llais unigolion o ran rhoi cymorth i ddefnyddio tystiolaeth effeithiol, i oleuo cylch parhaus gwella gwasanaethau trwy gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal

cymdeithasol gan gynnwys gofyniad i ymgysylltu'n ffurfiol ac yn rheolaidd â dinasyddion.

316. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, bydd y Corff yn cronni adborth a barn ynglŷn â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ledled Cymru. Bydd yr wybodaeth hon yn rhan o gasgliad o dystiolaeth y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn ei hystyried fel rhan o'u dyletswyddau statudol i asesu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol eu poblogaeth. Mae hyn yn ei dro'n cefnogi'r broses o wneud pobl yn ganolog i ddarparu gwasanaethau ac adeiladu gwasanaethau o amgylch y dinesydd.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus:

317. Mae gan Gynghorau Iechyd Cymuned statws "partneriaid eraill" ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus⁴¹ dan Ddeddf 2015¹. Mae BGC i ardal pob awdurdod lleol ac mae'n cynnwys yr awdurdod lleol perthnasol, y bwrdd iechyd lleol, yr awdurdod tân ac achub ar gyfer yr ardal a Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus geisio barn eu "partneriaid eraill" a'u cynnwys yng ngweithgareddau'r Bwrdd fel sy'n briodol yn eu tyb hwy.

318. Bydd y Corff yn disodli Cynghorau Iechyd Cymuned fel un o "bartneriaid eraill" y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Ceir manteision sy'n deillio o'r opsiwn hwn i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn yr ystyr y byddai ganddynt gorff newydd a fyddai'n gallu darparu sylwadau ar Gynlluniau Gweithredu'r Bwrdd o safbwynt iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan ychwanegu at ffocws mwy integredig. Ceir mantais i'r Corff hefyd gan ei fod yn fforwm gwerthfawr ar gyfer sicrhau bod barn y dinesydd ynglŷn â materion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn cael ei gwneud yn hysbys i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus pan ydynt yn arfer eu swyddogaethau.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol:

319. Diben Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw llywio'r broses o ddarparu gwasanaethau gofal di-dor mewn modd effeithiol rhwng gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth iechyd, y trydydd sector a phartneriaid eraill.
320. Bu'n ofynnol i Fyrddau Iechyd asesiadau poblogaeth i ganfod lefel yr anghenion gofal a chymorth yn eu rhanbarthau a chynlluniau ardal i ymateb i'r angen hwnnw (dan adrannau 14 ac 14A o Ddeddf 2014²). Cynigir diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 i'w gwneud yn ofynnol i fyrddau partneriaeth ymgynghori â'r Corff wrth baratoi'r asesiadau a'r cynlluniau hyn.
321. Bydd gan y Corff rôl allweddol o ran cefnogi'r BPRhau trwy sicrhau bod yr asesiadau poblogaeth yn cael eu goleuo'n barhaus gan wybodaeth y mae'n ei chasglu ar farn y cyhoedd.

Sefydliadau gwirfoddol:

322. Fel yr esbonnir ym mharagraff 274, gall y Corff ddewis caffael capasiti ychwanegol i ddarparu gwasanaethau y bydd sefydliadau gwirfoddol o bosibl yn dymuno cynnig amdanynt. Er y bydd hyn yn dwyn mantais amlwg o ran cynyddu refeniw sefydliad gwirfoddol ac yn helpu i gynnal y sector gwirfoddol, gallai hefyd ddwyn manteision ehangach i'r Corff a'r sefydliadau gwirfoddol, er enghraifft trwy ddarganfod rhwydwaith ehangach o wirfoddolwyr, a fydd yn hyrwyddo'i waith i helpu i greu cronfa gynaliadwy a mwy amrywiol o aelodau gwirfoddol ar gyfer y ddau barti a honno o bosibl yn gronfa o ansawdd gwell.

Y cyhoedd:

323. Bydd y Corff yn cryfhau'r trefniadau presennol er budd pobl trwy sicrhau dull system gyfan wrth fewnbynnu barn y cyhoedd. Bydd creu un corff cenedlaethol, pwrpasol sy'n gweithredu mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ac ar lefel genedlaethol a lleol yn creu llais cryfach i'r dinesydd mewn materion sy'n berthnasol ar draws ffiniau daearyddol a sefydliadol. Bydd yn dileu rhwystrau artiffisial ac mae'n cydnabod yr integreiddio cynyddol o ran y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.
324. Mae creu corff, a gydnabyddir gan y cyhoedd ac sy'n ymgysylltu â hwy, yn darparu'r cyfle i adnewyddu'r arlwy o ran cynnwys y cyhoedd yn y broses o ddatblygu a darparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Trwy ei aelodaeth wirfoddol amrywiol bydd yn gallu ymateb i'r ystod ehangaf bosibl o safbwyntiau a phrofiadau, gan ei alluogi i wrando ar y gymuned leol ac, yn ei dro, ei chynrychioli'n gywir gan arwain at wasanaethau sy'n canolbwyntio ar gleifion, sy'n cyd-fynd yn fwy ag anghenion y rhai sy'n eu defnyddio.

CRYNODEB A'R OPSIWN A FFEFRIR

325. Er bod costau Opsiwn 2 yn fwy na chostau Opsiwn 1, mae'r manteision yn fwy hefyd.
326. Byddai creu corff annibynnol, newydd yn mynd yr holl ffordd tuag at gyflawni'r amcan polisi i greu corff llais y dinesydd sy'n 'addas ar gyfer y dyfodol', sydd â chyfrifoldeb am gynrychioli llais y dinesydd mewn gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ledled Cymru ac sy'n bodloni argymhellion yr Adolygiad Seneddol⁴ a'r nodau yn Cymru Iachach⁵. Mae ailbennu ffocws swyddogaethau'r Corff i ffwrdd o arolygu gwasanaethau a chraffu arnynt ar y safle yn dileu'r achos o ddyblygu sy'n rhan annatod o'r trefniadau presennol ac mae'n ystyried y farn a fynegwyd gan yr OECD¹¹ yn eu Hadolygiad o Ansawdd Gofal Iechyd yn y Deyrnas Unedig (Review of Health Care Quality in the United Kingdom).
327. O ganlyniad, y farn yw bod y costau uwch sy'n gysylltiedig â gweithredu Opsiwn 2 yn cael eu cyfiawnhau gan y gwerth ychwanegol y byddai corff llais y dinesydd sy'n arfer swyddogaethau ar draws gwasanaethau iechyd a gofal yn ei ddwyn.

328. Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau presennol, gyda Chynghorau Iechyd Cymuned yn parhau heb unrhyw gylch gorchwyl i gynrychioli llais y cyhoedd mewn gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n amlwg felly nad yw'r opsiwn hwn yn cyflawni'r amcan polisi i fod ag un corff sy'n gallu cynrychioli llais y dinesydd ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Mae cadw'r sefyllfa bresennol gydag Opsiwn 1 hefyd yn golygu bod Cynghorau Iechyd Cymuned yn parhau fel cymdeithasau anghorfforedig a letyir gan un o gyrff y GIG sydd, fel a nodwyd yn gynharach, bellach yn cael ei ystyried yn fodel sydd wedi mynd yn hen gan mai'r ffordd o feddwl ar hyn o bryd yw na ddylai corff sy'n cynrychioli llais dinasyddion gael ei letya gan gorff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Felly mae Opsiwn 1 yn golygu y byddem yn colli'r cyfle i ddiwygio rhan o'r system gwasanaethau iechyd a chymdeithasol lle cytunir yn gyffredinol bod angen newid.
329. Fodd bynnag, byddai Opsiwn 2, sef yr opsiwn a ffeirir, yn ei gwneud yn bosibl i lais y dinesydd gael ei gynrychioli mewn modd mwy integredig, gan amcanu at ddarparu profiad di-dor, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ar hyd llwybr sy'n cwmparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

IS-GADEIRYDDION Y GIG

330. Mae dau opsiwn wedi'u nodi ac wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r Ddeddf hon:

Opsiwn 1: Gwneud dim;

Opsiwn 2: Diwygio Deddf GIG (Cymru) 2006 i adlewyrchu sefyllfa Is-gadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG, gan alluogi Gweinidogion Cymru, os ydyn nhw o'r farn bod hynny'n briodol, i benodi Is-gadeirydd i Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG.

Opsiwn 1 – Gwneud dim

Disgrifiad

331. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau â'r sefyllfa bresennol lle mae gan ymddiriedolaethau GIG bŵer i benodi Is-gadeirydd o blith yr aelodau bwrdd annibynnol presennol i ganiatáu i drafodion yr Ymddiriedolaeth gael eu cynnal yn absenoldeb y Cadeirydd. Mae hyn yn wahanol i sefyllfa Byrddau Iechyd Lleol ("BILI"). Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i benodi Is-gadeirydd i BILI ac mae gan Is-gadeiryddion BILI gyfrifoldebau heblaw dirprwyo yn absenoldeb y Cadeirydd.

Costau

332. Does dim costau newydd na chostau ychwanegol ynghlwm wrth yr opsiwn hwn.

333. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i Ymddiriedolaethau'r GIG dalu cydnabyddiaeth ariannol a lwfansau i Gadeiryddion ac Aelodau Annibynnol yn ôl swm a bennir gan Weinidogion Cymru. Fel nodir uchod, ar hyn o bryd mae rôl Is-gadeirydd yn cael ei hysgwyddo gan aelod annibynnol presennol. Isod, ceir rhestr o'r cyfraddau tâl presennol ar gyfer aelodau annibynnol ar Fyrddau Ymddiriedolaethau'r GIG.

Tabl 40 – Cyfraddau tâl presennol ar gyfer aelodau annibynnol Byrddau Ymddiriedolaethau'r GIG.

Tâl Aelodau Annibynnol Ymddiriedolaethau GIG			
YMDDIRIEDOLAETH GIG	SWYDD	TÂL	YMRWYMIAD AMSER
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Aelod Annibynno	£9,360	4 diwrnod y mis
Felindre	Aelod Annibynnol	£9,360	4 diwrnod y mis
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Aelod Annibynnol	£9,360	4 diwrnod y mis

Manteision

334. Byddai gwneud dim yn newid dim. Ar hyn o bryd mae gan yr Ymddiriedolaethau bŵer i benodi Is-gadeirydd i'r bwrdd o blith yr aelodau annibynnol presennol, ond mae hyn yn arwain at gynnydd, mewn enw, yn ymrwymadau amser Aelod Annibynnol presennol o'r bwrdd. Drwy wneud dim, byddai hyn yn parhau ac fe allai hyn gael effaith negyddol ar yr Aelod Annibynnol a fyddai'n ymgymryd â'r rôl yn ogystal â thanseilio'r manteision o gael swydd Is-gadeirydd ar wahân ar y bwrdd.
335. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol drwy wneud dim, tra bod yr opsiwn arall yn ei gwneud yn ofynnol i gydnabyddiaeth ychwanegol gael ei thalu gan Ymddiriedolaethau GIG i Is-gadeirydd ar y bwrdd. Byddai angen cydbwysu hyn yn erbyn manteision opsiwn 2.

Opsiwn 2 – Diwygio Deddf GIG (Cymru) 2006 i alluogi Gweinidogion Cymru, os ydyn nhw o'r farn bod hynny'n briodol, i benodi Is-gadeirydd i fwrdd Ymddiriedolaeth GIG.

Disgrifiad

336. Byddai'r opsiwn hwn yn fodd i Weinidogion Cymru fynd ati, os ydyn nhw o'r farn bod hynny'n briodol, i benodi Is-gadeirydd i Ymddiriedolaeth GIG. Y ffordd symlaf i sicrhau'r opsiwn hwn fyddai diwygio Deddf GIG (Cymru) 2006 fel bod yr Ymddiriedolaethau GIG yn cael eu gosod yn yr un sefyllfa â'r BILI.

Costau

337. Os penodir Is-gadeirydd i'r bwrdd, bydd yn ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG dalu tâl a lwfansau Is-gadeirydd yn ôl swm a bennir gan Weinidogion Cymru.

338. Os bydd opsiwn 2 yn cael ei ddewis, mae dwy ffordd bosib o'i weithredu – naill ai drwy gael Is-gadeirydd yn lle un o'r aelodau annibynnol presennol ar y bwrdd neu drwy benodi aelod annibynnol ychwanegol. Pe bai swydd Is-gadeirydd yn cael ei chyflwyno yn lle swydd bresennol aelod annibynnol, byddai cost y swydd newydd yn cael ei gwrthbwysu'n rhannol yn erbyn lefel cydnabyddiaeth y swydd flaenorol. Wrth drafod cyfraddau ac ymrwymiad amser gydag Ymddiriedolaethau'r GIG, dywedwyd y byddai'n well ganddynt i rôl yr Is-gadeirydd fod yn benodiad ychwanegol. Pe wnaed penderfyniad yn y dyfodol i rôl yr Is-gadeirydd fod yn ychwanegol at nifer bresennol yr aelodau annibynnol, byddai'r costau yn gost ychwanegol reolaidd i Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae costau'r ddwy sefyllfa i'w gweld yn Nhabl 42. Rhaid i unrhyw newidiadau i faint byrddau'r GIG, fodd bynnag, gael eu hystyried ar sail y system gyfan, ac fe fyddai'r cynigion yn ddarostyngedig i ymgynghoriad pellach ac yn gofyn am ddiwygio Rheoliadau Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefnau) 1990.

339. Byddai unrhyw benodiad gan Weinidogion Cymru i swydd Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG yn debyg i benodi Is-gadeirydd i BILI. Isod, ceir rhestr o'r deiliadaethau presennol, y cyfraddau tâl a'r ymrwymadau amser sy'n gysylltiedig â rôl Is-gadeirydd ar draws y saith BILI yng Nghymru.

Tabl 41 - Deiliadaethau presennol, y cyfraddau tâl a'r ymrwymadau amser sy'n gysylltiedig â rôl Is-gadeirydd ar draws y 7 BILI yng Nghymru.

Cyfraddau tâl Is-gadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol				
BWRDD IECHYD	DEILIAD- AETH	TÂL	YMRWYMIAD AMSER	CYFRIFOLDEBAU PENODOL
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe – Is-gadeirydd	4 blynedd (8 mlynedd ar y mwyaf)	£56,316 y flwyddyn (band 4)	13 diwrnod y mis	• Dirprwyo dros y Cadeirydd yn ei absenoldeb. • Darparu arweinyddiaeth h gref, effeithiol a gweladwy ar draws gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu. • Cadeirio Pwyllgor Deddf Iechyd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Is-gadeirydd	4 blynedd (8 mlynedd ar y mwyaf)	£56,316 y flwyddyn (band 4)	13 diwrnod y mis	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Is-gadeirydd	4 blynedd (8 mlynedd ar y mwyaf)	£56,316 y flwyddyn (band 4)	13 diwrnod y mis	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	4 blynedd (8 mlynedd ar y mwyaf)	£56,316 y flwyddyn (band 4)	13 diwrnod y mis	

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	4 blynedd (8 mlynedd ar y mwyaf)	£47, 736 y flwyddyn (band 3)	13 diwrnod y mis	Meddwl y Bwrdd. - Gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid cymunedol a phroffesiynol. - Cefnogi prosesau rheoli perfformiad y Bwrdd - Chwarae rôl llysgennad allanol.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	4 blynedd (8 mlynedd ar y mwyaf)	£47,736 y flwyddyn (band 3)	13 diwrnod y mis	
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	4 blynedd (8 mlynedd ar y mwyaf)	£30 – 35k y flwyddyn (band 2)	13 diwrnod y mis	

340. Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r cyfraddau tâl. Mae cyfraddau tâl presennol Is-gadeiryddion byrddau'r BILI yn y GIG yng Nghymru wedi'u gosod mewn bandiau, gan ddarparu cyfraddau rhwng £34,788 a £56,316 am ymrwymiad amser o 13 diwrnod y mis. Bernir bod aelodau'n ddeiliaid swydd at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. Mae'r holl dâl sy'n gysylltiedig â'r penodiad yn drethadwy a didynnir treth Talu wrth Ennill (TWE) o ran treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y ffynhonnell. Does dim pensiwn ynglŷn â'r penodiad.

341. Ar hyn o bryd, mae Cadeiryddion ac Aelodau Annibynnol yr Ymddiriedolaethau GIG, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael tâl ar lefel band 2. Ar gyfer swydd Is-gadeirydd, byddai hyn yn cyfateb i rôl yr Is-gadeirydd ym Mhowys, sy'n cael £30 – 35k y flwyddyn.

342. Awgrymai ymatebion Ymddiriedolaethau'r GIG i'r ymgynghoriad fod yna ymrwymiad amser mewn enw o 8 diwrnod i Is-gadeiryddion Ymddiriedolaethau GIG, gan dalu ar sail pro-rata. Ym mand 2, byddai hyn yn arwain at gydnabyddiaeth o ryw £18,461. Er hynny, rhagwelir y caiff ymddiriedolaethau'r GIG yr opsiwn o recriwtio hyd at ymrwymiad amser o 13 diwrnod, er mwyn darparu hyblygrwydd, os bydd ei angen, er mwyn cydbwysu adnoddau yn erbyn gofynion cyfredol bwrdd yr Ymddiriedolaeth GIG.

343. Mae penodiadau cyhoeddus Cadeiryddion, Is-gadeiryddion, ac Aelodau Annibynnol yn cael eu llywodraethu gan Reoliadau, sy'n darparu bod rhaid i bob penodiad beidio â phara'n hirach na phedair blynedd⁸⁹, ac na chaiff unrhyw un person ddal yr un rôl am fwy nag wyth mlynedd fan bellaf⁹⁰. Amcangyfrifir bod cost hysbysebu swydd o dan y broses penodiadau cyhoeddus yn £750. Mae chwech o'r swyddi i Aelodau Annibynnol ar draws y

⁸⁹ Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990, Rheoliad (7)(1)

⁹⁰ Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009, Rheoliad (14)(3)

tair Ymddiriedolaeth (dwy ym mhob un) yn dod i ben eu deiliadaeth pedair blynedd yng ngwanwyn 2020. Pe bai rôl yr Is-gadeirydd yn disodli rôl bresennol Aelod Annibynnol, byddai costau cyffredinol rhedeg y broses penodiadau cyhoeddus yn aros yr un fath neu'n parhau heb gael ei heffeithio.

344. Isod dangosir costau posibl bwrw ymlaen â'r opsiwn hwn.

Tabl 42 – Costau posibl sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2

Opsiwn 2 – Crynodeb o'r Costau			
GWEITHGAREDD	COSTAU NEWYDD AC AILGYLCHOL	AMSERU	DEILIAD CYLLIDEB
Lefelau Tâl pe bai rôl yr Is-gadeirydd yn disodli rôl bresennol Aelod Annibynnol	Tâl ar lefel band 2 am ymrwymiad amser o 13 diwrnod = £30-35,000 £30-35,000 wedi'i wrthbwyso yn erbyn £9400 (yn lle tâl aelod annibynnol) = £20,600-£25,600 Pro-rata ar sail ymrwymiad amser o 18 diwrnod = £18,500) £18,500 wedi'i wrthbwyso yn erbyn £9,400 (yn lle tâl aelod annibynnol) = costau cylchol newydd o £9100 Gallai costau newydd a chylchol amrywio rhwng tua £9,100 a £25,600, i bob Ymddiriedolaeth GIG, yn ôl yr ymrwymiad amser mewn enw. Ar draws pob un o'r tair Ymddiriedolaeth GIG byddai'r costau yn amrywio rhwng £27,300 a £76,900	Blynnyddol	Ymddiriedolaeth au GIG
Lefelau tâl pe bai Is-gadeirydd yn aelod bwrdd ychwanegol	Tâl ar lefel band 2 yn ôl ymrwymiad o 13 diwrnod - = £30-35,000 Tâl ar lefel band 2 yn ôl	Blynnyddoed	Ymddiriedolaeth au'r GIG

	ymrwymiad o 8 diwrnod - £18,500-21,500 Gallai costau newydd ac ailgylchol amrywio rhwng tua £18,500 a £35,000 i bob Ymddiriedolaeth, yn ôl yr ymrwymiad amser mewn enw. Ar draws pob un o'r tair Ymddiriedolaeth byddai'r costau yn amrywio rhwng £55,500 a £105,000.		
--	---	--	--

Manteision

345. Prif fantais yr opsiwn hwn dros opsiwn 1 yw y byddai'n dileu cyfyngiadau'r sefyllfa bresennol, nad yw yn caniatáu i Ymddiriedolaeth GIG benodi Is-gadeirydd o blith ei Haelodau Annibynnol presennol. Mae'r sefyllfa bresennol yn dibynnu ar sicrhau bod gan yr Aelodau Annibynnol presennol amser ar gael i gyflawni rôl Is-gadeirydd a'r sgiliau priodol i ddirprwyo yn lle'r Cadeirydd.
346. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd rôl Is-gadeirydd fel rôl ar wahân i rôl y Cadeirydd a'r dylanwad y mae hyn yn ei gael ar effeithiolrwydd sefydliadol a llywodraethiant y bwrdd, drwy gael Is-gadeirydd sy'n:
- Chwarae rhan lawn a gweithgar yn llywodraeth sefydliad, cynnig barn a her a chymorth i'r bwrdd ar faterion allweddol;
 - Cyfrannu at waith y bwrdd ar sail annibyniaeth, profiad a gwybodaeth yn y gorffennol, a'r gallu i sefyll yn ôl o waith rheoli gweithredol;
 - Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn er mwyn sicrhau proses benderfynu ddi-fwlch, gadarn a thryloyw gan y bwrdd;
 - Cryfhau gallu'r aelodaeth annibynnol a gweithredu fel seinfwrdd i'r Cadeirydd.
347. Yn ychwanegol, gallai penodi i swydd ac iddi rôl bendant a mwy o ymrwymiad amser arwain at ehangu'r gronfa ymgeiswyr a diddordeb o du ymgeiswyr a galluogi'r Gweinidogion i egluro set sgiliau wahanol a mwy priodol yn y disgrifiad swydd.
348. Mae manteision cael swydd i Is-gadeirydd ar fwrdd wedi eu dangos mewn perthynas â Byrddau Iechyd Lleol lle mae gan Is-gadeiryddion rolau a chyfrifoldebau penodol heblaw dirprwyo yn absenoldeb y Cadeirydd. Ar hyn o bryd, mae Is-gadeiryddion y BILI yn cyfarfod fel grŵp bob mis, ac yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda Gweinidogion Cymru. Gan hynny, bydd ymestyn rôl yr Is-gadeirydd i Ymddiriedolaethau'r GIG yn caniatáu rhagor o gydweithio

rhwng y byrddau ac yn gwella'r ddeialog a'r gwaith rhannu gwersi ar raddfa genedlaethol.

CRYNODEB A'R OPSIWN A FFEFRIR

349. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan y bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru, lle bo'n briodol, i benodi Is-gadeirydd i Ymddiriedolaeth GIG. Bydd hyn yn gofyn diwygio Deddf GIG (Cymru) 2006. Er y bydd hyn yn arwain at gynnydd o ran costau, bydd yn caniatáu ar gyfer rôl ddiffiniedig i Is-gadeiryddion ac i'r cyfrifoldebau gael eu rhannu rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion. Bydd yr eglurder hwn yn gwella trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaethau, gan arwain at effeithlonrwydd o ran arweinyddiaeth, gyda golwg ar greu effaith gadarnhaol ar safonau ansawdd y gwasanaethau a gwelliannau ym mhrofiad y cleifion.
350. Er bod opsiwn 2 yn gwneud darpariaeth am bŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i benodi Is-gadeirydd i Ymddiriedolaethau'r GIG, dan y trefniadau presennol bydd yn disodli aelod annibynnol presennol. Fel nodir ym mharagraff 338, rhaid ystyried newidiadau i faint a chyfansoddiad cyffredinol byrddau'r GIG ar sail system gyfan. Mae adolygiad ehangach o aelodaeth a chyfansoddiad Byrddau'r GIG yn mynd rhagddo, a bydd newidiadau i'r rheoliadau dan is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i Femorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân iddo'i hun. Fodd bynnag, mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y crynodeb o'r costau ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn (Tabl 43) yn dangos ystod lawn y costau, gan gynnwys sefyllfa lle byddai Is-gadeirydd yn aelod bwrdd newydd, ychwanegol.

CRYNODEB O'R AMCANGYFRIFON O GOSTAU

Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o'r dadansoddiad ac amcangyfrifon o gostau a nodwyd yn flaenorol gyda'i gilydd i ddangos y costau i'r gwahanol rannau o'r Ddeddf yn ei gyfanrwydd:

Tabl 43 – crynodeb o'r amcangyfrifon o gostau

Costau	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Gweinidogion Cymru						
Dyletswydd Ansawdd	£200	£0	£0	£0	£0	£0
Llywodraeth Cymru						
Dyletswydd Ansawdd	£59,500	£1,900	£1,900	£1,900	£1,900	£10,200
Dyletswydd Gonestrwydd	£70,400	£0	£0	£0	£0	£4,500
Corff Llais y Dinesydd – Isafswm	£354,900	£1,162,000	£652,100	£658,600	£658,600	£661,000
Corff Llais y Dinesydd – Uchafswm	£354,900	£4,069,900	£652,100	£658,600	£658,600	£661,000
Cyfanswm – Llywodraeth Cymru Isafswm	£484,800	£1,163,900	£654,000	£660,500	£660,500	£675,700
Cyfanswm – Llywodraeth Cymru Uchafswm	£484,800	£4,071,800	£654,000	£660,500	£660,500	£675,700
Cyrff y GIG						
Dyletswydd Ansawdd	£992,200	£0	£0	£0	£0	£0
Dyletswydd Gonestrwydd - Isafswm	£3,118,500	£21,300	£21,300	£21,300	£21,300	£21,300
Dyletswydd Gonestrwydd – Uchafswm	£3,279,200	£178,500	£178,500	£178,500	£178,500	£178,500
Dyletswydd Gonestrwydd – Cyfreithiol a Risg	£5,700	£5,700	£5,700	£5,700	£5,700	£5,700
Is-gadeirydd - Isafswm	£27,300	£27,300	£27,300	£27,300	£27,300	£27,300
Is-gadeirydd - Uchafswm	£105,000	£105,000	£105,000	£105,000	£105,000	£105,000
Cyfanswm – Cyrff y GIG - Isafswm	£4,143,700	£54,300	£54,300	£54,300	£54,300	£54,300
Cyfanswm – Cyrff y GIG - Uchafswm	£4,382,100	£289,200	£289,200	£289,200	£289,200	£289,200
Cyrff eraill						
Sefydliadau Gwirfoddol	£0	£-2,200	£-4,300	£-4,300	£-4,300	£-4,300
Awdurdodau Lleol	£0	£-1,800	£-1,800	£-1,800	£-1,800	£-1,800
Cyfanswm – Cyrff eraill	£0	£-3,100	£-6,100	£-6,100	£-6,100	£-6,100
Cyfanswm - Isafswm	£4,628,700	£1,215,100	£702,200	£708,700	£708,700	£723,900
Cyfanswm - Uchafswm	£4,867,100	£4,357,900	£937,100	£943,600	£943,600	£958,800
Gwerth Presennol y gost - Isafswm	£4,472,200	£1,134,300	£633,300	£617,600	£596,700	£588,900
Gwerth Presennol y gost - Uchafswm	£4,702,500	£4,068,100	£845,200	£822,300	£794,500	£780,000

Atodiad A

Digwyddiadau yr Hysbyswyd yn eu Cylch yn ôl Maint y Niwed, yn ôl Lleoliad Gofal, Cymru: Ebrill 2017 – Mawrth 2018

Tabl 44 – Digwyddiadau yr hysbyswyd yn eu cylch yn ôl maint y niwed

Lleoliad gofal	Nifer y digwyddiadau					
Ysbytai aciwt / cyffredinol	Dim Niwed	Isel	Cymedrol	Difrifol	Marwolaeth	Cyfanswm
Gwasanaethau nyrso cymunedol, meddygol a therapi (gan gynnwys ysbyty cymunedol)	37,289	12,986	3,571	185	7	54,038
Gwasanaethau iechyd meddwl	8,727	8,160	2,809	72	9	19,777
Practisau meddygon teulu	6,464	2,380	399	18	8	9,269
Gwasanaethau ambiwlans	897	253	202	10	0	1,362
Gwasanaethau anabledau dysgu	723	138	6	1	1	869
Fferyllfeydd cymunedol	435	195	14	1	0	645
Gwasanaethau deintyddol cymunedol a chyffredinol	268	19	14	2	0	303
Gwasanaethau optometreg / optegydd cymunedol	142	57	12	0	0	211
Cyfanswm	54,945	24,188	7,027	289	25	86,474

DS Nid yw digwyddiadau na chofnodwyd maint y niwed ar eu cyfer wedi'u cynnwys.

Cyfrifo Cost yr Opsiynau

OPSIWN 1:

Gweinyddu gan staff Llywodraeth Cymru

351. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei rôl o ran dwyn y Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned i gyfrif, trwy ei gadeirydd annibynnol, am y modd y cyflawnir strategaeth, cynlluniau a swyddogaethau'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned. Amcangyfrifir bod cost yr amser staff a dreulir gan Lywodraeth Cymru ar bob agwedd ar waith Cyngorau Iechyd Cymuned yn costio:

Tabl 45 – dadansoddiad o gost gweinyddu gan staff Llywodraeth Cymru

Gradd	Cyferth ag Amser Llawn	Cost Y Flwyddyn
Band Rheoli 1	0.4	£18,300
Band Rheoli 2	0.4	£23,200
Band Gweithredol 2	0.5	£38,200
Band Gweithredol 1	0.1	£9,300
Cyfanswm		£89,000

352. Mae costau ar gyfer staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar Gyfraddau Cyflog Gros Cyfartalog ar gyfer bandiau cyflog staff nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) 2018/19.

Penodiadau i'r Bwrdd

353. Ceir costau a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru am benodi'r Cadeirydd a'r ddau aelod annibynnol i'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned trwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Hefyd, ceir costau cyfle ar gyfer staff polisi Llywodraeth Cymru sy'n rhan o'r broses.
354. Mae cost amcangyfrifedig yr uchod yn seiliedig ar recriwtio'r Cadeirydd newydd ar gyfer y Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yn ystod mis Hydref - Rhagfyr 2018:

Tabl 46 – cost recriwtio Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned

Math o wariant	Cost amcangyfrifedig
Hysbysebu	£9,700
Teithio a Chynhaliadaeth ar gyfer aelodau annibynnol o'r panel	£900
Aelod o'r panel a gymeradwywyd gan OCPA	£1,400
Cyfanswm	£12,000

355. I bennu cost recriwtio tri aelod o'r bwrdd lluniwyd y tybiaethau canlynol:
- cynhelir y broses recriwtio yr un pryd, unwaith bob pedair blynedd (gan eu bod yn cael eu recriwtio am dymor penodol o bedair blynedd);

- mae'r costau hysbysebu'n aros yr un fath – gellid defnyddio'r un hysbyseb ar gyfer y tair swydd (Cadeirydd a dau Aelod Annibynnol o'r Bwrdd);
- dim ond ar gyfer penodi'r Cadeirydd y mae angen i'r aelod o'r panel a gymeradwywyd gan OCPA fod yn bresennol;
- Caiff y costau Teithio a Chynhaliadaeth ar gyfer aelod annibynnol o'r panel eu lluosio â thri i gynrychioli'r swyddi.

356. Yn seiliedig ar yr uchod, caiff y gost ei dosrannu fesul blwyddyn ac amcangyfrifir mai £3,000 ydyw (£12,000 wedi'i rannu â 4 = £3,000).

357. Yn ychwanegol at yr uchod, roedd y broses hefyd yn cynnwys cyfanswm o chwe aelod o staff Llywodraeth Cymru ar lefelau amrywiol. Caiff y costau cyfle sy'n gysylltiedig â'r rhain eu hamcangyfrif isod:

Tabl 47 – Costau cyfle staff Llywodraeth Cymru am recriwtio aelodau o'r bwrdd

Amser staff Llywodraeth Cymru yn ôl gradd	Cost gros gyfartalog y flwyddyn	Diwrnodau sy'n ofynnol	Cost
Cost gweinyddu gan Lywodraeth Cymru			
Dirprwy Gyfarwyddwr	£107,313	3	£1,200
Band Gweithredol 2	£76,308	2	£600
Band Rheoli 1	£57,977	2	£400
Band Rheoli 2	£45,644	3	£500
Uned penodiadau Llywodraeth Cymru			
Band Gweithredol 2	£76,308	2	£600
Band Rheoli 2	£45,644	3	£500
Cyfanswm		15	£3,800

358. Yn seiliedig ar yr uchod, caiff y gost ei dosrannu fesul blwyddyn ac amcangyfrifir mai £1,000 ydyw (£3,800 wedi'i rannu â 4 = £1,000).

Tâl y Cadeirydd

359. O fis Mawrth 2019 bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cael tâl o £150 y dydd am gyfanswm o 12 diwrnod y mis a hwnnw'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru trwy Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae hyn yn cyfateb i gost flynyddol o oddeutu £21,600. Nid yw aelodau eraill y bwrdd yn cael tâl.

Cost recriwtio aelodau gwirfoddol y Cynghorau Iechyd Cymuned

360. Mae'r gofynion recriwtio presennol, a nodir yn rheoliad 3 o Atodlen 1 i Reoliadau 2010³⁷, yn ei gwneud yn ofynnol bod y cyfanswm canlynol o aelodau gwirfoddol yn cael eu penodi'n aelodau o Gyngor gan y cyrff penodi perthnasol (276). Ni fyddai'r opsiwn hwn yn newid y rheoliadau hyn.

Tabl 48 – nifer y penodiadau i Gyngorau Iechyd Cymuned

Enw'r Cyngor Iechyd Cymuned	Cyfanswm yr aelodau gwirfoddol i gael eu penodi gan Weinidogion Cymru	Cyfanswm yr aelodau gwirfoddol i gael eu penodi gan awdurdodau lleol perthnasol	Cyfanswm yr aelodau gwirfoddol i gael eu penodi gan sefydliadau gwirfoddol
CIC Aneurin Bevan	30	15	15
CIC Abertawe Bro Morgannwg	12	6	6
CIC Betsi Cadwaladr	36	18	18
CIC Caerdydd a Bro Morgannwg	12	6	6
CIC Cwm Taf	18	9	9
CIC Hywel Dda	18	9	9
CIC Sir Frycheiniog a Maesefed	6	3	3
CIC Sir Drefaldwyn	6	3	3
Cyfanswm	138	69	69

361. Caiff aelodau gwirfoddol eu recriwtio am dymor penodol o bedair blynedd. Yn amodol ar arfarniad boddhaol o berfformiad, gall aelod gael ei ail-benodi am ail dymor.

362. Ar gyfartaledd, cynhelir cylch recriwtio aelodau Cyngorau Iechyd Cymuned a benodir gan y Gweinidogion unwaith bob blwyddyn gan bod trosiant cyson o aelodau gwirfoddol sy'n cyrraedd diwedd eu penodiadau am dymor penodol neu'n ymddiswyddo.

Recriwtio aelodau gwirfoddol y Cyngorau Iechyd Cymuned a benodir gan y Gweinidogion:

363. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer recriwtio trwy'r broses penodiadau cyhoeddus yn 2018 i lenwi'r lleoedd gwag ar gyfer aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru ar y saith Cyngor Iechyd Cymuned ledled Cymru. Roedd cost recriwtio'r 55 o aelodau Cyngorau Iechyd Cymuned a benodir gan y Gweinidogion yn £4,900. Caiff y gost hon ei dadansoddi fel a ganlyn:

Tabl 49 – Costau recriwtio cyffredinol

Gweithgaredd	Cost
Hysbysebu	£4,400
Teithio a Chynhaliaeth ar gyfer aelodau annibynnol o'r panel	£200
Gwasanaeth cyfieithu	£200
Llogi ystafell	£100
Cyfanswm	£4,900

364. Yn ychwanegol at yr uchod, roedd y broses hefyd yn cynnwys cyfranogiad gan gyfanswm o naw aelod o staff Llywodraeth Cymru ar baneli

cyfweld, ac ymwneud gan Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Caiff y costau cyfle sy'n gysylltiedig â'r rhain eu hamcangyfrif isod:

Tabl 50 – Cost cyfle i Lywodraeth Cymru am recriwtio aelodau'r Cynghorau Iechyd Cymuned

Band Cyflog	Cost Gros Flynyddol Gyfartalog	Amcangyfrif o nifer y diwrnodau	Cost £ y dydd	Cyfanswm y gost
Llywodraeth Cymru - gweinyddol				
Band Gweithredol 2	£76,308	2	£293.49	£600
Band Rheoli 1	£57,977	1	£223.06	£200
Band Rheoli 2	£45,644	4	£175.55	£700
Band Rheoli 3	£35,080	5	£134.92	£700
Uned Penodiadau Cyhoeddus - gweinyddol				
Band Gweithredol 2	£76,308	3	£293.49	£900
Band Rheoli 2	£45,644	3	£175.55	£500
Sifftio				
Band Gweithredol 2	£76,308	3	£293.49	£900
Band Rheoli 2	£45,644	2	£175.55	£400
Y broses gyfweld				
Dirprwy Gyfarwyddwr	£107,313	2	£412.74	£800
Band Gweithredol 2	£76,308	8	£293.49	£2,300
Band Rheoli 1	£57,977	4	£223.06	£900
Band Rheoli 2	£45,644	2	£175.55	£400
Band Rheoli 3	£35,080	2	£134.92	£300
Cyfanswm		41		£9,600

365. Hefyd, roedd yr ymarfer hwn yn creu costau i aelodau gwirfoddol presennol Cynghorau Iechyd Cymuned a sefydliadau gwirfoddol, a oedd yn cyfranogi mewn ymarfer sifftio ac yn y broses o gyfweld ag aelodau gwirfoddol ar ran Gweinidogion Cymru – a oedd yn cynnwys wyth panel cyfweld. Caiff y costau cyfle sy'n gysylltiedig â hyn eu cyfrifo isod:

Tabl 51 – Cost cyfle i aelodau gwirfoddol y Cynghorau Iechyd Cymuned a sefydliadau gwirfoddol

Sefydliad	Cost y flwyddyn
Aelodau'r Cynghorau Iechyd Cymuned	Dim costau gan bod aelodau gwirfoddol yn ddi-dâl
Sefydliadau gwirfoddol	£2,500*

*Yn seiliedig ar gostau cyfle o VCS Cymru a gyfranogodd mewn dau banel o'r ymarfer recriwtio diwethaf – wedi'u dosrannu'n briodol.

366. Amcangyfrifir mai £14,500 yw cost flynyddol recriwtio aelodau gwirfoddol ar gyfer penodiadau gan y Gweinidogion. Mae hyn yn uwch na'r rhai ar gyfer awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol oherwydd y gofyniad i ddilyn y broses penodiadau cyhoeddus sy'n dwyn cost uwch, er enghraifft y gofyniad i hysbysebu swyddi.

Recriwtio aelodau'r Cyngorau lechyd Cymuned gan Awdurdodau Lleol:

367. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â recriwtio 69 aelod gwirfoddol o Gyngorau lechyd Cymuned a benodir gan awdurdodau lleol wedi cael eu cyfrifo ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac amcangyfrifir eu bod fel a ganlyn:

Tabl 52 – Cost i Awdurdodau Lleol am recriwtio aelod gwirfoddol o'r Cyngor lechyd Cymuned

Math o wariant	Cost amcangyfrifedig y flwyddyn
Cyfanswm	£1,800

Recriwtio aelodau'r Cyngorau lechyd Cymuned gan sefydliadau gwirfoddol:

368. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â recriwtio 69 aelod gwirfoddol o Gyngorau lechyd Cymuned a benodir gan sefydliadau gwirfoddol wedi cael eu cyfrifo ar y cyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac amcangyfrifir eu bod fel a ganlyn:

Tabl 53 - Cost i Awdurdodau Lleol am recriwtio aelod gwirfoddol o'r Cyngor lechyd Cymuned

Math o wariant	Cost amcangyfrifedig y flwyddyn
Cyfanswm	£1,800

OPSIWN 2:

Creu sefydliad newydd

369. Mae'r costau wedi cael eu cyfrifo ar y sail y bydd y sefydliad yn cael ei sefydlu tuag 14 mis ar ôl Cydsyniad Brenhinol (Mehefin 2020). Felly tybir y bydd swyddogaethau'r Corff, y Bwrdd, yr aelodau o staff, a'r gwaith o offeru swyddfeydd a gosod seilwaith wedi'u cwblhau mewn pryd ar gyfer dyddiad sefydlu o 1 Hydref 2021.

Statws y sefydliad newydd

370. Corff corfforaethol fydd y sefydliad newydd a bydd yn dod yn Gorff Gweithredol a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Yr hinsawdd weithredol

371. Tybiwyd na fydd unrhyw argyfyngau na newidiadau sylweddol yn digwydd i'r systemau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y cyfnod y mae'r costau'n berthnasol iddo, ac felly bod lefel y cyllid a roddir yn debygol o aros yr un fath.

Bwrdd gweithredu

372. Bydd y cyfrifoldeb am sefydlu'r Corff yn cael ei ysgwyddo gan fwrdd gweithredu pwrpasol yn Llywodraeth Cymru am 14 mis. Bydd y bwrdd gweithredu'n cynnwys ystod o ffrydiau gwaith, a fydd yn cael eu staffio'n bennaf gan Lywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, a phan fyddant wedi'u penodi, Cadeirydd, Bwrdd a Phrif Weithredwr y Corff.
373. Yn ychwanegol at yr uchod, bydd cost am gymorth ad-hoc gan arweinwyr ehangach yn Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ffrydiau gwaith perthnasol a staff presennol y Cyngorau Iechyd Cymuned. Er enghraifft, efallai y bydd staff o'r adrannau caffael neu gyfathrebu'n mynychu cyfarfodydd fel y bo angen i roi cyngor ar faterion penodol. Fodd bynnag, ni ellir cyfrifo'r gost hon ar y sail na ellir pennu nifer y ffrydiau gwaith, amllder cyfarfodydd, ac union natur y cymorth y mae ei angen nes bod gwaith polisi pellach wedi'i gwblhau.
374. Felly mae niferoedd staff a chostau rhedeg prosiectau ad-hoc yn seiliedig fwy neu lai ar wybodaeth a ddarparwyd gan y tîm prosiectau a sefydlwyd i roi cymorth i weithredu Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC⁴⁵), gyda niferoedd y staff yn cynyddu wrth i ffrydiau gwaith ddatblygu. Bydd y costau hyn yn dod i ran Llywodraeth Cymru rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Medi 2021.

Tabl 54 – Cost y bwrdd gweithredu i Lywodraeth Cymru

Adnodd	2020/21 (8 mis)	Ebrill 2021 - Medi 2021 (6 mis)	Ffynhonnell/ tybiaeth
Llywodraeth Cymru:			Cyfraddau cyflog gros cyfartalog ar gyfer bandiau cyflog staff Llywodraeth Cymru nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) 2018/19.
1 x Cyfarwyddwr Rhaglen	£62,200	£46,700	1 x BG1 x 14 mis
2 x Pennaeth Pontio	£59,900 £0	£38,200 £38,200	1 x BG2 x 14 mis 1 x BG2 x 6 mis
2 x Rheolwr Rhaglen	£38,700 £0	£29,000 £29,000	1 x BRh1 x 14 mis 1 x BRh1 x 6 mis
4 x Swyddog Rhaglen	£30,400 £22,800 £0	£22,800 £22,800 £45,600	1 x BRh2 x 14 mis 1 x BRh2 x 12 mis 2 x BRh2 x 6 mis
Y Corff:			Cyfraddau tâl ar gyfer aelodau'r Bwrdd wedi'u cyfrifo yn Nhabl 55.
Cadeirydd	£10,300	£7,700	1 x 14 mis

Dirprwy Gadeirydd	£5,700	£6,800	1 x 11 mis
Aelodau'r Bwrdd	£0	£38,000	8 x 6 mis
Prif Weithredwr	£0	£59,500	1 x 6 mis – yn seiliedig ar gyflog presennol Prif Weithredwr CIC y flwyddyn, sef £118,900 (gan gynnwys argostau).
Cymorth gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys	£61,300	£46,000	1 x Band 8c GIG Cymru x 14 mis (gan gynnwys argostau).
Costau rhedeg prosiectau ad-hoc	£5,000	£5,000	Am sicrhau cyngor allanol arbenigol ychwanegol fel y bo'n ofynnol – mae'r ffigur yn seiliedig ar gost ad-hoc a ysgwyddir gan AaGIC
Cyfanswm	£296,300	£435,300	

375. Unwaith y bydd y Corff wedi'i sefydlu bydd y bwrdd gweithredu'n cael ei ddiddymu a bydd cyfrifoldebau trosolwg yn cael eu trosglwyddo i'r tîm cyrff a noddir.

Tâl y Bwrdd

376. Bydd yn ofynnol sefydlu Bwrdd ar gyfer y Corff.

377. Bydd aelodau'r Bwrdd yn cael tâl. Cyfrifwyd y tâl amcangyfrifedig yn seiliedig ar lefel Band 2 a bennwyd gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac amcangyfrif o nifer y diwrnodau y bydd yn ofynnol i'r amryw aelodau weithio.

Tabl 55 – cyfraddau tâl

Math	Nifer y swyddi	Tal y dydd £	Nifer y diwrnodau a weithir y flwyddyn	Cyfanswm cost y flwyddyn £
Cadeirydd	1	£256	60	£15,400
Dirprwy Gadeirydd	1	£226	60	£13,600
Aelod o'r Bwrdd	7*	£198	48	£66,500
Cyfanswm				£95,500

*Bydd gan y Bwrdd rhwng chwe ac wyth aelod; felly at ddiben y cyfrifiad hwn defnyddiwyd saith swydd.

378. Cost weithredol barhaus i Lywodraeth Cymru yw hon.

379. O'i gymharu, mae cadeirydd presennol y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yn cael tâl ond nid yw aelodau eraill y bwrdd yn cael tâl.

Costau recriwtio i'r Bwrdd ar gyfer penodiadau

380. Bydd cost i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â phenodi aelodau'r Bwrdd; caiff hon ei chyfrifo yn seiliedig ar y gost bresennol i Lywodraeth Cymru a nodir yn Opsiwn 1 - Tablau 46 a 47 sy'n gysylltiedig â phenodi tri aelod annibynnol i'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned.

381. Er mwyn cefnogi'r dyhead am amrywiaeth ar y Bwrdd a hyrwyddo ystod eang o sgiliau a phrofiad, bydd yr wybodaeth ar gyfer ymgeiswyr ar gyfer seddi'r Bwrdd, drwy'r meini prawf penodi, yn annog ceisiadau gan ystod eang o bobl. Er mwyn sicrhau nad yw ymgeiswyr yn cael eu gwahardd yn ddiangen rhag ymgeisio am seddi'r Bwrdd, ymdrinnir â gwrthdaro posibl mewn buddiannau drwy'r broses penodiadau cyhoeddus. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd yr wybodaeth ar gyfer ymgeiswyr yn egluro'r mater, gan gynnwys yr angen i osgoi gwrthdaro gwirioneddol neu ymddangosiadol mewn buddiannau yn sgil rolau presennol neu ddiweddar rhywun, ynghyd ag enghreifftiau o'r hyn y byddem yn ei ystyried yn wrthdaro amlwg. Byddai gwrthdaro posibl mewn buddiannau hefyd yn cael eu trafod yn y cyfweiliad. Byddai hyn yn cynnig proses ddiogelu briodol wrth ganiatáu'r hyblygrwydd i ystyried sefyllfa pob ymgeisydd unigol, ac ni fyddai'n culhau'n ddiangen y dewis o ddarpar ymgeiswyr.

382. Yn y flwyddyn gyntaf bydd yr holl aelodau'n cael eu recriwtio mewn un ymgyrch gyda'r costau'n cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill – Medi 2021. Er mwyn amcangyfrif y gost hon caiff y costau yn Nhablau 46 a 47 eu lluosio â thri (gan gynrychioli 9 aelod a benodir) ac eithrio'r gost hysbysebu yn Nhabl 46 a'r gost cyfle i uned penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn Nhabl 47 gan mai dim ond unwaith y bydd y rhain yn cael eu hysgwyddo.

Tabl 56 – cost recriwtio saith aelod i'r bwrdd

Math o wariant	Cost amcangyfrifedig
Hysbysebu	£9,700
Teithio a Chynhaliaeth ar gyfer aelodau annibynnol o'r panel	£2,700
Aelod o'r panel a gymeradwywyd gan OCPA	£4,200
Cyfanswm	£16,600

Tabl 57 – Cost cyfle i staff Llywodraeth Cymru am recriwtio saith aelod i'r bwrdd

Amser staff Llywodraeth Cymru yn ôl gradd	Cost gros gyfartalog y flwyddyn	Diwrnodau sy'n ofynnol	Cost
Cost gweinyddu gan Lywodraeth Cymru			
Dirprwy Gyfarwyddwr	£107,313	9	£3,700
Band Gweithredol 2	£76,308	6	£1,800
Band Rheoli 1	£57,977	6	£1,300
Band Rheoli 2	£45,644	9	£1,600
Uned penodiadau Llywodraeth Cymru			

Band Gweithredol 2	£76,308	2	£600
Band Rheoli 2	£45,644	3	£500
Cyfanswm		35	£9,500

383. Er mwyn pennu'r gost y flwyddyn, tybir bod y broses recriwtio'n cael ei chynnal yr un pryd, unwaith bob pedair blynedd (gan bod y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yn cael eu recriwtio am dymor penodol o bedair blynedd).

384. Yn seiliedig ar yr uchod, caiff y gost ei dosrannu fesul blwyddyn ac amcangyfrifir mai £6,500 ydyw (£26,100 wedi'i rannu â phedwar = £6,500). Mae'r gost hon yn debygol o gael ei hysgwyddo o 2023/24 ymlaen gan y tybir ei bod yn annhebygol y cynhelir ymarfer recriwtio yn y 18 mis cyntaf ar ôl sefydlu'r Corff.

Tabl 58 – Cost cyfle i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r canllawiau statudol a'r cod ymarfer

Costau ar gyfer BRh1		
Cost Cyfartalog Blynnyddol BRh1	Amcangyfrif o'r amser sy'n ofynnol	Cost
£57,977*	0.8	£46,400

*fe'i darperir gan Dîm Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar Gyfraddau Cyflog Gros Cyfartalog ar gyfer Bandiau Cyflog Staff Llywodraeth Cymru nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) 2018/19.

385. Yn ychwanegol at yr uchod, mae costau'n gysylltiedig â datblygu'r elfennau penodol. Mae costau dylunio a chyfieithu yn dibynnu ar gymhlethdod a gofynion terfynol y cynhyrchion. Isod, rhoddir amlinelliad o amcangyfrif y costau.

386. **Datblygu Canllawiau Statudol:** Amcangyfrifir y bydd y canllawiau yn ddim mwy na 5,000 o eiriau. Dyma amcangyfrif o'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â datblygu'r canllawiau:

Tabl 59 – Cynhyrchu canllawiau statudol

Gweithgarwch	Gradd	Amser	Cost
Cost cyfle – Cyfieithu a phrawfddarllen	Band Rheoli 2	2.5 diwrnod	£500
Cost cyfle – Dylunio a theiposod	Band Rheoli 3	0.5 diwrnod	£100
Cyfanswm			£600

387. Caiff y costau staff i Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r canllawiau statudol ategol yn 2020-21 eu cynnwys yn yr adnodd yn nhabl 58.

388. Ni fyddai unrhyw gostau'n gysylltiedig â dosbarthu'r canllawiau, gan mai dim ond fersiynau electronig fyddai ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

389. Byddai'r canllawiau'n cael eu diwygio yn ôl yr angen bob pum mlynedd, gyda'r gost gyntaf yn cael ei hysgwyddo yn 2025-26. Dyma amcangyfrif o'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â'r gwaith diwygio hwn:

Tabl 60 – Diwygio canllawiau statudol

Gweithgarwch	Gradd	Amser	Cost
Cost cyfle – Diwygio canllawiau	Band Rheoli 1	1.5 diwrnod	£200
Cost cyfle – Cyfieithu a phrawfddarllen ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 2	1.25 diwrnod	£200
Cost cyfle – Dylunio a theiposod ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 3	0.5 diwrnod	£100
Cyfanswm			£500

(i) Amcangyfrifir y byddai'r costau dylunio a chyfieithu yn hanner y costau gwreiddiol oherwydd nifer y diwygiadau sy'n ofynnol.

390. **Cod Ymarfer:** bydd y cod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid, ac amcangyfrifir na fydd yn fwy na 12,500 o eiriau i gyd.

391. Dyma amcangyfrif o'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu'r cod ac ymgynghori arno:

Tabl 61 – Datblygu'r cod ymarfer ac ymgynghori arno

Gweithgarwch	Gradd	Amser	Cost
Cost cyfle – Cyfieithu a phrawfddarllen	Band Rheoli 2	7.5 diwrnod	£1,300
Cost cyfle – Dylunio a theiposod	Band Rheoli 3	2 ddiwrnod	£300
Cost cyfle – Ymgysylltiad ymgynghori			£10,000
Cyfanswm			£11,600

392. Mae costau staff i Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r adnoddau ategol yn 2020-21 wedi'u cynnwys yn yr adnodd yn nhabl 58.

393. Ni fyddai unrhyw gostau yn gysylltiedig â dosbarthu'r cod, gan y byddai'n cael ei ddosbarthu'n electronig, a dim ond fersiynau electronig fyddai ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

394. Byddai'r cod yn cael ei ddiwygio yn ôl yr angen bob pum mlynedd i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ac unrhyw newid perthnasol mewn arfer da wrth ddarparu gwasanaethau, gyda'r gost gyntaf yn cael ei hysgwyddo yn 2025-26. Dyma amcangyfrif o'r gost cyfle sy'n gysylltiedig â'r gwaith diwygio hwn:

Tabl 62 – Diwygio'r cod ymarfer

Gweithgarwch	Gradd	Amser	Cost
Cost cyfle – Diwygio'r Cod	Band Rheoli 1	5 diwrnod	£1,000

Cost cyfle – Cyfieithu a phrawfddarlenn ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 2	4 diwrnod	£700
Cost cyfle – Dylunio a theiposod ⁽ⁱ⁾	Band Rheoli 3	1 diwrnod	£200
Cyfanswm			£1,900

(i) Amcangyfrifir y byddai'r costau dylunio a chyfieithu yn hanner y costau gwreiddiol oherwydd nifer y diwygiadau sy'n ofynnol

Costau staff

395. Mae creu corff newydd a throsglwyddo staff wedi hynny yn golygu y bydd angen datblygu strwythur gweithlu a chwblhau ymarfer paru swyddi. Gall hyn ganfod yr angen am newidiadau i'r rolau presennol sydd gan staff Cynghorau Iechyd Cymuned. Mater i'r Corff a Bwrdd Gweithredu'r Prosiect yw pennu strwythurau staff, ond rhagwelir y byddai angen i'r strwythur staffio gael ei drefnu ar ôl troed rhanbarthol, yn gysylltiedig ag ardaloedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Byddai hyn yn sicrhau cynrychiolaeth ranbarthol a lleol gref a gallu i weithio ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.
396. At ddibenion y ddogfen hon, mae'r cyfanswm costau staffio a amcangyfrifir yn seiliedig ar drosglwyddo'r 73 aelod presennol o staff y Cynghorau Iechyd Cymuned, a gyflogir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, a'r staff ychwanegol a amcangyfrifir yn y tabl isod ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau cyngor a chymorth cwynion estynedig y bydd y Corff yn eu cyflawni.
397. Heblaw am y staff arbenigol ychwanegol a nodir isod i gyflawni swyddogaethau cyngor a chymorth cwynion estynedig, ni thybir y bydd ar y Corff angen staff ychwanegol i gyflawni ei swyddogaethau craidd eraill. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym wedi ystyried y gymhareb staffio o ran nifer y staff cyfwerth ag amser llawn: y pen o'r boblogaeth (wedi'i chynnwys yn Nhabl 39) a ddefnyddir gan y Patient and Client Council yng Ngogledd Iwerddon a Health Watch yn Lloegr.
398. Mae gan y Patient and Client Council yng Ngogledd Iwerddon 26 aelod o staff⁹¹ i gyflawni ei holl swyddogaethau (gan gynnwys ei swyddogaethau cyngor a chymorth cwynion ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol) ar gyfer poblogaeth o 1.9 miliwn (cymhareb staffio o 1:73,077 y pen o'r boblogaeth). Fe gyflogodd Health Watch 408 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn ôl yr amcangyfrifon yn 2017/18⁹² i gyflawni ei holl swyddogaethau ar gyfer poblogaeth o 55.6 miliwn (cymhareb staffio o 1:136,275 y pen o'r boblogaeth).
399. Hyd yn oed wrth ystyried y ffaith bod swyddogaethau gwahanol gyrff llais y dinesydd yn amrywio, er enghraifft dim ond mewn tua un rhan o bump o sefydliadau Health Watch lleol y mae Health Watch lleol yn darparu swyddogaethau cyngor a chymorth cwynion iechyd yn uniongyrchol (caiff y gweddill eu rhoi ar gontract allanol) ac nid ydynt yn darparu cyngor ar gwynion mewn perthynas â chwynion am wasanaethau cymdeithasol, mae'n amlwg y

⁹¹ Cysylltodd swyddogion â'r Patient and Client Council i ganfod nifer y staff a gyflogir.

⁹² What Matters Most Adroddiad Blynnyddol Health Watch 2017/18, t.44.

bydd gan y Corff nifer sylweddol fwy o staff y pen o'r boblogaeth na chyrrff cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

400. Gan ystyried lefelau staffio presennol Cyngorau Iechyd Cymuned a nodir yn Nhabl 58 a nifer amcangyfrifedig y staff ychwanegol y mae eu hangen i gyflawni swyddogaethau cyngor a chymorth cwynion estynedig y Corff a nodir ym mharagraffau 403 i 407 ac yn nhabl 68 y gymhareb a amcangyfrifir yw 1:40,260 y pen o'r boblogaeth.

401. Yn amodol ar strwythur staffio'r Corff a'r gofyniad am ymarfer TUPE i reoli trosglwyddiadau staff, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unig tybir y bydd staff presennol y Cyngorau Iechyd Cymuned yn trosglwyddo i'r Corff newydd ac ar yr un gyfradd tâl. Caiff costau staff presennol y Cyngorau Iechyd Cymuned eu nodi isod.

Tabl 63 – cost staffio ar gyfer staff presennol y Cyngorau Iechyd Cymuned a fydd yn trosglwyddo i'r Corff

Math	Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn	Cyfanswm	Ffynhonnell/Tybiaeth
Costau staff – Tâl	73	£2,915,800	Yn seiliedig ar gostau staff y Cyngorau Iechyd Cymuned 2018/19
Costau staff heblaw tâl – Treuliau	73	£129,100	
Cyfanswm		£3,044,900	

402. Bydd y costau hyn yn cael eu llyncu gan y Corff fel rhan o'i gostau gweithredol parhaus.

Recriwtio Staff ychwanegol

403. Er gwaethaf yr arsylwadau cyffredinol a wnaed uchod mewn perthynas â lefelau staffio presennol y Cyngorau Iechyd Cymuned o'i gymharu â chyrrff Llais y Dinesydd eraill yn y DU, ystyrir y bydd angen staff ychwanegol i alluogi'r Corff i gyflawni ei swyddogaethau cyngor a chymorth cwynion.

404. Yn wahanol i Gyngorau Iechyd Cymuned, bydd y Corff yn darparu gwasanaeth cyngor a chymorth cwynion ar gyfer:

- plant sy'n dymuno cwyno am wasanaethau'r GIG;
- pobl sy'n dymuno cwyno am swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (ar wahân i gwynion a gyflëir gan blant sydd â hawl i gyngor a chymorth cwynion gan awdurdodau lleol yn unol ag adran 178(1)(a));
- pobl sy'n dymuno cyfleu cwyn i ddarparwr gwasanaethau a reoleiddir dan adran 2 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016⁹;

- iv. pobl sy'n dymuno cyfleu cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol, darparwr cartref gofal neu ddarparwr gofal cartref.

405. Mae cyngor a chymorth cwynion yn wasanaeth arbenigol y mae angen iddo gael ei gynnig gan staff sy'n meddu ar sgiliau priodol ac sydd wedi cael hyfforddiant priodol. Yn wahanol i swyddogaethau eraill y Corff, nid yw'n swyddogaeth y gall aelodau gwirfoddol ei chyflawni neu roi cymorth i'w chyflawni. Mae darparu adnoddau ar gyfer swyddogaeth cyngor a chymorth y Cyngorau lechyd Cymuned yn rhoi cyfrif am gyfran sylweddol o gostau staffio cyffredinol Cyngorau lechyd Cymuned: £878,000 o gyfanswm cost staffio o £2,826,000 yn 2018/19.

406. Er mwyn penderfynu faint o staff cyngor a chymorth cwynion ychwanegol fydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau ychwanegol hyn, cynhaliwyd asesiad o (i) nifer y cwynion am y GIG (ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd) am y tair blynedd rhwng 2015/16 a 2017/18; (ii) nifer y cwynion y mae'r Cyngorau lechyd Cymuned wedi darparu gwasanaeth cyngor a chymorth cwynion mewn perthynas â hwy yn yr un ffrâm amser; a (iii) nifer y staff a gyflogir yn y Cyngorau lechyd Cymuned gan Fwrdd lechyd Addysgu Powys i ddarparu gwasanaethau cyngor a chymorth cwynion.

407. Mae hyn yn rhoi syniad o:

- y ganran o gwynion a wnaethpwyd lle ceisiodd achwynwyr gymorth gan y Cyngor lechyd Cymuned;
- nifer y staff yr oedd eu hangen i ymdrin â'r cwynion hyn.

Tabl 64 – Nifer y cwynion yr ymdriniodd Cyngorau lechyd Cymuned â hwy o'i gymharu â chyfanswm y cwynion am y GIG (gan gynnwys gofal sylfaenol ac eilaidd).

	2015/16	2016/17	2017/18
Cyfanswm y cwynion am y GIG	11,823	9,308	9,347
Cyfanswm y cwynion yr ymdriniodd Cyngorau lechyd Cymuned â hwy	1561	1503	1305
% o'r cwynion lle rhoddodd Cyngorau lechyd Cymuned gymorth cwynion	13.2%	16.1%	13.96%

408. Yn 2018/2019 ar draws yr holl Gyngorau lechyd Cymuned roedd cyfanswm o 24.04 o staff cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi i gyflawni'r swyddogaeth cyngor a chymorth cwynion. Caiff y nifer hwn ei rannu rhwng eiriolwyr cwynion, a oedd yn cyfateb i 14.36 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn ym mis Mai 2018⁹³, a rheolwyr cwynion a chynorthwywyr cymorth cwynion y mae gan lawer ohonynt rôl ddeuol o ran cymorth cwynion/gweinyddu cyffredinol.

⁹³ Cadarnhawyd gan Reolwr Adnoddau Dynol Bwrdd Cyngorau lechyd Cymuned ar 16 Mai 2018.

409. Mae nifer cyfartalog y cwynion am y GIG am y cyfnod o dair blynedd rhwng 2015/16 a 2017/18 yn 10,159. Mae nifer cyfartalog y cwynion y rhoddodd y Cyngorau Iechyd Cymuned gymorth gyda hwy dros yr un cyfnod o dair blynedd yn 1456. O ganlyniad, ar sail ganrannol, mae'r Cyngorau Iechyd Cymuned yn rhoi cymorth gydag 14.33% o holl gwynion y GIG. Er mwyn pennu'r angen tebygol am staff cwynion ychwanegol, y dybiaeth yw y bydd y swyddogaethau cwynion ychwanegol y bydd y Corff yn ei cyflawni'n golygu bod angen cyngor a chymorth cwynion gan y Corff ar gyfer yr un ganran o achosion.

(i) Rhoi cyngor a chymorth cwynion i blant sy'n dymuno cyfleu cwyn ffurfiol am un o wasanaethau'r GIG.

410. Cysylltwyd â'r holl BILlau ac Ymddiriedolaethau i ganfod faint o gwynion oedd wedi cael eu gwneud mewn perthynas â phlant yn ystod 2017/2018. Roedd chwech o'r saith BILl yn gallu rhoi ffigurau i ni ar gyfer nifer y cwynion mewn perthynas â phlant (a oedd yn cynnwys cwynion a oedd wedi cael eu cyfleu gan blant eu hunain, gan rieni ar ran plentyn neu gan drydydd parti). Ar ôl addasu'r niferoedd tuag i fyny i roi cyfrif am y ffaith nad oedd un BILl yn cadw'r data hwn; roedd yr ymatebion yn dynodi bod 720 o gwynion wedi cael eu cyfleu gan neu ar ran plant yn ystod y ffrâm amser honno. O'r rhain, roedd y mwyafrif llethol wedi cael eu cyfleu gan rieni ar ran eu plentyn.

411. Mae BILlau yn casglu data gan ddarparwyr gofal sylfaenol ynghylch nifer y cwynion a gafwyd yn ystod pob blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, nid yw'r data hwn yn cael ei rannu yn ôl nifer y cwynion mewn perthynas ag "oedolion" a "phlant". Felly, bu'n angenrheidiol amcangyfrif nifer y cwynion mewn perthynas a phlant a wnaethpwyd i ddarparwyr gofal sylfaenol. Gan gymryd cyfanswm y cwynion yn Nhabl 64, ar draws y cyfnod o dair blynedd roedd 71% o'r achosion ar gyfartaledd yn ymwneud â gofal sylfaenol. Felly, gan dybio bod yr un ganran o blant yn cyfleu cwynion mewn perthynas â gofal sylfaenol ac eilaidd, amcangyfrifir bod darparwyr gofal sylfaenol yn ymdrin â 294 o gwynion (29%) mewn perthynas â phlant bob blwyddyn. Mae hyn yn rhoi cyfanswm amcangyfrifedig o 1014 o gwynion y flwyddyn sy'n ymwneud â phlant.

ii) Rhoi cyngor a chymorth cwynion i bobl sy'n dymuno cwyno am swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

412. Fe gysyllton ni â phob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru i ofyn faint o gwynion y maent yn eu hystyried dan Reoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014. Fe ddynodon ni nad oedd arnom angen manylion nifer y cwynion dan Reoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 gan na fydd y Corff yn rhoi cyngor a chymorth cwynion i blant sydd â hawliau statudol presennol dan Ddeddf 2014². Cawsom ymateb gan 20 o awdurdodau lleol. Mae'r ffigurau yn Nhabl 65 isod wedi cael eu haddasu tuag i fyny i ystyried y ddau ymateb a oedd ar goll.

413. Ceir amrywiad yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn coladu eu data ynghylch cwynion. Fodd bynnag, mae'r canlynol yn darparu'r amcangyfrif gorau o nifer y cwynion y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â hwy mewn

perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, ond heb gynnwys cwynion mewn perthynas â phlant sydd â hawliau statudol presennol dan Ddeddf 2014² (na fydd y Corff yn rhoi cymorth gyda hwy).

Tabl 65 – Nifer y cwynion a wnaethpwyd i awdurdodau lleol dan Reoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014

	2015/16	2016/17	2017/18
Nifer y cwynion a wnaethpwyd gan oedolion mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.	1,261	1,181	1,302

414. Y cyfartaledd dros y cyfnod o dair blynedd yw 1248 o gwynion.

iii) Cyngor a chymorth i bobl sy'n dymuno cyfleu cwyn i ddarparwr gwasanaeth a reoleiddir dan Ddeddf 2016.

415. Nid oes unrhyw ddata ynghylch nifer y cwynion a gyflëir i ddarparwyr gwasanaethau a reoleiddir. Nid yw Awdurdodau Lleol yn casglu'r data hwn ac nid yw AGC na Gweinidogion Cymru yn ei gasglu ychwaith. Fodd bynnag, mae Rheoliadau 2017¹⁰ yn nodi bod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau a reoleiddir gyflwyno ffurflen flynyddol i AGC. Bydd y ffurflen flynyddol yn cynnwys manylion nifer y cwynion ffurfiol a wnaethpwyd a'r nifer a gadarnhawyd. Mae'r ffurflen flynyddol gyntaf i fod i gael ei chyflwyno yn 2020. O ganlyniad, cyn sefydlu'r Corff, ni fydd yn bosibl canfod faint o gwynion y flwyddyn a gyflëir mewn perthynas â'r mathau hyn o wasanaethau.

416. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, amcangyfrifir y bydd nifer y cwynion a gyflëir i ddarparwyr gwasanaethau a reoleiddir yr un fath â nifer y cwynion a gyflëir i awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mewn gwirionedd tybir bod hwn yn oramcangyfrif sylweddol yn seiliedig ar yr wybodaeth gyfyngedig a ddarparwyd gan nifer fach o awdurdodau lleol pan ofynnion ni iddynt am y data hwn. Bydd amcangyfrif mwy cywir yn cael ei gyfrifo unwaith y bydd y data perthnasol ynghylch cwynion ar gael gan AGC yn 2020.

iv) Cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, darparwyr cartrefi gofal a darparwyr gofal cartref.

417. Mae swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cadarnhau nifer y cwynion a wnaethpwyd i'w swyddfa ef mewn perthynas â chwynion am wasanaethau cymdeithasol (oedolion a phlant) a chwynion yn erbyn cartrefi gofal a darparwyr gofal cartref.

418. Yn Nhabl 66 isod dim ond y cwynion mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol oedolion yr ydym wedi'u cynnwys gan nad oes bwriad i'r Corff gael y gallu i roi cyngor a chymorth cwynion i blant sydd â hawl statudol i eiriolwr o dan Ddeddf 2014². Mae'r plant hynny, sydd â hawl statudol i eiriolwr

dan Ddeddf 2014², yn gallu defnyddio'u heiriolwr i fwrw ymlaen â chwyn gyda'r Ombwdsmon.

Tabl 66 - Cwynion a wnaethpwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Natur y gŵyn	2015/16	2016/17	2017/18
Gwasanaethau cymdeithasol oedolion	68	81	74
Cartrefi gofal	1	5	0
Gofal Cartref	1	3	1
Cyfanswm	70	89	75

419. Nifer cyfartalog y cwynion a gafwyd bob blwyddyn gan yr Ombwdsmon ar draws pob un o'r tri maes yn ystod y cyfnod o 2015/16 i 2017/18 yw 78.

420. Mae crynodeb o gyfanswm amcangyfrifedig y cwynion a allai gael eu cyfleu i'r GIG, awdurdodau lleol, darparwyr a reoleiddir dan Ddeddf 2016 ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r swyddogaethau cwynion ychwanegol hyn y bydd gan y Corff y pŵer i roi cymorth mewn perthynas â hwy (yn wahanol i'r Cynghorau lechyd Cymuned) fel a ganlyn:

Tabl 67 - Crynodeb o nifer amcangyfrifedig y cwynion ychwanegol sydd o fewn cwrmpas swyddogaethau cwynion y Corff

Math o gŵyn	Nifer y flwyddyn
Cwynion am y GIG sy'n ymwneud â phlant	1014
Cwynion i awdurdodau lleol dan Reoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014	1248
Cwynion i ddarparwyr gwasanaethau a reoleiddir dan Ddeddf 2016	1248
Cwynion am wasanaethau cymdeithasol oedolion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	78
Cyfanswm	3,588

421. Fel y nodir uchod, mewn perthynas â chwynion y GIG, ar hyn o bryd mae'r Cynghorau lechyd Cymuned yn rhoi cyngor a chymorth cwynion mewn perthynas ag 14% o'r cwynion. Mewn perthynas â'r cwynion newydd am y gwasanaethau cymdeithasol yn bennaf y gallai'r Corff ymdrin â hwy, mae'n annhebygol iawn y bydd canran uwch o achwynwyr yn cysylltu â'r Corff i ofyn am gymorth.

422. Mae rhwydwaith eisoes yn bodoli o sefydliadau trydydd sector a sefydliadau megis Cyngor Ar Bopeth sydd eisoes yn rhoi cyngor a chymorth i unigolion mewn perthynas â chwynion ynghylch materion gwasanaethau cymdeithasol. Disgwylir i'r grwpiau hyn barhau i gefnogi achwynwyr, yn enwedig yn achos y sefydliadau hynny sy'n rhoi cymorth i unigolion agored i niwed ar sail holistaidd ac a fyddai'n annhebygol o atgyfeirio'r unigolion hynny at gorff newydd yn benodol ynglŷn ag un digwyddiad. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl y bydd y ganran o gwynion am wasanaethau cymdeithasol y bydd y

Corff yn ymdrin â hwy yn is mewn gwirionedd na'r 14% o gwynion a gafwyd ynglŷn â gofal iechyd pan nad yw'r systemau a'r rhwydweithiau hyn eisoes yn bodoli.

423. Hefyd, fel y nodir uchod, ceir nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar nifer y cwynion. Mae hefyd yn wir dan weithdrefnau cwynion y GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol bod dyletswydd yn barod ar y corff y cwynir amdano i hysbysu achwynwyr ynghylch ffynonellau cymorth a chyngor i ddefnyddio'r priod weithdrefnau cwynion. Felly, ar gyfer y swyddogaeth cyngor a chymorth cwynion ni ragwelir y bydd proffil uwch y Corff (o'i gymharu â'r Cynghorau Iechyd Cymuned) yn effeithio ar y ganran o'r cwynion ar y cyfan y bydd pobl yn cysylltu ag ef i gael cyngor a chymorth gyda hwy.

424. O ganlyniad, amcangyfrifir y bydd nifer y cwynion ychwanegol y bydd y Corff yn ymdrin â hwy o ganlyniad i'r ffaith bod ei swyddogaethau cyngor a chymorth yn fwy eang na rhai'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn debygol o fod oddeutu 502 y flwyddyn (h.y. 14% o 3588 o gwynion). Yn y tablau canlynol, rydym wedi darparu amrediad o 50% yn uwch ac yn is er gwybodaeth ond byddwn yn cymryd y canolbwynt ar gyfer cyfrifiadau pellach.

425. Mae'r costau staffio amcangyfrifedig, gan gynnwys costau, fel a ganlyn:

Tabl 67A – Amcangyfrif o nifer y staff sy'n ofynnol yn seiliedig ar nifer y cwynion

Math	Canran o'r holl gwynion	Nifer y cwynion yr ymdriniwyd â nhw y flwyddyn	Staff WTE pro-rata bob 100 cwyn	Nifer y staff sy'n ofynnol i ymdrin â chwynion
Lefelau staffio Cynghorau Iechyd Cymuned mewn perthynas â gofal iechyd	14%	1456	1.6	24 staff WTE
Lefelau staffio Corff Llais y Dinesydd mewn perthynas â chwynion am wasanaethau cymdeithasol: uwch	21%	753	1.6	12 staff WTE
Lefelau staffio Corff Llais y Dinesydd mewn perthynas â chwynion am wasanaethau cymdeithasol: y canolbwynt	14%	502	1.6	8 staff WTE
Lefelau staffio Corff Llais y Dinesydd mewn perthynas â chwynion am wasanaethau cymdeithasol: is	7%	251	1.6	4 staff WTE

426. Ar gyfer nifer cyfartalog o 1456 o gwynion y flwyddyn, mae gan Gynghorau Iechyd Cymuned gyfanswm o 24 aelod o staff cyfwerth ag amser

llawn. Mae hyn yn cynnwys 14.36 o eiriolwyr cyfwerth ag amser llawn a gefnogir gan reolwyr cwynion a chynorthwyyr cymorth eirioli sydd, mewn nifer o achosion, yn cyflawni rôl ddeuol o ran cymorth eirioli/gweinyddu cyffredinol. I ymdrin â nifer ychwanegol amcangyfrifedig o 502 o gwynion y flwyddyn amcangyfrifir y byddai angen wyth aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn ychwanegol i ategu'r swyddogaeth cyngor a chymorth cwynion. Byddai'r aelodau ychwanegol hyn o staff yn cefnogi'r 24 aelod presennol yn strwythur staffio presennol y Cyngorau Iechyd Cymuned y mae eu rolau'n cynnwys cyngor a chymorth cwynion, gan roi cyfanswm o 32 o aelodau o staff WTE i ymdrin ag oddeutu 1,958 o gwynion sy'n rhychwantu iechyd a gofal cymdeithasol y flwyddyn.

427. Amcangyfrifir y byddai cost yr aelodau ychwanegol hyn o staff fel a ganlyn.

Tabl 68 – Amcangyfrif o gostau'r staff cwynion ychwanegol i'r Corff

Math	Cost gyfartalog aelod o staff i'r Cyngorau Iechyd Cymuned	Nifer y staff ychwanegol	Cyfanswm	Ffynhonnell/Tybiaeth
Costau staff – Tâl	£35,900	8	£287,200	Yn seiliedig ar gostau staff y Cyngorau Iechyd Cymuned yn 2018/19 ar gyfer unigolion a gyflogir i gyflawni swyddogaethau cyngor a chymorth cwynion. Mae'n cynnwys argostau.
Costau staff heblaw tâl – Treuliau	£700	8	£5,600	
Total			£292,800	

428. Amcangyfrifir bod y cyfanswm costau staffio i'r Corff fel a ganlyn (Tablau 58 a 63): £3,337,700

Pensiynau a TUPE

429. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio y bydd costau tâl a chostau pensiwn ar gyfer staff yn y Corff fwy neu lai yr un fath â'r trefniadau cyflog a phensiwn presennol ar gyfer staff Cyngorau Iechyd Cymuned. Mae

Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r egwyddorion "Bargen Deg" ar gyfer pensiynau staff.⁹⁴

Costau aelodau gwirfoddol

430. Bydd y Corff yn gallu defnyddio aelodau gwirfoddol i roi cymorth i gyflawni ei swyddogaethau. Fodd bynnag, yn wahanol i fodel presennol y Cynghorau Iechyd Cymuned ni fydd terfynau ar nifer yr aelodau gwirfoddol, yr amser hwyaf y gall aelod gwirfoddol wasanaethu'r Corff, na gofyniad i drydydd partïon benodi aelodau.
431. Fel y nodir yn Nhabl 48, gall Cynghorau Iechyd Cymuned fod ag uchafswm o 276 o aelodau gwirfoddol. Gan y bydd y Corff yn arfer swyddogaethau ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, rhagwelir y bydd ar y Corff angen aelodau ychwanegol. Y Corff fydd i benderfynu sut y mae'n dymuno gweithredu i gyflawni ei swyddogaethau yn y ffordd orau a bydd ganddo'r rhyddid i sefydlu model aelodaeth wirfoddol sy'n diwallu ei anghenion yn y ffordd orau. Gall ddilyn esiampl y Patient and Client Council, sydd â chohort o aelodau sy'n darparu gwasanaethau "yn bersonol" i'r Cyngor a nifer fwy o aelodau ar-lein. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y Corff yn meithrin cysylltiadau cryf â'r Arolygiaethau a sefydliadau gwirfoddol i rannu a defnyddio gwybodaeth ac, o bosibl, aelodau lleyg.
432. Un o'r prif feirniadaethau o aelodaeth bresennol y Cynghorau Iechyd Cymuned yw eu diffyg amrywiaeth. Bydd y rhaglen weithredu a fydd yn cael ei sefydlu i roi cymorth i sefydlu'r Corff yn llunio strategaethau i'w helpu i ddenu'r aelodau gwirfoddol gorau posibl ac aelodaeth fwy amrywiol sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan wefan fodern, y mae ei chost wedi'i hymgorffori yn Nhabl 73 isod sy'n nodi'r buddsoddiad mewn TGCh, a fydd yn galluogi'r Corff i ymgysylltu â dinasyddion a gofyn am eu barn. Bydd gwefan ryngweithiol hefyd yn galluogi'r Corff i gyrraedd cynulleidfawr o ddarpar aelodau gwirfoddol a bydd yn ei gwneud yn haws i bobl fynegi eu barn a darparu gwasanaethau ar gyfer y Corff fel aelod gwirfoddol. Dylai hyn, ynghyd â'r newid o'r broses penodiadau cyhoeddus a'r ymrwymiad amser lleiaf y mae ei angen i fod yn aelod o Gyngor Iechyd Cymuned ar hyn o bryd, ei gwneud yn haws denu gwirfoddolwyr mwy amrywiol.
433. Bydd y Corff yn cael ei annog i sefydlu rhwydweithiau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol hefyd, gan ei wneud yn fwy amlwg a chynyddu ei gynulleidfawr. Gobeithir hefyd y bydd llawer o'r rhai sy'n aelodau gwirfoddol o Gyngorau Iechyd Cymuned ar hyn o bryd yn parhau i gefnogi'r Corff.
434. Mae'n anodd amcangyfrif faint o aelodau gwirfoddol y bydd eu hangen ar y Corff gan y bydd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau megis lleoliad, sgiliau'r gwirfoddolwyr a'r ymrwymiad amser a gynigir. Fel y nodir uchod, gall y model aelodaeth wirfoddol a fabwysiedir gynnwys aelodau gwirfoddol yn darparu gwasanaethau "yn bersonol", wedi'u hategu gan aelodaeth "ar-lein" fwy a fydd yn ymateb i ymgynghoriadau, yn mynegi barn ynglŷn â chynigion sy'n ymwneud

⁹⁴ Trysorlys EM. Fair Deal for staff pensions: staff transfer from central government. Trysorlys EM; 2013.

â newidiadau i wasanaethau, yn darparu cyfraniadau i geisiadau am bynciau ar gyfer adolygiadau thematig ac ati. Fodd bynnag, at ddibenion y ddogfen hon tybir y bydd y Corff yn parhau i fod â 276 o aelodau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau "yn bersonol" a hwythau'n gweithio yn ôl ymrwymiad amser presennol Cynghorau lechyd Cymuned ac yn rhai y bydd angen hyfforddiant arnynt.

435. Ar hyn o bryd, mae pob aelod gwirfoddol wedi ymrwymo i gefnogi'r Cynghorau lechyd Cymuned am o leiaf 3-5 diwrnod y mis. Nid yw'r aelodau gwirfoddol yn cael tâl, ond maent yn cael hyfforddiant ac ad-delir eu costau teithio.
436. Yn 2017/18 gwariodd y Cynghorau lechyd Cymuned £67,900 ar gostau teithio a chynhaliadau i'w haelodau gwirfoddol. Bydd y gost hon yn cael ei llyncu gan y Corff fel rhan o'i gostau gweithredol parhaus. Ar wahân, fe wariodd y corff £55,200 ar hyfforddiant i aelodau gwirfoddol; gweler Tabl 72.
437. Mae'n bwysig nodi na fydd yn ofynnol i'r Corff, yn wahanol i Weinidogion Cymru, ddilyn y broses penodiadau cyhoeddus ffurfiol sy'n ymlynu wrth y canllawiau recriwtio a'r gofynion hysbysebu a nodwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Disgwylir i gostau cyfle sy'n gysylltiedig â recriwtio staff gan y Corff gael eu cynnwys yn y swyddogaeth gwasanaethau corfforaethol a nodir isod. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â hysbysebu "am dâl" i ddenu aelodau gwirfoddol i'r Corff yn cael eu talu o'r gyllideb farchnata o £42,300 a nodir isod.
438. Bydd angen i'r Corff ddarparu cymorth a hyfforddiant i aelodau gwirfoddol, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rôl a chwmpas eu cyfrifoldebau. Bydd hyn yn cynnwys yr ymddygiad a ddisgwylir ganddynt fel gwirfoddolwyr wrth gyflawni gwaith y Corff, megis disgwyliadau o ran ceisio mynediad at eiddo, gwneud sylwadau cyhoeddus am waith y Corff, a llunio a chyhoeddi adroddiadau. Mae'r gyllideb hyfforddi ar gyfer y corff newydd yn Nhabl 72 wedi caniatáu ar gyfer hyn.

Gwasanaethau Corfforaethol

439. Unwaith y bydd wedi'i sefydlu, bydd angen i'r Corff sefydlu gwasanaeth cymorth corfforaethol i roi cymorth gydag adnoddau dynol, cyllid ac archwilio (mae'n ofynnol bod gan Gorff Gweithredol Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru wasanaeth archwilio mewnol) gan bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu ar gyfer y Cynghorau lechyd Cymuned trwy Fwrdd lechyd Addysgu Powys ar hyn o bryd. Felly ni fydd unrhyw staff o'r Cynghorau lechyd Cymuned presennol yn cael eu trosglwyddo i gyflawni'r rolau hyn. Byddem yn rhagweld y bydd y staff a'r systemau'n cael eu rhoi yn eu lle gan y bwrdd cysgodol, cyn bod y Corff yn cychwyn. Amcangyfrifir bod cost darparu'r gwasanaeth hwn fel a ganlyn:

Tabl 69 – Cost gwasanaethau corfforaethol ar gyfer y corff newydd

Eitem	Cost amcangyfrifedig bob blwyddyn	Ffynhonnell/ Tybiaeth

Cymorth Adnoddau Dynol	£56,400	Yn seiliedig ar gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymwysterau Cymru ⁹⁵ - corff â nifer tebyg o staff cyfwerth ag amser llawn.
Cymorth cyllid	£56,400	
Archwilio mewnol	£20,000	Yn seiliedig ar gyngor gan Is-adran Archwilio, Sicrwydd ac Atal Twyll Llywodraeth Cymru – ynghylch costau Cyrff Cyhoeddus eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru.
Archwilio allanol	£20,000	
Cyfanswm	£152,800	

440. Ystyrir bod y gost hon yn gost weithredol barhaus i'r Corff.

Costau hyfforddiant - sefydlu

441. Ceir tybiaeth y bydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Corff, yn cyllido hyfforddiant i sicrhau bod aelodau o staff ac aelodau gwirfoddol yn meddu ar sgiliau priodol i wneud gwaith y Corff. Ystyrir mai cost i Lywodraeth Cymru yn chwe mis cyntaf gweithrediad y corff (Hydref 2021 - Ebrill 2022) yw hwn.

442. Yn sgil natur arbenigol y gwaith hwn rhagwelir y bydd angen cymorth arbenigol.

443. Rhagwelir y bydd angen secondai cyfwerth ag amser llawn sydd â phrofiad o'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol i ddatblygu adnoddau hyfforddiant sefydlu (pecyn cymorth/ llyfr gwaith) ar gyfer staff a'r aelodau gwirfoddol hynny sy'n cyflawni tasgau y mae'n ofynnol iddynt fod wedi'u hyfforddi ar eu cyfer. Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n ymuno â'r Corff ar ôl ei sefydlu ac yn y dyfodol. Bydd yr adnodd hwn ar gael yn electronig fel bod modd iddo gael ei asesu o bell gan staff ac aelodau gwirfoddol, ac mewn fformat sy'n golygu bod modd iddo gael ei ddiweddarau'n rheolaidd gan y Corff. Rhagwelir y bydd yr hyfforddiant sefydlu'n cwmpasu'r prif destunau canlynol:

- sectorau a swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;
- y gyfraith a gwasanaethau iechyd a chymdeithasol;
- gwerthoedd ac egwyddorion sy'n tanategu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol;
- rôl y Corff.

444. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cymryd dim mwy na chwe mis, ac y bydd yn cael ei wneud gan aelod o staff ar lefel briodol – yr amcangyfrifir y bydd ar radd sy'n cyfateb i Fand Gweithredol 2 (BG2) Llywodraeth Cymru. Mae cost y secondai i Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

⁹⁵ Llywodraeth Cymru. Memorandwm Esboniadol Bil Cymwysterau Cymru 2015.

Tabl 70 - Secondai

Cost secondai o'r GIG ar radd sy'n cyfateb i BG2		
Cost Gyfartalog Flynyddol BG2	Amcangyfrif o'r amser y mae ei angen	Cost
£76,300*	0.5	£38,200

*fe'i darperir gan Dîm Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar Gyfraddau Cyflog Gros Cyfartalog ar gyfer Bandiau Cyflog Staff Llywodraeth Cymru nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) 2018/19.

445. Bydd ar y staff hynny sydd â rôl benodol i roi cyngor a chymorth cwynion yn y Corff angen hyfforddiant arbenigol. Bydd staff newydd a gaiff eu recriwtio i roi cymorth i gyflawni swyddogaethau cyngor a chymorth cwynion y Corff yn cael hyfforddiant mewn perthynas â'r systemau cwynion iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd staff presennol a gyflogir i gyflawni rôl cyngor a chymorth cwynion yn cael hyfforddiant ar gwynion y gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Ar gyfer hyfforddiant ar y dirwedd mewn gwasanaethau cymdeithasol, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi amcangyfrif y byddai darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer 25 o eiriolwyr yn denu ffi hyfforddi o £6,800 (£272 y pen). Ar gyfer gwasanaethau iechyd, mae'r Cyngorau Iechyd Cymuned presennol yn gwario £250 y pen ar ffioedd hyfforddi i gael hyfforddiant tebyg. Rhagwelir y byddai Llywodraeth Cymru yn talu cost hyfforddiant arbenigol o fewn y chwe mis cyntaf ar ôl sefydlu'r Corff; wedi hynny, cost i'r Corff ei hymgorffori fel rhan o'i gyllideb hyfforddi flynyddol fydd hon.

446. Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2021 – Medi 2022 fel a ganlyn:

Tabl 71 – Costau hyfforddi i Lywodraeth Cymru

Eitem	Cost yr eitem	Nifer y staff sy'n rhan o gyflawni'r swyddogaeth gwynion	Cyfanswm y gost
Secondai	£45,800	1	£45,800
Hyfforddiant cwynion – y Gwasanaeth Iechyd	£250	32*	£8,000
Hyfforddiant cwynion – Gwasanaethau cymdeithasol	£272	32*	£8,700
Cyfanswm			£62,500

*mae'n cynrychioli nifer presennol staff y Cyngorau Iechyd Cymuned sydd â rôl o ran rhoi cyngor a chymorth cwynion (24) a'r staff ychwanegol y bydd eu hangen ar y Corff i ategu'r swyddogaeth hon (8).

Costau hyfforddi – gweithredol

447. Bydd ar y Corff angen cyllideb hyfforddi. Gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan y Cyngorau Iechyd Cymuned presennol ar gyfer 2017/18, fe gyllidebodd y Cyngorau Iechyd Cymuned £33,650 ar gyfer hyfforddi eu 73.24 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (£460 am bob aelod o staff cyfwerth ag amser llawn) a £65,000 am hyfforddi eu 276 o aelodau gwirfoddol (£200 am bob aelod gwirfoddol). Yn seiliedig ar nifer amcangyfrifedig yr aelodau o staff

ac aelodau gwirfoddol y bydd ar y Corff eu hangen, mae'n debygol o ysgwyddo'r gost weithredol barhaus amcangyfrifedig ganlynol:

Tabl 72 – Cyllideb hyfforddi ar gyfer y Corff

Eitem	Cost y pen	Nifer y staff/ aelodau gwirfoddol	Cost y flwyddyn
Staff	£460	81*	£37,300
Aelodau gwirfoddol	£200	276**	£55,200
Cyfanswm			£92,500

*77 o staff yw'r 73 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn presennol, a'r 8 aelod o staff ychwanegol a gyfrifwyd yn Nhabl 68.

**Fel yr esbonnir ym mharagraff 447, at ddibenion y ddogfen hon, mae 276 o aelodau gwirfoddol yn seiliedig ar y nifer presennol sy'n darparu gwasanaethau "yn bersonol", a defnyddir hyn fel y sail i bennu nifer yr aelodau gwirfoddol y bydd angen hyfforddiant arnynt. Fodd bynnag, y Corff fydd i benderfynu yn y pen draw pa lefel o hyfforddiant fydd yn cael ei ddarparu ar gyfer ei aelodau gwirfoddol.

Datblygu Sefydliadol

448. Mae Byrddau llwyddiannus yn cynnwys cyfuniad iach o wybodaeth, sgiliau a phriodoleddau a gronnir trwy brofiad a chysylltiad mynych â syniadau newydd a ffyrdd gwahanol o gyflawni llwyddiant. I gynorthwyo'r Bwrdd newydd ar ei daith tuag at berfformiad uchel, mae cyfleoedd i ddatblygu ar gael gan Academi Wales⁹⁶. Academi Cymru yw'r ganolfan ragoriaeth mewn arwain a rheoli ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cynnig ystod o raglenni ac ymyriadau cost-effeithiol i ddatblygu arweinwyr (y mae llawer ohonynt ar gael yn rhad ac am ddim) a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus. Mae meysydd datblygu allweddol yn cynnwys: llywodraethu da, byrddau â pherfformiad uchel, byrddau iach, diagnosteg i wella perthnasoedd effeithiol, ymgysylltu a her i wella perfformiad unigol a chyfunol.

449. Mae Academi Wales wedi hysbysu y byddai cyllideb ategol o £10,000 yn ategu'r 'ymyriadau datblygu parod' a grybwyllwyd uchod, trwy greu pecyn pwrpasol o ymyriadau i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion datblygu sefydliadol ychwanegol a allai gael eu hadnabod yn ddiweddarach. Bydd y gost yn cael ei hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Ebrill a mis Medi 2021 pan fydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr yn eu lle.

Adeiladau

450. Amcangyfrifir mai £350,000 fydd cost adeiladau; mae hyn yn seiliedig ar wariant gwirioneddol y Cynghorau Iechyd Cymuned yn 2018/19 ar eu deuddeg swyddfa. Ystyrir bod y gost hon yn gost weithredol barhaus i'r Corff.

Costau TGCh

⁹⁶Academi Wales [Internet]. Academi Wales. 2019 [dyfynnwyd 3 April 2019]. Ar gael o: <https://academiwales.gov.wales/>

451. Er mwyn sicrhau bod y Corff yn gallu gweithredu'n ddi-dor, gan fod yn hygyrch i bobl ledled Cymru, mae angen darparu TGCh sy'n addas i'w diben ac a fydd yn rhoi'r hyblygrwydd i staff allu gweithredu o bell. Mae hyn yn bwysig i'r holl staff, ond mae'n arbennig o bwysig i'r aelodau hynny o staff sy'n cynnig cyngor a chymorth cwynion gan y dychmygir y byddant, gyda darpariaeth TGCh, yn gallu cynnig canolfannau galw heibio mewn canolfannau cymunedol ac ati, i wneud y gwasanaeth a ddarperir ganddynt yn fwy hygyrch.

452. Mae'r costau amcangyfrifedig yn amodol ar gafeat, gan y bydd yr union gostau'n amrywio gan ddibynnu ar y canlynol:

- y cynnyrch a gaiff ei ddethol a disgowntiau posibl am brynu nifer fawr gyda'i gilydd yn amodol ar yr ymarfer caffael a manyleb fanwl;
- y model gweithio a ddewisir, nifer y safleoedd lle mae'r Corff yn gyfrifol am seilwaith, lleoliad y safleoedd hynny, y mathau o adeiladau, dyluniad adeiladau, cyflwr adeiladau a manylion y gwaith ailosod.

453. Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r gwariant cyfalaf cychwynnol i sefydlu system TGCh newydd ac addas i'w diben; ystyrir mai cost i Lywodraeth Cymru rhwng mis Ebrill a mis Medi 2021 yw hon. Cyflwynir y costau sy'n gysylltiedig â'r elfennau hyn isod fel amrediad i roi syniad o'r gwahanol fathau o fodel gweithredol y gall y Corff ddewis ei fabwysiadu ond byddwn yn cymryd y canolbwynt ar gyfer cyfrifiadau pellach i roi amcangyfrif mwy cywir yn seiliedig ar y cafeatau a ddarperir ym mharagraff 452. Amcangyfrifir y bydd y costau hyn fel a ganlyn:

Costau sefydlu – Llywodraeth Cymru:

Tabl 73 – Costau sefydlu TGCh

Disgrifiad	Model gweithredol	Cost Ebrill 2021 - Medi 2021	Y canolbwynt
Caledwedd Defnyddiwr Terfynol ar gyfer tua 100 o ddefnyddwyr*	Cyfrifiaduron bwrdd gwaith gyda pherifferolion mewn lleoliadau gosod	£114,700 Cost gyfalaf	£217,200
	Cyfuniad o liniaduron gyda pherifferolion a chyfrifiaduron bwrdd gwaith mewn lleoliadau gosod	£217,200	
	Gliniaduron/llechi 'hybrid' gyda pherifferolion a rhai cyfrifiaduron bwrdd gwaith	£283,782	

	mewn lleoliadau gosod		
System rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) ar gyfer tua 100 o ddefnyddwyr	System CRM barod – ddim wedi'i theilwra	£24,100	£100,000
	System CRM wedi'i theilwra: Gwariant cychwynnol is ond ffi contract a chostau hyfforddi uwch	£100,000	
	System CRM wedi'i theilwra: Cost ddatblygu gychwynnol uwch ond ffioedd parhaus a chostau hyfforddi/cynnal a chadw is	£150,000	
Datblygu gwefan	Yn amodol ar ddethol gwerthwr, manylebau manwl, swyddogaeth ddymunol a thelerau contract parhaus	£20,000 - £50,000	£35,000
Seilwaith a theleffoni ar gyfer tua 12 o leoliadau ffisegol	Dim diweddaru nac uwchraddio'r eiddo – y Corff yn gweithredu gan ddefnyddio model presennol y Cyngorau Iechyd Cymuned	£0	£1,777,200
	Ailosod rhannol i wneud gwelliannau rhwydweithio a theleffoni i gefnogi model gweithio'n hyblyg	£1,777,200	
	Ailosod llwyr ym mhob swyddfa gan gynnwys gosod ceblau newydd a llafur	£2,582,900	

Cyfanswm – Uwch			£3,066,682
Cyfanswm – Y canolbwynt			£2,129,400
Cyfanswm – Is			£158,800

*Amcangyfrifwyd at ddiben caffael – yn amodol ar y Corff yn penderfynu ar anghenion o ran staff ac aelodau gwirfoddol.

Costau gweithredol parhaus – y Corff:

454. Bydd cost weithredol parhaus i'r Corff; cymysgedd o wariant refeniw a chyfalaf fydd hwn ac amcangyfrifir y bydd fel a ganlyn:

Tabl 74 – Costau TGCh gweithredol parhaus

Disgrifiad	Cost Medi 2021 – Ebrill 2022	Cost flynyddol parhaus	Ffynhonnell/ Tybiaeth
Costau newid caledwedd*	£25k-£38k Cost gyfalaf	£50k-£75k Cost gyfalaf	Cyngor gan Gyfarwyddiaeth Gwybodeg y GIG/ Prif Swyddog Gwybodaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – cost o 25% am ei adnewyddu bob blwyddyn.
Costau cynnal a chadw a thrwyddedu blynyddol ar gyfer system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid**	£10k-£15k Cost refeniw	£20k-£30k Cost refeniw	Cyfartaledd y dyfynbrisiau a gafwyd mewn ymateb i ymarfer caffael system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cyngor gan Gyfarwyddiaeth Gwybodeg y GIG/ Prif Swyddog Gwybodaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – cost o 20% am ei hadnewyddu bob blwyddyn.

Costau cynnal a chadw a thrwyddedu blynyddol ar gyfer TG a theleffoni**	£225k-£330k Cost reffeniw	£450k-£660k Cost reffeniw	Adolygiad o'r dogfennau gweithredu o nifer o brosiectau tebyg gan gynnwys: Cymwysterau Cymru; Addysg a Gwella Iechyd Cymru; Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru; Cyngor gan Gyfarwyddiaeth Gwybodeg y GIG/ Prif Swyddog Gwybodaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – cost o 20% am eu hadnewyddu bob blwyddyn.
Cyfanswm	£290,000	£550,000.	

*mae 25% o'r gwariant cyfalaf cychwynnol y flwyddyn wedi cael ei ddyrannu fel cyfartaledd ar gyfer galwadau allan, cymorth mewnol, cynnal a chadw a chostau adnewyddu mewn perthynas â chaledwedd TGCh, gwaith parhaus i gynnal a chadw'r wefan a phrofi ei natur fregus, a theleffoni.

**mae 20% o'r gwariant cychwynnol wedi cael ei ddyrannu fel cyfartaledd ar gyfer yr angen i ddatblygu system newydd/wedi'i diweddarau bob 5 mlynedd.

455. Gall fod angen diwygio pellach unwaith y bydd y model gweithredu wedi cael ei sefydlu ac unrhyw adeiladau newydd wedi cael eu hadnabod. Fodd bynnag, cyfrifwyd cost y system fel ei bod yn un sy'n dal data 'lefel 4' gan fod yn briodol ar gyfer dal data personol sensitif (sef y lefel berthnasol i alluogi'r Corff i ddal gwybodaeth bersonol a meddygol y mae'n debygol o'i dal mewn perthynas â'i swyddogaeth cyngor a chymorth cwynion) i alluogi'r Corff i gydymffurfio â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Marchnata – Llywodraeth Cymru

456. Ceir tybiaeth y bydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Corff, yn cyllido ymgyrch ymwybyddiaeth i hysbysu poblogaeth Cymru bod Corff Llais y Dinesydd newydd i Gymru wedi cael ei greu. Bydd yr ymgyrch hefyd yn amcanu at godi ymwybyddiaeth o gwmpas swyddogaethau'r Corff a chefnogi'r alwad am wirfoddolwyr.
457. Gall amcangyfrif rhesymol o gost ymgyrch ymwybyddiaeth ar gyfer y cyfnod o chwe mis cyn sefydlu'r Corff fod yn seiliedig ar ymgyrch cyfathrebu Llywodraeth Cymru ar gyfer Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018. Roedd cyllideb yr ymgyrch yn ystod y chwe mis yn 2018-19 yn £100,000. Roedd hyn yn cynnwys cymysgedd o gyfryngau traddodiadol,

cyfryngau digidol, hysbysebion allan o'r cartref, gohebiaeth uniongyrchol a deunyddiau cyfathrebu ar ffurf copi caled ar gyfer rhanddeiliaid. Disgwylir i'r gost hon gael ei hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Ebrill a mis Medi 2021.

458. Ar sail barhaus, er mwyn sicrhau bod gwaith y Corff yn cael cyhoeddusrwydd ac er mwyn iddo aros yn ymwybyddiaeth defnyddwyr gwasanaethau ieuchyd a chymdeithasol, bydd y Corff yn ysgwyddo cost weithredol sy'n gysylltiedig â marchnata. Amcangyfrifir mai £42,300 y flwyddyn fydd y gost hon. Caiff ei hamcangyfrif ar sail y cyllid cyfartalog a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiect MEIC (£50,000), Comisiynydd y Gymraeg⁹⁷ (£32,000) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru⁹⁸ (£45,000) yn 2017/18.

Yswiriant

459. Fel y dywedwyd gan Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru, ni fydd yn bosibl darparu amcangyfrif o gostau yswiriant y Corff nes bod model gweithredu'r corff wedi cael ei sefydlu. Bydd yn ofynnol i'r Corff gynnal asesiad risg unwaith y bydd ei fodel gweithredu wedi cael ei bennu gan y Weithrediaeth yn ystod y cyfnod cysgodol cyn iddo ddod yn weithredol. Bydd yr asesiad hwn yn rhoi gwybod os oes unrhyw feysydd lle mae'n gyfreithiol ofynnol i'r Corff fod ag yswiriant (megis os bydd y corff yn llogi/bod yn berchen ar unrhyw gerbydau neu os bydd angen i gerbydau sy'n eiddo i wirfoddolwyr fod wedi'u hyswrio ar gyfer defnydd busnes). Mae Atodiad 4.3 "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru", sydd ar gael ar <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru.pdf> yn ei gwneud yn glir nad yw sefydliadau'r sector cyhoeddus, fel rheol, yn prynu yswiriant masnachol yn erbyn y risgiau sy'n eu hwynebu ac eithrio pan fo rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny (e.e. yn achos cerbydau pan fo Deddfau Traffig Ffyrdd yn ei gwneud yn ofynnol). Serch hynny, mae hefyd yn caniatáu i Swyddogion Cyfrifyddu, o dan amgylchiadau penodol, wrth lunio strategaeth rheoli risg, ddewis prynu yswiriant masnachol i ddiogelu rhannau penodol o bortffolios y sefydliad. Dylid bob amser wneud penderfyniadau o'r fath ar ôl dadansoddiad cost a budd er mwyn sicrhau gwerth am arian. Felly, cyfrifoldeb Swyddog Atebol y Corff (hynny yw, y Prif Weithredwr) fydd penderfynu, ar sail dadansoddiad cost a budd, rhwng ysgwyddo'r risg neu brynu yswiriant masnachol. Gall hyn gynnwys meysydd megis atebolrwydd cyflogwr, atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant ar gyfer asedau. Bydd hefyd yn cynnwys, er enghraifft, benderfyniadau ynghylch a ddylid prynu yswiriant masnachol i imdemnio gwirfoddolwyr sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran y Corff neu a fyddai unrhyw gostau indemnio yn cael eu rheoli drwy "dull hunanyswirio".

⁹⁷Comisiynydd y Gymraeg. Adroddiad Blynnyddol 2017-18 [Y Rhynggrwyd]. Comisiynydd y Gymraeg; 2018. Ar gael o: <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/English/Publications%20List/Adroddiad%20Blynnyddol%202017-18%20Annual%20Report.pdf>

⁹⁸ [Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Adroddiadau blynnyddol a chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2017/18 \[Y Rhynggrwyd\]. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; 2018. Ar gael o: https://www.ombwdsmon.cymru/wp-content/uploads/sites/2/2018/07/PSOW-Annual-Report-and-Accounts-2017-2018-CYM.pdf](https://www.ombwdsmon.cymru/wp-content/uploads/sites/2/2018/07/PSOW-Annual-Report-and-Accounts-2017-2018-CYM.pdf)

Trosglwyddo asedau a rhwymedigaethau

460. Bydd unrhyw asedau, hawliau a rhwymedigaethau gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys (fel y sefydliad lletyol), gan unrhyw un o sefydliadau'r GIG sy'n ymrwymo i gontractau ar ran Cyngorau Iechyd Cymuned a Gweinidogion Cymru (sy'n ymrwymo i brydlesi ar ran y Cyngor Iechyd Cymuned) yn cael eu trosglwyddo i'r Corff ac felly tybir bod hyn yn niwtral o ran costau.

Nawdd Llywodraeth Cymru

461. Byddai'r Corff yn cael ei holl gyllid yn uniongyrchol gan Weinidogion Cymru, trwy Lywodraeth Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Gyda Chorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ceir fframwaith llywodraethu sy'n nodi, ymhlith pethau eraill, y trefniadau cynllunio ac adrodd gyda'r is-adran sy'n ei noddi yn Llywodraeth Cymru.
462. Bydd cost cyfle gylchol i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r nawdd parhaus ar gyfer Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir bod cost staff gyfartalog nawdd ar gyfer Corff 'bach' a Noddir gan Lywodraeth Cymru (corff y mae ei gyllideb dan £5m⁹⁹) yn 1.6 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn am gost o £59,000.

⁹⁹ Adroddiad Llywodraeth Cymru 'Cyflawni Gyda'n Gilydd: Cryfhau Nawdd Llywodraeth Cymru i Gyrrff Hyd Braich' (2017)

Rolau a Chyfrifoldebau Cyrff Llais y Dinesydd yn y DU

Lloegr

463. Sefydlwyd Healthwatch England yn unol ag adran 181 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008²³ (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012)¹⁰⁰ ac un o bwyllgorau statudol y Comisiwn Ansawdd Gofal ydyw.
464. Caiff ei swyddogaethau eu nodi yn adran 45A o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 ac maent yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth cyffredinol i'r sefydliadau Healthwatch lleol¹⁰¹, cyflwyno argymhellion cyffredinol i awdurdodau lleol Lloegr ynghylch gwneud trefniadau ar gyfer cynnwys y cyhoedd a chleifion mewn iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'u cynnwys yn adran 221 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007¹⁰², rhoi hysbysiad ysgrifenedig i awdurdodau lleol yn Lloegr os ydynt o'r farn nad yw eu trefniadau dan adran 221(2) o'r Ddeddf yn cael eu cyflawni'n briodol, a rhoi gwybodaeth a chynghor i'r Ysgrifennydd Gwladol, a chyrrff cyhoeddus penodol eraill ynghylch barn y cyhoedd am eu hangen am wasanaethau iechyd a chymdeithasol a'u profiad o'r gwasanaethau hynny a'u barn am safon gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.
465. Mae sefydliadau Healthwatch lleol wedi'u sefydlu yn ardal pob awdurdod lleol yn Lloegr. Mae eu swyddogaethau'n cynnwys, ar gyfer ardal pob awdurdod lleol:
- hybu a chefnogi camau i gynnwys pobl leol yn y broses o gomisiynu, darparu a chrffu ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol lleol;
 - cael barn pobl leol am eu hangen am wasanaethau iechyd a chymdeithasol a'u profiad o'r gwasanaethau hynny, gwneud y farn honno'n hysbys a llunio adroddiadau ac argymhellion ynghylch sut y gellid gwella gwasanaethau iechyd a chymdeithasol lleol;
 - rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol lleol;
 - galluogi pobl leol i fonitro'r broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol at ddibenion ystyried safon y gwasanaethau hyn a pha un a allai a sut y gallai neu y dylai gwasanaethau o'r fath gael eu gwella.
466. Mae rhai sefydliadau Healthwatch lleol yn rhoi cyngor a chymorth cwynion mewn perthynas â chwynion y GIG, ac mewn ardaloedd eraill mae awdurdodau lleol yn comisiynu darparwyr preifat i roi cyngor a chymorth cwynion. Nid yw'r cyngor a chymorth cwynion yn ymestyn i gwynion am wasanaethau cymdeithasol. Nid yw Healthwatch England yn rhoi cyngor a

¹⁰⁰ **Y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Act 2012**. Llundain: Llyfrfa EM

¹⁰¹ Local Healthwatch [Internet]. Napp.org.uk. 2019 [nodwyd 4 Ebrill 2019]. Ar gael o: <https://www.napp.org.uk/healthwatch.html>

¹⁰² **Y Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007**. Llundain: Llyfrfa EM

chymorth cwynion ac mae'n cyfeirio defnyddwyr at wasanaethau cyngor a chymorth yn lle hynny.

Yr Alban

467. Sefydlwyd y Scottish Health Council (SHC) gan Weithrediaeth yr Alban ym mis Ebrill 2005 i hybu'r fframwaith Patient Focus and Public Involvement yn y GIG yn yr Alban. Un o bwyllgorau Healthcare Improvement Scotland ydyw.
468. Yn ogystal â swyddfa genedlaethol, sy'n pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad, mae ganddo rwydwaith o 14 o swyddfeydd rhanbarthol – un yn ardal pob Bwrdd Iechyd.
469. Yn dilyn proses ymgysylltu ac ymgynghori helaeth mae set o gynigion wedi cael eu datblygu i ailbennu ffocws Cyfarwyddiaeth Cyngor Iechyd yr Alban i ystyried integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, a hefyd i sicrhau bod ei ymdrechion yn canolbwyntio ar y meysydd lle gall gael yr effaith fwyaf ar gryfhau ymgysylltiad pobl a chymunedau. Bydd manylion y cynigion newydd yn cael eu cyhoeddi yn 2019.
470. Fodd bynnag, caiff swyddogaethau presennol y Scottish Health Council eu nodi isod. Yr amcan trosfwaol yw hybu'r fframwaith **Patient Focus and Public Involvement** yn y GIG yn yr Alban. Agwedd allweddol ar eu rôl yw cefnogi Byrddau'r GIG a monitro'r modd y maent yn cyflawni eu dyletswydd statudol i gynnwys cleifion a'r cyhoedd yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG.
471. Mae'r swyddogaethau craidd yn ymwneud â'r canlynol:
- Ymgysylltu â'r Gymuned a Chefnogi Gwelliant – rhoi cymorth rhagweithiol ac wedi'i deilwra i wasanaethau iechyd a gofal lleol a grwpiau cymunedol
 - Perfformiad a Chynllunio – adolygu a gwerthuso dulliau Byrddau'r GIG o gynnwys pobl trwy'r Safon Cyfranogi
 - Newid i Wasanaethau – cynorthwyo Byrddau'r GIG i ateb y gofyniad i gynnwys pobl wrth gynllunio neu newid gwasanaethau lleol
 - Rhwydwaith Cyfranogi – canolfan ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, cymorth, datblygiad a syniadau
 - Rhaglen Gwirfoddoli yn GIG yr Alban – cynorthwyo Byrddau'r GIG i ddatblygu rhaglenni gwirfoddoli cynaliadwy.
472. Ni roddir cyngor a chymorth cwynion gan y corff ond cyfrifoldeb y Patient Advice and Support Service yw hyn, a ddarperir gan y Scottish Citizens Advice Bureau¹⁰³.

¹⁰³ Patient Advice & Support Service [Y Rhyngwyd]. Citizens Advice Scotland. 2019 [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael o: <https://www.cas.org.uk/pass>

473. Yn ychwanegol at gynghorau iechyd yr Alban, mae Llywodraeth yr Alban yn cyllido Care Opinion Scotland, a ddefnyddir i alluogi cleifion a'r cyhoedd i ddarparu adborth ar-lein ar y gwasanaethau y maent yn eu cael.

Gogledd Iwerddon

474. Sefydlwyd y Patient and Client Council (PCC) ar 1 Ebrill 2009. Mae ganddo Fwrdd sy'n cynnwys Cadeirydd ac un ar bymtheg o gyfarwyddwyr anweithredol, sydd wedi'u recriwtio o bob rhan o Ogledd Iwerddon dan y Broses Penodiadau Cyhoeddus. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu'r polisi a'r cyfeiriad ar gyfer y PCC ac am fonitro cynnydd a pherfformiad.

475. Mae swyddogaethau'r PCC (o ran iechyd a gofal cymdeithasol) yn cynnwys¹⁰⁴:

- cynrychioli buddiannau'r cyhoedd;
- hybu'r arfer o gynnwys y cyhoedd;
- rhoi cymorth (trwy gynrychiolaeth neu fel arall) i unigolion sy'n cyfleu neu'n bwriadu cyfleu cwyn ynghylch iechyd a gofal cymdeithasol (yn ôl y diffiniad yn y Ddeddf);
- hybu gwaith i roi cyngor a gwybodaeth i'r cyhoedd am ddyluniad, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

¹⁰⁴ **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diwygio) (Gogledd Iwerddon)** 2009. Llundain: Llyfrfa EM

Nodweddion Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

476. Mae Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, trwy ddiffiniad, yn “gorff sydd â rôl ym mhroses y llywodraeth genedlaethol ond nad yw’n un o adrannau’r llywodraeth nac yn rhan o un, ac sydd yn unol â hynny’n gweithredu i raddau mwy neu lai hyd braich oddi wrth Weinidogion Cymru”. Bydd y corff, fel corff gweithredol, yn cael ei sefydlu i arfer swyddogaethau yn ei rinwedd ei hun gan ddefnyddio arian cyhoeddus; fodd bynnag, mae maint yr annibyniaeth, ynghyd â’r ffaith bod y corff yn cael ei gyllido ag arian cyhoeddus, yn golygu y bydd adran noddi yn Llywodraeth Cymru yn arfer rhywfaint o reolaeth a goruchwyliaeth, yn enwedig mewn perthynas â’u perfformiad a’u defnydd o arian cyhoeddus a’u hatebolrwydd amdano.

477. Mae nodweddion allweddol Bwrdd Gweithredol a Noddir gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Mae Byrddau Gweithredol a Noddir gan Lywodraeth Cymru fel arfer yn cael eu sefydlu dan statud, er bod nifer fach wedi cael eu sefydlu trwy Warant Frenhinol neu Siarter Frenhinol.
- Nid ydynt yn rhan o’r Goron ond mae ganddynt eu personoliaeth gyfreithiol eu hunain.
- Maent yn cyflawni ystod eang o swyddogaethau gweinyddol, masnachol, gweithredol a rheoleiddiol neu dechnegol yr ystyrir ei bod yn well eu cyflawni hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru.
- Mae maint eu hannibyniaeth ar Weinidogion Cymru’n amrywio ond maent i gyd yn gweithredu o fewn fframwaith strategol a bennir gan Weinidogion Cymru.
- Trwy eu swyddog cyfrifyddu, maent yn uniongyrchol atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a’r Senedd er mai Gweinidogion sy’n atebol yn y pen draw am eu perfformiad a pharhad eu bodolaeth.
- Cânt eu harwain gan Fyrddau (neu o bryd i’w gilydd gan ddeiliad swydd) y caiff eu haelodau eu penodi gan Weinidogion. Gall rhai aelodau fod yn Benodiadau’r Goron ar gyngor Gweinidogion neu gall penodiadau gael eu gwneud gan y corff ei hun.
- Mae’r Bwrdd yn penodi’r Prif Weithredwr, fel arfer gyda chytundeb Gweinidogion Cymru.
- Nid yw’r Prif Weithredwr a’r staff yn weision sifil ond maent yn cael eu cyflogi gan y corff ei hun.

- Fel arfer mae'r Prif Weithredwr yn cael ei ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu.
- Maent yn cynhyrchu eu cyfrifon a'u hadroddiad blynyddol eu hunain.
- Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwilydd allanol yn y mwyafrif llethol o achosion.
- Caiff cyllid ei ddarparu trwy grant neu, yn fwy cyffredin, cymorth grant er y gall rhai greu incwm ychwanegol trwy ffynonellau eraill.
- Mae penodiadau i Fwrdd Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a rhaid eu gwneud gan gydymffurfio â'r Cod Llywodraethu.

8. Asesiadau Effaith

478. Ochr yn ochr â'r costau a manteision a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae nifer o effeithiau posibl eraill wedi cael eu hystyried ac asesiad effaith integredig wedi cael ei gynnal. Darperir crynodeb o ganfyddiadau'r broses hon isod ac mae'r asesiad effaith llawn wedi cael ei gyhoeddi ar Ryngrwyd Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/bil-iechyd-gofal-cymdeithasol-ansawdd-ac-ymgysylltu-cymru-asesiad-effaith>.

479. Yn ychwanegol at yr ystyriaeth a roddwyd yn ystod y gwaith i ddatblygu'r Ddeddf, byddwn yn parhau i weithio gyda'r timau polisi perthnasol a rhanddeiliaid i fonitro effeithiau posibl y ddeddfwriaeth a phennu unrhyw brosesau neu ganllawiau y gall fod angen eu sefydlu i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol a ragwelir a lliniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

480. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ystyried yr effeithiau cadarnhaol bwriadedig ar blant a phobl ifanc, ynghyd ag effeithiau negyddol posibl a mesurau i liniaru'r effeithiau hynny. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn dod i'r casgliad na fydd gan y Ddeddf rôl uniongyrchol o ran hybu hawliau plentyn neu berson ifanc ac nid oes disgwyl iddo gael unrhyw effeithiau negyddol sylweddol.

481. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn nodi meysydd lle gellid gwireddu rhai effeithiau cadarnhaol canlyniadol, megis y rhai a allai deillio o'r ffaith bod y Corff yn rhoi cyngor a chymorth cwynion i'r plant a'r bobl ifanc hynny nad oes ganddynt hawl statudol ar hyn o bryd i eiriolwr dan Ddeddf 2014².

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

482. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn archwilio effaith bosibl y Ddeddf ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd ar incwm isel. Mae'r cynigion wedi'u bwriadu i fod o fudd i iechyd a llesiant poblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd; canfu asesiad o'r gwahanol rannau o'r Ddeddf effaith gadarnhaol net ar gyfer y dinasyddion hynny mewn grwpiau agored i niwed a gwarchodedig.

483. Bydd strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu'n cael ei datblygu i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu, yr ymgysylltir â hwy a'u bod yn cael eu cefnogi i sicrhau bod y ffyrdd newydd o weithio'n dwyn y manteision mwyaf posibl. Hefyd, bydd Gweinidogion Cymru a chyrff y GIG yn mynd ati'n rheolaidd i asesu – ac ymateb i – unrhyw effaith negyddol bosibl o ganlyniad i unrhyw benderfyniadau gyda golwg ar wella ansawdd gofal a chyflawni'r deilliant gorau posibl i'r unigolyn.

Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig

484. Fe wnaeth yr Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig ystyried effaith y Ddeddf ar gymunedau gwledig ac unigolion sy'n byw yn y cymunedau hynny. Canfu, ar y cyfan, y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol net ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig; gyda'r Corff yn meddu ar y potensial i gryfhau llais cymunedau gwledig o ran dylunio'r gwasanaethau y maent yn eu cael a'r ddyletswydd ansawdd yn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu gwerthuso yn seiliedig ar ddiffiniad ehangach o ansawdd sy'n cynnwys profiad cleifion.

485. Fe wnaeth yr Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig amlygu rhai effeithiau negyddol posibl hefyd o ran mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd lleol ac fe argymhellodd y byddai angen rhywfaint o feddwl i ystyried lliniaru'r risgiau hyn wrth benderfynu ar y model gweithredu ar gyfer y Corff.

Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

486. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd mewn perthynas â'r Ddeddf. Ni fydd y ddyletswydd ansawdd, y ddyletswydd gonestrwydd, a'r pŵer i benodi Is-gadeiryddion mewn Ymddiriedolaethau'n golygu ei bod yn ofynnol i unrhyw ddata personol newydd gael ei ddal neu ei brosesu gan y cyrff perthnasol. Bydd creu'r Corff fel corff corfforaethol yn golygu ei bod yn ofynnol iddo drin data a oedd yn cael ei ddal yn flaenorol o fewn systemau'r GIG.

487. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd wedi ystyried goblygiadau'r newid hwn ac, i liniaru'r risgiau posibl, bydd y tîm gweithredu arfaethedig a sefydlwyd i gyflwyno'r Corff yn ystyried pa ddata y mae angen ei drosglwyddo i alluogi'r corff newydd i gyflawni ei rwymedigaethau, a pha fesurau fydd yn ofynnol i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â rhwymedigaethau statudol ac arfer gorau mewn perthynas â thrin data.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

488. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn archwilio effeithiau posibl y ddeddfwriaeth arfaethedig ar y Gymraeg ac ni ddisgwylir y bydd darpariaethau'r Ddeddf yn cael unrhyw effaith negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg nac ar gymunedau Cymraeg. Mae cynigion penodol, megis y Ddyletswydd Ansawdd sy'n ei gwneud yn ofynnol i brofiad cleifion gael ei ystyried yn ystod y broses o gynllunio a gwerthuso gwasanaethau, a'r bwriad i'r Corff recriwtio gwirfoddolwyr o'r boblogaeth leol i gefnogi demograffeg gynrychiadol, yn debygol o gefnogi'r amcan bod cleifion yn cael gofal yn eu dewis iaith ac yn eu cymunedau.

Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth

489. Cafodd effaith y Ddeddf ar fioamrywiaeth a'r rheoliadau cynefinoedd ei hystyried a chytunwyd na fydd effaith uniongyrchol ar y naill na'r llall; felly, penderfynwyd nad oedd angen Asesiad Amgylcheddol Strategol nac Asesiad o'r Effaith ar Gyllidebau Carbon ar gyfer y Ddeddf.

Asesiad o'r Effaith ar y Newid yn yr Hinsawdd

490. Rydym wedi ystyried effaith y Ddeddf ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol. Rydym hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng y Ddeddf ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Asesiad o'r Effaith ar Adnoddau Naturiol

491. Rydym wedi ystyried effaith y Ddeddf ar y Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol.

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

492. Fe wnaeth yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd werthuso effeithiau disgwyledig cyflwyno'r ddeddfwriaeth fel y'i drafftwyd ac fe benderfynodd y bydd gwneud ansawdd yn ganolog i benderfyniadau'n arwain at ddeilliannau iechyd gwell i bobl Cymru ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at leihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.
493. Fe wnaeth yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd amlygu'r angen i adolygu'r polisi o bryd i'w gilydd i gynyddu i'r eithaf y manteision posibl o ganlyniad i'r polisi a, lle bynnag y bo'n bosibl, dileu neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu ganlyniadau anfwriadol, a allai gael eu hadnabod cyn ac ar ôl ei weithredu

Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

494. Mae effeithiau posibl y cynigion ar ar gyfiawnder wedi cael eu hystyried, gan gynnwys:
- a. llysoedd (troseddol a sifil)
 - b. tribiwnlysoedd heb eu datganoli
 - c. tribiwnlysoedd wedi eu datganoli
 - d. cymorth cyfreithiol
 - e. y farnwriaeth
 - f. cyrff sy'n erlyn
 - g. carchardai, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau prawf.

Nid yw'r Ddeddf yn creu unrhyw droseddau na chosbau newydd, nac yn addasu rhai sydd eisoes yn bodoli. Mae'r dyletswyddau sy'n cael eu cyflwyno yn cael eu gosod ar gyrff cyhoeddus neu gyrff sy'n cyflawni swyddogaethau ar eu rhan, sy'n golygu y bydd gorfodi yn fater o gofnod cyhoeddus, drwy adroddiadau blynyddol cyhoeddus ar ansawdd a gonestrwydd yn hytrach na chosbau penodol. Ar sail cynlluniau tebyg sy'n weithredol yn Lloegr, credwn nad yw'n debygol y bydd hawliadau sifil yn codi o'r dyletswyddau newydd. O ganlyniad mae effaith cynigion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) ar y system gyfiawnder yn fach iawn, os o gwbl.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

495. Mae'r Ddeddf yn amlweddol a bydd yn darparu fframwaith deddfwriaethol i'w gwneud yn bosibl gweithredu mewn nifer o feysydd cydgysylltiol i hybu gwersi a gwelliant ac atal niwed sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.
496. Mae'r dull gweithredu a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adeiladu, lle y bo'n bosibl, ar brosesau cynllunio ac adrodd presennol i ddarparu fframwaith effeithiol i ddangos deilliannau ac effeithiau heb faith ychwanegol gormodol. Bydd y dull hwn yn tanategu'r gwaith monitro a gwerthuso sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf, gan ddefnyddio data gweinyddol a data o arolygon a gesglir yn rheolaidd, a'r data hwnnw wedi'i ategu gan dystiolaeth ansoddol gan randdeiliaid allweddol a'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau.
497. Bydd rhaglen briodol o weithgarwch monitro a gwerthuso'n cael ei llunio yn ôl canlyniad asesiad gwerthusadwyedd o'r Ddeddf a'i fframwaith statudol ehangach, a fydd yn cael ei gynnal ochr yn ochr â datblygu'r rheoliadau'r canllawiau statudol sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Bydd yr asesiad hwn yn mynd ati'n systematig i benderfynu'r cwmpas a'r dulliau ar gyfer gwerthuso'r fframwaith statudol newydd, gan archwilio'r ystod o ddulliau ymchwil a gwerthuso sydd ar gael i benderfynu pa rai sydd fwyaf priodol i brofi nodau ac amcanion y Ddeddf, a natur y data a thystiolaeth arall sy'n ofynnol. Bydd yr asesiad yn cynnwys barn rhanddeiliaid wrth ddiffinio'r amcanion a'r dulliau gwerthuso; yn egluro'n benodol y theori newid, sy'n ategu'r Ddeddf, ac yn egluro, drwy gyfres o fodelau rhesymeg, y mathau o allbynnau cychwynnol a newidiadau mewn ymddygiad sy'n debygol o ddigwydd a sut y gellid nodi effeithiau canol tymor a hirdymor. Bydd hefyd yn cydnabod rhagdybiaethau allweddol, ffactorau'n ymwneud â chyd-destun, rhwystrau ymarferol a chanlyniadau anfwriadol. Yn ei dro, bydd hyn yn sail ar gyfer fframwaith gwerthuso.
498. O ystyried y deilliannau niferus a ragwelir o ganlyniad i'r deddfwriaeth, mae'n bwysig nodi y bydd rhai elfennau o'r dull yn berthnasol ar draws y gwahanol faterion y mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â hwy. Bwriedir y bydd y Ddeddf wedi'i chychwyn yn llawn erbyn mis Ebrill 2022. Os caiff hyn ei wireddu, y flwyddyn adrodd gyntaf o ran dyletswyddau ansawdd, gonestrwydd a Chorff Llais y Dinesydd fydd 2022/23. Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd hefyd gyhoeddi ei gynllun blynyddol gyntaf erbyn dechrau'r cyfnod hwn. Felly, byddwn yn ceisio llunio darlun llinell sylfaen gan ddefnyddio'r ffynonellau data a nodir yn yr asesiad gwerthusadwyedd (gweler enghreifftiau tebygol isod) yn ystod 2021/22, dechrau'r gwerthusiad yn 2022/23 ac adrodd ar ei ganfyddiadau yn ystod y 3 blynedd gyntaf ers iddo ddechrau gweithredu, gan orffen yn 2025/26.
499. Er na ellir cwblhau'r fethodoleg werthuso benodol nes y cytunir ar fanylion gweithredu gwahanol feysydd y Ddeddf, ac er y bydd data iechyd rheolaidd yn darparu ffynhonnell wybodaeth hanfodol, rhaid nodi bod nifer o'r materion y mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â hwy hefyd yn cael sylw trwy fathau eraill o weithredu. Er enghraifft, yn y pen draw gallai'r darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â sefydlu'r Corff wella bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaethau a chyfrannu at GIG mwy cynaliadwy os bydd yr adborth gan y

cyhoedd yn goleuo gwelliannau i wasanaethau yn fwy rheolaidd. Fodd bynnag, o ystyried yr amgylchedd gwleidyddol ac ariannol ehangach y mae'r GIG yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd, ni fyddai'n realistig tybio na fyddai unrhyw ffactorau eraill yn dylanwadu ar fodlonrwydd y cyhoedd/defnyddwyr gwasanaethau yn ystod y broses o'i weithredu ac ar ôl ei weithredu. Felly, bydd yn anodd priodoli rhai tueddiadau ar lefel y boblogaeth (a all gael eu hadnabod trwy'r math hwn o ddata) i effeithiau'r Ddeddf.

Data ac ystadegau iechyd

500. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd gweithgarwch i fonitro'r broses o weithredu'r Ddeddf yn cyd-fynd â gwaith perthnasol arall. Felly bydd data a ddarperir trwy arolygon a gynhelir yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid yn cael ei ddefnyddio i fonitro a gwerthuso'r ddeddfwriaeth. Ar yr un pryd, bydd angen ystyried casgliadau data newydd, neu wedi'u haddasu, yn ôl yr angen.
501. Mae enghreifftiau o ffynonellau data posibl yn cynnwys Arolwg Cenedlaethol Cymru¹⁰⁵ ac arolwg staff y GIG, sy'n cynnwys sgôr ymgysylltu¹⁰⁶. Mae hefyd nifer o setiau data iechyd cenedlaethol¹⁰⁷ sy'n ymdrin â chleifion mewnol, cleifion allanol ac adrannau brys.

Data gweinyddol

502. Yn yr un modd, bydd y data gweinyddol mwyaf perthnasol a gesglir eisoes yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau. O ran y testunau a gwmpesir yn y Ddeddf, mae rhai enghreifftiau o ffynonellau data presennol yn cynnwys:
- Data ar nifer y digwyddiadau diogelwch cleifion ar hyn o bryd, a gesglir ar hyn o bryd trwy'r System Adrodd a Dysgu Genedlaethol (NRLS)¹⁰⁸ a System Rheoli Pryderon 'Unwaith i Gymru', sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd;
 - Mesurau Canlyniadau a Adroddwyd gan Gleifion (PROMs) a Mesurau Profiad a Adroddwyd gan Gleifion (PREMs)¹⁰⁹.
 - Canfyddiadau o arolygiadau ac adolygiadau a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

¹⁰⁵ Arolwg Cenedlaethol Cymru: gwybodaeth gefndir [Y Rhynggrwyd]. LLYW.CYMRU Gwasanaethau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru. 2019 [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael o: https://llyw.cymru/national-survey-wales-background-information?_ga=2.263682890.719606655.1557169638-160543906.1551187863

¹⁰⁶ 2018 Arolwg Staff GIG Cymru [Y Rhynggrwyd]. Myonlinesurvey.co.uk. 2019 [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael o: <http://www.myonlinesurvey.co.uk/ws18/ws18efaq/>

¹⁰⁷ <http://www.datadictionary.wales.nhs.uk/>

¹⁰⁸ Diogelwch Cleifion Gwasanaethau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru [Y Rhynggrwyd]. LLYW.CYMRU. 2019 [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael o: Gwasanaethau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru

¹⁰⁹ Iechyd yng Nghymru | Rhaglen PROMs, PREMs ac Effeithlonrwydd [Y Rhynggrwyd]. GIG Cymru. [dyfynnwyd 3 Ebrill 2019]. Ar gael o: <http://www.wales.nhs.uk/rhaglenpromspremsaceffeithiolrwydd>

Cyfarfodydd rheolaidd â chyrff y GIG

503. Drwy gydol y flwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ystod o gyfarfodydd llywodraethu ac atebolrwydd rheolaidd â chyrff y GIG lle gellir casglu gwybodaeth fwy meddal a chael trafodaethau amserol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd Ansawdd a Chyflenwi, cyfarfodydd Timau Gweithredol ar y cyd a chyfarfodydd teirochrog, sy'n cynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Adolygu'r broses weithredu

504. Bydd y dull amlweddol a nodir uchod yn canolbwyntio ar ystyried i ba raddau y mae'r ddeddfwriaeth wedi cyfrannu at gyflawni newid ar draws yr ystod o ddeilliannau lle byddai disgwyl iddo wneud gwahaniaeth. Bydd hyn yn cynnwys, fel a argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid yn ei 'Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth' yn 2017¹¹⁰, ystyried cywirdeb costau, arbedion, manteision ac anfanteision tybiedig sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Ar ôl Cydsyniad Brenhinol, bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddiweddarau a'i ailgyhoeddi i ymgorffori, cyhyd ag y mae'n ymarferol, y Ddeddf yn ei chyfanrwydd (gan gynnwys yr holl gyfnodau gwella) er mwyn cynorthwyo unrhyw werthusiad o'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Bydd asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân yn cael ei gynnal ar gyfer rheoliadau'r weithdrefn gonestrwydd, o dan adran 4 o'r Ddeddf, a bydd y gwerthusiad cyffredinol yn ystyried hyn hefyd.
505. Fodd bynnag, bydd hefyd yn bwysig bod y gweithgarwch hwn yn cael ei ategu gan dystiolaeth ar sut y mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei chyflawni ledled Cymru a rôl partneriaid allweddol o ran cyflawni ei hamcanion, yn ogystal ag unrhyw ganlyniadau eraill. Gan ddefnyddio'r Corff yn enghraifft, bydd y dull monitro a gwerthuso ar y cyfan yn gyson â'r gofyniad i fonitro ac adolygu perfformiad cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn erbyn eu llythyr cylch gwaith a chynllun gweithredol, gan gynnwys cyfnod prawf o ddwy flynedd ar ôl eu sefydlu.
506. Mae cyfrifo costau monitro a gwerthuso heb fanylion cwmphas a dulliau a fydd yn cael eu defnyddio'n broblemus. Ar y cam hwn, yn seiliedig ar gostau sy'n gysylltiedig â gwerthusiadau ac adolygiadau tebyg a gynhaliwyd yn flaenorol – gan gynnwys Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 a Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 – amcangyfrifir bod y costau rhwng £250,000 a £300,000 wedi'u gwasgaru dros bum mlynedd. Mae'n bwysig nodi ei bod yn anorod y bydd cyfanswm cost y gwaith hwn yn dibynnu ar gydbwysedd defnyddio a dadansoddi data ac ymchwil ar weithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth sy'n bwrpasol ac sydd ar gael fel rhan o'r drefn arferol.

¹¹⁰<http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s70559/Ymateb%20Llywodraeth%20Cymru.pdf>

DEDDF IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (ANSAWDD AC YMGYSYLLTU) (CYMRU) 2020

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 17 Mawrth 2020 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 1 Mehefin 2020. Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf.
2. Ni fwriedir i'r Nodiadau Esboniadol fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o gynnwys y Ddeddf. Os ymddengys nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar ddarpariaeth unigol yn y Ddeddf, nis rhoddir. Rhwng pasio'r Bil a'r Cydsyniad Brenhinol, ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru neu Welsh Parliament. Drwy gydol y ddogfen hon, mae i gyfeiriadau at "y Senedd" yr un ystyr â Senedd Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Ddeddf yn Ddeddf gan Senedd Cymru yn rhinwedd adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd.

CRYNODEB

3. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynghylch nifer o gynigion rhyngberthynol sy'n ymwneud ag ansawdd ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol.
 - a. Mae Rhan 1 yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau'r Ddeddf.
 - b. Mae Rhan 2 yn gosod ar Weinidogion Cymru a chyrff y GIG ddyletswydd sy'n ymwneud â gwella ansawdd gwasanaethau iechyd.
 - c. Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ac ynghylch dyletswydd gonestrwydd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd.
 - d. Mae Rhan 4 yn sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ac yn gwneud darpariaeth ynghylch ei swyddogaethau, sef cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn cysylltiad ag iechyd a gofal cymdeithasol a darparu gwasanaethau eirioli mewn cysylltiad â chwynion. Mae hefyd yn dileu Cyngorau Iechyd Cymuned a'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned.
 - e. Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch is-gadeiryddion Ymddiriedolaethau'r GIG ac ar gyfer mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall, ac mae'n cynnwys darpariaethau atodol ynghylch y Ddeddf gan gynnwys darpariaeth mewn perthynas â gwneud rheoliadau a threfniadau ar gyfer dwyn y Ddeddf i rym.

SYLWEBEAETH AR YR ADRANNAU Rhan 2: Gwella gwasanaethau iechyd

Adran 2 – Ansawdd wrth ddarparu gwasanaethau iechyd

4. Mae'r adran hon yn gosod ar Weinidogion Cymru a chyrrff y GIG ddyletswyddau newydd sy'n ymwneud â gwella ansawdd gwasanaethau iechyd.
5. Bydd y ddarpariaeth, mewn cysylltiad â chyrrff y GIG, yn disodli'r ddarpariaeth yn adran 45(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Mae adran 45(1) yn gosod dyletswydd ar gyrff y GIG yng Nghymru (byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau iechyd arbennig) i sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle i fonitro a gwella ansawdd y gofal iechyd a ddarperir gan neu ar gyfer y cyrrff hynny. Bydd y ddarpariaeth newydd yn disodli adran 45(1) a bydd, yn ychwanegol, yn gymwys i Weinidogion Cymru.
6. Bydd adran newydd 1A o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, fel y'i mewnosodir gan is-adran (1), yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Bydd y ddyletswydd hon yn gymwys pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer *unrhyw* un neu ragor o'u swyddogaethau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd, gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd ac nad yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn ymdrin â hwy megis, er enghraifft, swyddogaeth Gweinidogion Cymru o adolygu gofal iechyd ac ymchwilio iddo o dan Bennod 4 o Ran 2 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.
7. O dan adran 1A(3) a (5), bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y ddyletswydd i sicrhau gwelliant, a gosod yr adroddiad gerbron y Senedd. Rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad o hyd a lled unrhyw welliant yn y canlyniadau a gyflawnir o ganlyniad i'r camau a gymerir i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Caiff y mathau o ganlyniadau a asesir yn yr adroddiad gynnwys, er enghraifft, hyd a lled unrhyw welliant ym mhrofiad y claf, neu wrth ganfod a thrin sepsis yn gynnar, neu hyd a lled unrhyw welliant wrth leihau nifer yr heintiau a geir yn yr ysbyty.
8. Bydd adrannau newydd 12A, 20A a 24A o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, fel y'u mewnosodir gan is-adrannau dilynol adran 2, yn gosod dyletswydd gyfatebol ar fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau iechyd arbennig ("cyrrff y GIG"). Yn unol ag adran 24A(8) o'r Ddeddf honno (sydd wedi ei mewnosod gan adran 2 o'r Ddeddf hon), nid yw awdurdod iechyd arbennig yn cynnwys awdurdod iechyd arbennig trawsffiniol o fewn yr ystyr a roddir i "cross-border special health authority" yn adran 8A(5) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Bydd yn ofynnol i gyrff y GIG arfer eu holl swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Mae'r ddyletswydd, felly, yn wahanol i'r ddyletswydd yn adran 45(1) gan ei bod yn gymwys i arfer pob swyddogaeth. Wrth gyflawni'r ddyletswydd, bydd yn ofynnol i gorff GIG ystyried nid yn unig sut y gallai wella gwasanaeth y mae'n ei ddarparu yn uniongyrchol, ond hefyd sut y gallai weithredu mewn ffordd a fydd yn cyfrannu at wella ansawdd rhan arall o'r gwasanaeth iechyd. Er enghraifft, gallai darparu system electronig ar gyfer rhagnodi meddyginiaethau a rhyddhau wella ansawdd y gwasanaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau yn y gwasanaeth iechyd cyfan.

9. Wrth gyflawni'r ddyletswydd, bydd yn ofynnol i gyrff y GIG ystyried unrhyw safonau a osodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 47 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Y safonau cyfredol yw'r *Safonau Iechyd a Gofal* (Ebrill 2015). Hefyd, bydd gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth o gynnal adolygiadau o'r trefniadau a wneir gan gyrff y GIG at ddiben cyflawni eu dyletswydd o dan adran 12A, 20A neu 24A. Darperir ar gyfer yr elfennau hyn gan ddiwygiadau sydd wedi eu gwneud gan Ran 1 o Atodlen 3 i'r Ddeddf.
10. Yn ychwanegol, mae pob un o'r adrannau newydd 12A, 20A a 24A yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i'r math perthnasol o gorff GIG mewn cysylltiad â'r ddyletswydd ansawdd. Rhaid i'r canllawiau, yn benodol, gynnwys canllawiau ynghylch (i) y dystiolaeth i'w defnyddio i gefnogi eu hasesiad o welliant yn y canlyniadau a gyflawnwyd o ganlyniad i gamau a gymerwyd i gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd; a (ii) sut y cynhelir asesiad o'r fath.

Rhan 3: Dyletswydd gonestrwydd

Adran 3 – Pryd y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn gymwys

11. Mae'r adran hon yn esbonio pryd y bydd y ddyletswydd gonestrwydd yn Rhan 3 yn gymwys. Pan fydd y ddyletswydd yn gymwys, rhaid i gorff GIG gymryd camau penodol yn unol â gweithdrefn a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 4.
12. At ddiben y Rhan hon, mae corff GIG yn fwrdd iechyd lleol, yn ymddiriedolaeth GIG, yn awdurdod iechyd arbennig ac yn ddarparwr gofal sylfaenol. Mae darparwr gofal sylfaenol yn berson sy'n darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol (gwasanaethau ymarferydd cyffredinol), gwasanaethau deintyddol cyffredinol, gwasanaethau offthalmig cyffredinol neu wasanaethau fferyllol ar ran bwrdd iechyd lleol. Yn unol ag adran 11(7), mae cymhwyso'r ddyletswydd i awdurdodau iechyd arbennig yn estyn i awdurdodau iechyd arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ond nid yw'n cynnwys unrhyw awdurdod iechyd arbennig trawsffiniol (o fewn yr ystyr a roddir i "cross-border special health authority" yn adran 8A(5) o'r Ddeddf honno) ac eithrio Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau yng Nghymru.
13. Bydd rhaid dilyn gweithdrefn y ddyletswydd gonestrwydd pan fo'r ddau amod yn is-adrannau (2) a (3) wedi eu bodloni.
14. Yr amod cyntaf yw bod y defnyddiwr gwasanaeth y mae'r corff GIG yn darparu neu wedi bod yn darparu gofal iechyd iddo wedi dioddef canlyniad andwyol. Caiff defnyddiwr gwasanaeth ei drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn profi mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu niwed anfwriadol neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y gallai brofi niwed o'r fath. Bydd ystyr "mwy nag ychydig o niwed" yn cael ei nodi mewn canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 10 o'r Ddeddf. Bydd y canllawiau yn cael eu datblygu gan roi sylw i ddiffiniadau presennol o niwed, megis y rheini a ddefnyddir yn y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu, sef y system bresennol ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau andwyol o ran

diogelwch cleifion yn y GIG. At ddiben y ddyletswydd gonestrwydd, mae niwed yn cynnwys niwed seicolegol.

15. Mae'r ddyletswydd yn cael ei sbarduno nid yn unig pan wyddys bod niwed wedi digwydd ond mewn achosion pan allai niwed ddigwydd yn y dyfodol; er enghraifft, pan allai gwall wrth roi meddyginiaeth achosi canlyniad andwyol rywbyrd yn y dyfodol. Gall cam gweithredu a gymerir gan gorff GIG wrth ddarparu gofal iechyd neu fethu â chymryd camau gweithredu sbarduno'r ddyletswydd. Rhaid bod y niwed yn anfwriadol neu'n annisgwyl sy'n golygu nad yw'r ddyletswydd yn gymwys pan fo canlyniadau annymunol yn digwydd o ganlyniad i gyflwr meddygol.
16. Yr ail amod yw bod darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gall fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad. Felly, rhaid i'r canlyniad ymwneud â darparu'r gofal gan y corff GIG yn hytrach na chael ei briodoli'n gyfan gwbl i salwch neu gyflwr isorweddol y person. Fodd bynnag, nid oes angen iddi fod yn sicr mai'r gofal iechyd a achosodd y niwed; mae'n ddigon y gall y gofal iechyd fod wedi bod yn ffactor. Nid yw cymhwyso'r ddyletswydd yn dangos bod y corff GIG wedi gweithredu'n esgeulus.

Adran 4 – Gweithdrefn dyletswydd gonestrwydd

17. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu mewn rheoliadau ar gyfer gweithdrefn sydd i'w dilyn gan gorff GIG pan yw'r ddyletswydd gonestrwydd yn gymwys i'r corff. Bydd y weithdrefn yn nodi'r camau gweithredu sydd i'w cymryd gan gyrff y GIG pan yw'r ddyletswydd yn gymwys.
18. Mae is-adrannau (2) a (3) yn rhoi manylion o ran yr hyn y mae rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth yn ei gylch. Rhaid i'r rheoliadau, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i'r Corff GIG hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol, darparu gwybodaeth am unrhyw ymholiadau pellach a gynhelir, a gwneud darpariaeth ynghylch cymorth ac ymddiheuriad.

Adran 5 – Darparwyr gofal sylfaenol: dyletswydd i lunio adroddiad

19. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gofal sylfaenol lunio adroddiad blynyddol ar ba un a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol mewn perthynas â'r gofal iechyd a ddarperir gan y darparwr. Mae'r adran yn nodi pa wybodaeth y mae rhaid i'r adroddiad ei chynnwys (ond gall gynnwys gwybodaeth arall).
20. Pan fo darparwr gofal sylfaenol wedi darparu gofal iechyd ar ran dau neu ragor o fyrddau iechyd lleol mewn blwyddyn ariannol benodol, bydd yr adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr lunio adroddiad ar wahân mewn cysylltiad â phob bwrdd iechyd lleol.

Adran 6 – Cyflenwi a chrynhai adroddiad o dan adran 5

21. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gofal sylfaenol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol, anfon yr adroddiad blynyddol a lunnir o dan adran 5 i'r bwrdd iechyd lleol y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef.

22. Rhaid i fwrdd iechyd lleol lunio crynodeb o'r adroddiadau y mae wedi eu cael gan y darparwyr gofal sylfaenol o dan is-adran (1).

Adran 7 – Bwrdd Iechyd Lleol, ymddiriedolaeth GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig: gofynion adrodd

23. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau iechyd arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau yng Nghymru), cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, lunio adroddiad blynyddol ar y ddyletswydd gonestrwydd. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch yr hyn y mae rhaid i'r adroddiad hwnnw ei gynnwys (ond gall gynnwys gwybodaeth arall).

Adran 8 – Cyhoeddi crynodeb adran 6 ac adroddiad adran 7

24. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 7 gyhoeddi'r adroddiadau a lunnir o dan yr adran honno.
25. Yn achos bwrdd iechyd lleol, rhaid i'r adroddiad gynnwys y crynodeb a lunnir o dan adran 6 o'r adroddiadau a ddarperir i'r bwrdd iechyd lleol gan ddarparwyr gofal sylfaenol sy'n darparu gwasanaethau ar ei ran. Felly, bydd y bwrdd iechyd lleol yn gyfrifol am gyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gonestrwydd mewn cysylltiad â'i wasanaethau ei hun a'r gwasanaethau a ddarperir gan wasanaethau gofal sylfaenol ar gyfer ei ardal. Bydd hyn yn golygu y bydd yr holl wybodaeth am y ddyletswydd gonestrwydd mewn cysylltiad ag ardal bwrdd iechyd lleol yn cael ei chyhoeddi gyda'i gilydd.

Adran 9 – Cyfrinachedd

26. Mae is-adran (1) o'r adran hon yn darparu na chaiff adroddiad a gyhoeddir o dan adran 8 gan gorff GIG enwi unigolion penodol. Yr unigolion yw: unrhyw berson y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu neu wedi ei ddarparu iddo gan neu ar ran y corff; ac unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran person o'r fath. Yn ychwanegol, mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff GIG, wrth benderfynu pa wybodaeth i'w chynnwys mewn adroddiad adran 8, roi sylw i'r angen i osgoi cynnwys unrhyw wybodaeth sydd, er nad yw'n rhoi enw unigolyn mewn gwirionedd, yn debygol o olygu, o dan yr amgylchiadau, fod modd gwybod pwy yw'r unigolyn hwnnw. Gallai amgylchiadau o'r fath godi, er enghraifft, pan fo manylion gofal claf penodol wedi cael sylw yn y cyfryngau. Diben y ddarpariaeth hon yw sicrhau cyfrinachedd.

Adran 10 – Canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru

27. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG, wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd gonestrwydd, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

Adran 11 – Dehongli "gofal iechyd" a thermau eraill

28. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli thermau a ddefnyddir yn Rhan 3 gan gynnwys ystyr "gofal iechyd", "salwch" a "corff GIG".
29. Yn rhinwedd is-adran (5), pan fo gofal iechyd yn cael ei ddarparu fel rhan o gontract, cytundeb neu drefniant rhwng dau gorff GIG, bernir bod y gofal wedi ei

ddarparu gan y corff sy'n darparu'r gofal yn hytrach na'r corff a drefnodd i'r gofal gael ei ddarparu ar ei ran. Mae hyn yn golygu y byddai'r ddyletswydd gonestrwydd, mewn perthynas â threfniant o'r fath, os y'i defnyddir, yn gymwys i ddarparwr y gofal yn unig. Mae hyn yn cynnwys gofal iechyd a ddarperir ar ran y corff GIG gan ddarparwr gofal sylfaenol.

30. O dan is-adran (6), pan fo gofal iechyd yn cael ei ddarparu ar ran corff GIG gan gorff nad yw'n gorff GIG, bydd y ddyletswydd gonestrwydd, os y'i defnyddir mewn perthynas â'r gofal iechyd o dan sylw, yn gymwys i'r corff GIG, nid i'r corff a ddarparodd y gofal.

Rhan 4: Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Adran 12 – Sefydlu Corff Llais y Dinesydd

31. Mae'r adran hon yn sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("Corff Llais y Dinesydd") fel corff corfforedig (endid cyfreithiol yn ei ffrainc ei hun). Ei amcan cyffredinol fydd cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hefyd yn darparu gwasanaeth eirioli cwynion mewn cysylltiad ag iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd Corff Llais y Dinesydd yn gorff cenedlaethol a fydd yn disodli'r 7 Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru a'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned sy'n goruchwyllo'r Cyngorau lleol.
32. Mae darpariaeth ynghylch aelodaeth, cyfansoddiad a threfniadau gweithredol Corff Llais y Dinesydd wedi ei gwneud yn Atodlen 1.
33. Bydd i'r Corff rhwng 8 a 10 aelod anweithredol, a benodir gan Weinidogion Cymru; gan gynnwys aelod-gadeirydd a dirprwy aelod-gadeirydd.
34. Bydd aelodaeth y Corff hefyd yn cynnwys y person a benodir o dan baragraff 9 o Atodlen 1 yn brif weithredwr iddo.
35. Mae Atodlen 1 hefyd yn gwneud darpariaeth i aelod cyswllt gael ei benodi i'r Corff o dan amgylchiadau pan fo un neu ragor o undebau llafur wedi eu cydnabod ganddo. I fod yn gymwys i'w benodi'n aelod cyswllt, rhaid i unigolyn fod yn aelod o staff y Corff ac yn aelod o undeb llafur a gydnabyddir gan y Corff. Mae'r weithdrefn ar gyfer penodi aelod cyswllt wedi ei nodi ym mharagraff 6 o'r Atodlen; a byddai penodiad yn cael ei wneud gan yr aelodau anweithredol ar sail enwebiadau a wneir gan undebau llafur a gydnabyddir gan y Corff.
36. Mae'r ymadrodd "cydnabod" mewn perthynas ag undeb llafur yn arwyddocaol at ddibenion rheolau sy'n rheoleiddio cydfargeinio rhwng cyflogwyr ac undebau llafur; y brif ddeddfwriaeth ynghylch hyn yw Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.
37. Ymhlith pethau eraill, bydd gan y Corff y pŵer o dan Atodlen 1 i benodi staff; ac i sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau. Bydd yn ofynnol i'r Corff wneud rheolau sy'n rheoleiddio ei weithdrefn a gweithdrefn unrhyw un neu ragor o'i bwyllgorau neu ei is-bwyllgorau.

Adran 13 – Amcan cyffredinol

38. Mae'r adran hon yn darparu mai amcan cyffredinol Corff Llais y Dinesydd, wrth gyflawni ei swyddogaethau, yw cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Ystyr "gwasanaethau iechyd" yw gwasanaethau'r GIG ac ystyr "gwasanaethau cymdeithasol" yw'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
39. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Gorff Llais y Dinesydd, at ddiben cyflawni ei amcan cyffredinol, geisio barn y cyhoedd. Caiff wneud hynny ym mha ffordd bynnag y mae'n ystyried ei bod yn briodol. Er enghraifft, caiff y Corff gynnal digwyddiadau, trefnu arolygon ar-lein a grwpiau trafod ar-lein, dosbarthu ffurflenni adborth a sicrhau presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae adran 15 yn ei gwneud yn bosibl i'r Corff gyflwyno sylwadau i Gorff GIG (at ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf, ystyr "corff GIG" yw bwrdd iechyd lleol, ymddiriedolaeth GIG ac awdurdod iechyd arbennig) neu awdurdod lleol a fydd yn ei alluogi i gyfleu i'r cyrff hynny y farn y mae wedi ei cheisio oddi wrth y cyhoedd. Yn unol ag adran 22, ystyr awdurdod iechyd arbennig yw awdurdod iechyd arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ond nid yw'n cynnwys awdurdod iechyd arbennig trawsffiniol o fewn yr ystyr a roddir i "cross-border special health authority" yn adran 8A(5) o'r Ddeddf honno.
40. Mae is-adran (3) yn darparu, wrth wneud trefniadau at ddiben cydymffurfio â'i ddyletswydd o dan is-adran (2) i geisio barn y cyhoedd, fod rhaid i Gorff Llais y Dinesydd, yn benodol, roi sylw i bwysigrwydd sicrhau, pan fo'n briodol, ymgysylltu wyneb yn wyneb rhwng ei staff, neu unrhyw bersonau eraill sy'n gweithredu ar ei ran (a allai gynnwys contractwyr neu bersonau sy'n cynnig cynhorthwy fel gwirfoddolwyr), a phersonau y ceisir eu barn.
41. Hefyd, bydd gan Gorff Llais y Dinesydd rôl pan fo byrddau iechyd lleol neu ymddiriedolaethau'r GIG yn cynllunio gwasanaethau neu'n cynnig newidiadau iddynt. O dan adran 183 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac adran 242 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, mae gan fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG ddyletswydd i wneud trefniadau i ymgynghori â'r cyhoedd neu eu cynrychiolwyr wrth gynllunio eu gwasanaethau, datblygu cynigion ar gyfer newid sut y darperir eu gwasanaethau neu wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y ffordd y gweithredir eu gwasanaethau. Wrth arfer ei swyddogaeth o gynrychioli buddiannau'r cyhoedd, caiff Corff Llais y Dinesydd fod yn rhan o'r ymgynghoriadau a gynhelir gan fyrddau iechyd lleol wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn. Caiff byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG ymgynghori â'r Corff yn uniongyrchol ond caiff y Corff hefyd gychwyn ei gyfraniad ei hun at ymgynghoriadau. Rhaid i'r bwrdd iechyd lleol neu'r ymddiriedolaeth ystyried unrhyw sylw a gyflwynir gan y Corff (gweler adran 15). Hefyd, caiff y Corff wneud cyfraniadau at unrhyw ymgynghoriad a gynhelir gan awdurdod lleol ynghylch ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried unrhyw sylw a gyflwynir gan y Corff (gweler adran 15).

Adran 14 - Ymwybyddiaeth y cyhoedd a datganiad polisi

42. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Gorff Llais y Dinesydd i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i amcan cyffredinol a'i swyddogaethau. Hefyd, rhaid iddo lunio a chyhoeddi datganiad o'i bolisi sy'n nodi sut y mae'n bwriadu

hybu ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau a sut y bydd yn ceisio barn y cyhoedd at ddiben ei amcan cyffredinol.

43. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad polisi bennu, yn benodol, sut y mae Corff Llais y Dinesydd yn bwriadu sicrhau ei fod yn cynrychioli buddiannau pobl ym mhob rhan o Gymru a'i fod yn hygyrch iddynt, a sut y mae aelodau o staff y Corff ac unrhyw un arall sy'n gweithredu ar ran y Corff (megis contractwyr neu bersonau sy'n cynorthwyo'r Corff mewn swydd wirfoddol), yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â phobl ledled Cymru. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff gynllunio'n effeithiol er mwyn sicrhau y gall gyflawni'r pethau hyn wrth arfer ei swyddogaethau.

Adran 15 – Sylwadau i gyrff cyhoeddus

44. Mae'r adran hon yn galluogi Corff Llais y Dinesydd i gyflwyno sylwadau i Gorff GIG neu awdurdod lleol ynghylch unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod yn berthnasol i ddarparu gwasanaeth iechyd neu wasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn ei alluogi i roi gwybod am unrhyw farn y mae wedi ei cheisio oddi wrth y cyhoedd a chyfleu'r farn honno i'r gyrff sy'n gyfrifol am ddarparu a threfnu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, pa un ai mewn ymateb i ymgynghoriad gan un o'r gyrff neu o'i ben a'i bastwn ei hun ar ôl iddo geisio barn y cyhoedd.
45. Rhaid i gorff GIG neu awdurdod lleol roi sylw i'r sylwadau wrth arfer unrhyw swyddogaeth y mae'r sylwadau hynny yn ymwneud â hi.
46. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol mewn perthynas â sylwadau a gyflwynir iddynt gan Gorff Llais y Dinesydd o dan yr adran hon. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hynny. Caiff y canllawiau, er enghraifft, ymdrin â sut y dylai corff GIG neu awdurdod lleol ymateb pan gyflwynir sylwadau iddo.

Adran 16 – Gwasanaethau eirioli etc. mewn cysylltiad â chwynion am wasanaethau

47. Mae'r adran hon yn rhoi swyddogaethau i Gorff Llais y Dinesydd mewn perthynas â chwynion. O dan yr adran hon, caiff Corff Llais y Dinesydd ddarparu cynhorthwy i unigolion gyda chwynion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
48. Gellir rhoi cynhorthwy, er enghraifft, drwy ddarparu gwybodaeth a chymorth i ganiatáu i ddefnyddiwr gwasanaeth wneud cwyn ei hunan neu drwy ddarparu'r cymorth i achwynydd mewn cyfarfodydd lle y trafodir cwyn.
49. Mae is-adran (2) yn nodi'r cwynion sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd y caiff Corff Llais y Dinesydd roi cynhorthwy mewn cysylltiad â hwy. Y cwynion hyn yw'r cwynion y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, yn rhinwedd adran 187 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, drefnu i wasanaethau eirioli

annibynnol gael eu darparu mewn cysylltiad â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys cwynion am—

- a. arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau corff GIG (bwrdd iechyd lleol, ymddiriedolaeth GIG neu awdurdod iechyd arbennig),
 - b. darparu gofal iechyd gan gorff GIG gan gynnwys gofal a ddarperir ar ei ran gan berson neu gorff arall,
 - c. darparu iawn gan neu ar gyfer corff GIG o dan Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008.
50. Mae hefyd yn cynnwys cwynion a wneir i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n ymwneud â gwasanaethau'r GIG.
51. Mae is-adrannau (3) i (6) yn nodi'r cwynion eraill y caiff Corff Llais y Dinesydd ddarparu cynhorthwy mewn cysylltiad â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys—
- a. cwynion a wneir i awdurdod lleol am arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol,
 - b. cwynion a wneir i awdurdod lleol am ddarparu gwasanaethau gan berson neu gorff arall o dan drefniadau â'r awdurdod lleol,
 - c. cwynion a wneir i ddarparwr gwasanaeth gofal cymdeithasol rheoleiddiedig (o fewn ystyr Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016) megis gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref.
52. Mae hefyd yn cynnwys cwynion a wneir i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol neu am wasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau gofal cartref.
53. Mae is-adran (7) yn eithrio o swyddogaethau'r Corff gynhorthwy gyda chwynion i awdurdod lleol gan blant ac unigolion penodedig eraill pan fo cynhorthwy gyda chwynion eisoes wedi ei drefnu gan awdurdodau lleol yn rhinwedd eu dyletswyddau o dan Ran 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
54. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i Gorff Llais y Dinesydd, pan fo'n darparu, neu'n ystyried a ddylai ddarparu, wasanaethau eirioli neu gynhorthwy arall o dan yr adran hon, roi sylw i bwysigrwydd sicrhau, pan fo'n briodol, ymgysylltu wyneb yn wyneb rhwng ei staff neu unrhyw bersonau eraill sy'n gweithredu ar ei ran (megis contractwyr) ac unrhyw berson y darperir gwasanaethau eirioli neu fathau eraill o gynhorthwy iddynt neu y gellir eu darparu iddynt.

Adran 17 – Dyletswydd i hybu ymwybyddiaeth o weithgareddau Corff Llais y Dinesydd

55. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau iechyd arbennig ac awdurdodau lleol i hybu ymwybyddiaeth o weithgareddau Corff Llais y Dinesydd.

Adran 18 – Dyletswydd i gyflenwi gwybodaeth i Gorff Llais y Dinesydd

56. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau iechyd arbennig ac awdurdodau lleol i gyflenwi unrhyw wybodaeth i Gorff Llais y Dinesydd y mae'n gofyn yn rhesymol

amdani at ddiben ei swyddogaethau. Bydd hyn yn ei alluogi i gael gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir neu a drefnir gan y corff neu ei gynigion ar gyfer datblygiadau, er enghraifft. Mae'r wybodaeth yn eithrio gwybodaeth sydd wedi ei diogelu rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth arall neu reol gyfreithiol arall. Ni allai cais am wybodaeth drechu unrhyw beth sy'n gwahardd datgelu mewn deddfwriaeth diogelu data, er enghraifft.

57. Rhaid i awdurdod lleol neu Gorff GIG roi ei resymau i Gorff Llais y Dinesydd yn ysgrifenedig os yw'n gwrthod datgelu gwybodaeth i Gorff Llais y Dinesydd o dan yr adran hon.

Adran 19 – Cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd

58. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch–
- a. ceisiadau a wneir gan Gorff Llais y Dinesydd i gael mynediad i fangreoedd y darperir gwasanaethau ieched neu wasanaethau cymdeithasol ynddynt at ddiben ceisio barn ar wasanaethau ieched neu wasanaethau cymdeithasol, a
 - b. pan fo mynediad i'r mangreoedd hynny wedi ei gytuno, ymgysylltu ag unigolion yn y mangreoedd hynny.
59. Bydd y Cod yn gymwys i Gorff Llais y Dinesydd, cyrff y GIG (h.y. Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig) ac awdurdodau lleol a bydd dyletswydd arnynt i gyd i roi sylw iddo.
60. Mae is-adran (5) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â Chorff Llais y Dinesydd, cyrff y GIG, awdurdodau lleol ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol wrth lunio'r cod.

Adran 20 – Cydweithredu rhwng y Corff, awdurdodau lleol a chyrff y GIG

61. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Gorff Llais y Dinesydd, cyrff y GIG ac awdurdodau lleol i wneud trefniadau i gydweithredu gyda golwg ar gefnogi ei gilydd i arfer eu swyddogaethau perthnasol o dan adrannau 13(2), 14(1) a 17(1).
62. Adran 13(2) yw swyddogaeth Corff Llais y Dinesydd o geisio barn y cyhoedd mewn cysylltiad â gwasanaethau ieched a gwasanaethau cymdeithasol. Adran 14(1) yw dyletswydd Corff Llais y Dinesydd i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i amcan cyffredinol ac o'i swyddogaethau. Mae adran 17(1) yn gosod dyletswydd ar gyrff y GIG ac awdurdodau lleol i ddwyn gweithgareddau Corff Llais y Dinesydd i sylw pobl sy'n cael neu a all gael gwasanaethau ieched neu wasanaethau cymdeithasol a ddarperir ganddynt neu ar eu rhan.

Adrannau 21 a 22 – Ystyr “gwasanaethau ieched”, “gwasanaethau cymdeithasol” a thermau eraill

63. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli'r thermau a ddefnyddir yn Rhan 4 gan gynnwys ystyr “gwasanaethau ieched” a “gwasanaethau cymdeithasol”.

Adran 23 – Dileu Cyngorau Iechyd Cymuned, a materion cysylltiedig

64. Mae'r adran hon yn dileu Cyngorau Iechyd Cymuned a Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru drwy ddiddymu adran 182 o Ddeddf y Gwasanaeth

Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac Atodlen 10 iddi. Sefydlwyd Cyngorau Iechyd Cymuned o dan adran 182 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i gynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn y gwasanaeth iechyd. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau eirioli annibynnol yn rhinwedd trefniadau a wneir â Gweinidogion Cymru o dan adran 187 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Caiff y swyddogaethau hyn eu harfer gan Gorff Llais y Dinesydd yn ogystal â swyddogaethau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol.

65. Mae Rhan 2 o Atodlen 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â dileu'r Cyngorau Iechyd Cymuned a'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned a chreu Corff Llais y Dinesydd. Sefydlwyd y Cyngorau Iechyd Cymuned yn y lle cyntaf yn 1974 yng Nghymru a Lloegr gan barhau mewn bodolaeth yng Nghymru yn rhinwedd adran 182 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae nifer o Ddeddfau gan Senedd y Deyrnas Unedig megis Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfeirio at Gyngorau Iechyd Cymuned, ac mae nifer o Ddeddfau Cymru yn gwneud hynny hefyd, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r Rhan hon o'r Atodlen yn dileu'r cyfeiriadau at y Cyngorau Iechyd Cymuned a Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru a, lle y bo'n briodol, mae'n ychwanegu cyfeiriad at Gorff Llais y Dinesydd.
66. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 2 i'r Ddeddf sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i drosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn perthynas â Chyngorau Iechyd Cymuned i Gorff Llais y Dinesydd. Rhaid i Weinidogion Cymru osod unrhyw gynllun gerbron y Senedd, fel y'i darperir ym mharagraff 1(6).

Rhan 5: Amrywiol a chyffredinol

Adran 24 – Is-gadeiryddion byrddau cyfarwyddwyr ymddiriedolaethau'r GIG

67. Mae'r adran hon yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i alluogi Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol, i benodi is-gadeirydd i fwrdd Ymddiriedolaeth GIG.
68. Mae is-adrannau (3) a (4) yn gwneud diwygiadau canlyniadol mewn cysylltiad â'r prif gynigiad yn is-adran (2). Yn achos is-adran (3), mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cymwysterau a deiliadaeth swydd is-gadeirydd (gan gynnwys yr amgylchiadau y mae'n peidio â dal swydd neu y caniateir iddo gael ei ddiswyddo neu ei atal dros dro odanynt). Mae'r diwygiadau sydd wedi eu gwneud gan is-adran (4) yn angenrheidiol i'w gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG dalu tâl a lwfansau eraill i is-gadeirydd.

Adran 25 – Rheoliadau

69. Mae'r adran hon yn esbonio bod pwerau i wneud rheoliadau i'w harfer drwy offeryn statudol (sy'n golygu bod gofynion gweithdrefnol penodol a gofynion eraill a gynhwysir yn Neddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys mewn perthynas â'r rheoliadau).
70. Mae is-adran (3) yn darparu y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 26 os yw'r rheoliadau yn diwygio neu'n diddymu

unrhyw ddeddfiad a gynhwysir mewn deddfwriaeth sylfaenol (mae adran 26 yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth drosiannol etc. sy'n angenrheidiol at ddibenion y Ddeddf). Mae hyn yn golygu bod unrhyw reoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ddatganedig y Senedd.

71. Mae is-adran (4) yn darparu bod yr holl reoliadau eraill yn ddarostyngedig i'w diddymu yn unol â phenderfyniad gan y Senedd, gan gynnwys rheoliadau a wneir o dan adran 26 nad ydynt yn diwygio nac yn diddymu deddfwriaeth sylfaenol.

Adran 26 – Dehongli

72. Mae'r adran hon yn diffinio termau allweddol a ddefnyddir yn y Ddeddf, gan gynnwys "Bwrdd Iechyd Lleol", "reoliadau" ac "Ymddiriedolaeth GIG".

Adran 27 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

73. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 3 sy'n nodi mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â'r ddyletswydd ansawdd a Chorff Llais y Dinesydd.
74. Mae Rhan 2 o Atodlen 3 yn nodi diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â dileu'r Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a chreu Corff Llais y Dinesydd.

Adran 28 – Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol etc.

75. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ganlyniadol, darpariaeth atodol neu ddarpariaeth gysylltiedig, neu unrhyw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed o dan yr amgylchiadau a nodir yn is-adran (1).

Adran 29 – Dod i rym

76. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd a sut y daw'r Ddeddf i rym.
77. Mae is-adran (1) yn darparu y daw'r adran hon ac adran 30 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.
78. Bydd darpariaethau eraill y Ddeddf yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir mewn gorchymyn (neu orchmynion) cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (2). Yn rhinwedd is-adran (3), bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i bennu dyddiadau gwahanol at ddibenion gwahanol ac i gynnwys darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol a darpariaeth arbed mewn unrhyw orchymyn cychwyn.

COFNOD Y TRAFODION YN Y SENEDD

79. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar:
<https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25475>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	17 Mehefin 2019
Cyfnod 1 - Dadl	26 Tachwedd 2019

Cyfnod 2 - Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau	24 Ionawr 2020
Cyfnod 3 - Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau	10 Mawrth 2020
Cyfnod 4 - Cymeradwywyd gan y Cynulliad	17 Mawrth 2020
Y Cydsyniad Brenhinol	1 Mehefin 2020